------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 5 Mehefin 2014**

Amser:
**09.15**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Marc Wyn Jones**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8505
PwyllgorPPI@cymru.gov.uk


## Agenda

**Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod – 09.15 – 09.30**

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Y Bil Addysg Uwch (Cymru) – Sesiwn dystiolaeth 1 (09.30 – 11.30)
(Tudalennau 1 – 204)
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Bil Addysg (Cymru), fel y'i cyflwynwyd a Memorandwm Esboniadol

### 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (11.30)
Eitemau 4 a 5

### 4 Craffu ar y Bil Cymwysterau (Cymru) cyn y broses ddeddfu – trafod y materion allweddol (11.30 – 12.00) (Tudalennau 205 – 218)

CYPE(4)-15-14 – Papur preifat 1

## 5 Ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed - Trafod y dystiolaeth (12.00 - 12.30) (Tudalennau 219 - 229)

CYPE(4)-15-14 – Papur preifat 2

## 6 Papurau i’w nodi

**Penodi Comisiynydd Plant Cymru yn 2015 – Llythyr gan y Llywydd** (Tudalennau 230 - 231)

CYPE(4)-15-14 – Papur i’w nodi 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Addysg Uwch (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

CYNNWYS

**RHAN 1**

CYFLWYNIAD

1 Trosolwg o'r Ddeddf hon

**RHAN 2**

CYNLLUNIAU FFIOEDD A MYNEDIAD

*Cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad*

2 Cais gan sefydliad am gymeradwyaeth CCAUC i gynllun ffioedd a mynediad
3 Dynodi darparwyr addysg uwch eraill

*Cynnwys cynllun ffioedd a mynediad*

4 Y cyfnod y mae cynllun yn ymwneud ag ef
5 Terfyn ffioedd
6 Hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch

*Cymeradwyo etc cynllun ffioedd a mynediad*

7 Cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad
8 Cyhoeddi cynllun a gymeradwywyd
9 Amrywio cynllun a gymeradwywyd

*Cydymffurfio â'r terfyn ffioedd*

10 Terfynau ar ffioedd myfyrwyr
11 Cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu
12 Darpariaeth atodol ynghylch cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu

*Cydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun a gymeradwywyd*

13 Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch methiant i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun

*Contractau*

14 Dilysrwydd contractau

*Cynlluniau a gymeradwywyd: cydymffurfedd ac effeithiolrwydd*

15 Dyletswydd CCAUC i fonitro a gwerthuso cydymffurfedd ac effeithiolrwydd
16 Monitro a gwerthuso cydymffurfedd ac effeithiolrwydd: dyletswydd i gydweithredu

**RHAN 3**

ANSAWDD YR ADDYSG

*Asesu ansawdd yr addysg*

17 Asesu ansawdd yr addysg

*Pwerau mewn cysylltiad ag addysg o ansawdd annigonol*

18 Addysg o ansawdd annigonol: cyffredinol
19 Cyfarwyddydau mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol
20 Mesurau eraill mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol

*Cydweithredu o ran asesu ansawdd etc*

21 Asesu ansawdd etc: dyletswydd i gydweithredu

*Pwerau atodol at y diben o asesu ansawdd etc*

22 Asesu ansawdd etc: pwerau mynd i mewn ac arolygu

*Canllawiau sy'n ymwneud ag ansawdd yr addysg*

23 Canllawiau ynghylch materion sy'n berthnasol i ansawdd
24 Canllawiau ynghylch meini prawf ar gyfer asesu ansawdd

*Cyngor i CCAUC ynghylch swyddogaethau asesu ansawdd*

25 Pwyllgor i gynghori CCAUC ynghylch arfer swyddogaethau asesu ansawdd

*Atodol*

26 Cymhwyso'r Rhan hon pan fo sefydliad yn peidio â chael cynllun a gymeradwywyd

**RHAN 4**

MATERION ARIANNOL SEFYDLIADAU RHEOLEIDDIEDIG

*Cod rheolaeth ariannol*

27 Dyletswydd CCAUC i lunio a chyhoeddi Cod
28 Y weithdrefn ar gyfer cymeradwyo Cod
29 Y weithdrefn os na chymeradwyir Cod drafft

*Monitro cydymffurfedd â'r Cod*

30 Monitro cydymffurfedd â'r Cod

*Pwerau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod*

31 Methiant i gydymffurfio â'r Cod: cyffredinol
32 Cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod
33 Mesurau eraill mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod

*Cydweithredu o ran monitro etc*

34 Rheolaeth ariannol: dyletswydd i gydweithredu

*Pwerau atodol at y diben o fonitro etc*

35 Rheolaeth ariannol: pwerau mynd i mewn ac arolygu

## RHAN 5

### CYNLLUNIAU FFIOEDD A MYNEDIAD: TYNNU CYMERADWYAETH YN ÔL ETC

*Gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd*

36 Hysbysiad ynghylch gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd

*Tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad presennol yn ôl*

37 Dyletswydd i dynnu cymeradwyaeth yn ôl
38 Pŵer i dynnu cymeradwyaeth yn ôl

*Cyhoeddi etc hysbysiad o dan y Rhan hon*

39 Cyhoeddi etc hysbysiad o dan y Rhan hon

## RHAN 6

### HYSBYSIADAU A CHYFARWYDDYDAU A RODDIR GAN CCAUC

*Y weithdrefn rhybuddio ac adolygu ar gyfer hysbysiadau a chyfarwyddydau penodol*

40 Cymhwyso adrannau 41 i 43
41 Hysbysiadau a chyfarwyddydau arfaethedig: gofyniad i roi hysbysiad rhybuddio
42 Gwybodaeth sydd i'w rhoi gyda hysbysiadau a chyfarwyddydau
43 Adolygu hysbysiadau a chyfarwyddydau

*Darpariaethau cyffredinol ynghylch cyfarwyddydau a roddir gan CCAUC*

44 Cyfarwyddydau: cydymffurfio a gorfodi
45 Cyfarwyddydau: cyffredinol

## RHAN 7

### SWYDDOGAETHAU ATODOL CCAUC

*Canllawiau Gweinidogion Cymru i CCAUC*

46 Dyletswydd i ystyried canllawiau Gweinidogion Cymru

*Adroddiadau sydd i'w llunio gan CCAUC*

47 Adroddiadau blynyddol
48 Adroddiadau arbennig

*Gwybodaeth arall etc sydd i'w rhoi gan CCAUC*

49 Datganiad mewn cysylltiad â swyddogaethau ymyrryd
50 Gwybodaeth a chyngor sydd i'w rhoi gan CCAUC i Weinidogion Cymru
51 Gwybodaeth a chyngor arall

## RHAN 8

### CYFFREDINOL

52 Rheoliadau
53 Cyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru
54 Dehongli

55 Darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc
56 Cychwyn
57 Enw byr etc

Atodlen — Darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc
Rhan 1 — Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
Rhan 2 — Darpariaeth drosiannol

# Bil Addysg Uwch (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ynghylch ffioedd myfyrwyr sy’n daladwy i sefydliadau penodol sy’n darparu addysg uwch; i wneud darpariaeth ynghylch ansawdd yr addysg a ddarperir gan ac ar ran y sefydliadau hynny ac ynghylch eu rheoli’n ariannol; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Gan ei bod wedi ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chael cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## RHAN 1

## CYFLWYNIAD

### 1 Trosolwg o’r Ddeddf hon

(1) Mae wyth Rhan i’r Ddeddf hon.

(2) Mae’r Rhan hon yn cynnwys trosolwg o’r Ddeddf.

(3) Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynlluniau ffioedd a mynediad. Mae’n ymdrin â—

(a) cynnwys cynllun ffioedd a mynediad, gan gynnwys terfyn ffioedd;

(b) methiant i gydymffurfio â therfyn ffioedd mewn cynllun ffioedd a mynediad;

(c) dilysrwydd contractau penodol;

(d) monitro cynlluniau ffioedd a mynediad.

(4) Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau sydd â chynllun ffioedd a mynediad, gan gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) y pwerau sydd ar gael at ddibenion asesu;

(b) y camau y caiff CCAUC eu cymryd mewn cysylltiad ag addysg o ansawdd annigonol.

(5) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch llunio a chyhoeddi cod sy’n ymwneud â threfnu a rheoli materion ariannol sefydliadau sydd â chynllun ffioedd a mynediad, gan gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) cydymffurfedd â’r cod;

(b) y pwerau sydd ar gael at ddibenion monitro cydymffurfedd â’r cod, ac mewn achos o fethu â chydymffurfio â’r cod.

(6) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau—

(a) pan gaiff CCAUC wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd ar gyfer sefydliad;

GB/19/14

(b) pan fo rhaid i CCAUC, neu pan gaiff CCAUC, dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad sefydliad.

(7) Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth weithdrefnol ynghylch hysbysiadau a chyfarwyddydau a roddir gan CCAUC (gan gynnwys darpariaeth ynghylch adolygu hysbysiadau a chyfarwyddydau penodol).

(8) Mae Rhan 7 yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau atodol penodol CCAUC, sy'n ymwneud â chanllawiau, adroddiadau, gwybodaeth a chyngor.

(9) Mae Rhan 8 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol, gan gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) arfer pwerau i wneud rheoliadau;

(b) dehongli'r termau a ddefnyddir yn y Ddeddf.

(10) Mae'r Rhan honno hefyd yn cyflwyno Atodlen sy'n cynnwys diwygiadau i ddeddfiadau presennol a darpariaeth drosiannol.

## RHAN 2

## CYNLLUNIAU FFIOEDD A MYNEDIAD

*Cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad*

### 2 Cais gan sefydliad am gymeradwyaeth CCAUC i gynllun ffioedd a mynediad

(1) Caiff corff llywodraethu sefydliad o fewn is-adran (3) wneud cais i CCAUC am gymeradwyaeth CCAUC i gynllun ffioedd a mynediad arfaethedig sy'n ymwneud â'r sefydliad.

(2) Mae cynllun ffioedd a mynediad yn gynllun sy'n cydymffurfio ag adrannau 4 i 6.

(3) Mae sefydliad o fewn yr is-adran hon yn sefydliad yng Nghymru—

(a) sy'n darparu addysg uwch, a

(b) sy'n elusen.

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch gwneud cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad.

### 3 Dynodi darparwyr addysg uwch eraill

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, yn dilyn cais gan ddarparwr addysg uwch o fewn is-adran (2), ddynodi'r darparwr at ddibenion yr adran hon.

(2) Mae darparwr addysg uwch o fewn yr is-adran hon yn ddarparwr—

(a) sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru ac sy'n elusen, ond

(b) na fyddai (oni bai am y dynodiad) yn cael ei ystyried yn sefydliad at ddibenion y Ddeddf hon.

(3) Yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan is-adran (4)(d), mae darparwr addysg uwch a ddynodir o dan yr adran hon, oni bai bod y dynodiad wedi ei dynnu'n ôl, i'w drin, at ddibenion unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan y Ddeddf hon, fel pe bai'n sefydliad.

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) gwneud cais am ddynodiad;

(b) gwneud dynodiadau o dan yr adran hon (gan gynnwys darpariaeth ynghylch y materion sydd i'w hystyried wrth benderfynu pa un ai i wneud dynodiad);

(c) tynnu dynodiad yn ôl (gan gynnwys darpariaeth ynghylch y materion sydd i'w hystyried wrth benderfynu pa un ai i dynnu dynodiad yn ôl);

(d) effaith tynnu dynodiad yn ôl (gan gynnwys darpariaeth i ddarparwr y mae ei ddynodiad wedi ei dynnu'n ôl barhau i gael ei drin fel sefydliad at ddibenion rhagnodedig).

*Cynnwys cynllun ffioedd a mynediad*

**4 Y cyfnod y mae cynllun yn ymwneud ag ef**

(1) Rhaid i gynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â sefydliad bennu cyfnod y mae i gael effaith mewn cysylltiad ag ef.

(2) Ni chaniateir i'r cyfnod a bennir fod yn hwy nag unrhyw gyfnod hwyaf a ragnodir at ddibenion yr adran hon.

(3) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at y cyfnod y mae cynllun yn ymwneud ag ef yn gyfeiriadau at y cyfnod a bennir ynddo o dan yr adran hon.

**5 Terfyn ffioedd**

(1) Rhaid i gynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â sefydliad—

(a) pennu terfyn ffioedd, neu

(b) darparu ar gyfer penderfynu ar derfyn ffioedd,

mewn perthynas â phob cwrs cymhwysol ac mewn cysylltiad â phob blwyddyn academaidd berthnasol (ac at y diben hwn caiff bennu terfynau ffioedd gwahanol neu ddarparu ar gyfer penderfynu ar derfynau ffioedd gwahanol mewn perthynas â chyrsiau gwahanol ac mewn cysylltiad â blynyddoedd academaidd perthnasol gwahanol).

(2) At y diben hwn—

(a) mae terfyn ffioedd, mewn perthynas â chwrs, yn derfyn na chaniateir i'r ffioedd sy'n daladwy i'r sefydliad gan berson cymhwysol, mewn cysylltiad â'r person yn ymgymryd â'r cwrs, fynd uwch ei law;

(b) mae cwrs cymhwysol yn gwrs, o unrhyw ddisgrifiad rhagnodedig, a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru;

(c) mae blwyddyn academaidd berthnasol, mewn perthynas â chwrs, yn flwyddyn academaidd sy'n gymwys i'r cwrs, ac y mae ffioedd yn daladwy i'r sefydliad mewn cysylltiad â hi, ac sy'n dechrau o fewn y cyfnod y mae'r cynllun ffioedd a mynediad yn ymwneud ag ef.

(3) Pan fo cynllun ffioedd a mynediad yn pennu terfyn ffioedd mewn perthynas â blwyddyn a chwrs, ni chaniateir i'r terfyn ffioedd a bennir fynd uwchlaw pa swm bynnag a ragnodir at ddibenion yr adran hon ("yr uchafswm").

(4) Pan fo cynllun ffioedd a mynediad yn darparu ar gyfer penderfynu ar derfyn ffioedd mewn perthynas â blwyddyn a chwrs, rhaid i'r cynllun bennu nad yw'r terfyn ffioedd y penderfynir arno yn unol â'r cynllun i fynd uwchlaw'r uchafswm.

(5) Mae person cymhwysol, at ddibenion is-adran (2)(a), yn berson—

(a) nad yw'n fyfyriwr rhyngwladol, a

(b) sy'n dod o fewn unrhyw ddosbarth o bersonau a ragnodir at ddibenion yr adran hon.

(6) Ni chaniateir i'r pŵer i ragnodi disgrifiad o gwrs o dan yr adran hon gael ei arfer er mwyn rhagnodi cwrs ôl-radd, oni bai ei fod yn gwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon.

(7) Yn ogystal, ni chaniateir i'r pŵer i ragnodi disgrifiad o gwrs o dan yr adran hon gael ei arfer er mwyn gwahaniaethu—

(a) mewn perthynas â chyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon, rhwng cyrsiau gwahanol ar sail y pynciau y rhoddir yr hyfforddiant hwnnw arnynt;

(b) mewn perthynas â chyrsiau eraill, rhwng cyrsiau gwahanol ar yr un lefel neu ar lefel gyffelyb ar sail y meysydd astudio neu ymchwil y maent yn ymwneud â hwy.

(8) Mae myfyriwr rhyngwladol yn berson nad yw'n dod o fewn unrhyw ddosbarth o bersonau a ragnodir o dan adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 (codi ffioedd uwch yn achos myfyrwyr nad oes ganddynt gysylltiad rhagnodedig â'r Deyrnas Unedig) at ddibenion is-adran (1) neu (2) o'r adran honno.

(9) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pan fo ffioedd sy'n daladwy i berson, mewn cysylltiad â pherson cymhwysol yn ymgymryd â chwrs, neu â rhan o gwrs, a ddarperir ar ran sefydliad, i'w trin at ddibenion is-adran (2)(a) fel pe baent yn daladwy i'r sefydliad hwnnw mewn cysylltiad â'r person cymhwysol yn ymgymryd â'r cwrs.

**6 Hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch**

(1) Rhaid i gynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â sefydliad gynnwys unrhyw ddarpariaethau a ragnodir sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal neu hybu addysg uwch.

(2) Caiff cynllun ffioedd a mynediad hefyd gynnwys darpariaethau pellach sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal neu hybu addysg uwch.

(3) Mae'r darpariaethau y caniateir eu rhagnodi o dan is-adran (1) i'w cynnwys mewn cynllun yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu—

(a) cymryd camau i ddenu ceisiadau gan ddarpar fyfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (neu sicrhau bod camau o'r fath yn cael eu cymryd);

(b) cymryd camau i gadw myfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (neu sicrhau bod camau o'r fath yn cael eu cymryd);

(c) darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr (neu sicrhau bod cymorth o'r fath yn cael ei ddarparu);

(d) rhoi gwybodaeth ar gael i fyfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr ynghylch y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr o unrhyw ffynhonnell (neu sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei rhoi ar gael).

(4) Mae'r darpariaethau y caniateir eu rhagnodi i'w cynnwys mewn cynllun hefyd yn cynnwys darpariaethau—

(a) sy'n nodi amcanion sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch;

(b) sy'n nodi gwybodaeth am wariant mewn cysylltiad â'r amcanion hynny;

(c) sy'n ymwneud â'r monitro gan y corff llywodraethu o—

(i) cydymffurfedd â darpariaethau'r cynllun;

(ii) y cynnydd sydd wedi ei wneud i gyflawni unrhyw amcanion a nodir yn y cynllun yn rhinwedd paragraff (a).

(5) Ond ni chaniateir i'r pŵer i ragnodi darpariaethau i'w cynnwys mewn cynllun ffioedd a mynediad gael ei arfer er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gynllun gynnwys darpariaeth—

(a) sy'n cyfeirio at gyrsiau penodol neu at y dull o addysgu, goruchwylio neu asesu cyrsiau, neu

(b) sy'n ymwneud â'r meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr.

(6) At ddibenion yr adran hon "grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol", mewn perthynas â chynllun ffioedd a mynediad, yw grwpiau nad oes ganddynt, ar ddyddiad cymeradwyo'r cynllun o dan adran 7, gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch.

(7) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at ddarpariaethau cyffredinol cynllun ffioedd a mynediad yn gyfeiriadau at ddarpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun yn rhinwedd yr adran hon.

*Cymeradwyo etc cynllun ffioedd a mynediad*

**7 Cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad**

(1) Os gwneir cais i CCAUC i gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad o dan adran 2, rhaid i CCAUC drwy roi hysbysiad i'r corff llywodraethu o dan sylw naill ai—

(a) cymeradwyo'r cynllun, neu

(b) gwrthod y cynllun.

(2) Ond ni chaiff CCAUC gymeradwyo cynllun oni bai ei fod wedi ei fodloni bod y sefydliad y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef o fewn adran 2(3).

(3) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth wneud unrhyw benderfyniad mewn cysylltiad â chymeradwyo neu wrthod cynllun o dan yr adran hon.

(4) At ddibenion y Ddeddf hon, y cyfnod pan fo cynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â sefydliad ac sydd wedi ei gymeradwyo o dan yr adran hon mewn grym yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod y'i cymeradwyir o dan yr adran hon, ac sy'n dod i ben ar ba un bynnag o'r canlynol sydd gynharaf—

(a) y diwrnod y daw'r cyfnod y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef i ben;

(b) os caiff cymeradwyaeth CCAUC i'r cynllun ei dynnu'n ôl drwy hysbysiad a roddir o dan adran 37 neu 38, dyddiad yr hysbysiad.

(5) Yn y Ddeddf hon—

(a) mae cyfeiriadau at gynllun a gymeradwywyd yn gyfeiriadau at gynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â sefydliad sydd wedi ei gymeradwyo o dan yr adran hon ac sydd mewn grym ar hyn o bryd;

(b) mae cyfeiriadau at sefydliad rheoleiddiedig yn gyfeiriadau at sefydliad y mae cynllun a gymeradwywyd yn ymwneud ag ef (ond gweler adrannau 26 a 27(8)).

(6) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adran 36(5) (peidio â chymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd).

(7) Am y ddarpariaeth weithdrefnol ynghylch hysbysiad o dan is-adran (1)(b), gweler adrannau 40 i 43.

**8 Cyhoeddi cynllun a gymeradwywyd**

(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig gyhoeddi cynllun y sefydliad a gymeradwywyd.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy reoliadau o dan yr adran hon yn cynnwys darpariaeth ynghylch sut a phryd y mae cynllun i'w gyhoeddi.

**9 Amrywio cynllun a gymeradwywyd**

(1) Caiff rheoliadau ddarparu i gynllun a gymeradwywyd gael ei amrywio.

(2) Rhaid i'r rheoliadau ddarparu mai dim ond os caiff amrywiad ei gymeradwyo gan CCAUC y mae i gymryd effaith.

*Cydymffurfio â'r terfyn ffioedd*

**10 Terfynau ar ffioedd myfyrwyr**

(1) Rhaid i gorff llywodraethu sefydliad o fewn is-adran (2) sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys.

(2) Mae sefydliad yn dod o fewn yr is-adran hon os yw cynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud ag ef wedi ei gymeradwyo o dan adran 7 (pa un a yw'r cynllun hwnnw mewn grym o hyd ai peidio).

(3) "Ffioedd cwrs rheoleiddiedig" yw'r ffioedd sy'n daladwy i'r sefydliad gan berson cymhwysol—

(a) mewn cysylltiad â'r person yn ymgymryd â chwrs cymhwysol, a

(b) mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sy'n gymwys i'r cwrs hwnnw, pan fo'r flwyddyn honno yn dechrau ar adeg o fewn y cyfnod a bennir o dan adran 4 yng nghynllun ffioedd a mynediad diweddaraf y sefydliad (pa un a yw'r cynllun hwnnw mewn grym o hyd ai peidio).

(4) Cynllun ffioedd a mynediad diweddaraf y sefydliad yw'r cynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd yn fwyaf diweddar o dan adran 7 mewn perthynas â'r sefydliad.

(5) Y terfyn ffioedd cymwys yw—

(a) mewn achos pan fo cynllun ffioedd a mynediad diweddaraf y sefydliad yn pennu terfyn ffioedd ar gyfer y cwrs a'r flwyddyn o dan sylw, y terfyn hwnnw;

(b) mewn achos pan fo cynllun ffioedd a mynediad diweddaraf y sefydliad yn darparu ar gyfer penderfynu ar derfyn ffioedd ar gyfer y cwrs a'r flwyddyn o dan sylw, y terfyn hwnnw fel y penderfynir arno yn unol â'r cynllun.

**11 Cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo CCAUC wedi ei fodloni bod corff llywodraethu sefydliad wedi methu â chydymffurfio ag adran 10(1).

(2) Caiff CCAUC gyfarwyddo'r corff llywodraethu i wneud naill ai un o'r canlynol neu'r ddau—

(a) cydymffurfio ag adran 10(1);

(b) ad-dalu'r ffioedd uwchlaw'r terfyn a dalwyd i'r sefydliad.

(3) Caiff cyfarwyddyd o dan yr adran hon ("cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu") bennu—

(a) y camau sydd i'w cymryd (neu nad ydynt i'w cymryd) gan y corff llywodraethu at y diben o gydymffurfio ag adran 10(1);

(b) y modd y mae ad-dalu'r ffioedd uwchlaw'r terfyn i fod i gael ei roi ar waith, neu y gall gael ei roi ar waith.

(4) Os yw CCAUC yn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, rhaid iddo—

(a) rhoi copi o'r cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru;

(b) cyhoeddi'r cyfarwyddyd.

(5) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut a phryd y mae CCAUC i gydymffurfio ag is-adran (4).

(6) Mae "ffioedd uwchlaw'r terfyn" yn ffioedd cwrs rheoleiddiedig, i'r graddau y mae'r ffioedd hynny yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys (fel y'i meintiolir at ddibenion y ddyletswydd o dan adran 10(1) y mae'r corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio â hi).

**12 Darpariaeth atodol ynghylch cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu**

(1) Caiff CCAUC ddyroddi canllawiau ynghylch y camau sydd i'w cymryd at y diben o gydymffurfio â chyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu.

(2) Cyn dyroddi canllawiau o dan yr adran hon, rhaid i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad rheoleiddiedig; a chaiff ymgynghori â chorff llywodraethu unrhyw sefydliad arall o fewn adran 2(3) sy'n briodol yn ei farn ef.

(3) Rhaid i gorff llywodraethu y mae cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu wedi ei roi iddo, wrth gydymffurfio â'r cyfarwyddyd, ystyried unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.

(4) Am y ddarpariaeth weithdrefnol ynghylch cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu, gweler adrannau 40 i 43.

*Cydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun a gymeradwywyd*

**13 Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch methiant i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth o ran y camau sydd i'w cymryd gan CCAUC os yw wedi ei fodloni bod corff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun y sefydliad a gymeradwywyd.

(2) Caiff y rheoliadau (ymhlith pethau eraill) wneud darpariaeth—

(a) ynghylch yr hyn sy'n fethiant neu'r hyn nad yw'n fethiant i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun a gymeradwywyd;

(b) ynghylch y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC, neu nad ydynt i'w hystyried gan CCAUC, wrth benderfynu a yw corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun;

(c) i CCAUC gyfarwyddo'r corff llywodraethu i amrywio'r cynllun, neu gyfarwyddo'r corff llywodraethu i gymryd camau eraill a bennir gan neu o dan y rheoliadau (gan gynnwys drwy gyfrwng gwariant);

(d) o ran y weithdrefn sy'n gymwys mewn cysylltiad â rhoi cyfarwyddyd fel a grybwyllir ym mharagraff (c);

(e) ynghylch adolygu cyfarwyddyd a roddir fel a grybwyllir ym mharagraff (c);

(f) ynghylch methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir fel a grybwyllir ym mharagraff (c) (gan gynnwys o ran y sancsiynau y caiff CCAUC eu gosod neu y mae rhaid i CCAUC eu gosod, a chamau eraill y caiff CCAUC eu cymryd neu y mae rhaid i CCAUC eu cymryd).

(3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon (ymhlith pethau eraill) ddiwygio neu gymhwyso, gydag addasiadau neu hebddynt, unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan y Ddeddf hon.

*Contractau*

**14 Dilysrwydd contractau**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i gontract sy'n darparu ar gyfer talu ffioedd cwrs rheoleiddiedig i sefydliad, gan berson cymhwysol ac mewn cysylltiad â'r person yn ymgymryd â chwrs cymhwysol, sydd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys.

(2) At ddibenion unrhyw hawliau a rhwymedigaethau sy'n codi o dan y contract, ac unrhyw drafodion mewn cysylltiad â'r hawliau a'r rhwymedigaethau hynny, mae'r contract i'w drin fel pe bai'n darparu ar gyfer talu ffioedd mewn swm sy'n gyfatebol i'r terfyn ffioedd cymwys.

(3) Ac eithrio fel y darperir yn is-adran (2), nid yw'r contract yn ddi-rym nac yn anorfodadwy o ganlyniad i ddarparu ar gyfer talu ffioedd sydd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys.

*Cynlluniau a gymeradwywyd: cydymffurfedd ac effeithiolrwydd*

**15 Dyletswydd CCAUC i fonitro a gwerthuso cydymffurfedd ac effeithiolrwydd**

(1) Rhaid i CCAUC—

(a) monitro cydymffurfedd ag adran 10(1);

(b) monitro cydymffurfedd â darpariaethau cyffredinol cynlluniau a gymeradwywyd;

(c) gwerthuso effeithiolrwydd pob cynllun a gymeradwywyd;

(d) gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau a gymeradwywyd yn gyffredinol.

(2) At ddibenion yr adran hon, effeithiolrwydd cynllun a gymeradwywyd yw ei effeithiolrwydd o ran hybu—

(a) cyfle cyfartal, a

(b) addysg uwch.

**16 Monitro a gwerthuso cydymffurfedd ac effeithiolrwydd: dyletswydd i gydweithredu**

(1) Rhaid i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig sicrhau y darperir i CCAUC unrhyw wybodaeth, cymorth a mynediad i gyfleusterau'r sefydliad sy'n ofynnol yn rhesymol gan CCAUC at ddiben ei swyddogaethau o dan adran 15.

(2) Os yw CCAUC wedi ei fodloni bod corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio ag is-adran (1), caiff ei gyfarwyddo i gymryd (neu i beidio â chymryd) camau penodedig at y diben o sicrhau'r ddarpariaeth o wybodaeth, cymorth neu fynediad fel y'i disgrifir yn ys is-adran honno.

## RHAN 3

## ANSAWDD YR ADDYSG

*Asesu ansawdd yr addysg*

**17 Asesu ansawdd yr addysg**

(1) Rhaid i CCAUC asesu, neu wneud trefniadau ar gyfer asesu, ansawdd yr addysg a ddarperir yng Nghymru—

(a) gan bob sefydliad rheoleiddiedig;

(b) ar ran pob sefydliad rheoleiddiedig (pa un ai gan sefydliad rheoleiddiedig arall neu gan ddarparwr allanol).

(2) At ddibenion is-adran (1), mae addysg a ddarperir y tu allan i Gymru i'w thrin fel pe bai wedi ei darparu yng Nghymru os y'i darperir fel rhan o gwrs a ddarperir yn bennaf yng Nghymru.

(3) Yn y Ddeddf hon, mae cyfeiriadau at ddarparwr allanol yn gyfeiriadau at berson—

(a) nad yw'n sefydliad rheoleiddiedig, ond

(b) sy'n gyfrifol am ddarparu cwrs addysg cyfan, neu ran ohono, ar ran sefydliad rheoleiddiedig.

(4) At ddibenion is-adran (3)(b)—

(a) caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pan fo person i'w drin (neu nad yw i'w drin) fel person sy'n gyfrifol am ddarparu cwrs (neu ran ohono);

(b) nid yw cwrs (neu ran ohono) i'w drin fel cwrs a ddarperir ar ran sefydliad rheoleiddiedig os y'i darperir o dan drefniadau gyda'r sefydliad hwnnw a wnaed cyn i'r adran hon ddod i rym.

*Pwerau mewn cysylltiad ag addysg o ansawdd annigonol*

**18 Addysg o ansawdd annigonol: cyffredinol**

(1) Mae adrannau 19 ac 20 yn gymwys os, o ganlyniad i arfer ei swyddogaethau o dan adran 17, mae CCAUC wedi ei fodloni—

(a) bod ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliad rheoleiddiedig, neu

(b) bod ansawdd cwrs addysg penodol a ddarperir felly,

yn annigonol neu'n debygol o ddod yn annigonol.

(2) At ddibenion y Ddeddf hon, mae ansawdd yr addysg neu gwrs addysg yn annigonol os nad yw'n ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rhai hynny sy'n cael yr addysg neu sy'n ymgymryd â'r cwrs.

**19 Cyfarwyddydau mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol**

(1) Caiff CCAUC roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu'r sefydliad sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd (neu beidio â chymryd) camau penodedig at y diben o—

(a) gwella ansawdd yr addysg neu'r cwrs, neu

(b) atal ansawdd yr addysg neu'r cwrs rhag dod yn annigonol.

(2) Am y ddarpariaeth weithdrefnol ynghylch cyfarwyddydau o dan yr adran hon, gweler adrannau 40 i 43.

**20 Mesurau eraill mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol**

(1) Caiff CCAUC roi cyngor neu gymorth i gorff llywodraethu'r sefydliad gyda golwg ar—

(a) gwella ansawdd yr addysg neu'r cwrs, neu

(b) atal ansawdd yr addysg neu'r cwrs rhag dod yn annigonol.

(2) Caiff CCAUC gynnal, neu drefnu i berson arall gynnal, adolygiad o unrhyw faterion y mae o'r farn eu bod yn berthnasol i ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran y sefydliad.

(3) Rhaid i gorff llywodraeth ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo o dan is-adran (1).

*Cydweithredu o ran asesu ansawdd etc*

**21 Asesu ansawdd etc: dyletswydd i gydweithredu**

(1) Rhaid i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig sicrhau y darperir i berson sy’n arfer swyddogaeth yn rhinwedd adran 17 neu 20 unrhyw wybodaeth, cymorth a mynediad i gyfleusterau’r sefydliad sy’n ofynnol yn rhesymol gan y person at y diben o arfer y swyddogaeth (gan gynnwys y diben o arfer unrhyw bŵer o dan adran 22).

(2) Rhaid i gorff llywodraethu darparwr allanol sicrhau y darperir i berson sy’n arfer swyddogaeth yn rhinwedd adran 17 neu 20(2) unrhyw wybodaeth, cymorth a mynediad i gyfleusterau’r darparwr allanol ag sy’n ofynnol yn rhesymol gan y person at y diben o arfer y swyddogaeth (gan gynnwys y diben o arfer unrhyw bŵer o dan adran 22).

(3) Os yw CCAUC wedi ei fodloni bod corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio ag is-adran (1) neu (2), caiff ei gyfarwyddo i gymryd (neu i beidio â chymryd) camau penodedig at y diben o sicrhau’r ddarpariaeth o wybodaeth, cymorth neu fynediad fel y’i disgrifir yn is-adran (1) neu (2) (fel y bo’n briodol).

*Pwerau atodol at y diben o asesu ansawdd etc*

**22 Asesu ansawdd etc: pwerau mynd i mewn ac arolygu**

(1) At y diben o arfer swyddogaeth yn rhinwedd adran 17 neu 20(2), caiff person awdurdodedig—

(a) mynd i mewn i fangre sefydliad rheoleiddiedig neu ddarparwr allanol;

(b) edrych ar ddogfennau y daw o hyd iddynt yn y fangre, eu copïo neu eu cymryd.

(2) Yn is-adran (1)(b), mae cyfeiriadau at—

(a) dogfennau yn cynnwys gwybodaeth wedi ei chofnodi ar unrhyw ffurf;

(b) dogfennau y daw o hyd iddynt yn y fangre yn cynnwys—

(i) dogfennau sydd wedi eu storio ar gyfrifiaduron neu ar ddyfeisiau storio electronig yn y fangre, a

(ii) dogfennau sydd wedi eu storio mewn man arall ond gellir cael mynediad iddynt drwy gyfrifiaduron yn y fangre.

(3) Mae’r pŵer a roddir gan is-adran (1)(b) yn cynnwys pŵer—

(a) i’w gwneud yn ofynnol i berson ddarparu dogfennau;

(b) i osod gofynion o ran sut y darperir dogfennau (a gaiff gynnwys gofynion i ddarparu copïau darllenadwy o ddogfennau sydd wedi eu storio’n electronig);

(c) i edrych ar gyfrifiadur y mae dogfennau wedi eu creu neu eu storio arno neu ar ddyfais storio electronig y mae dogfennau wedi eu creu neu eu storio arni.

(4) Ni chaniateir i bŵer a roddir gan yr adran hon ond gael ei arfer ar ôl rhoi hysbysiad rhesymol—

(a) i gorff llywodraethu'r sefydliad rheoleiddiedig neu ddarparwr allanol y mae'r person awdurdodedig yn bwriadu arfer y pŵer mewn perthynas â'i fangre, a

(b) corff llywodraethu unrhyw sefydliad rheoleiddiedig y mae'r sefydliad hwnnw neu'r darparwr allanol hwnnw yn darparu ar ei ran yr addysg y mae arfer y swyddogaeth o dan adran 17 neu 20(2) yn ymwneud â hi.

(5) Nid yw is-adran (4) yn gymwys i arfer pŵer os yw'r person awdurdodedig wedi ei fodloni—

(a) bod yr achos yn achos brys, neu

(b) y byddai cydymffurfio â'r is-adran honno yn tanseilio'r diben o arfer y pŵer.

(6) Yn yr adran hon, ystyr "person awdurdodedig" yw person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan CCAUC (pa un ai yn gyffredinol neu'n benodol) i arfer y pwerau a roddir gan yr adran hon.

(7) Cyn arfer pŵer o dan yr adran hon, rhaid i berson awdurdodedig, os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, ddangos copi o awdurdodiad y person o dan is-adran (6).

(8) O ran y pwerau a roddir gan yr adran hon—

(a) caniateir iddynt gael eu harfer ar adegau rhesymol yn unig;

(b) ni chaniateir iddynt gael eu harfer i'w gwneud yn ofynnol i berson wneud unrhyw beth ac eithrio ar adeg sy'n rhesymol.

(9) Nid yw'r pwerau a roddir gan yr adran hon yn cynnwys pŵer i fynd i mewn i annedd heb gytundeb y meddiannydd.

*Canllawiau sy'n ymwneud ag ansawdd yr addysg*

**23 Canllawiau ynghylch materion sy'n berthnasol i ansawdd**

(1) Caiff CCAUC ddyroddi neu gymeradwyo canllawiau ynghylch unrhyw fater sy'n berthnasol yn ei farn ef i wella neu gynnal ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau rheoleiddiedig.

(2) Cyn dyroddi neu gymeradwyo canllawiau o dan yr adran hon (neu unrhyw ganllawiau diwygiedig), rhaid i CCAUC ymgynghori â'r canlynol—

(a) corff llywodraethu pob sefydliad rheoleiddiedig, a

(b) unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn ei farn ef.

(3) Rhaid i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig ystyried unrhyw ganllawiau a ddyroddir neu a gymeradwyir o dan yr adran hon.

**24 Canllawiau ynghylch meini prawf ar gyfer asesu ansawdd**

Caiff CCAUC ddyroddi neu gymeradwyo canllawiau ynghylch—

(a) y meini prawf sydd i'w cymhwyso gan berson sy'n arfer swyddogaeth yn rhinwedd adran 17 wrth asesu ansawdd yr addysg;

(b) y materion y bydd CCAUC yn eu hystyried wrth benderfynu a yw ansawdd yr addysg, neu gwrs addysg, yn annigonol neu'n debygol o ddod yn annigonol.

*Cyngor i CCAUC ynghylch swyddogaethau asesu ansawdd*

**25 Pwyllgor i gynghori CCAUC ynghylch arfer swyddogaethau asesu ansawdd**

(1) Rhaid i CCAUC sefydlu pwyllgor i'w gynghori ar arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.

(2) Caiff CCAUC roi i'r pwyllgor unrhyw swyddogaethau eraill sy'n briodol yn ei farn ef.

(3) O ran aelodau'r pwyllgor—

(a) rhaid i fwyafrif fod yn bersonau nad ydynt yn aelodau o CCAUC;

(b) rhaid i fwyafrif fod yn bersonau yr ymddengys i CCAUC fod ganddynt brofiad o ddarparu addysg uwch neu eu bod wedi dangos galluedd o ran darparu addysg uwch.

(4) Wrth benodi personau o fewn is-adran (3)(b) i'r pwyllgor, rhaid i CCAUC ystyried dymunoldeb penodi personau sydd ar hyn o bryd yn ymwneud â darparu addysg uwch neu ag ymgymryd â chyfrifoldeb am ei darparu.

(5) Mae Atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn gymwys o ran y pwyllgor fel y mae'n gymwys o ran pwyllgor a sefydlir gan CCAUC o dan baragraff 8 o'r Atodlen honno.

*Atodol*

**26 Cymhwyso'r Rhan hon pan fo sefydliad yn peidio â chael cynllun a gymeradwywyd**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo cynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â sefydliad yn peidio â bod mewn grym, a

(b) pan na fo cynllun ffioedd a mynediad newydd mewn grym mewn perthynas â'r sefydliad.

(2) Mae'r Rhan hon yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas ag addysg a ddarperir gan neu ar ran y sefydliad drwy gwrs dynodedig.

(3) At ddibenion cymhwyso'r Rhan hon yn rhinwedd is-adran (2), mae'r sefydliad i'w drin fel sefydliad rheoleiddiedig.

(4) Mae cwrs dynodedig yn gwrs sydd wedi ei ddynodi at ddibenion adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran honno.

## RHAN 4

## MATERION ARIANNOL SEFYDLIADAU RHEOLEIDDIEDIG

*Cod rheolaeth ariannol*

**27 Dyletswydd CCAUC i lunio a chyhoeddi Cod**

(1) Rhaid i CCAUC lunio a chyhoeddi cod sy'n ymwneud â threfnu a rheoli materion ariannol sefydliadau rheoleiddiedig (y cyfeirir ato yn y Ddeddf hon fel "y Cod").

(2) Caiff y Cod wneud darpariaeth ynghylch y materion a ganlyn (ymhlith materion eraill)—

(a) yr amgylchiadau pan fo sefydliad rheoleiddiedig i ymrwymo i drafodiad o ddosbarth a bennir yn y Cod gyda chydsyniad CCAUC yn unig;

(b) trefniadau cyfrifyddu ac archwilio sefydliadau rheoleiddiedig;

(c) darparu gwybodaeth i CCAUC.

(3) Caiff darpariaeth yn y Cod fod ar ffurf gofyniad neu ganllawiau.

(4) Rhaid i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig—

(a) cydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir gan y Cod;

(b) ystyried unrhyw ganllawiau sydd yn y Cod.

(5) Caiff CCAUC gyhoeddi'r Cod ym mha ffordd bynnag sy'n briodol yn ei farn ef.

(6) Rhaid i CCAUC—

(a) adolygu'r Cod yn gyson, a

(b) llunio a chyhoeddi Cod diwygiedig, os yw hynny'n briodol yn ei farn ef.

(7) Caiff y cod wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol (gan gynnwys ar gyfer sefydliadau gwahanol a disgrifiadau gwahanol o sefydliad).

(8) At ddibenion y Rhan hon, nid yw'r Brifysgol Agored i'w thrin fel sefydliad rheoleiddiedig.

(9) Yn adrannau 28 a 29, ystyr "y Cod cyntaf" yw'r Cod cyntaf i'w gyhoeddi o dan yr adran hon.

**28 Y weithdrefn ar gyfer cymeradwyo Cod**

(1) Cyn cyhoeddi'r Cod cyntaf neu God diwygiedig, rhaid i CCAUC—

(a) llunio drafft o'r Cod cyntaf neu'r Cod diwygiedig, a

(b) cyflwyno'r drafft i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

(2) Wrth lunio drafft o'r Cod cyntaf neu o God diwygiedig, rhaid i CCAUC ymgynghori â'r canlynol—

(a) corff llywodraethu pob sefydliad rheoleiddiedig, a

(b) unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn ei farn ef.

(3) Rhaid i ddrafft a gyflwynir i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon gynnwys gydag ef adroddiad—

(a) sy'n nodi'r rhesymau dros delerau'r drafft, a

(b) sy'n rhoi manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd o dan is-adran (2) ac yn crynhoi'r sylwadau a gafodd CCAUC yn ystod yr ymgynghoriad.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo CCAUC i gyflwyno drafft o'r Cod cyntaf neu o God diwygiedig iddynt o dan yr adran hon cyn diwedd cyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd.

(5) Rhaid i CCAUC gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (4).

(6) Os yw Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo drafft a gyflwynir iddynt o dan yr adran hon—

(a) rhaid iddynt osod y drafft a gymeradwywyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(b) rhaid i CCAUC gyhoeddi'r Cod yn nhelerau'r drafft a gymeradwywyd.

**29 Y weithdrefn os na chymeradwyir Cod drafft**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo drafft o'r Cod cyntaf, neu o God diwygiedig, a gyflwynir iddynt o dan adran 28.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad i CCAUC ynghylch y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad i CCAUC o dan is-adran (2) eu bod wedi penderfynu peidio â chymeradwyo drafft o'r Cod cyntaf, rhaid i CCAUC gyflwyno drafft pellach o'r Cod cyntaf i Weinidogion Cymru.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad i CCAUC o dan is-adran (2) eu bod wedi penderfynu peidio â chymeradwyo drafft o God diwygiedig, rhaid i CCAUC naill ai—

(a) cyflwyno drafft pellach o'r Cod diwygiedig i Weinidogion Cymru, neu

(b) rhoi hysbysiad i Weinidogion Cymru—

(i) yn datgan bod CCAUC wedi penderfynu peidio â pharhau â'r gwaith o ddiwygio'r Cod, a

(ii) yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(5) Caiff hysbysiad o dan is-adran (2) bennu cyfnod y mae rhaid, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, i CCAUC gydymffurfio ag is-adran (3) neu (4) (fel y bo'n briodol).

(6) Cyn cyflwyno drafft pellach o'r Cod cyntaf neu o God diwygiedig i Weinidogion Cymru, rhaid i CCAUC gynnal unrhyw ymgynghoriad pellach sy'n briodol yn ei farn ef.

(7) Rhaid i ddrafft pellach a gyflwynir i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon gynnwys gydag ef adroddiad—

(a) sy'n esbonio sut y mae CCAUC, wrth lunio'r drafft, wedi ystyried y rhesymau a nodwyd yn yr hysbysiad a roddwyd gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (2),

(b) sy'n nodi rhesymau CCAUC dros delerau'r drafft, ac

(c) sy'n rhoi manylion unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd o dan is-adran (6) mewn perthynas â'r drafft ac yn crynhoi'r sylwadau a gafodd CCAUC yn ystod yr ymgynghoriad.

(8) Os yw Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo drafft a gyflwynir iddynt o dan yr adran hon—

(a) rhaid iddynt osod y drafft a gymeradwywyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(b) rhaid i CCAUC gyhoeddi'r Cod yn nhelerau'r drafft a gymeradwywyd.

(9) Mae is-adrannau (2) i (8) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo drafft a gyflwynir iddynt o dan yr adran hon fel y maent yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo drafft a gyflwynir iddynt o dan adran 28.

*Monitro cydymffurfedd â'r Cod*

**30 Monitro cydymffurfedd â'r Cod**

Rhaid i CCAUC fonitro, neu wneud trefniadau ar gyfer monitro, cydymffurfedd gan bob sefydliad rheoleiddiedig â'r gofynion a osodir gan y Cod.

*Pwerau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod*

**31 Methiant i gydymffurfio â'r Cod: cyffredinol**

Mae adrannau 32 a 33 yn gymwys os yw CCAUC wedi ei fodloni bod corff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig wedi methu, neu'n debygol o fethu, â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan y Cod.

**32 Cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod**

(1) Caiff CCAUC roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd (neu beidio â chymryd) camau penodedig at y diben o ymdrin â methiant i gydymffurfio neu atal methiant o'r fath.

(2) Am y ddarpariaeth weithdrefnol ynghylch cyfarwyddydau o dan yr adran hon, gweler adrannau 40 i 43.

**33 Mesurau eraill mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod**

(1) Caiff CCAUC roi cyngor neu gymorth i'r corff llywodraethu gyda golwg ar wella trefniadaeth neu reolaeth materion ariannol y sefydliad.

(2) Caiff CCAUC gynnal, neu drefnu i berson arall gynnal, adolygiad o unrhyw faterion y mae o'r farn eu bod yn berthnasol i gydymffurfedd y sefydliad â'r Cod.

(3) Rhaid i gorff llywodraethu ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo o dan is-adran (1).

*Cydweithredu o ran monitro etc*

**34 Rheolaeth ariannol: dyletswydd i gydweithredu**

(1) Rhaid i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig sicrhau y darperir i berson sy'n arfer swyddogaeth yn rhinwedd adran 30 neu 33 unrhyw wybodaeth, cymorth a mynediad i gyfleusterau'r sefydliad sy'n ofynnol yn rhesymol gan y person at y diben o arfer y swyddogaeth (gan gynnwys y diben o arfer unrhyw bŵer o dan adran 35).

(2) Os yw CCAUC wedi ei fodloni bod corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio ag is-adran (1), caiff ei gyfarwyddo i gymryd (neu i beidio â chymryd) camau penodedig at y diben o sicrhau'r ddarpariaeth o wybodaeth, cymorth neu fynediad fel y'i disgrifir yn yr is-adran honno.

*Pwerau atodol at y diben o fonitro etc*

**35 Rheolaeth ariannol: pwerau mynd i mewn ac arolygu**

(1) At y diben o arfer swyddogaeth yn rhinwedd adran 30 neu 33(2), caiff person awdurdodedig—

(a) mynd i mewn i fangre sefydliad rheoleiddiedig;

(b) edrych ar ddogfennau y daw o hyd iddynt yn y fangre, eu copïo neu eu cymryd.

(2) Yn is-adran (1)(b), mae cyfeiriadau at—

(a) dogfennau yn cynnwys gwybodaeth wedi ei chofnodi ar unrhyw ffurf;

(b) dogfennau y daw o hyd iddynt yn y fangre yn cynnwys—

(i) dogfennau sydd wedi eu storio ar gyfrifiaduron neu ar ddyfeisiau storio electronig yn y fangre, a

(ii) dogfennau sydd wedi eu storio mewn man arall ond gellir cael mynediad iddynt drwy gyfrifiaduron yn y fangre.

(3) Mae'r pŵer a roddir gan is-adran (1)(b) yn cynnwys pŵer—

(a) i'w gwneud yn ofynnol i berson ddarparu dogfennau;

(b) i osod gofynion o ran sut y darperir dogfennau (a gaiff gynnwys gofynion i ddarparu copïau darllenadwy o ddogfennau sydd wedi eu storio'n electronig);

(c) i edrych ar gyfrifiadur y mae dogfennau wedi eu creu neu eu storio arno neu ar ddyfais storio electronig y mae dogfennau wedi eu creu neu eu storio arni.

(4) Ni chaniateir i bŵer a roddir gan yr adran hon ond gael ei arfer ar ôl rhoi hysbysiad rhesymol i gorff llywodraethu'r sefydliad rheoleiddiedig.

(5) Nid yw is-adran (4) yn gymwys i arfer pŵer os yw'r person awdurdodedig wedi ei fodloni—

(a) bod yr achos yn achos brys, neu

(b) y byddai cydymffurfio â'r is-adran honno yn tanseilio'r diben o arfer y pŵer.

(6) Yn yr adran hon, ystyr "person awdurdodedig" yw person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan CCAUC (pa un ai yn gyffredinol neu'n benodol) i arfer y pwerau a roddir gan yr adran hon.

(7) Cyn arfer pŵer o dan yr adran hon, rhaid i berson awdurdodedig, os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, ddangos copi o awdurdodiad y person o dan is-adran (6).

(8) O ran y pwerau a roddir gan yr adran hon—

(a) caniateir iddynt gael eu harfer ar adegau rhesymol yn unig;

(b) ni chaniateir iddynt gael eu harfer i'w gwneud yn ofynnol i berson wneud unrhyw beth ac eithrio ar adeg sy'n rhesymol.

(9) Nid yw'r pwerau a roddir gan yr adran hon yn cynnwys pŵer i fynd i mewn i annedd heb gytundeb y meddiannydd.

## RHAN 5

## CYNLLUNIAU FFIOEDD A MYNEDIAD: TYNNU CYMERADWYAETH YN ÔL ETC

*Gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd*

**36 Hysbysiad ynghylch gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd**

(1) Os yw CCAUC wedi ei fodloni bod amod yn is-adran (3) wedi ei ddiwallu mewn cysylltiad â sefydliad rheoleiddiedig, caiff roi hysbysiad o dan yr adran hon i gorff llywodraethu'r sefydliad.

(2) Mae hysbysiad o dan yr adran hon yn hysbysiad na fydd CCAUC yn cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd sy'n ymwneud â'r sefydliad cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Yr amodau yw bod corff llywodraethu'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio—

(a) ag adran 10(1) (dyletswydd i sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys),

(b) â darpariaethau cyffredinol cynllun y sefydliad a gymeradwywyd,

(c) â chyfarwyddyd o dan adran 19 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol), neu

(d) â chyfarwyddyd o dan adran 32 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod).

(4) Nid yw corff llywodraethu i'w drin at ddibenion is-adran (3)(b) fel pe bai wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun a gymeradwywyd os yw CCAUC wedi ei fodloni bod y corff llywodraethu wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r darpariaethau hynny.

(5) Os yw CCAUC yn rhoi hysbysiad o dan yr adran hon i gorff llywodraethu sefydliad, ni chaiff CCAUC gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad arfaethedig sy'n ymwneud â'r sefydliad cyn diwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

(6) Pan fo CCAUC wedi rhoi hysbysiad o dan yr adran hon—

(a) caiff dynnu'r hysbysiad yn ôl, a

(b) os gwna hynny, mae'r cyfyngiad yn is-adran (5) yn peidio â bod yn gymwys.

(7) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) y cyfnod y caniateir ei bennu mewn hysbysiad o dan yr adran hon;

(b) y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu pa un ai i roi hysbysiad o dan yr adran hon neu ei dynnu'n ôl;

(c) y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â thynnu hysbysiad yn ôl.

(8) Am y ddarpariaeth weithdrefnol ynghylch hysbysiad o dan yr adran hon, gweler adrannau 40 i 43.

*Tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad presennol yn ôl*

**37 Dyletswydd i dynnu cymeradwyaeth yn ôl**

(1) Os yw CCAUC wedi ei fodloni nad yw sefydliad rheoleiddiedig bellach o fewn adran 2(3), rhaid iddo dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i'r cynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â'r sefydliad drwy roi hysbysiad o dan yr adran hon i gorff llywodraethu'r sefydliad.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth wneud penderfyniad at ddibenion yr adran hon;

(b) y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â rhoi hysbysiad o dan yr adran hon.

(3) Caiff rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth fel y'i disgrifir yn is-adran (2)(b) (ymhlith pethau eraill) ddiwygio neu gymhwyso, gydag addasiadau neu hebddynt, unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan adrannau 40 i 43.

**38 Pŵer i dynnu cymeradwyaeth yn ôl**

(1) Os yw CCAUC wedi ei fodloni bod amod yn is-adran (2) wedi ei ddiwallu mewn cysylltiad â sefydliad rheoleiddiedig, caiff dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i'r cynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â'r sefydliad drwy roi hysbysiad o dan yr adran hon i gorff llywodraethu'r sefydliad.

(2) Yr amodau yw—

(a) bod corff llywodraethu'r sefydliad wedi methu'n fynych â chydymffurfio ag adran 10(1) (dyletswydd i sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys) neu wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu,

(b) bod y corff llywodraethu wedi methu'n fynych â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun y sefydliad a gymeradwywyd,

(c) bod ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran y sefydliad yn ddifrifol o annigonol, neu

(d) bod methiant difrifol wedi bod gan gorff llywodraethu'r sefydliad i gydymffurfio â'r Cod.

(3) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu pa un ai i roi hysbysiad o dan yr adran hon.

(4) Am y ddarpariaeth weithdrefnol ynghylch hysbysiad o dan yr adran hon, gweler adrannau 40 i 43.

*Cyhoeddi etc hysbysiad o dan y Rhan hon*

**39 Cyhoeddi etc hysbysiad o dan y Rhan hon**

(1) Os yw CCAUC yn rhoi hysbysiad o dan adran 36, 37 neu 38, rhaid iddo—

(a) rhoi copi o'r hysbysiad i Weinidogion Cymru, a

(b) cyhoeddi'r hysbysiad.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut a phryd y mae CCAUC i gydymffurfio ag is-adran (1).

## RHAN 6

## HYSBYSIADAU A CHYFARWYDDYDAU A RODDIR GAN CCAUC

*Y weithdrefn rhybuddio ac adolygu ar gyfer hysbysiadau a chyfarwyddydau penodol*

### 40 Cymhwyso adrannau 41 i 43

(1) Mae adrannau 41 i 43 yn gymwys i—

(a) hysbysiad o dan adran 7(1)(b) (gwrthod cynllun ffioedd a mynediad arfaethedig),

(b) cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu,

(c) cyfarwyddyd o dan adran 19 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol),

(d) cyfarwyddyd o dan adran 32 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod),

(e) hysbysiad o dan adran 36 (gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd), ac

(f) hysbysiad o dan adran 38 (tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl).

(2) Ond nid yw'r adrannau hynny yn gymwys i gyfarwyddyd nad yw'n darparu ond ar gyfer dirymu cyfarwyddyd cynharach (gweler adran 45).

### 41 Hysbysiadau a chyfarwyddydau arfaethedig: gofyniad i roi hysbysiad rhybuddio

(1) Os yw CCAUC yn bwriadu rhoi i gorff llywodraethu hysbysiad neu gyfarwyddyd y mae'r adran hon yn gymwys iddo, rhaid i CCAUC roi hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu.

(2) Rhaid i'r hysbysiad rhybuddio—

(a) nodi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd arfaethedig;

(b) datgan rhesymau CCAUC dros fwriadu ei roi;

(c) hysbysu'r corff llywodraethu y caiff gyflwyno sylwadau am yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd arfaethedig;

(d) pennu, yn unol ag unrhyw ddarpariaeth a wneir drwy reoliadau, y cyfnod y caniateir i sylwadau gael eu cyflwyno ynddo a'r ffordd y caniateir gwneud hynny.

(3) Wrth benderfynu pa un ai i roi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd, rhaid i CCAUC ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y corff llywodraethu yn unol â'r hysbysiad rhybuddio.

(4) Os yw CCAUC, ar ôl ystyried y sylwadau hynny, yn penderfynu peidio â rhoi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd, rhaid iddo roi hysbysiad am y penderfyniad hwnnw i'r corff llywodraethu.

**42 Gwybodaeth sydd i'w rhoi gyda hysbysiadau a chyfarwyddydau**

Os yw CCAUC yn rhoi i gorff llywodraethu hysbysiad neu gyfarwyddyd y mae'r adran hon yn gymwys iddo, rhaid iddo ar yr un pryd roi i'r corff llywodraethu ddatganiad—

(a) sy'n nodi rhesymau CCAUC dros roi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd,

(b) sy'n hysbysu'r corff llywodraethu y caiff wneud cais am adolygiad o'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd o dan adran 43, ac

(c) sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth ragnodedig arall.

**43 Adolygu hysbysiadau a chyfarwyddydau**

(1) Os yw CCAUC yn rhoi i gorff llywodraethu hysbysiad neu gyfarwyddyd y mae'r adran hon yn gymwys iddo, caiff y corff llywodraethu (yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir fel y'i disgrifir yn is-adran (4)(a)) wneud cais am adolygiad o'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd.

(2) Mae adolygiad i'w gynnal gan berson, neu banel o bersonau, a benodir gan Weinidogion Cymru; a chaiff Gweinidogion Cymru dalu tâl a lwfansau i bersonau a benodir o dan yr is-adran hon.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth mewn cysylltiad ag adolygiadau o dan yr adran hon.

(4) Caiff y rheoliadau, ymhlith pethau eraill, wneud darpariaeth—

(a) ynghylch y seiliau y caniateir i gais am adolygiad gael ei wneud arnynt;

(b) ynghylch y cyfnod y caniateir i gais gael ei wneud ynddo a'r ffordd y caniateir gwneud hynny;

(c) ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn gan berson neu banel sy'n cynnal adolygiad;

(d) ynghylch y camau sydd i'w cymryd gan CCAUC yn dilyn adolygiad;

(e) i hysbysiad neu gyfarwyddyd y mae'r adran hon yn gymwys iddo beidio â chael ei drin fel pe bai wedi ei roi hyd nes bod unrhyw gamau a bennir yn y rheoliadau wedi eu cymryd, neu hyd nes bod unrhyw gyfnod a bennir yn y rheoliadau wedi dod i ben.

*Darpariaethau cyffredinol ynghylch cyfarwyddydau a roddir gan CCAUC*

**44 Cyfarwyddydau: cydymffurfio a gorfodi**

(1) Os yw CCAUC yn rhoi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu o dan y Ddeddf hon, rhaid i'r corff llywodraethu gydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

(2) Mae'r cyfarwyddyd yn orfodadwy drwy waharddeb yn dilyn cais gan CCAUC.

(3) Os yw'r corff llywodraethu yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i CCAUC roi hysbysiad i'r corff llywodraethu sy'n datgan a yw wedi ei fodloni ei fod wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddyd (neu â gofyniad penodol yn y cyfarwyddyd).

**45 Cyfarwyddydau: cyffredinol**

O ran cyfarwyddyd a roddir gan CCAUC o dan y Ddeddf hon—

(a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;

(b) caniateir iddo gael ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd diweddarach.

## RHAN 7

## SWYDDOGAETHAU ATODOL CCAUC

*Canllawiau Gweinidogion Cymru i CCAUC*

**46 Dyletswydd i ystyried canllawiau Gweinidogion Cymru**

Wrth arfer swyddogaethau yn rhinwedd y Ddeddf hon, rhaid i CCAUC ystyried unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

*Adroddiadau sydd i'w llunio gan CCAUC*

**47 Adroddiadau blynyddol**

(1) Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd, rhaid i CCAUC adrodd i Weinidogion Cymru ar sut, yn ystod y cyfnod, y mae CCAUC wedi arfer ei swyddogaethau yn rhinwedd y Ddeddf hon.

(2) Rhaid i'r adroddiad gydymffurfio ag unrhyw ofynion y caiff Gweinidogion Cymru eu pennu drwy gyfarwyddyd i CCAUC.

(3) Caiff y gofynion hynny gynnwys gofynion o ran ffurf a chynnwys yr adroddiad.

(4) At ddibenion yr adran hon y cyfnod adrodd cyntaf yw'r cyfnod—

(a) sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym, a

(b) sy'n dod i ben ar ba ddiwrnod bynnag yw'r cynharach o flwyddyn ar ôl y diwrnod hwnnw, a diwrnod a bennir gan CCAUC mewn hysbysiad a roddir i Weinidogion Cymru.

(5) Y cyfnodau adrodd dilynol yw pob cyfnod olynol o 12 mis.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd bennu gofynion y mae hysbysiad a roddir fel y'i disgrifir yn is-adran (4) i gydymffurfio â hwy (gan gynnwys o ran ffurf a chynnwys, a'r adeg y mae i'w roi); ac nid yw'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei roi at ddibenion is-adran (4) oni bai ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion hynny.

**48 Adroddiadau arbennig**

(1) Rhaid i CCAUC, os y'i cyfarwyddir i wneud hynny gan Weinidogion Cymru, adrodd i Weinidogion Cymru ar unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) cydymffurfedd â darpariaethau cynlluniau a gymeradwywyd yn gyffredinol, neu â darpariaethau cynllun penodol a gymeradwywyd;

(b) effeithiolrwydd cynlluniau a gymeradwywyd yn gyffredinol, neu effeithiolrwydd cynllun penodol a gymeradwywyd, wrth hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch;

(c) unrhyw faterion eraill a bennir yn y cyfarwyddyd sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal neu hybu addysg uwch;

(d) ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau rheoleiddiedig yn gyffredinol, neu ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliad rheoleiddiedig penodol;

(e) cydymffurfedd gan sefydliadau rheoleiddiedig yn gyffredinol, neu gan sefydliad rheoleiddiedig penodol, â gofynion y Cod.

(2) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (1) bennu—

(a) ffurf a chynnwys adroddiad a wneir at ddibenion yr adran hon;

(b) pryd y mae'r adroddiad i'w wneud.

*Gwybodaeth arall etc sydd i'w rhoi gan CCAUC*

**49 Datganiad mewn cysylltiad â swyddogaethau ymyrryd**

(1) Rhaid i CCAUC lunio a chyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau ymyrryd.

(2) O ran CCAUC—

(a) rhaid iddo adolygu'r datganiad yn gyson;

(b) caiff ei ddiwygio.

(3) Cyn cyhoeddi'r datganiad neu ddatganiad diwygiedig, rhaid i CCAUC ymgynghori â'r canlynol—

(a) corff llywodraethu pob sefydliad rheoleiddiedig, a

(b) unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn ei farn ef.

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) llunio'r datganiad (gan gynnwys o ran ei ffurf a'i gynnwys);

(b) ei gyhoeddi;

(c) yr ymgynghoriad sydd i'w gynnal o dan is-adran (3).

(5) Swyddogaethau ymyrryd CCAUC yw ei swyddogaethau o dan y darpariaethau a ganlyn—

(a) adran 11 (cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu);

(b) adran 19 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol);

(c) adran 20(1) a (2) (mesurau eraill mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol);

(d) adran 32 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod);

(e) adran 33(1) a (2) (mesurau eraill mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod);

(f) adran 36 (gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd);

(g) adrannau 37 a 38 (tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad presennol yn ôl).

**50 Gwybodaeth a chyngor sydd i'w rhoi gan CCAUC i Weinidogion Cymru**

(1) Rhaid i CCAUC, os y'i cyfarwyddir i wneud hynny gan Weinidogion Cymru, roi i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(2) Caiff CCAUC roi i Weinidogion Cymru wybodaeth a chyngor arall sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch.

**51 Gwybodaeth a chyngor arall**

(1) Caiff CCAUC—

(a) adnabod arfer da sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch, a

(b) rhoi gwybodaeth a chyngor ynghylch yr arfer hwnnw i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig, neu i gyrff llywodraethu sefydliadau rheoleiddiedig yn gyffredinol.

(2) Wrth arfer ei swyddogaethau, mae corff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig i ystyried unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan CCAUC iddo ef, neu i gyrff llywodraethu yn gyffredinol, o dan is-adran (1)(b).

(3) Caiff CCAUC ddarparu unrhyw wybodaeth a chyngor arall sy'n briodol yn ei farn ef gan roi sylw i'w swyddogaethau a swyddogaethau sefydliadau rheoleiddiedig (ymhlith pethau eraill).

(4) Caiff yr wybodaeth a'r cyngor hynny (ymhlith pethau eraill) ymwneud â'r canlynol—

(a) pwerau a dyletswyddau sefydliadau rheoleiddiedig;

(b) trefnu a rheoli materion ariannol sefydliadau rheoleiddiedig;

(c) effaith cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad.

## RHAN 8

## CYFFREDINOL

**52 Rheoliadau**

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed.

(3) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys (ar ei ben ei hun neu gyda darpariaeth arall) reoliadau o fewn is-adran (4) gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(4) Y rheoliadau o fewn yr is-adran hon yw—

(a) rheoliadau o dan adran 13;

(b) rheoliadau o dan adran 37(2) sy'n diwygio darpariaeth yn y Ddeddf hon;

(c) rheoliadau o dan adran 55 sy'n diwygio neu'n diddymu darpariaeth mewn—

(i) Deddf Seneddol, neu

(ii) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(5) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**53 Cyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru**

O ran cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon—

(a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;

(b) caniateir iddo gael ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd diweddarach.

**54 Dehongli**

(1) Yn y Ddeddf hon—

ystyr "addysg uwch" ("*higher education*") yw addysg a ddarperir drwy gwrs o unrhyw ddisgrifiad a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988;

mae i "annigonol" ("*inadequate*"), mewn perthynas ag ansawdd addysg neu gwrs, yr ystyr a roddir yn adran 18;

ystyr "blwyddyn academaidd" ("*academic year*") yw cyfnod o 12 mis;

mae i "blwyddyn academaidd berthnasol" ("*relevant academic year*"), mewn perthynas â sefydliad y mae cynllun ffioedd a mynediad yn ymwneud ag ef, yr ystyr a roddir yn adran 5;

ystyr "CCAUC" ("*HEFCW*") yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;

mae "corff llywodraethu" ("*governing body*") i'w ddehongli fel a ganlyn—

(a) mewn perthynas â darparwr hyfforddiant na fyddai, oni bai am yr adran hon, yn cael ei ystyried yn sefydliad, ei ystyr yw unrhyw bersonau sy'n gyfrifol am reoli'r darparwr;

(b) mewn perthynas â darparwr a ddynodir o dan adran 3, ei ystyr yw unrhyw bersonau sy'n gyfrifol am reoli'r darparwr;

(c) mewn perthynas ag unrhyw sefydliad arall, mae iddo'r ystyr a roddir i "governing body" gan adran 90(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ond yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir yn rhinwedd adran 90(2) o'r Ddeddf honno;

(d) mewn perthynas â darparwr allanol nad yw'n sefydliad, ei ystyr yw unrhyw bersonau sy'n gyfrifol am reoli'r darparwr;

ystyr "cwrs cymhwysol" ("*qualifying course*") yw cwrs a ragnodir o dan adran 5;

mae i "cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu" ("*compliance and reimbursement direction*") yr ystyr a roddir yn adran 11;

ystyr "cyfle cyfartal" ("*equality of opportunity*") yw cyfle cyfartal mewn cysylltiad â mynediad i addysg uwch;

mae i "cynllun a gymeradwywyd" ("*approved plan*") yr ystyr a roddir yn adran 7;

mae i "cynllun ffioedd a mynediad" ("*fee and access plan*") yr ystyr a roddir yn adran 2;

mae "darpariaethau cyffredinol" ("*general provisions*"), mewn perthynas â chynllun a gymeradwywyd, i'w ddarllen yn unol ag adran 6;

mae i "darparwr allanol" ("*external provider*") yr ystyr a roddir yn adran 17;

ystyr "deddfiad" ("*enactment*") yw darpariaeth sydd wedi ei chynnwys mewn unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) Deddf Seneddol;

(b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

(c) is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr "subordinate legislation" yn Neddf Dehongli 1978 (gan gynnwys is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf Seneddol neu o dan Fesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru);

ystyr "ffioedd" ("*fees*") yw ffioedd ar gyfer neu fel arall mewn cysylltiad ag ymgymryd â chwrs, gan gynnwys ffioedd derbyn, cofrestru, dysgu a graddio, a ffioedd sy'n daladwy i sefydliad am ddyfarnu neu achredu unrhyw ran o'r cwrs, ond ac eithrio—

(a) ffioedd sy'n daladwy am fwyd neu lety;

(b) ffioedd sy'n daladwy am wibdeithiau maes (gan gynnwys unrhyw elfen ddysgu o'r ffioedd hynny);

(c) ffioedd sy'n daladwy am fod yn bresennol mewn unrhyw seremoni raddio neu seremoni arall;

(d) unrhyw ffioedd eraill a ragnodir at ddibenion yr adran hon;

mae i "ffioedd cwrs rheoleiddiedig" ("*regulated course fees*") yr ystyr a roddir yn adran 10;

mae i "ffioedd uwchlaw'r terfyn" ("*excess fees*") yr ystyr a roddir yn adran 11;

ystyr "hysbysiad" ("*notice*") yw hysbysiad ysgrifenedig;

mae i "person cymhwysol" ("*qualifying person*") yr ystyr a roddir yn adran 5;

ystyr "rhagnodedig" ac "a ragnodir" ("*prescribed*") yw rhagnodedig drwy reoliadau;

ystyr "rheoliadau" ("*regulations*") yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

mae "sefydliad" ("*institution*") yn cynnwys unrhyw ddarparwr hyfforddiant (pa un a fyddai'r darparwr hyfforddiant fel arall yn cael ei ystyried yn sefydliad ai peidio);

mae i "sefydliad rheoleiddiedig" ("*regulated institution*") yr ystyr a roddir yn adran 7;

mae i "terfyn ffioedd" ("*fee limit*") yr ystyr a roddir yn adran 5;

mae i "terfyn ffioedd cymwys" ("*applicable fee limit*") yr ystyr a roddir yn adran 10.

(2) Yn is-adran (1), ystyr "darparwr hyfforddiant" yw person sy'n darparu hyfforddiant i aelodau o weithlu'r ysgol (o fewn yr ystyr a roddir i "member of the school workforce" gan adran 100 o Ddeddf Addysg 2005).

(3) At ddibenion y Ddeddf hon, mae cyfeiriadau at sefydliad yng Nghymru—

(a) yn gyfeiriadau at sefydliad y mae ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, a

(b) yn cynnwys y Brifysgol Agored.

**55 Darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc**

(1) Am fân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol, gweler Rhan 1 o'r Atodlen.

(2) Am ddarpariaethau trosiannol, gweler Rhan 2 o'r Atodlen.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud—

(a) unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol neu ganlyniadol, neu

(b) unrhyw ddarpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed,

sy'n briodol yn eu barn hwy o ganlyniad i ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, neu er mwyn rhoi effaith lawn i ddarpariaeth yn y Ddeddf hon.

(4) Mae'r ddarpariaeth y caniateir iddi gael ei gwneud drwy reoliadau o dan yr adran hon yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfiad.

**56 Cychwyn**

(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol—

(a) Rhan 1;

(b) adran 52;

(c) adran 53;

(d) adran 54;

(e) adran 55(3) a (4);

(f) yr adran hon;

(g) adran 57.

(2) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(3) Caiff gorchymyn o dan is-adran (2)—

(a) pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol; a

(b) gwneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed mewn cysylltiad â dyfodiad darpariaeth yn y Ddeddf hon i rym.

**57 Enw byr etc**

(1) Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

(2) Mae'r Ddeddf hon i'w chynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996.

# YR ATODLEN
*(a gyflwynwyd gan adran 55)*

## DARPARIAETH GANLYNIADOL A THROSIANNOL ETC

### RHAN 1

### MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

*Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992*

1 Mae Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

2 (1) Mae adran 70 (asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan sefydliadau) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), yn lle "Each council" rhodder "The Higher Education Funding Council for England".

(3) Yn y teitl, yn lle "Assessment" rhodder "England: assessment".

3 Yn adran 83 (astudiaethau effeithlonrwydd), yn ail golofn y tabl yn is-adran (1B), ar ôl "An institution within the higher education sector" mewnosoder—

"A regulated institution for the purposes of the Higher Education (Wales) Act 2015 (including a provider designated under section 3 of that Act which is treated as being a regulated institution for the purposes of that Act)."

4 (1) Mae adran 91 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (5), ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) universities that are regulated institutions,".

(3) Ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) For the purposes of subsection (5)(aa), a regulated institution is an institution to which an approved plan, within the meaning given in section 7 of the Higher Education (Wales) Act 2015, relates."

*Deddf Addysg 1996*

5 Yn adran 4 o Ddeddf Addysg 1996 (ysgolion: cyffredinol), yn is-adran (4), ar ddiwedd paragraff (c) mewnosoder ", or

(d) a university to which an approved plan, within the meaning given in section 7 of the Higher Education (Wales) Act 2015, relates".

*Deddf Addysg 2002*

6 Yn adran 140 o Ddeddf Addysg 2002 (addysg bellach: cyffredinol), ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

"(4) For the purposes of section 138(3), a university to which an approved plan relates is to be treated (in any case where it would not be so treated but for this subsection) as being a higher education institution.

(5) "Approved plan", in subsection (4), has the meaning given in section 7 of the Higher Education (Wales) Act 2015."

*Deddf Addysg Uwch 2004*

7 Mae Deddf Addysg Uwch 2004 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

8 Yn adran 22 (ystyr "cynllun" etc), ym mharagraff (b), yn lle'r geiriau o "or a" i'r diwedd rhodder "is a reference to a plan approved under section 34."

9 Hepgorer adrannau 27 ac 28.

10 (1) Mae adran 29 (darpariaeth atodol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), hepgorer "or 28".

(3) Yn is-adran (2), hepgorer "or 28(6)".

(4) Yn is-adran (3)—

(a) yn y geiriau sy'n rhagflaenu paragraff (a)—

(i) yn lle ", the Education Act 2002 or the 2005 Act" rhodder "or the Education Act 2002";

(ii) yn lle'r geiriau o ", the Assembly" i "for Wales" rhodder "or the Higher Education Funding Council for England";

(b) hepgorer paragraff (b);

(c) ym mharagraff (c), yn lle'r geiriau o "or 28" i "Councils" rhodder "imposed by the Higher Education Funding Council for England".

(5) Yn y teitl, yn lle "28" rhodder "26".

11 (1) Mae adran 30 (ystyr "yr awdurdod perthnasol") wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), hepgorer paragraff (b) (a'r "and" sy'n ei ragflaenu).

(3) Hepgorer is-adrannau (2) a (3).

12 Yn adran 32 (dyletswyddau cyffredinol awdurdod perthnasol), hepgorer is-adran (4).

13 (1) Mae adran 33 (cynnwys cynlluniau) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2), yn lle "In relation to England, a" rhodder "A".

(3) Hepgorer is-adran (3).

(4) Yn is-adran (4), hepgorer "or (3)".

(5) Yn is-adran (5)—

(a) yn y geiriau sy'n rhagflaenu paragraff (a), hepgorer "or (3)";

(b) ym mharagraff (d), hepgorer y geiriau o "and" i ddiwedd y paragraff.

(6) Yn is-adran (6), hepgorer "or (3)".

(7) Yn is-adran (7)—

(a) yn lle'r diffiniad o "the higher amount" rhodder—

""the higher amount" means the amount from time to time prescribed as the higher amount under section 24(6);";

(b) yn lle'r diffiniad o "qualifying course" a "qualifying person" rhodder—

""qualifying course" and "qualifying person" have the same meaning as in section 24;";

(c) yn lle'r diffiniad o "regulations" rhodder—

""regulations" means regulations made by the Secretary of State."

14 (1) Mae adran 34 (cymeradwyo cynlluniau) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1)(a)—

(a) ar ôl "grants" mewnosoder "from the Higher Education Funding Council for England";

(b) hepgorer "or section 86 of the 2005 Act".

(3) Yn is-adran (7), yn lle'r geiriau o "made" i ddiwedd yr is-adran rhodder "made by the Secretary of State".

15 Yn adran 35 (cyfnod para cynlluniau), yn is-adran (2) hepgorer paragraff (b) (a'r "or" sy'n ei ragflaenu).

16 (1) Mae adran 36 (amrywio cynlluniau) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), hepgorer "or a Welsh approved plan".

(3) Yn is-adran (2), hepgorer paragraff (b) (a'r "or" sy'n ei ragflaenu).

17 Yn adran 37 (gorfodi cynlluniau), yn y teitl hepgorer ": England".

18 Hepgorer adran 38.

19 Yn adran 39 (adolygu penderfyniadau)—

(a) yn y geiriau sy'n rhagflaenu paragraff (a), yn lle ", 37(3)(b) or 38(3)(b)" rhodder "or 37(3)(b)";

(b) ym mharagraff (b), hepgorer is-baragraff (ii) (a'r "or" sy'n ei ragflaenu);

(c) ym mharagraff (c), hepgorer "or the Assembly".

20 Hepgorer adran 40A (darparu adroddiadau etc gan awdurdod perthnasol o ran Cymru).

21 Yn adran 41 (dehongli Rhan 3), yn is-adran (1)—

(a) yn y diffiniad o "fees", ym mharagraff (e), hepgorer is-baragraff (ii) (a'r "or" sy'n ei ragflaenu);

(b) hepgorer y diffiniad o "Welsh approved plan".

*Deddf Addysg 2005*

22 Yn Atodlen 14 i Ddeddf Addysg 2005 (diwygiadau yn ymwneud â hyfforddi gweithlu'r ysgol), hepgorer paragraffau 27 i 29.

*Deddf Llywodraeth Cymru 2006*

23 Yn Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (darpariaethau trosiannol), ym mharagraff 35—

(a) yn is-baragraff (3), yn Nhabl 1 hepgorer y cofnod yn ymwneud ag adran 33(3)(a)(ii) o Ddeddf Addysg Uwch 2004;

(b) yn is-baragraff (4), yn Nhabl 2 hepgorer y cofnodion yn ymwneud ag adrannau 30(1)(b) a 38(2) o'r Ddeddf honno.

*Deddf Addysg 2011*

24 Mae Deddf Addysg 2011 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

25 (1) Mae adran 77 (terfyn ar ffioedd myfyrwyr: cyrsiau rhan-amser) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2), ar y diwedd mewnosoder "by regulations made by the Secretary of State".

(3) Hepgorer is-adran (3).

26 (1) Mae Atodlen 5 (diddymu'r Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu: diwygiadau canlyniadol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer paragraffau 21 a 22.

(3) Ym mharagraff 23, hepgorer paragraffau (a) a (b).

(4) Hepgorer paragraff 27.

RHAN 2

DARPARIAETH DROSIANNOL

*Cynlluniau a gymeradwywyd o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004*

27 Mae paragraff 28 yn gymwys i'r graddau y mae cynllun o dan Ddeddf 2004 yn pennu terfyn nad yw'r ffioedd sy'n daladwy gan berson sy'n berson cymhwysol i fynd uwch ei law, neu'n darparu ar gyfer penderfynu ar y terfyn hwnnw—

(a) mewn cysylltiad â'r person yn ymgymryd â chwrs sy'n gwrs cymhwysol, a

(b) mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sy'n gymwys i'r cwrs ac sy'n dechrau yn ystod y cyfnod trosiannol ("blwyddyn academaidd drosiannol").

28 Mae'r cynllun i'w drin yn ystod y cyfnod trosiannol fel pe bai'n gynllun ffioedd a mynediad sydd wedi ei gymeradwyo o dan adran 7, at ddibenion—

(a) adrannau 10 i 12, 14, 15(1)(a) ac 16;

(b) adrannau 17 i 23;

(c) adran 28(2);

(d) adrannau 48(1)(d), 49(3) a 51(1);

(e) unrhyw ddeddfiad arall, pryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir, a bennir mewn rheoliadau ("deddfiad cymwysedig").

Ond mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan baragraff 30.

29 (1) At y diben hwn—

(a) mae'r cynllun i'w drin fel pe bai wedi ei gymeradwyo o dan adran 7 ar y diwrnod y daw'r paragraff hwn i rym;

(b) mae'r cyfnod, sef y cyfnod trosiannol (gweler is-baragraff (2)), i'w drin fel y cyfnod a bennir yn y cynllun o dan adran 4;

(c) mae'r terfyn a ddarperir gan y cynllun ar gyfer cwrs a blwyddyn academaidd drosiannol i'w drin fel y terfyn ffioedd cymwys ar gyfer y cwrs a'r flwyddyn academaidd o dan sylw;

(d) mae'r sefydliad y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef i'w drin fel pe bai'n sefydliad rheoleiddiedig.

(2) Y cyfnod trosiannol yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r paragraff hwn i rym ac sy'n dod i ben ar 31 Awst 2016.

(3) Mae "cynllun o dan Ddeddf 2004" yn gynllun a gymeradwywyd o ran Cymru, o dan adran 34 o Ddeddf Addysg Uwch 2004, cyn i'r paragraff hwn ddod i rym.

30 (1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch cymhwyso darpariaeth y cyfeirir ati ym mharagraff 28(a) i (d), neu ddeddfiad cymwysedig, i gynllun o dan Ddeddf 2004 yn ystod y cyfnod trosiannol.

(2) Caiff y rheoliadau (ymhlith pethau eraill) ddarparu'r canlynol o ran darpariaeth neu ddeddfiad cymwysedig—

(a) nid yw i fod yn gymwys i gynllun o dan Ddeddf 2004 yn ystod y cyfnod trosiannol, neu

(b) mae i fod yn gymwys gydag addasiadau.

*Aelodau'r Pwyllgor Asesu Ansawdd*

31 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i berson sydd, yn union cyn i adran 25 ddod i rym, yn aelod o'r Pwyllgor Asesu Ansawdd a sefydlwyd gan CCAUC o dan adran 70(1)(b) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ("yr hen bwyllgor").

(2) Pan ddaw adran 25 i rym, daw'r person yn aelod o'r pwyllgor a sefydlir gan CCAUC o dan yr adran honno ("y pwyllgor newydd").

(3) Mae aelodaeth y person o'r pwyllgor newydd—

(a) ar yr un telerau â phenodiad y person i'r hen bwyllgor, a

(b) am gyfnod sy'n gyfatebol i gyfnod y penodiad hwnnw sy'n parhau i fod pan ddaw adran 25 i rym.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bil Addysg Uwch (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol

yn cynnwys
yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol
a'r Nodiadau Esboniadol

Mai 2014

# Bil Addysg Uwch (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Addysg Uwch (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru**.**

## Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Addysg Uwch (Cymru), a gyflwynwyd gennyf i ar 19 Mai 2014, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Huw Lewis AC**

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Yr Aelod Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros y Bil

Mai 2014

# CYNNWYS

## RHAN 1

1. Disgrifiad ........................................ 4
2. Y cefndir deddfwriaethol ........................................ 5
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael ........................................ 6
4. Ymgynghori ........................................ 47
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ........................................ 56

## RHAN 2 - ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr opsiynau ........................................ 73
7. Costau a manteision *gan gynnwys* asesiadau effaith penodol ............. 77
8. Asesiad o'r gystadleuaeth ........................................ 100
9. Adolygu ar ôl gweithredu ........................................ 101

ATODIAD A – Costio ’r opsiynau ........................................ 103

ATODIAD B – Nodiadau esboniadol ........................................ 112

# 1. Disgrifiad

1. Bydd Bil Addysg Uwch (Cymru) yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith rheoleiddio diwygiedig ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Bydd yn cyflawni hyn drwy roi'r swyddogaethau angenrheidiol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), er mwyn iddo allu sicrhau ansawdd darpariaeth addysg uwch; gorfodi rheolaethau ffioedd dysgu a'r gofynion o ran cynlluniau ffioedd; a sefydlu fframwaith ar gyfer trefnu a rheoli materion ariannol darparwyr addysg uwch yng Nghymru y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr.

2. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi gwneud y datganiad canlynol:

> *"Yn fy marn i, wrth ddatblygu darpariaethau Bil Addysg Uwch (Cymru), rhoddwyd sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011"*.

# 2. Y cefndir deddfwriaethol

3. O dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ym Mil Addysg Uwch (Cymru). Mae'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael eu nodi yn adran 108 ac Atodlen 7. Mae paragraff 5 yn Rhan 1 o Atodlen 7 yn nodi'r pynciau canlynol, y caiff y Cynulliad ddeddfu arnynt, a hynny o dan y pennawd ‘Education and Training’. Gweler isod:

> ***Education and Training***
>
> *5. Education, vocational, social and physical training and the careers service. Promotion of advancement and application of knowledge.*
>
> *Exception—*
>
> *Research Councils.*

# 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4. Prif amcanion polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil yw:

   (a) sicrhau trefn reoleiddio gadarn a chymesur ar gyfer sefydliadau yng Nghymru y mae eu cyrsiau'n cael eu cefnogi gan grantiau a benthyciadau Llywodraeth Cymru;

   (b) diogelu'r cyfraniad at les y cyhoedd sy'n deillio o gymhorthdal ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch;

   (c) cynnal ffocws cryf ar fynediad teg at addysg uwch;

   (d) gwarchod a diogelu annibyniaeth prifysgolion a rhyddid academaidd.

5. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflawni'r amcanion hyn drwy:

   (a) sefydlu fframwaith rheoleiddiol newydd sy'n berthnasol i bob darparwr addysg uwch yng Nghymru sydd am i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr;

   (b) sicrhau nad yw'r rheolaethau newydd yn dibynnu ar CCAUC i ddarparu cyllid i'r sefydliadau a'r darparwyr hynny;

   (c) ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr addysg uwch sy'n elwa ar gymorthdal ariannol Llywodraeth Cymru ar ffurf benthyciadau neu grantiau statudol ar gyfer ffïoedd myfyrwyr gael statws elusennol;

   (d) ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch, y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr, ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal o ran mynediad at addysg uwch;

   (e) adeiladu, hyd y gellir gwneud hynny, ar y system bresennol o reolaethau a sefydlwyd gan CCAUC o dan ei delerau ac amodau cyllido.

6. Wrth fynd ati i lunio'r Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau ei bod yn datblygu dull gweithredu sy'n:

   - adlewyrchu'r newidiadau diweddar i'r trefniadau ar gyfer cymorth i fyfyrwyr a chyllido addysg uwch a'r newidiadau parhaus ym maes addysg uwch;
   - cymryd i ystyriaeth yr adborth a geir o ymgyngoriadau;
   - yn gymesur wrth ei gymhwyso ac yn caniatáu i rôl CCAUC fel yr awdurdod perthnasol ar gyfer mynediad teg yng Nghymru barhau gan roi swyddogaethau CCAUC ar sail statudol ddiwygiedig.

***Cyd-destun***

7. Mae addysg uwch yng Nghymru yn cael ei darparu gan wyth prifysgol, y Brifysgol Agored, a phum coleg addysg bellach. Parhau i dyfu y mae nifer yr israddedigion a graddedigion sy'n astudio. Cynyddodd nifer y myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gyrsiau gradd mewn sefydliadau addysg uwch o 92,755 yn 2000/01 i 111,860 yn 2010/11, sef twf o 21%, a bu cynnydd o 60% yn nifer y myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gyrsiau ôl-radd.

8. O flwyddyn academaidd 2012/13, dechreuodd y ffordd o ddyrannu arian cyhoeddus i addysg uwch newid yn sgil gweithredu llawer o argymhellion Adolygiad Browne[1]. Comisiynwyd yr Adolygiad hwnnw gan Lywodraeth y DU ym mis Tachwedd 2009 i ystyried y ffordd ymlaen i drefniadau ariannu addysg uwch yn Lloegr. Y prif newid a gyflwynwyd oedd caniatáu i sefydliadau yn Lloegr godi ffioedd o hyd at £9,000 y flwyddyn, gan sicrhau bod myfyrwyr yn cael ceisio am fenthyciadau i dalu costau'r cynnydd.

9. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i Adolygiad Browne drwy benderfynu caniatáu i'r sefydliadau yng Nghymru, a oedd yn cael arian gan CCAUC, godi eu ffioedd dysgu hefyd, hyd at £9,000 y flwyddyn. Nid oedd y sefydliadau hynny ond yn cael codi ffioedd o dros £4,000 y flwyddyn os oeddent yn gallu dangos eu bod wedi ymrwymo i ehangu mynediad i addysg uwch a gwireddu amcanion polisi cysylltiedig eraill.

10. Hefyd, darparwyd grant ffioedd dysgu, nad oedd yn dibynnu ar brawf modd, ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru, i dalu cost y cynnydd mewn ffioedd dysgu ledled y Deyrnas Unedig. Cafodd yr hawl i'r grant ffioedd dysgu newydd hwn, ochr yn ochr â benthyciad ffioedd dysgu, eu cynnwys yn y set flynyddol o reoliadau cymorth i fyfyrwyr a wnaed gan Weinidogion Cymru. Cafodd y cyfrifoldeb dros gyllid a chymorth i fyfyrwyr ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru o dan ddarpariaethau Deddf Addysg Uwch 2004.

11. Cyn i'r newidiadau a nodir uchod gael eu gweithredu, prif ffynhonnell yr arian cyhoeddus a ddyrannwyd i'r sector addysg uwch yng Nghymru oedd y grantiau rheolaidd (ar gyfer addysgu neu weithgareddau eraill), a fyddai'n cael eu talu gan CCAUC i'r sefydliadau perthnasol. Mae CCAUC yn gweinyddu cronfeydd cyllid a ryddheir gan Weinidogion Cymru ac eraill, gan ddarparu cymorth ariannol ar gyfer sefydliadau ledled Cymru. Mae CCAUC yn cysylltu telerau ac amodau â'r cymorth ariannol hwn, sy'n ymwneud ymhlith pethau eraill â lefel y ffioedd a godir gan sefydliadau, ansawdd yr addysg a ddarperir ganddynt, a'u trefniadau rheoli ariannol. Felly, y prif ddull o reoleiddio'r sector addysg uwch yng Nghymru yw gweinyddu a gorfodi'r telerau a'r amodau sy'n ymwneud â derbyn arian gan CCAUC.

[1] **Adolygiad Annibynnol o Gyllid** i **Addysg Uwch** a **Chyllid i Fyfyrwyr, 12 Hydref 2010**

**http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/hereview.independent.gov.uk/hereview/**

12. Yn sgil cyflwyno'r grant ffioedd dysgu nad yw'n dibynnu ar brawf modd, cafodd yr arian o roddid yn y gorffennol i CCAUC, ac wedyn a ddyrennid gan CCAUC i sefydliadau yng Nghymru, ei ailgyfeirio i gyllideb cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru. Mae'r cymorth ariannol y mae CCAUC yn ei roi i sefydliadau yng Nghymru wedi lleihau, ac yn sgil hynny mae gallu CCAUC i gysylltu telerau ac amodau â'r cymorth hwnnw wedi lleihau. O ganlyniad, ni fydd y gyfundrefn reoleiddio addysg uwch, sy'n dibynnu ar allu CCAUC i orfodi telerau ac amodau mewn perthynas â rheolaethau ffioedd, ansawdd addysg a threfniadau rheoli ariannol, yn gweithredu'n effeithiol bellach.

13. Oherwydd hynny, pwrpas y Bil yw cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer rheoleiddio addysg uwch yng Nghymru, nad yw'n dibynnu ar y telerau a’r amodau sydd ynghlwm â’r cymorth ariannol rheolaidd a roddir gan CCAUC. Y bwriad yw i’r Bil roi nifer o swyddogaethau statudol newydd i CCAUC er mwyn ei alluogi i fonitro, mewn modd effeithiol, lefelau'r ffioedd a godir, ansawdd yr addysg a ddarperir, a threfniadau rheoli ariannol y sefydliadau sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru.

***Cefndir – ariannu addysg uwch***

14. Yn ôl Swyddfa Archwilio Cymru[2], mae iechyd ariannol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru[3] yn gadarn ar y cyfan, a rhagwelir y bydd cyfanswm incwm y sector yn tyfu. Y sefyllfa ym mis Gorffennaf 2012 oedd bod sefydliadau'n amcangyfrif y byddai incwm yn parhau'n gyffredinol wastad yn nhermau arian parod rhwng 2011/12 a 2012/13, oddeutu £1.26 biliwn, cyn cynyddu i £1.45 biliwn yn 2015/16. Mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau yng Nghymru lefelau cryf o adnoddau arian parod o gymharu â'u gwariant. Hefyd mae gan sefydliadau lefelau cryf o adnoddau wrth gefn i'w defnyddio yn ôl disgresiwn.

15. Mae sefydliadau hefyd wedi amcangyfrif y bydd eu hincwm o grantiau yn 2015/16 £226 miliwn yn llai nag yr oedd yn 2011/12; ond maent yn disgwyl i'r incwm o ffioedd dysgu fod £375 miliwn yn uwch yn 2015/16 nag yr oedd yn 2011/12. Y newid hwn yn y trefniadau ariannu yw'r prif reswm dros gyflwyno'r Bil hwn, ac fe ddychwelir at hyn eto isod.

16. Mae'r sector hwn yn bwysig yn economaidd. Mae amcangyfrifon[4] yn awgrymu bod sefydliadau addysg uwch Cymru yn cael oddeutu £413 miliwn mewn enillion allforio, a chyfanswm o ran allbwn (wedi ei luosi) o £3 biliwn. Mae nifer y swyddi a grëir yn uniongyrchol gan sefydliadau addysg uwch yn cyfateb i 16,000 o swyddi amser llawn, a chynhyrchir nifer ychwanegol sy'n cyfateb i 17,500 o swyddi amser llawn y tu allan i'r sector.

[2] Cyllid addysg uwch, Swyddfa Archwilio Cymru, Tachwedd 2013.

[3] Ac eithrio'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

[4] The Economic Impact of Higher Education in Wales, Viewforth Consulting, Ltd, Mehefin 2013.

## *Y fframwaith presennol ar gyfer rheoleiddio addysg uwch*

17. Sefydlwyd CCAUC, sef Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, o dan ddarpariaethau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Ei brif swyddogaeth hyd yn hyn yw gweinyddu cyllid a ddarperir gan Weinidogion Cymru ac eraill at ddibenion darparu cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau sy'n gymwys i dderbyn cyllid o dan adran 65 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac adran 86 o Ddeddf Addysg 2005. Mae'r gweithgareddau hyn yn ymwneud yn bennaf â darparu addysg uwch, hyfforddi athrawon, a gweithgareddau eraill sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a hefyd maent yn cynnwys darparu cyrsiau addysg uwch penodol gan sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Mae swyddogaethau presennol CCAUC yn cael eu nodi'n bennaf yn Rhan 2 ac Atodlen 1 o Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 a Rhan 3 o Ddeddf Addysg 2005. Yn ogystal, mae gan CCAUC swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 o ran gorfodi a chymeradwyo cynlluniau ffioedd fel y nodir isod.

18. Ar hyn o bryd, rheoleiddir addysg uwch a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru drwy ddefnyddio a gorfodi telerau ac amodau sydd ynghlwm wrth grantiau addysgu a grantiau eraill a ddyrennir i sefydliadau gan CCAUC. Mae tair elfen i'r fframwaith rheoleiddio addysg uwch, sef asesu ansawdd addysg a ddarperir gan sefydliadau; gorfodi cyfyngiadau ar ffioedd dysgu ac ymrwymiadau o ran cynlluniau ffioedd; ac edrych ar sicrwydd ariannol sefydliadau. Mae'r sancsiynau y gellir eu gweithredu, pan na fydd sefydliad yn cydymffurfio â thelerau ac amodau CCAUC, yn ymwneud â gwrthod rhoi (neu fygwth gwrthod rhoi) arian grant yn bennaf.

### *Asesu ansawdd*

19. Mae'n ddyletswydd statudol ar CCAUC, o dan adran 70 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud i asesu ansawdd yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau y mae CCAUC yn darparu cymorth ariannol ar gyfer eu gweithgareddau, neu'n ystyried gwneud hynny. Mae CCAUC yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy gytundeb lefel gwasanaeth â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, ac mae wedi gorfodi gofynion penodol o ran ansawdd addysg uwch drwy osod telerau ac amodau mewn perthynas â darparu cyllid[5]. Hefyd, mae'n ofynnol i CCAUC sefydlu pwyllgor asesu ansawdd y mae mwyafrif ei aelodau'n dod o'r tu allan i CCAUC.

## *Rheolaethau ffioedd dysgu, cynlluniau ffioedd a mynediad teg*

20. Mae Deddf Addysg Uwch 2004 yn amlinellu'r mecanwaith ar gyfer rheoli ffioedd dysgu yng Nghymru. Rhoddir cap ar ffioedd dysgu y gofynnir i rai myfyrwyr eu talu ar gyfer cyrsiau penodol mewn sefydliadau sy'n cael cyllid gan CCAUC, ac ni chaiff y ffi godi'n uwch na'r cap hwnnw. Cyflawnir hyn drwy gysylltu telerau ac amodau perthnasol i'r cyllid y mae CCAUC yn ei ddyrannu i sefydliadau. Mae'r system hon o

[5] Cylchlythyr Canllawiau CCAUC W12/16HE: Unsatisfactory Quality Procedures Mai 2012

reoleiddio ffioedd dysgu yng Nghymru wedi bod ar waith ers blwyddyn academaidd 2012/13.

21. Ym mis Mawrth 2011, dynododd Gweinidogion Cymru CCAUC fel y corff â chyfrifoldeb statudol dros gymeradwyo a gorfodi cynlluniau ffioedd yng Nghymru[6]. Mae'n ofynnol i bob sefydliad, sy'n cael cyllid gan CCAUC, ac sy'n awyddus i godi ffioedd o dros £4,000 y flwyddyn am gyrsiau llawnamser i is-raddedigion, sicrhau bod ganddynt gynllun ffioedd cymeradwy.

22. Os oes gan sefydliad gynllun ffioedd cymeradwy, caiff y sefydliad hwnnw godi ffioedd dysgu ar rai myfyrwyr (myfyrwyr cymhwysol) sy'n dilyn cyrsiau penodol (cyrsiau cymhwysol) hyd at swm uwch, sef £9,000 y flwyddyn ar hyn o bryd. Os nad oes gan y sefydliad gynllun cymeradwy, ni chaiff y sefydliad ond codi ffioedd dysgu ar y myfyrwyr hynny, sy'n dilyn y cyrsiau penodol, hyd at y swm sylfaenol, sef £4,000 y flwyddyn ar hyn o bryd. Mae'r symiau sylfaenol ac uwch hyn yn cael eu pennu mewn rheoliadau[7] a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 28 o Ddeddf Addysg Uwch 2004. O ran cyrsiau cymhwysol, mae hynny'n golygu na chaiff y ffioedd cymwys (sef y ffioedd sy'n daladwy gan berson cymhwysol sy'n dilyn cwrs cymhwysol) fod yn fwy na'r swm sylfaenol ynteu'r swm uwch, fel sy'n berthnasol.

23. Mae'n rhaid i sefydliadau sy'n awyddus i godi ffioedd sy'n uwch na'r swm sylfaenol sicrhau cyfle cyfartal o ran mynediad i addysg uwch. Mae'r drefn hon wedi ei gweithredu drwy ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau lunio cynlluniau ffioedd a'u cyflwyno i CCAUC eu cymeradwyo. Rhaid i gynlluniau ffioedd sefydliadau gynnwys mesurau, megis gweithgarwch codi pontydd a chymorth ariannol, ar gyfer hyrwyddo addysg uwch a chyfle cyfartal mewn perthynas â mynediad at addysg uwch. Mae gallu CCAUC i orfodi ymrwymiadau mewn perthynas â chynlluniau ffioedd wedi bod yn seiliedig ar delerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r cyllid y mae CCAUC yn ei ddyrannu i sefydliad.

### *Sicrwydd ariannol*

24. Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn cyflawni ei waith o ran sicrwydd ariannol drwy orfodi sefydliadau i ymrwymo i gadw at amodau cyllido. Ymhlith pethau eraill, mae'r ymrwymiadau hyn yn ymwneud â rheoli ariannol, gweithgarwch rheoli risgiau, gwybodaeth am ymrwymiadau ariannol, a chyfrifon a gwybodaeth ariannol arall.

25. Mae gofynion CCAUC o ran trefniadau rheoli ariannol sefydliadau hefyd wedi bod yn cael eu gweithredu drwy bennu amodau mewn perthynas â'r cyllid. Caiff yr amodau hyn eu cynnwys yn y memoranda ariannol rhwng CCAUC a sefydliadau unigol[8].

---

[6] Gweler Rheoliadau Deddf Addysg Uwch 2004 (Awdurdod Perthnasol) (Dynodi) (Cymru) 2011 (OS 2011/658 (Cy 96))

[7] Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011 (OS 2011/885 (Cy 129))

[8] W08/36HE Revised Financial Memorandum and Audit Code of Practice, HEFCW, 2008. http://www.hefcw.ac.uk/working_with_he_providers/institutional_assurance/institutional_assurance_cy.aspx

***Cyllid addysg uwch a chymorth statudol i fyfyrwyr***

26. Yn sgil y cynnydd mewn ffioedd dysgu o flwyddyn academaidd 2012/13, cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau newydd ar gyfer rhoi cymorth i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru fel arfer. O ganlyniad i'r newid hwn, bydd y gyfran o'r incwm, y mae sefydliadau'n ei chael o'r cymorth ffioedd dysgu sy'n dod o Lywodraeth Cymru, yn cynyddu'n gyson dros gyfnod o amser, a bydd gostyngiad cyfatebol yn yr incwm a geir o grantiau CCAUC. Nid yw'r math hwn o gymorth ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr cymhwysol yn rhan o'r drefn y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio i roi cyllid i CCAUC i'w ddyrannu i sefydliadau at ddibenion cyllido addysg uwch.

27. Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa fel y'i hamcangyfrifir.

**Tabl 1: Dyrannu cyllid addysg uwch**

| Blwyddyn ariannol | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** |
|---|---|---|---|---|
| | £m | | | |
| Dyraniad CCAUC fel y'i hamcangyfrifir * | 373.4 | 380.0 | 362.0 | 360.0 |
| Y grant ffioedd dysgu sy'n daladwy ** | 47.8 | 127.0 | 186.0 | 219.0 |
| Yn weddill i CCAUC ei ddyrannu ar gyfer blaenoriaethau eraill | 325.6 | 253.0 | 176.0 | 141.0 |
| | % | | | |
| Y gyfran o ddyraniad CCAUC a delir fel grantiau ffioedd dysgu | 12.8 | 33.4 | 51.4 | 60.1 |

*Mae'r ffigurau ar gyfer 12-13 ac 13-14 yn cynnwys trosglwyddiadau o fewn y flwyddyn o Lywodraeth Cymru i CCAUC. Nid oes unrhyw amcangyfrifon wedi eu cynnwys yng ngwerth y trosglwyddiadau hyn o 2014-15.

**Ar sail rhagdybiaeth y bydd y gyfradd ddefnyddio yn 100%. Mae ffigurau gwirioneddol wedi eu cynnwys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13.

28. Er ei bod yn debygol y bydd rhywfaint o'r arian sy'n weddill yn parhau i gael ei ddyrannu gan CCAUC o 2015-16 ymlaen, nid oes modd gwarantu y bydd pob sefydliad sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru yn cael rhan o'r cyllid hwn. Felly, mae'n bosibl y bydd yna rai sefydliadau na fyddant o dan orfodaeth i gadw at unrhyw delerau ac amodau a osodir gan CCAUC, ac felly ni fyddant o dan unrhyw rwymedigaeth i gydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddio presennol.

29. Hyd yn oed os bydd sefydliad yn cael rhan o unrhyw arian sy'n weddill, mae’n bosibl y bydd y symiau dan sylw yn gymharol fach. O'r herwydd, gallai fod yna berygl y gallai sefydliad wrthod cyllid gan CCAUC er mwyn osgoi'r hyn y mae’n ei weld fel gorfodaeth i gadw at rwymedigaethau cymharol drafferthus sy’n deillio o delerau ac amodau CCAUC. Mae'n bosibl hefyd y bydd unrhyw arian sy'n weddill yn cael ei ddyrannu ar gyfer gweithgareddau penodol y bydd sefydliadau’n awyddus i’w cyflawni, megis prosiectau ymchwil neu brosiectau sy'n ymwneud ag ystadau. Mewn sefyllfa o’r fath, nid yw'n glir a fyddai'n rhesymol i CCAUC orfodi telerau ac amodau cyffredinol sy'n ymwneud â darparu addysg ar y sefydliadau perthnasol.

30. Rhaid i gyrsiau addysg uwch fod wedi eu dynodi gan Weinidogion Cymru er mwyn i fyfyrwyr allu gael cymorth i fyfyrwyr. Gallai cyrsiau gael eu dynodi'n *awtomatig* neu'n *benodol*, fel yr amlinellir isod. Mae swm a natur y cymorth sydd ar gael yn adlewyrchu'r gwahanol ofynion rheoleiddiol. Yr hyn sydd ar gael ar gyfer 2013/14 yw:

- hyd at £9,000 (benthyciad ffioedd dysgu o hyd at £3,465 a grant ffioedd dysgu o hyd at £5,535) ar gyfer cyrsiau a ddynodir yn awtomatig; a
- hyd at £6,000 (benthyciad ffioedd dysgu yn unig) ar gyfer cyrsiau a ddynodir yn benodol.

31. Mae system ddwy-haen ar waith mewn perthynas â'r rheolaethau rheoleiddiol a ddefnyddir ar gyfer y cyrsiau addysg uwch a ddynodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr. O dan y trefniadau presennol:

- Mae cyrsiau perthnasol[9] mewn sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus (*hy* sefydliadau a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd o gyllid cyhoeddus) yn cael eu dynodi'n awtomatig at y diben hwn;
- Caiff darparwyr preifat (sef y rheini nad ydynt yn cael eu cynnal na'u helpu gan grantiau rheolaidd o gyllid cyhoeddus) wneud cais i ddynodi cyrsiau penodol.

32. O dan y trefniadau presennol, mae'r holl gyrsiau addysg uwch perthnasol a ddarperir gan sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus yn cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr. Mae’r rhan fwyaf o’r ddarpariaeth hon yn ddarostyngedig i reolaethau ffioedd, ynghyd â gofynion asesu ansawdd a sicrwydd ariannol, a weithredir drwy’r telerau a’r amodau sydd ynghlwm â'r cyllid a roddir gan CCAUC.

33. Nid oes darpariaeth o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol sy’n galluogi CCAUC i reoleiddio'r darparwyr addysg uwch hynny sy'n gweithredu yng Nghymru ond nad ydynt yn cael cyllid gan CCAUC. Mae'n bosibl i'r math hwn o ddarparwr (gan gynnwys nifer o sefydliadau addysg bellach) gael ei gyrsiau wedi eu dynodi at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr, ac felly gall grantiau a benthyciadau a gefnogir

[9] Ar gyfer blwyddyn academaidd 2013/14, caiff y cyrsiau hyn eu rhestru yn Atodlen 2 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2012 (OS 2012/3097) (Cy 313) , fel y'u diwygiwyd gan OS 2013/765 (Cy 91) ac OS 2013/1965 (Cy 190).

gan Lywodraeth Cymru eu helpu gyda'u costau darparu, heb fod hynny'n ddarostyngedig i'r fframwaith rheoleiddio.

34. Mewn gwrthgyferbyniad, nid yw cyrsiau addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr nad ydynt yn cael eu hariannu'n gyhoeddus (gan gynnwys y rheini sy'n gwneud elw a sefydliadau elusennol) yn gymwys i gael eu dynodi'n awtomatig ar hyn o bryd. Rhaid i'r math hwnnw o sefydliad wneud cais i Lywodraeth Cymru os ydynt am i gwrs gael ei ddynodi, a byddai hynny'n digwydd wedyn fesul achos o dan y broses dynodi cyrsiau penodol. Bach iawn o oruchwyliaeth reoleiddiol sydd ar waith mewn perthynas â chyrsiau a ddynodir yn benodol, ac nid yw'n cynnwys asesu ansawdd na sicrwydd ariannol y darparwr. Bwriad Llywodraeth Cymru yw diwygio'r trefniadau ar gyfer dynodi cyrsiau'n benodol maes o law. Ni fydd y diwygiadau hynny'n golygu y bydd angen cyflwyno newidiadau i'r ddeddfwriaeth sylfaenol.

35. I grynhoi, o ganlyniad i'r trefniadau newydd ar gyfer ffioedd dysgu a chymorth i fyfyrwyr, mae'r cysylltiadau ariannol rhwng CCAUC a sefydliadau wedi gwanhau. Er bod cwantwm cyffredinol y cyllid sydd ar gael i CCAUC wedi lleihau, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol tuag at y costau o ddarparu addysg uwch yng Nghymru, a hynny drwy'r grantiau a'r benthyciadau ffioedd dysgu y mae'r Llywodraeth yn eu cefnogi. Mae'r newid hwn yn y trefniadau ariannu yn golygu na fydd y fframwaith rheoleiddio presennol, sy'n seiliedig ar yr amodau cyllido a orfodir gan CCAUC, yn gallu gweithredu bellach yn unol â'i bwrpas gwreiddiol. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i reoleiddio'r addysg uwch a ddarperir gan sefydliadau, neu ar eu rhan, er mwyn diogelu buddiant y cyhoedd, a bydd y Bil yn rhoi sylw i'r mater hwn.

***Ar bwy y mae'r Bil yn effeithio?***

36. Bydd y Bil yn diwygio, yn diddymu ac yn disodli rhai o swyddogaethau cyfredol CCAUC. Mae darpariaethau'r Bil yn adeiladu ar swyddogaethau CCAUC yn sgil Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg Uwch 2004 gan gyfuno ac ailwampio'r swyddogaethau hynny yng nghyd-destun y fframwaith rheoleiddio newydd. Bydd yn berthnasol yn bennaf i sefydliadau sydd â chynllun ffioedd a mynediad yn ei le a gymeradwywyd yng Nghymru ("sefydliadau a reoleiddir"). Ymhlith pethau eraill, bydd gofyn i CCAUC ddatblygu ac ymgynghori ar ddatganiad o bolisi ymyrryd a chod yn ymwneud â threfnu a rheoli materion ariannol sefydliadau a reoleiddir, a'u cyhoeddi. Bydd CCAUC hefyd yn cael pwerau gorfodi newydd ac ystod o sancsiynau ymyrryd i'w cymhwyso pan fydd sefydliad a reoleiddir yn methu â chydymffurfio â gofynion rheoleiddio.

37. Bydd y darpariaethau a geisir yn y Bil ar gyfer cymeradwyo cynlluniau ffioedd a mynediad yn cyd-fynd â newidiadau i'r trefniadau ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch yn awtomatig fel yr amlinellir yn y gyfres flynyddol o reoliadau cymorth i fyfyrwyr a wneir gan Weinidogion Cymru. Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar bob darparwr addysg uwch y mae eu gweithgareddau'n cael eu cynnal yn llwyr neu'n bennaf yng Nghymru ac sy'n dymuno i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr. Bydd gofyn i bob sefydliad o'r fath wneud cais i CCAUC gymeradwyo cynllun ffïoedd a mynediad. I elwa ar y manteision a geir yn sgil dynodi

cyrsiau'n awtomatig, bydd angen i sefydliadau gytuno i gydymffurfio â gofynion cynllun ffioedd a mynediad a'r gofynion rheoleiddio eraill a amlinellir yn y Bil.

38. Yn ogystal, bydd buddiannau myfyrwyr, trethdalwyr a chymdeithas Cymru yn cael eu diogelu gan reolaethau cadarn sy'n sicrhau bod terfynau ffioedd ac ymrwymiadau cynllun ffioedd a mynediad yn cael eu gorfodi, ac sydd hefyd yn rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd yr addysg a'r modd y caiff materion ariannol sefydliad a reoleiddir eu trefnu a'u rheoli.

***Cynllun cyflawni***

39. Mae prif elfennau'r fframwaith rheoleiddio newydd wedi’u hamlinellu yn y Bil a byddant yn cychwyn naill ai ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol neu yn unol â'r gorchmynion cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, mae'r Bil yn darparu nifer o bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod y pwerau hyn yn hanfodol er mwyn: (a) rhagnodi materion gweithdrefnol a (b) darparu ar gyfer hyblygrwydd yn y dyfodol o ran materion a allai newid o bryd i'w gilydd.

40. Mae'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth wedi'u crynhoi yn adran 5 y Memorandwm hwn. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar yr is-ddeddfwriaeth lle bo’n briodol. Penderfynir ar union natur yr ymgynghoriad pan fydd y cynigion wedi’u ffurfioli.

41. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru allu dosbarthu canllawiau i CCAUC mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau o dan y Bil. Bydd yn rhaid i CCAUC ddilyn canllawiau o'r fath ac mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymgynghori â CCAUC cyn rhoi’r canllawiau a'i helpu i weithredu'r fframwaith rheoleiddio newydd yn llwyddiannus.

42. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC baratoi ac ymgynghori ar ddatganiad o'i bolisi ymyrryd a chod rheolaeth ariannol newydd, a'u cyhoeddi a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae Llywodraeth Cymru’n bwriadu gweithredu'r fframwaith rheoleiddio newydd yn raddol er mwyn rhoi amser i CCAUC ymgynghori ar y datganiad o'i bolisi ymyrryd a pharatoi ac ymgynghori ar y cod rheolaeth ariannol. Bydd y broses weithredu'n dechrau o flwyddyn academaidd 2015/16 ymlaen. Hynny gan gymryd y bydd Cydsyniad Brenhinol wedi'i roi yn gynnar yn 2015 ac is-ddeddfwriaeth yn cael ei wneud yn ystod 2015 er mwyn trosglwyddo i'r system reoleiddio newydd yn ystod 2016 mewn pryd ar gyfer cychwyn y Bil yn llawn ym mlwyddyn ariannol 2016/17. Ystyrir bod angen gweithredu'n raddol er mwyn trosglwyddo i'r fframwaith rheoleiddio newydd yn ddidrafferth.

***Trefniadau pontio***

43. Mae'r Bil yn rhan o'r diwygiadau ehangach i gyllid addysg uwch a chyllid myfyrwyr a gyflwynwyd yng Nghymru o 2012/13 ymlaen. Mae'r broses o drosglwyddo i'r trefniadau cyllido newydd wedi'i chwblhau i bob pwrpas ac mae'r pecyn cymorth i fyfyrwyr ar gyfer astudio'n llawnamser bellach wedi’i sefydlu. Er y bydd y trefniadau o ran cymorth i fyfyrwyr ar gyfer astudio'n rhan-amser yn cael eu hystyried

ymhellach, ni fyddant yn rhan o gwmpas cynlluniau ffioedd a mynediad hyd nes bod ffioedd dysgu wedi'u rheoleiddio ar gyfer cyrsiau rhan-amser, ac felly ni fydd sefydliadau sydd ond yn darparu cyrsiau rhan-amser yn ddarostyngedig i'r fframwaith rheoleiddio newydd.

44. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen trefniadau pontio ar gyfer cynlluniau ffioedd a gymeradwyir gan CCAUC o dan y ddeddfwriaeth bresennol, gan y bydd y cynlluniau hynny mewn grym yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16. Felly, mae'r Bil yn darparu bod sefydliadau sydd â chynllun ffioedd a gymeradwywyd gan CCAUC o dan y drefn bresennol yn cael eu trin, at ddibenion penodol, fel sefydliadau a reoleiddir o dan y Bil yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16.

45. Er mwyn sicrhau tryloywder a thegwch, dim ond rhai elfennau o'r fframwaith rheoleiddio fydd yn gymwys yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi terfynau ffioedd fel y cymeradwywyd gan CCAUC mewn cynlluniau ffioedd sy'n berthnasol i flwyddyn academaidd 2015/16, ac i CCAUC allu cyfarwyddo sefydliadau i fynd i'r afael ag achosion o ansawdd annigonol yn ystod y cyfnod pontio. Fodd bynnag, ni fydd pwerau gorfodi llawn CCAUC yn cychwyn tan flwyddyn academaidd 2016/17 pan fydd pob sefydliad yn cael cyfle i wneud cais newydd i CCAUC am gymeradwyaeth ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad newydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17.

***Risgiau os na chaiff y ddeddfwriaeth ei gwneud***

46. Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn ymwneud ag ariannu a rheoleiddio addysg uwch yn ddigonol bellach i ganiatáu i CCAUC orfodi terfynau ffioedd dysgu ac ymrwymiadau cynlluniau ffioedd, neu gymryd camau os yw ansawdd yr addysg neu reolaeth ariannol y sefydliadau'n anfoddhaol. Mae cyflwyno'r fframwaith rheoleiddio newydd yn ganlyniad angenrheidiol i'r newidiadau diweddar a wnaed i gyllid addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr yng Nghymru, a oedd yn ymateb i'r cynnydd yn lefelau'r ffioedd dysgu ar draws y DU.

47. Byddai methu â deddfu yn y maes hwn yn golygu na fyddai modd gorfodi trefniadau rheoleiddio ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Ni fyddai CCAUC yn gallu rhoi sicrwydd i Weinidogion Cymru, trethdalwyr a myfyrwyr bod sefydliadau sy'n cynnig cyrsiau a ddynodwyd at ddibenion cymorth i fyfyrwyr (ac sy'n cael cyllid sylweddol gan Weinidogion Cymru drwy grantiau a benthyciadau ffioedd dysgu i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru) yn ddarostyngedig i derfynau ffioedd a gofynion cynllun ffioedd. Gallai hyn gael effaith andwyol ar fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau yng Nghymru.

48. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod enw da'r sector addysg uwch yng Nghymru yn gwbl allweddol, ac y byddai methu â gwneud darpariaeth ar gyfer parhau i asesu ansawdd addysg uwch yng Nghymru yn ei niweidio. Heb y ddeddfwriaeth arfaethedig mae perygl na fyddai modd gorfodi trefniadau asesu ansawdd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Gallai hyn arwain at ganlyniadau negyddol i ddysgwyr a sefydliadau a niweidio enw da sector addysg uwch Cymru.

49. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol i ddiwygio swyddogaethau presennol CCAUC a hefyd i wneud y darpariaethau angenrheidiol i gyflwyno fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer addysg uwch sy'n addas at y diben yng nghyd-destun y trefniadau a gyflwynwyd o 2012/13 ymlaen ar gyfer cyllid addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr.

***Rhychwant tiriogaethol***

50. Mae'r Bil yn gymwys o ran Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ceisio Gorchymyn o dan Adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer rheoleiddio cyrsiau a ddarperir yn Lloegr gan sefydliadau yng Nghymru.

***Trosolwg o'r Bil***

51. Mae'r Bil yn ei gwneud yn bosibl i CCAUC barhau i arfer rheolaethau ar addysg a ddarperir yng Nghymru gan sefydliadau penodol heb ddibynnu ar ddarparu cymorth ariannol i'r sefydliadau hynny. Bydd angen i sefydliadau yng Nghymru sy'n dymuno i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr fod â chynllun ffioedd a mynediad ar waith a gymeradwywyd gan CCAUC. Yn ogystal, bydd sefydliadau yng Nghymru sydd â chynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd yn ddarostyngedig i ofynion y fframwaith rheoleiddio newydd.

52. Bydd CCAUC yn parhau i fonitro a gorfodi'r ymrwymiadau a wnaed gan sefydliadau a reoleiddir yn eu cynlluniau ffioedd a mynediad. Bydd hyn yn cynnwys monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â therfynau ffioedd. Yn ogystal, bydd CCAUC yn parhau'n ddarostyngedig i ddyletswydd i sicrhau bod ansawdd addysg yn cael ei asesu. Bydd y ddyletswydd honno'n berthnasol i gyrsiau a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau a reoleiddir.  Bydd CCAUC hefyd yn parhau i allu rhoi sicrwydd ynghylch trefniadau rheolaeth ariannol sefydliadau a reoleiddir. Bydd gorfodaeth ar sefydliadau a reoleiddir i gydymffurfio â gofynion cod rheolaeth ariannol newydd yn lle'r memorandwm ariannol presennol rhwng CCAUC a'r sefydliadau y mae'n eu hariannu.

53. Bydd nifer o'r rhwymedigaethau y bydd y Bil yn eu rhoi ar sefydliadau a reoleiddir yn debyg i'r rheini a orfodir gan CCAUC ar hyn o bryd drwy delerau ac amodau cyllido. Er enghraifft, bydd sefydliadau a reoleiddir yn gallu pennu eu ffioedd dysgu eu hunain hyd at uchafswm y bydd Gweinidogion Cymru'n ei ragnodi mewn rheoliadau. Bydd yn ofynnol i sefydliadau a reoleiddir gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol eu cynlluniau ffioedd a mynediad a darparu gwybodaeth i CCAUC er mwyn monitro eu cydymffurfiaeth â'r ymrwymiadau a wnaed yn y cynlluniau hynny.

54. Bydd y fframwaith rheoleiddio newydd yn wahanol i'r fframwaith presennol mewn sawl ffordd. Er enghraifft, bydd sefydliadau yng Nghymru (sefydliadau y mae eu gweithgareddau'n cael eu cynnal yn llwyr neu'n bennaf yng Nghymru) sydd am wneud cais i gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad yn gorfod dangos eu bod yn elusennau. Hefyd, bydd yn ofynnol i sefydliadau a reoleiddir gynnwys darpariaeth yn eu cynlluniau ffioedd a mynediad ar gyfer cymryd mesurau i gadw myfyrwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch. Yn ogystal, bydd angen i'r sefydliadau a reoleiddir gynnwys darpariaethau yn eu cynlluniau ffioedd a mynediad

sy'n amlinellu gwybodaeth am yr incwm ffioedd y maent yn bwriadu ei wario ar gyflawni amcanion y cynllun.

55. Mae'r Bil yn cryfhau swyddogaethau monitro a gorfodi CCAUC. Er enghraifft, mae'r Bil yn rhoi swyddogaeth benodol i CCAUC i werthuso effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd a mynediad. Gall CCAUC ddefnyddio eu canfyddiadau i ddatblygu gwybodaeth a chyngor ar arfer da. Yn ogystal, mae'r Bil yn ei gwneud yn bosibl i CCAUC, mewn amgylchiadau penodol, gyfarwyddo sefydliad a reoleiddir i gydymffurfio â therfyn ffioedd fel y nodwyd yng nghynllun y sefydliad a/neu ad-dalu ffioedd dysgu a dalwyd iddo os yw'r ffioedd hynny'n uwch na'r terfyn. Hefyd, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC fonitro neu wneud trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth sefydliadau a reoleiddir â'r cod rheolaeth ariannol newydd. Mae'r Bil yn galluogi CCAUC, mewn amgylchiadau penodol, i gyfarwyddo sefydliad a reoleiddir i gymryd camau i fynd i'r afael ag addysg o ansawdd annigonol neu i ymdrin â methiant i gydymffurfio â gofynion y cod rheolaeth ariannol. Os bydd angen, bydd CCAUC yn gallu gorfodi'r cyfarwyddiadau hynny drwy wneud cais i'r llysoedd am waharddeb. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pŵer i CCAUC dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad, yn amodol ar fodloni amodau penodol.

56. Bydd y Bil yn rhoi swyddogaethau ychwanegol i CCAUC. Er enghraifft, bydd y Bil yn rhwymo CCAUC i baratoi ac ymgynghori ar god yn ymwneud â threfnu a rheoli materion ariannol sefydliadau a reoleiddir, a'i gyhoeddi a'i adolygu'n rheolaidd. Bydd angen i sefydliadau a reoleiddir gydymffurfio â'r gofynion a orfodir gan y cod. Mae'r Bil hefyd yn rhoi swyddogaethau i CCAUC a fydd yn cynyddu tryloywder y system reoleiddio. Er enghraifft, bydd gofyn i CCAUC adrodd i Weinidogion Cymru yn flynyddol ar y modd y mae wedi arfer ei swyddogaethau o dan y Bil. Mae'r Bil yn ei gwneud yn bosibl i Weinidogion Cymru gyfarwyddo CCAUC i ddarparu adroddiadau arbennig ar y modd y mae sefydliadau a reoleiddir yn cydymffurfio â'u cynlluniau a gymeradwywyd, a hefyd ar effeithiolrwydd y cynlluniau hynny'n unigol ac ar lefel y sector. Yn ogystal, bydd gofyn i CCAUC baratoi ac ymgynghori ar ddatganiad ar sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau ac felly ymyrryd mewn perthynas â gweithgareddau rheoleiddiedig sefydliadau, a'i gyhoeddi a'i adolygu'n rheolaidd. Bydd gofyn i CCAUC hefyd gyhoeddi unrhyw hysbysiad y mae'n ei roi i sefydliad na fydd yn cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd ar gyfer y sefydliad hwnnw, neu unrhyw hysbysiad y mae'n ei roi i sefydliad ei fod yn tynnu'n ôl cymeradwyaeth ar gyfer ei gynllun ffioedd a mynediad.

57. Mae'r Bil yn creu mesurau diogelwch gweithdrefnol ar gyfer sefydliadau a reoleiddir. Er enghraifft, bydd gofyn i CCAUC roi hysbysiad rhybuddio i sefydliad a reoleiddir os ydynt yn bwriadu cymryd camau gorfodi mewn perthynas â methiant sefydliad i gydymffurfio â therfynau ffioedd neu ddarpariaethau cyffredinol ei gynllun a gymeradwywyd, neu os yw'r addysg o ansawdd annigonol neu fod y sefydliad yn methu â chydymffurfio â gofynion y cod rheolaeth ariannol. Rhaid i hysbysiadau rhybuddio roi gwybod i'r sefydliadau eu bod yn gallu cyflwyno sylwadau am y camau gorfodi y mae CCAUC yn bwriadu eu cymryd. Bydd CCAUC, yn ei dro, yn gorfod ystyried sylwadau o'r fath wrth benderfynu a ddylai barhau i gymryd y camau hynny ai peidio. Yn ogystal, bwriedir rhoi'r hawl i sefydliadau wneud cais am adolygiad os

yw CCAUC yn penderfynu parhau i gymryd y camau gorfodi. Bydd adolygiadau o'r fath yn cael eu gwneud gan berson neu banel annibynnol a benodir gan Weinidogion Cymru.

58. Mae gweddill y bennod hon yn esbonio elfennau'r fframwaith rheoleiddio a darpariaethau'r Bil yn fanylach ac maent wedi'u hamlinellu o dan y penawdau canlynol:

- Fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer addysg uwch
- Asesu ansawdd;
- Sicrwydd trefniadau rheoli ariannol;
- Trefniadau sy'n berthnasol ar draws y fframwaith rheoleiddio.

***Fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer addysg uwch***

*Sefydliadau a reoleiddir*

59. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y dylai fod yn ofynnol i bob sefydliad a darparwr arall y mae eu gwethgareddau'n cael eu cynnal yn llwyr neu'n bennaf yng Nghymru, ac sy'n cynnig cyrsiau addysg uwch a ddynodir yn awtomatig at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru, gydymffurfio â rheolaethau er mwyn diogelu buddiannau myfyrwyr, trethdalwyr a chymdeithas Cymru.

60. Yn sgil y newidiadau i gyllid addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr yn 2012, yr hyn fydd yn nodweddu sefydliadau y bydd y rheolaethau'n berthnasol iddynt fydd bod eu cyrsiau addysg uwch wedi'u dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru. Mae dynodi cyrsiau'n awtomatig yn nodwedd y darparwyd ar ei chyfer ar wahân i'r Bil hwn, a hynny mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Bydd y fframwaith rheoleiddio presennol yn cael ei ailwampio er mwyn caniatáu i reolaethau gael eu cymhwyso i bob sefydliad a darparwr arall y mae eu cyrsiau addysg uwch wedi'u dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru. I gyrraedd y nod hwn, bydd cynlluniau ffioedd a mynediad yn rhan ganolog o'r fframwaith rheoleiddio newydd. O dan y trefniadau newydd, bydd rhaid bod gan sefydliadau a darparwyr eraill sydd am i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig, gynllun ffioedd a mynediad ar waith a gymeradwywyd gan CCAUC.

61. Mae'r systemau rheoleiddio a chymorth i fyfyrwyr presennol yn gwahaniaethu rhwng sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus a sefydliadau preifat yng Nghymru. Heblaw am gyrsiau rhan-amser, ni fydd y gwahaniaethau hynny yn berthnasol o dan y fframwaith rheoleiddio newydd yng Nghymru. Yn hytrach, y bwriad yw bod cyrsiau perthnasol yr holl sefydliadau neu ddarparwyr yng Nghymru sydd â chynlluniau ffioedd a mynediad ar waith a gymeradwywyd yn cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru, a byddant yn rhan o gwmpas swyddogaethau rheoleiddio CCAUC h.y. byddant yn '*sefydliadau a reoleiddir'*. I'r perwyl hwn, mae'r Bil yn darparu y gall sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu

addysg uwch ac sy'n elusennau wneud cais i CCAUC gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad arfaethedig. Yn ogystal, bydd darparwyr eraill addysg uwch yng Nghymru sy'n elusennau ond nad ydynt yn cael eu hystyried fel sefydliadau, yn gallu gwneud cais i Weinidogion Cymru i gael eu dynodi a'u trin fel sefydliad at ddibenion y fframwaith rheoleiddio newydd.

*Statws elusennol*

62. Mae cynnig cymorth i fyfyrwyr cymhwysol yn golygu costau sylweddol i Lywodraeth Cymru. Mae'r costau hynny'n cynnwys costau uniongyrchol y grantiau yn ogystal â'r gost o sicrhau bod benthyciadau ar gael i fyfyrwyr cymhwysol. Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyfrif am gost lawn y benthyciadau, i adlewyrchu'r ffaith na fydd rhai benthyciadau'n cael eu had-dalu (er enghraifft, am nad yw'r rheini sydd wedi derbyn y benthyciadau yn cyrraedd y trothwy o ran enillion ar gyfer ad-dalu, neu eu bod yn diffygdalu).

63. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai fod disgwyl i bob sefydliad a darparwr addysg uwch sy'n elwa ar rywfaint o gymhorthdal ariannol ar ffurf benthyciadau neu grantiau statudol ar gyfer ffïoedd myfyrwyr gyfrannu at les ehangach y cyhoedd. Felly, mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i sefydliad sy'n gwneud cais i CCAUC gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad fod yn elusen. Mae'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyflwyno ceisiadau i gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad arfaethedig. Y bwriad yw y gallai rheoliadau o'r fath ofyn bod ymgeiswyr yn darparu gwybodaeth i CCAUC sy'n dangos eu statws fel sefydliad yng Nghymru ac fel elusen, cyn bod CCAUC yn prosesu eu ceisiadau. Ar hyn o bryd, mae pob sefydliad a phrifysgol siartredig a gynhelir gan gorfforaethau addysg uwch neu gorfforaethau addysg bellach yng Nghymru yn elusennau.

64. Er ei bod yn annhebygol y bydd sefydliad yn colli statws elusennol, mae'r Bil yn darparu ar gyfer y posibilrwydd hwn ac yn rhoi dyletswydd ar CCAUC i dynnu'n ôl cymeradwyaeth os na fydd gan sefydliad statws elusennol mwyach. Y bwriad yw y bydd y mesurau pontio a weithredir drwy'r drefn cyllid myfyrwyr (rheoliadau ar gymorth myfyrwyr a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998) yn sicrhau bod myfyrwyr sydd wedi dechrau eu cyrsiau addysg uwch mewn sefydliad o'r fath yn gallu parhau i dderbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru er mwyn cwblhau eu hastudiaethau. Bydd y rheoliadau hefyd yn galluogi sefydliadau i ofyn am adolygiad o benderfyniad gan CCAUC i dynnu'n ôl cymeradwyaeth ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad mewn amgylchiadau o'r fath.

*Ymuno â'r system reoleiddio newydd*

65. Bydd ymuno â'r system reoleiddio newydd yn fater dewisol. Mater i'r sefydliadau fydd penderfynu a ydynt yn dymuno i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr neu a ydynt am wneud cais i ddynodi cyrsiau addysg uwch penodol. Bydd y gofynion rheoleiddio yn gymesur â'r manteision a geir. Bydd mwy o reoleiddio ar sefydliadau a darparwyr eraill y dynodir eu cyrsiau yn awtomatig, gan y bydd eu myfyrwyr nhw yn gallu manteisio ar y pecyn llawn o grantiau a

benthyciadau ar gyfer ffïoedd dysgu o gymharu â'r cymorth mwy cyfyngedig a gynigir mewn perthynas â chyrsiau a ddynodir yn benodol fesul achos.

66. Y bwriad yw bod y sefydliadau hynny sydd â chyrsiau wedi'u dynodi ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr ond nad oes ganddynt gynllun ffioedd a mynediad ar waith, yn gorfod cydymffurfio ag amodau dynodi a fydd yn cael eu cyflwyno o dan y broses ar gyfer dynodi cyrsiau'n benodol fesul achos. Gellir gwneud y trefniadau diwygiedig ar gyfer y broses o ddynodi cyrsiau penodol heb fod angen diwygio ddeddfwriaeth sylfaenol a chant eu cyflwyno drwy ddulliau gweinyddol ar wahân i'r Bil hwn.


67. Gallai'r system reoleiddio newydd olygu bod rhai sefydliadau neu ddarparwyr yng Nghymru yn gwneud cais i CCAUC gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad arfaethedig am y tro cyntaf. Bydd CCAUC yn gallu darparu gwybodaeth i ddarpar ymgeiswyr ynghylch y gofynion rheoleiddio sy'n gysylltiedig â'r ddau lwybr ar gyfer dynodi cyrsiau.

68. Wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad, cynigir bod CCAUC yn ystyried unrhyw faterion y mae Gweinidogion Cymru'n eu nodi mewn rheoliadau. Bydd angen i CCAUC ystyried materion fel ansawdd yr addysg a sefydlogrwydd ariannol yr ymgeisydd. Bydd y rhagangenrheidiau hyn yn lleihau'r posibilrwydd bod sefydliad yn cael cymeradwyaeth ar gyfer ei gynllun ffioedd a mynediad ond wedyn yn methu â bodloni gofynion y system reoleiddio newydd, ac efallai'n colli'r gymeradwyaeth o ganlyniad.

69. Cynigir hefyd ei bod yn ofynnol i CCAUC ystyried materion ansawdd a materion yn ymwneud â rheolaeth ariannol wrth benderfynu ynghylch cynlluniau ffioedd a mynediad arfaethedig gan sefydliadau sydd â chynlluniau cymeradwy yn eu lle ar hyn o bryd o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004. Ni ddylai'r dasg hon fod yn feichus, fodd bynnag, oherwydd bydd gan CCAUC wybodaeth gynhwysfawr eisoes ynghylch ansawdd addysg a threfniadau rheolaeth ariannol sefydliadau o'r fath. Cynigir y gallai'r wybodaeth y dylai'r ymgeiswyr newydd ei darparu gynnwys, er enghraifft, Adolygiad Goruchwyliaeth Addysgol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ar gyfer ansawdd yr addysg), cyfrifon cyfredol (ar gyfer rheolaeth ariannol) a gwybodaeth berthnasol arall. Bydd Gweinidogion Cymru'n rhoi canllawiau pellach i CCAUC ar hyn.

70. Bydd dynodi cyrsiau penodol fesul achos yn parhau'n un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Mae'r math o rôl y gallai CCAUC ei chwarae wrth weinyddu'r broses wrthi'n cael ei ystyried. Nid yw dynodi cyrsiau penodol fesul achos yn fater sydd wedi'i gwmpasu yn y Bil hwn. Mae ffigur 1 isod yn dangos y ddau lwybr dynodi ac yn rhoi trosolwg o'r rheolaethau arfaethedig.

Ffigur 1: Llwybrau ar gyfer dynodi cyrsiau



71. Mater i'r sefydliadau a'r darparwyr unigol fydd dewis llwybr dynodi, ar sail natur eu darpariaeth a'u gallu i gydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio perthnasol. Rhagwelir y bydd y mwyafrif o'r darparwyr hynny sydd â chynlluniau ffioedd yn eu lle ar hyn o bryd (sef pob prifysgol yng Nghymru, heblaw Prifysgol Cymru a rhai sefydliadau addysg bellach sy'n cael cyllid gan CCAUC) yn dymuno i'w cyrsiau barhau i fod wedi'u dynodi'n awtomatig.

72. Mae'r Bil yn caniatáu i CCAUC ddarparu gwybodaeth a chyngor i ddarpar ymgeiswyr (cyn bod cais yn cael ei wneud i gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad). Y bwriad yw bod CCAUC yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymgeiswyr o'r fath ac yn darparu gwybodaeth a chyngor ynghylch y gofynion y mae'n rhaid i sefydliadau gydymffurfio â nhw ar ôl cael cymeradwyaeth ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad. Y nod yw sicrhau bod pob ymgeisydd yn llwyr ymwybodol o'u rhwymedigaethau cyn dod yn sefydliad a reoleiddir.

*Darpariaeth gydweithredol yn cynnwys trefniadau breinio*

73. Gall sefydliadau a reoleiddir ddewis ddod yn rhan o drefniadau breinio gyda sefydliadau neu ddarparwyr eraill er mwyn darparu rhan o gwrs penodol neu'r cwrs cyfan ar eu rhan. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r sefydliad breinio ddylai fod yn gyfrifol am derfynau ffioedd ar gyfer cyrsiau o'r fath ac ansawdd yr addysg. O dan y fframwaith rheoleiddio newydd, os yw sefydliad a reoleiddir yn dod yn rhan o drefniadau breinio gyda sefydliad partner, y sefydliad a reoleiddir fydd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gyrsiau cymhwysol yn cael eu cynnwys yn ei gynllun ffioedd a mynediad, a bod terfynau ffioedd perthnasol ar gyfer y cyrsiau'n cael eu bodloni ac ansawdd yr addysg yn ddigonol. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer hyn ym mhob un o elfennau'r fframwaith rheoleiddio mewn perthynas â chyrsiau addysg uwch a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau a reoleiddir. Mater i'r sefydliadau unigol fydd dewis y partner breinio a bydd angen iddynt fod yn ofalus wrth wneud hynny.

*Cyrsiau wedi'u dilysu*

74. Yn achos cyrsiau wedi'u dilysu (er enghraifft, lle mae sefydliad a reoleiddir nad oes ganddo'r pŵer i ddyfarnu ei raddau ei hun yn cynnig cyrsiau gradd cymhwysol sy'n arwain at radd a ddyfernir gan ddarparwr arall) bydd angen i'r cwrs gradd hwnnw gael ei gynnwys yng nghynllun ffioedd a mynediad y sefydliad a reoleiddir a bydd yn ddarostyngedig i'r terfyn ffioedd a bennwyd gan y sefydliad hwnnw.

*Cyrsiau rhan-amser*

75. Nid yw'r ffioedd ar gyfer cyrsiau addysg uwch rhan-amser wedi'u rheoleiddio ar hyn o bryd yng Nghymru ac felly nid yw cyrsiau o'r fath yn ddarostyngedig i ofynion cynllun ffioedd. Fodd bynnag, mae'r fframwaith rheoleiddio diwygiedig wedi'i gynllunio i gynnwys cyrsiau rhan-amser yn y dyfodol, yn amodol ar gyflwyno rheolaethau ar ffioedd. Am y tro, ni fydd angen i unrhyw sefydliad neu ddarparwr yng Nghymru sydd ond yn cynnig cyrsiau addysg uwch rhan-amser fod â chynllun ffioedd a

mynediad ar waith er mwyn i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr.

*Dynodi cyrsiau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon*

76. Mae'r trefniadau ar gyfer dynodi'n awtomatig gyrsiau addysg uwch a ddarperir gan sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn parhau heb eu newid, a bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddibynnu ar y trefniadau sydd yn eu lle ym mhob gweinyddiaeth ar gyfer rheoli ffioedd, asesu ansawdd a rhoi sicrwydd ariannol.

77. I sicrhau bod myfyrwyr sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru yn gallu cael cymorth i dalu ffioedd dysgu gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â chyrsiau addysg uwch a ddarperir gan sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus neu ddarparwyr mewn mannau eraill yn y DU, bydd angen parhau i wneud darpariaeth (mewn rheoliadau cymorth i fyfyrwyr) i ddynodi cyrsiau o'r fath yn awtomatig at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr.

*Rheolaethau ar ffïoedd dysgu*

78. Ar hyn o bryd, mae rheoliadau[10] yn rhagnodi terfynau ffioedd (symiau sylfaenol ac uwch) y mae sefydliadau a ariennir gan CCAUC yn gallu eu codi am gyrsiau addysg uwch cymhwysol. At ddibenion y fframwaith rheoleiddio newydd, mae'r Bil yn darparu ar gyfer uchafswm o ran terfyn ffioedd, i'w ragnodi mewn rheoliadau a fydd yn berthnasol i gyrsiau cymhwysol a ddarperir gan sefydliadau a reoleiddir. Felly, ni fydd isafswm o ran ffioedd bellach. Bydd cyrsiau addysg uwch sefydliad a reoleiddir yn cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr (drwy reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998). Bydd y ffioedd y mae sefydliad o'r fath yn gallu eu codi ar gyfer ei gyrsiau cymhwysol yn ddarostyngedig i'r uchafswm o ran terfyn ffioedd. Y bwriad yw bod yr uchafswm yn cyfateb i'r 'swm uwch' presennol o £9,000.

79. O dan y fframwaith rheoleiddio newydd, bydd y gofynion canlynol yn gymwys i sefydliadau a reoleiddir. Mae'r gofynion hyn yn debyg i ofynion y system bresennol:

- ni chaiff y ffioedd dysgu a godir ar gyfer cyrsiau cymhwysol fod yn uwch na'r terfyn penodol a nodir yn y cynllun ffïoedd a gymeradwywyd;
- ni chaiff y ffioedd dysgu fod yn uwch na'r uchafswm penodol a nodir yn y rheoliadau;
- rhaid i sefydliadau gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol eu cynlluniau cymeradwy.

[10] Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011. http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/885/made

80. Mae'r Bil yn darparu mecanwaith newydd ar gyfer gorfodi terfynau ffioedd. Os yw CCAUC yn fodlon bod sefydliad wedi methu â chydymffurfio â therfyn ffioedd a nodwyd yn ei gynllun ffioedd, bydd yn gallu rhoi *cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu* i'w gwneud yn ofynnol i'r sefydliad:

- gymryd camau angenrheidiol i gydymffurfio â'r terfyn ffïoedd, ee lleihau'r ffi i'r terfyn penodol a nodir yn y cynllun ffïoedd a/neu
- ad-dalu ffïoedd uwchlaw'r terfyn a dalwyd yn flaenorol, hy ffïoedd dysgu sy'n uwch na'r terfyn ffïoedd.

81. Bydd natur cyfarwyddyd o'r fath yn dibynnu p'un a yw'r ffioedd a oedd uwchlaw'r terfyn eisoes wedi'u talu i'r sefydliad ai peidio. Mewn achos lle mae'r ffioedd wedi'u codi ond heb eu talu, byddai CCAUC ond yn rhoi cyfarwyddyd i'r sefydliad gymryd camau i gydymffurfio â'r terfyn ffioedd perthnasol. Fodd bynnag, os talwyd ffioedd i'r sefydliad eisoes sy'n uwch na'r terfyn ffioedd, gallai'r cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad ad-dalu'r ffioedd sy'n uwch na'r terfyn yn ogystal â chydymffurfio â'r terfyn ffioedd yn y dyfodol. Gallai'r cyfarwyddyd nodi sut y dylid ad-dalu'r ffioedd hynny.

82. Mae'r Bil yn caniatáu i CCAUC roi canllawiau ar y camau y bydd angen i sefydliadau eu cymryd er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu. Mae'r Bil yn rhwymo CCAUC i gynnal ymgynghoriad cyn rhoi canllawiau o'r fath. Mae'r modd y mae sefydliad yn ad-dalu ffioedd yn debygol o ddibynnu ar statws y myfyriwr/myfyrwyr ac a ydynt yn hunan-ariannu neu'n derbyn cymorth statudol. Gallai myfyriwr sy'n derbyn cymorth statudol gael ad-daliad drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

83. Bydd pŵer CCAUC i wrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd pan ddaw'r cynllun presennol i ben yn parhau os bydd sefydliad wedi methu â chydymffurfio â'r terfyn ffïoedd penodol a nodir yn ei gynllun ffïoedd a gymeradwywyd. Bydd y sancsiwn hwn ar gael waeth a yw CCAUC wedi rhoi cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu ai peidio.

84. Yn olaf, mae'r Bil hwn yn caniatáu i CCAUC dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad sefydliad yn ystod oes y cynllun os yw'r sefydliad yn methu'n barhaus â chydymffurfio â therfynau ffioedd neu'n methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu. Mater i CCAUC, yn y pen draw, yw penderfynu beth yn union a olygir wrth 'fethiant parhaus'. Ni ragwelir y bydd CCAUC yn cymhwyso'r sancsiwn hwn oni bai nad oes modd datrys y sefyllfa, yn eu barn nhw, ac ni ddylai fod hawl gan y sefydliad dan sylw gael ei gyrsiau addysg uwch wedi'u dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth myfyrwyr mwyach er lles myfyrwyr y dyfodol.

*Gofynion gweithdrefnol*

85. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi hysbysiad rhybuddio os yw'n bwriadu rhoi cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu, os yw'n bwriadu gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad (lle mae'n fodlon bod sefydliad wedi methu â

chydymffurfio â therfynau ffioedd) neu os yw yn bwriadu tynnu'n ôl, drwy rybudd, ei gymeradwyaeth ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad (lle mae'n fodlon bod sefydliad wedi methu'n barhaus â chydymffurfio â therfynau ffioedd neu fethu â chydymffurfio â chyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu). Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i sefydliadau allu cyflwyno sylwadau i CCAUC am y cyfarwyddyd neu'r hysbysiad arfaethedig. Mae'r Bil yn gofyn bod CCAUC yn ystyried unrhyw sylwadau o'r fath cyn penderfynu rhoi'r cyfarwyddyd neu'r hysbysiad. Os yw CCAUC yn penderfynu parhau i roi cyfarwyddyd neu hysbysiad, mae'r Bil yn darparu ar gyfer adolygu penderfyniad CCAUC gan berson neu banel annibynnol a benodir gan Weinidogion Cymru.

86. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag adolygiadau o'r fath. Gall y rheoliadau amlinellu ar ba sail y gellir gwneud cais am adolygiad, y cyfnod ar gyfer gwneud cais am adolygiad a'r weithdrefn i'w dilyn gan y person neu'r panel sy'n cynnal yr adolygiad. Gall y rheoliadau hefyd bennu'r camau y bydd angen i CCAUC eu cymryd yn dilyn adolygiad. Y bwriad yw bod y gofynion gweithdrefnol hyn yn sicrhau bod buddiannau sefydliadau yn cael eu gwarchod mewn ffordd deg a bod modd adolygu penderfyniadau CCAUC mewn ffordd dryloyw ac yn unol â phroses fanwl benodol. Yn ogystal, gall y rheoliadau bennu na ddylid gweithredu ar gyfarwyddyd neu hysbysiad gan CCAUC nes bod camau penodol wedi'u cymryd neu fod cyfnod penodedig wedi dod i ben. Gall rheoliadau sydd, er enghraifft, yn pennu na ddylid gweithredu ar gyfarwyddyd neu hysbysiad gan CCAUC nes bod y broses adolygu wedi'i chwblhau neu fod y cyfnod ar gyfer gwneud cais am adolygiad wedi dod i ben (heb fod cais wedi'i wneud) ddarparu mesur diogelwch pwysig ar gyfer sefydliadau.

87. Yn amodol ar ganlyniad unrhyw adolygiad, os nad yw sefydliad yn cymryd y camau angenrheidiol a nodwyd mewn cyfarwyddyd, gall CCAUC wneud cais i'r llysoedd am waharddeb i orfodi'r cyfarwyddyd. Gall gwaharddeb o'r fath orfodi sefydliad i gymryd, neu beidio â chymryd camau penodol i gydymffurfio â'r terfynau ffioedd priodol a/neu ad-dalu unrhyw ffioedd a gododd sy'n uwch na'r terfyn. Y bwriad wrth wneud hyn yw sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr a/neu eu noddwyr yn cael eu diogelu a bod gan CCAUC y pŵer i orfodi terfynau ffioedd os yw sefydliad yn gwrthod cydymffurfio â chyfarwyddyd. Rhagwelir y byddai sefydliad, yn y rhan fwyaf o amglchiadau, yn cymryd y camau angenrheidiol o'i wirfodd i wneud iawn am ei fethiant i gydymffurfio â'r terfynau ffioedd, ac felly byddai angen i CCAUC wneud cais am waharddeb i orfodi cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

*Cynlluniau ffioedd a mynediad*

88. At ddibenion y fframwaith rheoleiddio presennol o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004, caiff CCAUC eu ddynodi fel yr "awdurdod perthnasol" ar gyfer cymeradwyo a gorfodi cynlluniau ffioedd yng Nghymru. Cafodd y rôl statudol hon ei rhoi i CCAUC, drwy reoliadau, ym mis Mawrth 2011 fel un o nifer o newidiadau a gyflwynwyd fel rhan o'r trefniadau newydd (ar y pryd) ar gyfer cyllid addysg uwch a ffioedd dysgu yng Nghymru. Mae'r Bil yn rhoi'r swyddogaethau cymeradwyo a gorfodi hyn i CCAUC yn uniongyrchol ac yn eu hehangu er mwyn adlewyrchu cyd-destun y fframwaith rheoleiddio newydd.

89. Mae cynlluniau ffioedd wedi bod yn ofyniad statudol yng Nghymru ar gyfer sefydliadau a ariennir gan CCAUC yn achos cyrsiau a ddechreuodd ym mlwyddyn academaidd 2012/13 lle mae ffioedd dysgu'n fwy na £4,000. Bydd canlyniadau gweithgareddau a buddsoddiadau'r sefydliadau i gyflawni amcanion cynllun ffioedd yn dod i'r amlwg dros amser, ac ni fu modd gwerthuso effeithiolrwydd y cynlluniau hyd yn hyn. Felly, nid yw'r Bil yn ceisio gwneud newidiadau sylweddol i gynnwys cynlluniau ffioedd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi achub ar y cyfle i gryfhau elfennau penodol o'r cynlluniau. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid ailenwi'r cynlluniau er mwyn adlewyrchu'r cyfraniad y maent fod i'w wneud at wella cyfle cyfartal o ran mynediad at addysg uwch. Felly, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer '*cynlluniau ffioedd a mynediad'*.

90. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol ar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir o fewn addysg uwch, boed yn gymorth ariannol, academaidd neu fugeiliol, er mwyn cwblhau eu cyrsiau. Er bod y canllawiau[11] a roddwyd i CCAUC gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 ynghylch cymeradwyo cynllun ffioedd yn cynnwys y disgwyliad bod sefydliadau'n cynnwys mesurau yn eu cynlluniau i ddenu myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch, mae'r Bil yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud sy'n gofyn bod cynlluniau ffioedd a mynediad yn cynnwys darpariaeth o'r fath.

91. Yng ngoleuni'r bwriad i dynnu'r isafswm ffioedd ac felly'r ystod ehangach o lefelau ffioedd y bydd gofynion cynlluniau ffioedd a mynediad y system ddiwygiedig yn berthnasol iddynt, bydd yn ofynnol i CCAUC fod yn gymesur wrth gymeradwyo a gorfodi cynlluniau ffioedd a mynediad fel a ganlyn:

- Yn gyntaf, er y dylai pob sefydliad sy'n gwneud cais i gymeradwyo cynllun ffïoedd orfod cyflawni'r un gofynion craidd o ran cynnwys eu cynlluniau, dim ond y rheini sydd am godi ffïoedd sydd uwchlaw swm penodedig (y swm 'trothwy') fydd yn gorfod amlinellu yn eu cynllun ffioedd y gyfran o'i incwm ffïoedd sydd uwchlaw'r 'trothwy' y maent yn bwriadu ei defnyddio i hyrwyddo amcanion y cynllun ffïoedd. Y bwriad yw bod Gweinidogion Cymru'n rhagnodi'r swm 'trothwy' mewn rheoliadau.
- Yn ail, y dylid rhoi dyletswydd ar CCAUC, drwy reoliadau, i roi ystyriaeth i lefel arfaethedig y ffi a amlinellir yng nghynlluniau ffïoedd ymgeiswyr wrth ystyried cynnwys y cynlluniau hynny. Bydd hyn yn golygu, wrth ystyried cymeradwyo cynlluniau ffïoedd, y bydd angen i CCAUC ystyried a yw swm yr incwm ffïoedd penodol sydd uwchlaw'r 'trothwy' a nodir gan ymgeiswyr yn eu cynlluniau ffïoedd yn ddigonol. Y bwriad yw bod CCAUC yn monitro'r ymrwymiad hwn fel rhan o'i waith monitro cyffredinol o'r cynnydd y mae sefydliadau'n ei wneud wrth weithredu eu cynlluniau ffioedd a mynediad.

[11] Canllawiau i CCAUC ar Gymeradwyo a Gorfodi Cynlluniau Ffioedd, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2011, a gyhoeddwyd o dan adran 32(4) o Ddeddf Addysg Uwch 2004.

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/heplans/?lang=cy

*Cyfnod gweithredol y cynlluniau*

92. O dan y fframwaith rheoleiddio presennol, y cyfnod gweithredol a nodwyd ar hyn o bryd mewn rheoliadau ar gyfer cynlluniau ffioedd yw 2 flynedd fan hwyaf. Yn yr hirdymor bwriedir ymestyn hyn i hyd at 5 mlynedd. Byddai gofyn bod CCAUC yn parhau i adolygu cynlluniau ffioedd bob 2 flynedd yn feichus ac yn ddiangen o bosibl yn sgil y pŵer newydd a geisir er mwyn i CCAUC allu monitro cydymffurfiaeth sefydliadau â darpariaethau cynlluniau a gymeradwywyd, a hefyd gwerthuso effeithiolrwydd y cynlluniau hynny. Yn ogystal, mae'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo CCAUC i lunio adroddiadau arbennig pan fydd angen ar gydymffurfiaeth sefydliadau â darpariaethau eu cynlluniau a gymeradwywyd ac effeithiolrwydd y cynlluniau hynny.

*Monitro a gorfodi cynlluniau ffïoedd*

93. Mae'r Bil yn cryfhau rôl monitro a gorfodi CCAUC drwy ei gwneud yn ofynnol i CCAUC werthuso effeithiolrwydd cynlluniau a gymeradwywyd yn unigol ac yn gyffredinol. Er mwyn asesu effeithiolrwydd gweithgareddau a buddsoddiadau sefydliadau a reoleiddir i hyrwyddo addysg uwch a chyfle cyfartal o ran mynediad at addysg uwch, bydd angen i CCAUC gael gwybodaeth am eu canlyniadau. Cydnabyddir y gallai cryn amser fynd heibio cyn i rai elfennau ddod yn amlwg. Bydd CCAUC yn gallu comisiynu'r gwaith o gasglu gwybodaeth a gwneud gwaith ymchwil a dadansoddi er mwyn ei helpu i werthuso. Y bwriad yw bod CCAUC yn defnyddio casgliadau gwerthusiadau o'r fath fel sail i ganllawiau arfer da ar y gweithgarwch a'r buddsoddiadau mwyaf effeithiol o ran cynlluniau ffïoedd, gyda'r nod o wella'r hyn y mae cynlluniau ffïoedd yn ei gyflawni. Mae gan CCAUC swyddogaeth debyg ar hyn o bryd o dan adran 40A o Ddeddf Addysg Uwch 2004 lle gall roi cyngor ar arfer da i sefydliadau y mae'n eu hariannu. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau a reoleiddir ystyried gwybodaeth a chyngor a roddir gan CCAUC ar arfer da wrth arfer eu swyddogaethau.

94. Dyma'r sancsiynau sydd ar gael ar hyn o bryd i CCAUC o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 os yw sefydliad yn methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun a gymeradwywyd:

- rhoi hysbysiad i gorff llywodraethu'r sefydliad dan sylw na fydd cynllun newydd yn cael ei gymeradwyo yn ystod cyfnod penodedig (hyd at flwyddyn) pan fydd cynllun presennol y sefydliad yn dod i ben;[12]
- gorfodi gofynion ariannol ar gorff llywodraethu'r sefydliad.[13]

95. O ystyried y lefel is o gyllid a ddarperir i'r sefydliadau gan CCAUC, mae'r Bil yn cadw'r sancsiwn cyntaf uchod drwy roi'r pŵer i CCAUC wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd os yw'n fodlon bod amodau penodol wedi'u bodloni (gan

[12] Gweler adran 38 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a rheoliad 10(3) o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi'u cymeradwyo) (Cymru) 2001 (O.S. 2011/ Rhif 884 (W.128)).

[13] Gweler adran 28(3) a (4) o Ddeddf Addysg Uwch 2004.

gynnwys lle mae sefydliad wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun a gymeradwywyd). Y bwriad yw bod y sancsiwn hwn ond yn cael ei weithredu ar gyfer yr achosion gwaethaf o fethu â chydymffurfio â darpariaethau cynllun a gymeradwywyd oherwydd y canlyniadau pellgyrhaeddol i'r sefydliad a'r myfyrwyr. O dan y fframwaith newydd, bydd gan CCAUC hawl i weithredu sancsiynau amgen i annog cydymffurfiaeth os yw sefydliad wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni ymrwymiadau ei gynllun ffioedd a mynediad ond heb fodloni gofynion llawn y cynllun hwnnw. I'r perwyl hwn, mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau a fydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer y camau y bydd angen i CCAUC eu cymryd os ydynt yn fodlon bod sefydliad a reoleiddir wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau ei gynllun a gymeradwywyd.

96. Y bwriad yw bod rheoliadau'n rhoi pŵer i CCAUC allu cyfarwyddo sefydliad a reoleiddir i weithredu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau ei gynllun a gymeradwywyd. Bydd y pŵer i roi *cyfarwyddyd cydymffurfio ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad* yn golygu bod gan CCAUC ddewis arall heblaw rhoi hysbysiad o fwriad i wrthod cymeradwyo cynllun newydd. Bydd cyfarwyddyd o'r fath yn caniatáu i sefydliad fynd i'r afael â diffyg cydymffurfiaeth drwy gymryd camau adferol a chadw ei statws fel sefydliad sydd â chynllun a gymeradwywyd. Yn ogystal, gall rheoliadau ddarparu ar gyfer y weithdrefn y mae'n rhaid i CCAUC ei dilyn wrth roi cyfarwyddyd o'r fath. Cynigir bod y weithdrefn y mae rheoliadau'n darparu ar ei cyfer yn cyd-fynd â'r weithdrefn a fydd yn berthnasol i gyfarwyddyd cydymffurfiaeth ac ad-dalu. Hynny yw, bod CCAUC yn rhoi hysbysiad rhybuddio cyn rhoi cyfarwyddyd, a gallu'r sefydliadau i gyflwyno sylwadau ynghylch y cyfarwyddyd arfaethedig a gwneud cais am adolygiad gan berson neu banel annibynnol.

97. Er mwyn rhoi eglurder i'r sefydliadau, bydd y rheoliadau'n nodi'r hyn a olygir wrth fethu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun a gymeradwywyd. Er enghraifft, gallai methu â chymryd mesurau yr ymrwymwyd iddynt yn y cynllun a gymeradwywyd ar gyfer myfyrwyr a darpar fyfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch, fod yn fethiant i gydymffurfio â darpariaethau cynllun a gymeradwywyd hy, methiant i gynnal ysgolion haf a gweithgareddau pontio, methiant i ddarparu cymorth bugeiliol neu gymorth i ddatblygu sgiliau astudio neu fethiant i fodloni ymrwymiadau bwrsariaeth. Ar y llaw arall, mae'n bosibl na fyddai methiant i gyflawni amcan a nodwyd mewn cynllun (ee denu mwy o geisiadau gan aelodau o grwpiau a dangynrychiolir) yn cael ei ystyried fel "methiant i gydymffurfio â darpariaethau cynllun" ond, yn hytrach, yn dangos diffyg effeithiolrwydd yr ymyriadau a nodwyd yn y cynllun.

98. O dan y fframwaith rheoleiddio newydd, bydd y dewis i roi hysbysiad o fwriad i wrthod cymeradwyo cynllun newydd os yw sefydliad wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau ei gynllun, yn parhau i fod ar gael i CCAUC waeth a ydynt wedi rhoi cyfarwyddyd o dan y rheoliadau arfaethedig ai peidio.

99. Os yw CCAUC yn fodlon bod sefydliad wedi methu'n barhaus â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun a gymeradwywyd, mae'r Bil yn darparu y gall (yn amodol ar yr hysbysiad rhybuddio a'r gweithdrefnau adolygu) dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth ar gyfer y cynllun. Mae hyn yn darparu sancsiwn ychwanegol a mwy

uniongyrchol i CCAUC o'i gymharu â'r pŵer i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd newydd, ond nid yw'r ail bŵer yn datgan bod yn rhaid i'r methiant i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol y cynllun fod yn "barhaus".

*Gofynion gweithdrefnol*

100. Lle bydd CCAUC yn bwriadu rhoi hysbysiad yn gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd (ar y sail bod sefydliad wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun) neu hysbysiad yn tynnu ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl (ar y sail bod sefydliad wedi methu'n gyson â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun), mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi hysbysiad rhybuddio i'r sefydliad dan sylw. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i sefydliadau allu cyflwyno'u sylwadau i CCAUC am yr hysbysiad arfaethedig. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi ystyriaeth i sylwadau o'r fath wrth benderfynu a ddylid rhoi'r hysbysiad. Lle bydd CCAUC yn mynd ati i roi'r hysbysiad, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i benderfyniad CCAUC gael ei adolygu gan berson neu banel annibynnol a benodir gan Weinidogion Cymru.

101. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau mewn cysylltiad ag adolygiadau o'r fath a pharagraff 88 o'r memorandwm hwn. Bwriedir i'r gofynion hyn fod yn debyg i'r gweithdrefnau presennol y darperir ar eu cyfer yn Neddf Addysg Uwch 2004 ac mewn rheoliadau a luniwyd gan Weinidogion Cymru[14], ac y byddant yn barhad o'r trefniadau presennol ar gyfer gorfodi cynlluniau ffioedd.

102. O ran pwerau CCAUC i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd mewn achos lle mae'n fodlon bod sefydliad wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun, mae'r Bil yn gwarchod sefydliadau i ryw bwynt. Ni ddylid trin sefydliad fel pe bai wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun cymeradwy os yw CCAUC yn fodlon bod y sefydliad wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r darpariaethau hynny. Os, o ganlyniad i wybodaeth a ddarperir gan sefydliad a reoleiddir, bydd CCAUC yn fodlon bod y sefydliad wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun ffioedd a mynediad, yna ni fydd CCAUC yn gallu gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd ar y sail bod y sefydliad wedi methu â chydymffurfio â'r darpariaethau hynny.

*Canllawiau*

103. O dan Ddeddf Addysg Uwch 2004, ar hyn o bryd gall Gweinidogion Cymru roi canllawiau[15] i CCAUC ynghylch cyflawni ei swyddogaethau i gymeradwyo a gorfodi cynlluniau ffioedd o dan y Ddeddf honno, a rhaid i CCAUC roi sylw i'r canllawiau hynny wrth gyflawni'r swyddogaethau. Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau i CCAUC ar ei swyddogaeth newydd o werthuso effeithiolrwydd

[14] Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2001 (OS 2011/ OS Rhif 884 (C.128))

[15] Canllawiau i CCAUC ar Gymeradwyo a Gorfodi Cynlluniau Ffioedd, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2011, a gyhoeddwyd o dan a32(4) o Ddeddf Addysg Uwch 2004.

cynlluniau ffioedd a mynediad cymeradwy. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi ystyriaeth i'r canllawiau hynny wrth gyflawni ei swyddogaethau. Yn ogystal, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu rhoi canllawiau i CCAUC am y ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu pa un/pa rai o'r sancsiynau i'w defnyddio os bydd sefydliad a reoleiddir yn methu â chydymfurfio â therfynau ffioedd a/neu ddarpariaethau cyffredinol ei gynllun cymeradwy.

104. Mae'r Bil yn rhoi'r swyddogaeth benodol i CCAUC o nodi arferion da o ran hyrwyddo cyfle cyfartal mewn perthynas â mynediad i addysg uwch a hyrwyddo addysg uwch. Mae hyn yn debyg i swyddogaeth bresennol CCAUC o dan adran 40A o Ddeddf Addysg Uwch 2004. Y bwriad yw y bydd CCAUC yn defnyddio ei gasgliadau o'r gwerthusiad o effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd a mynediad fel sail i arferion da, gwybodaeth a chyngor. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau a reoleiddir roi ystyriaeth i unrhyw wybodaeth a chyngor a roddir gan CCAUC (er enghraifft, wrth baratoi cynlluniau ffioedd a mynediad newydd). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd hyn yn elfen gynyddol bwysig o rôl CCAUC yn y dyfodol.

*Dilysrwydd contractau myfyrwyr gyda'u sefydliadau*

105. Os bydd sefydliad yn codi ffioedd sy'n uwch na'r terfyn a nodir yn ei gynllun ffioedd a mynediad cymeradwy, yna gallai rhai myfyrwyr wrthod talu ffioedd sy'n uwch na hynny i sefydliad cyn i CCAUC ddod i wybod am y sefyllfa neu gymryd camau i unioni'r sefyllfa. Mewn egwyddor, gallai sefydliad geisio dwyn achos cyfreithiol yn erbyn y myfyrwyr hynny mewn perthynas â'r ffioedd nad ydynt wedi'u talu neu wrthod addysgu'r myfyrwyr hynny nes iddynt dalu'r swm llawn y mae'r sefydliad yn ystyried ei fod yn ddyledus.

106. Er mwyn diogelu buddiannau myfyrwyr ac osgoi ansicrwydd ynghylch effaith contract rhwng sefydliad a myfyriwr o ran ffioedd uwchlaw'r terfyn, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth y dylid ystyried bod contract o'r fath yn darparu ar gyfer talu ffioedd sy'n cyfateb i'r terfyn ffioedd perthnasol. Caiff myfyriwr sy'n gwrthod talu'r ffioedd hynny sydd uwchlaw'r terfyn ei ddiogelu yn yr ystyr na fydd y sefydliad yn gallu adennill y ffioedd ychwanegol oddi wrth y myfyriwr. Byddai dyletswydd y sefydliad i barhau i ddarparu addysg i'r myfyriwr yn parhau, er bod y contract yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu ffioedd uwchlaw'r terfyn.

***Asesu ansawdd***

107. Mae asesu ansawdd addysg uwch yn hanfodol er mwyn sicrhau bod safonau academaidd yn cael eu cynnal, bod myfyrwyr yn cael profiad dysgu o ansawdd uchel a bod enw da addysg uwch Cymru yn cael ei ddiogelu. Mae'r system bresennol o ofynion asesu ansawdd, o dan drefniadau a sefydlwyd gan CCAUC, yn gofalu y gellir nodi diffygion o ran ansawdd yn brydlon ac y gellir cymryd camau i fynd i'r afael â nhw, er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar fyfyrwyr a chyfyngu ar y niwed i enw da'r sefydliadau unigol ac addysg uwch Cymru yn gyffredinol.

*Dyletswydd asesu*

108. Ar hyn o bryd, mae'n ddyletswydd statudol ar CCAUC i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud i asesu ansawdd yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau y mae'n darparu cymorth ariannol ar gyfer eu gweithgareddau, neu'n ystyried gwneud hynny. Mae'n ofynnol i CCAUC hefyd sefydlu pwyllgor asesu ansawdd ac mae'n rhaid i fwyafrif yr aelodau ddod o'r tu allan i'r Cyngor. Mae CCAUC wedi sefydlu Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd, ac mae wrthi ar hyn o bryd yn cyflawni ei ddyletswydd asesu drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a memorandwm cyd-ddealltwriaeth gydag Estyn.

109. Mae'r Bil yn amlinellu dyletswydd ddiwygiedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i CCAUC asesu, neu wneud trefniadau i asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan bob sefydliad a reoleiddir yng Nghymru neu ar eu rhan. Fel nawr, mater i CCAUC fydd penderfynu sut i gyflawni ei ddyletswydd i asesu ansawdd. Rhagwelir y bydd CCAUC yn cadw'i drefniadau presennol gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Estyn yn hyn o beth. Nid cyflwyno trefn arolygu yw amcan y ddyletswydd ddiwygiedig; bydd yn darparu'r sail statudol angenrheidiol er mwyn creu trefniadau asesu ansawdd sydd mor debyg â phosibl i'r rhai sydd gennym ar hyn o bryd heb ddibynnu ar delerau ac amodau cyllid.

110. Mae dyletswydd bresennol CCAUC i asesu ansawdd yn ymestyn i bob elfen o'r addysg a ddarperir gan sefydliad a gyllidir, p'un a yw rhai o'i gyrsiau yn cael eu cyllido'n uniongyrchol gan CCAUC ai peidio. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yna fudd cyhoeddus cyfreithlon i sicrhau bod ansawdd pob cwrs a ddarperir gan sefydliad a reoleiddir yn cael ei asesu drwy drefniant CCAUC. Bydd hyn yn diogelu buddiannau myfyrwyr ac enw da'r sector addysg uwch yng Nghymru, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Felly, bydd dyletswydd newydd CCAUC i asesu ansawdd yn parhau i ymestyn i bob elfen o'r addysg a ddarperir gan sefydliad a reoleiddir.

111. Caiff cyrsiau addysg uwch y mae sefydliad a reoleiddir yn eu breinio hefyd eu cynnwys o fewn y ddyletswydd newydd. Pan ddywedwn bod cwrs wedi'i freinio, rydym yn golygu ei fod yn cael ei ddarparu'n llwyr neu'n rhannol gan sefydliad arall (a reoleiddir neu beidio), ar ran sefydliad a reoleiddir. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod budd cyhoeddus ac o ran enw da i sicrhau ansawdd cyrsiau o'r fath, ac felly byddant yn dod o fewn cwmpas dyletswydd newydd CCAUC i asesu ansawdd. Ni fydd y ddyletswydd yn berthnasol i drefniadau dilysu yn unig, hy os bydd sefydliad yng Nghymru yn dilysu cyrsiau addysg uwch darparwr arall, mater i'r darparwr hwnnw fydd gwneud cais am gynllun ffioedd a mynediad os yw'n dymuno i'w gyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig i gael cymorth statudol Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr ac, os yw'n llwyddiannus, gydymffurfio â gofynion asesu ansawdd CCAUC.

112. Ar hyn o bryd, nid yw ffioedd cyrsiau addysg uwch rhan-amser yn cael eu rheoleiddio, ac felly maent y tu allan i gwmpas cynlluniau ffioedd a'r trefniadau newydd ar gyfer dynodi cyrsiau awtomatig a fydd yn berthnasol i gyrsiau llawnamser. Fodd bynnag, bydd cyrsiau rhan-amser a ddarperir gan sefydliadau a reoleiddir yn syrthio o fewn cwmpas dyletswydd newydd CCAUC i asesu ansawdd, gan y bydd y

ddyletswydd yn berthnasol i bob cwrs a ddarperir gan y sefydliadau hyn. Credir y bydd hyn yn cwmpasu mwyafrif y cyrsiau rhan-amser a ddarperir yng Nghymru ar hyn o bryd. Efallai y bydd nifer fach o sefydliadau, gan gynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru ac, o bosibl, rai sefydliadau addysg bellach a darparwyr preifat sydd ond yn darparu cyrsiau addysg uwch rhan-amser. Bydd darpariaeth ran-amser y darparwyr hyn yn syrthio y tu allan i gwmpas dyletswydd newydd CCAUC i asesu ansawdd, sydd ond yn ymwneud ag addysg a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau a reoleiddir. Fodd bynnag, bydd CCAUC yn gallu cynnal trefniadau asesu ansawdd mewn sefydliadau y mae'n eu hariannu drwy'r telerau a'r amodau cyllid perthnasol. Y rheswm am hyn yw y bydd CCAUC yn parhau i dalu rhywfaint o gyllid rheolaidd i sefydliadau am gyrsiau rhan-amser am y tro.

*Pwyllgor Sicrhau Ansawdd*

113. Bydd y gofyniad presennol i CCAUC sefydlu a chynnal pwyllgor i roi cyngor iddo ar ei weithgarwch asesu ansawdd yn parhau. Mae'r Bil yn galluogi'r Pwyllgor i roi cyngor ar gyflawni swyddogaethau asesu ansawdd newydd CCAUC.

114. Mae'r Bil yn parhau i'w gwneud yn ofynnol bod mwyafrif aelodau'r Pwyllgor yn annibynnol ar CCAUC a bod ganddynt brofiad o ddarpariaeth addysg uwch, naill ai o fewn y DU neu'n rhyngwladol, yn ôl yr hyn y mae CCAUC yn ei ystyried yn briodol. Bydd CCAUC yn parhau i bennu nifer aelodau'r Pwyllgor, telerau'r swydd a thelerau gadael y swydd.

115. Er mwyn osgoi amharu'n ddiangen ar waith y Pwyllgor, mae'r Bil yn darparu ar gyfer darpariaeth bontio i ganiatáu i swyddi aelodau'r Pwyllgor presennol barhau fel pe baent wedi'u penodi i'r Pwyllgor newydd o dan y trefniadau diwygiedig.

*Hawliau mynediad*

116. O'r blaen roedd CCAUC yn gallu sicrhau y cydymffurfid â'i weithgarwch asesu ansawdd drwy gymhwyso a gorfodi telerau ac amodau cyllid rheolaidd. Gan na fydd hyn yn bosibl bellach, mae angen darparu mecanwaith y gall CCAUC ei ddefnyddio i orfodi cydymffurfiaeth â'r broses asesu ansawdd. Mae'r Bil yn rhoi sefydliadau a reoleiddir, a darparwyr sy'n darparu cyrsiau ar ran sefydliadau a reoleiddir, o dan rwymedigaeth i roi'r wybodaeth, y cymorth a'r mynediad angenrheidiol i CCAUC, neu ei asiantau, mewn perthynas â'i weithgarwch asesu ansawdd.

117. Yn ogystal, mae'r Bil yn rhoi pwer i berson sy'n cynnal asesiad ansawdd (ee person a awdurdodir gan CCAUC (megis asesydd gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd) gael mynediad i safle sefydliad a reoleiddir, yn ogystal â phwer i arolygu dogfennau, gwneud copi ohonynt a chymryd rhai i ffwrdd. Bydd y pwer hwn yn berthnasol hefyd mewn perthynas â darparwyr allanol sy'n darparu cyrsiau ar ran sefydliadau a reoleiddir. Roedd yr adborth i'r ymgynghoriad yn dynodi bod trafodaethau gyda staff a myfyrwyr yn elfen sylfaenol o'r broses sicrhau ansawdd bresennol. Darperir ar gyfer y trafodaethau hyn fel rhan o'r ddyletswydd ar sefydliadau i roi gwybodaeth, cymorth a mynediad fel y nodwyd uchod. O ganlyniad i adborth rhanddeiliaid, mae'r

Bil yn gwneud darpariaeth y bydd yn ofynnol i'r person(au) sy'n cynnal asesiad ansawdd ar ran CCAUC ddangos cerdyn adnabod pan ofynnir iddo/iddynt.

118. Er bod cydymffurfio â gofynion asesu ansawdd yn rhywbeth sydd o fudd i sefydliadau addysg uwch a darparwyr eraill gan ei fod yn diogelu eu henw da, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen rhoi ffordd i CCAUC allu gorfodi cydymffurfiaeth. Lle ceir gwrthwynebiad, bydd y Bil yn galluogi CCAUC i roi cyfarwyddyd i sefydliad a reoleiddir, neu sefydliad sy'n darparu cwrs ar ran sefydliad a reoleiddir, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu'r wybodaeth, y cymorth a'r mynediad angenrheidiol. Os bydd sefydliad yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd o'r fath, yna bydd CCAUC yn gallu gwneud cais drwy'r llysoedd am waharddeb i fynnu cael mynediad. Dylai hyn roi digon o bwer i CCAUC allu sicrhau y cydymffurfir â'i weithgarwch asesu ansawdd.

*Ansawdd anfoddhaol*

119. Mae CCAUC wedi sefydlu gweithdrefn i ddelio ag achosion o ansawdd anfoddhaol yn y sefydliadau y mae'n eu hariannu ar hyn o bryd. Mae'r weithdrefn hon mewn perthynas ag ansawdd anfoddhaol[16] yn amlinellu'r camau y gall CCAUC eu cymryd i ddelio ag ansawdd anfoddhaol rheoli safonau dyfarnu academaidd a/neu ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr, neu lle mae o'r farn bod sefydliad mewn perygl uwch o ran ansawdd ei ddarpariaeth. Y prif sancsiwn sydd ar gael i CCAUC ar hyn o bryd yw cyfyngu ar gyllid sefydliad.

120. Mae'r camau y gall CCAUC eu cymryd wedi'u hamlinellu yn y cylchlythyr am y weithdrefn i'w dilyn mewn achosion o ansawdd anfoddhaol ac yn cynnwys:

- gwneud trefniadau i dîm cymorth helpu'r sefydliad dan sylw i ddatrys y broblem/problemau ansawdd;
- yn achos sefydliadau addysg uwch, cynnal adolygiad sicrwydd arbennig i gael gweld a oes problemau ehangach o ran rheoli, gallu a llywodraethu;
- yn achos sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol, cydgysylltu â Llywodraeth Cymru fel prif gyllidwyr, ac ag Estyn os yw'n briodol, ynghylch y camau i'w cymryd.

121. Fel rheol, dilynir gweithdrefn CCAUC ar gyfer achosion o ansawdd anfoddhaol pan fydd y gweithdrefnau yn llawlyfr Adolygiad Sefydliadol Cymru wedi methu â sicrhau gwelliant digonol ym marn yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn ymgynghoriad â CCAUC a/neu ystyrir na fydd y sefydliad yn gallu mynd i'r afael â'r broblem/problemau o fewn amserlen addas heb fewnbwn neu gymorth gan asiantaethau eraill. Fodd bynnag, gellir dechrau dilyn y weithdrefn ar gyfer achosion o ansawdd anfoddhaol lle bydd CCAUC yn nodi bod sefydliad mewn perygl uwch o ran ansawdd darpariaeth drwy arolygiadau neu adolygiadau a gynhelir gan Estyn neu gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio a hefyd gan broses ymgysylltu strategol CCAUC ei hun. Mae ymyrraeth o'r fath yn caniatáu i CCAUC gynnig cymorth cynnar

[16] W12/16HE Unsatisfactory Quality Procedures: revised HEFCW Guidance circular 18 May 2012

a sefydlu mesurau ataliol gyda'r nod o leihau risg ansawdd annigonol a lleihau effaith negyddol ar ddysgwyr ac ar enw da'r sector.

122. Y bwriad yw adeiladu ar arferion presennol CCAUC yn y fframwaith rheoleiddio newydd. Mae'r Bil, felly, yn rhoi swyddogaethau newydd i CCAUC o ran y camau y gall y Cyngor ei hun a/neu aseswr a benodir ganddo eu cymryd os bydd CCAUC yn fodlon bod ansawdd yr addysg a ddarperir gan sefydliad a reoleiddir, neu ar ran sefydliad a reoleiddir, yn annigonol neu mewn perygl o fod yn annigonol. Ar hyn o bryd, mewn achos o ansawdd annigonol, gall CCAUC drefnu i dîm cymorth helpu sefydliad i ddatrys y broblem/problemau sy'n cyfrannu at yr ansawdd annigonol. Er enghraifft, gall ddarparu cymorth allanol gan gyd-adolygwyr ar gyfer pwnc penodol, neu arbenigwyr sydd ag arbenigedd penodol i helpu'r sefydliad i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd. Fel arall, gall CCAUC gynnal adolygiad sicrwydd arbennig er mwyn cael gweld a oes yna broblemau ehangach yn ymwneud â rheoli, gallu neu lywodraethu sy'n cyfrannu at yr ansawdd annigonol. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i ganiatáu i CCAUC allu rhoi cymorth tebyg i sefydliadau a reoleiddir â'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd o dan ei weithdrefnau presennol ar gyfer delio ag ansawdd annigonol a mynd i'r afael â risg darpariaeth ansawdd annigonol.

123. Lle nodir ansawdd annigonol, mae'r Bil yn galluogi CCAUC i roi cyngor neu gymorth i sefydliadau a reoleiddir, gyda'r nod o wella ansawdd eu haddysg neu warchod ansawdd eu haddysg rhag mynd yn annigonol. Gallai hyn olygu:

- gwneud cais i sefydliadau ddatblygu a gweithredu cynlluniau i fynd i'r afael â'r methiannau/gwendidau a nodir mewn asesiad o ansawdd (byddai'n rhaid i gynlluniau o'r fath gael eu cymeradwyo gan CCAUC);
- anfon tîm cymorth i'w helpu;
- cynnal neu drefnu adolygiadau sicrwydd ychwanegol er mwyn gweld a oes unrhyw wendidau o fewn y system y mae angen delio â nhw;
- mynd i gyfarfodydd y corff llywodraethu neu'r bwrdd rheoli i drafod unrhyw fater sy'n deillio o asesiad o ansawdd.

Rhaid i sefydliad a reoleiddir roi ystyriaeth i unrhyw gyngor a gaiff gan CCAUC.

*Pwerau cyfarwyddo*

124. Rhagwelir y bydd CCAUC, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn mynd ati i ddechrau i geisio helpu sefydliad i unioni diffygion yn ansawdd ei addysg. Fodd bynnag, os na fydd ymyriadau o'r fath yn arwain at welliannau, yna bydd angen i CCAUC allu gorfodi ei ofynion. Mae'r Bil, felly, yn gwneud darpariaeth i CCAUC allu cyfarwyddo sefydliad a reoleiddir i gymryd (neu beidio â chymryd) camau penodol er mwyn gwella ansawdd yr addysg neu warchod ansawdd yr addysg rhag mynd yn annigonol. Gallai cyfarwyddyd o'r fath ei gwneud yn ofynnol i sefydliad wella ei weithdrefnau sicrhau ansawdd er enghraifft, mynd i'r afael â gwendidau yn safonau academaidd ei raddau, gwella profiad dysgu myfyrwyr, cymryd camau i fynd i'r afael â diffygion a nodir mewn Adolygiad Sefydliadol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd

neu fynd i'r afael â risgiau i ansawdd addysg a nodir gan CCAUC. Bydd CCAUC yn gallu rhoi cyfarwyddyd o'r fath mewn perthynas ag addysg a ddarperir gan sefydliadau partner ar ran sefydliad a reoleiddir o dan gytundebau breinio. Caiff cyfarwyddyd o'r fath ei anfon i'r sefydliad a reoleiddir gan mai nhw sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyrsiau a ddarperir ar ei ran yn cydymffurfio â gofynion asesu ansawdd CCAUC.

125. Fel yn achos rhai pwerau cyfarwyddo eraill, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi hysbysiad i sefydliad a reoleiddir yn ei rybuddio o'i fwriad i roi cyfarwyddyd i'r sefydliad hwnnw. Rhaid i'r hysbysiad rhybuddio roi gwybod i'r sefydliad a reoleiddir bod ganddo hawl i ymateb a chyflwyno sylwadau am y cyfarwyddyd arfaethedig a phryd y dylid gwneud hynny. Gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, am pryd y dylai sefydliadau a reoleiddir gyflwyno sylwadau i CCAUC. Dylai'r hysbysiad rhybuddio amlinellu hefyd beth yw'r cyfarwyddyd arfaethedig a'r rhesymau pam mae CCAUC yn bwriadu ei roi.

126. Cyn mynd ati i roi cyfarwyddyd, bydd yn ofynnol i CCAUC roi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a ddaw i law gan y darparwr a reoleiddir. Mater i CCAUC wedyn fydd penderfynu a ddylid rhoi'r cyfarwyddyd ai peidio. Os bydd CCAUC yn penderfynu y dylid rhoi'r cyfarwyddyd, bydd yn ofynnol iddo amlinellu ei resymau dros wneud hynny a rhoi gwybod i'r sefydliad a reoleiddir bod ganddo hawl i adolygiad. Gall Gweinidogion Cymru hefyd nodi mewn rheoliadau wybodaeth benodol arall y dylid ei rhoi gyda'r cyfarwyddyd.

127. Bydd sefydliad a reoleiddir sy'n derbyn cyfarwyddyd am ansawdd annigonol yn gallu gofyn am adolygiad gan berson neu banel annibynnol. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag adolygiadau o'r fath. Gall y rheoliadau hyn wneud darpariaeth ar gyfer sail gwneud cais am adolygiad, y cyfnod pryd dylid gwneud cais am adolygiad, a'r weithdrefn i'w dilyn gan y person neu'r panel sy'n cynnal adolygiad. Gall rheoliadau hefyd nodi'r camau penodol i'w cymryd gan CCAUC yn dilyn adolygiad. Y bwriad yw i'r gofynion gweithdrefnol hyn sicrhau bod buddiannau sefydliadau yn cael eu gwarchod mewn ffordd deg a bod modd adolygu penderfyniadau CCAUC mewn ffordd dryloyw ac yn unol â phroses fanwl benodol. Gall rheoliadau hefyd wneud darpariaeth i gyfarwyddyd neu hysbysiad beidio â chael ei drin fel cyfarwyddyd neu hysbiad gan CCAUC hyd nes y bydd camau penodol wedi'u cymryd neu hyd nes y bydd cyfnod penodol wedi pasio (hy dylai fod yn benderfyniad dros dro yn y lle cyntaf). Bydd hyn yn bwysig er mwyn gwarchod sefydliadau.

128. Os bydd sefydliad yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd sy'n ymwneud ag ansawdd annigonol, gall CCAUC, drwy wneud cais i'r llysoedd, geisio gwaharddeb i orfodi'r cyfarwyddyd.

*Gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd*

129. Fel opsiwn arall yn lle ceisio gwaharddeb ar ôl i sefydliad a reoleiddir fethu â chydymffurfio â chyfarwyddyd sy'n ymwneud ag ansawdd annigonol, mae'r Bil yn galluogi CCAUC i roi hysbysiad o'i fwriad i beidio â chymeradwyo cynllun ffioedd a

mynediad newydd ar gyfer sefydliad. Bydd yr hysbysiad yn nodi'n benodol y cyfnod pryd na fydd CCAUC yn cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd. Bydd y gofynion gweithdrefnol sy'n ymwneud â hysbysiadau rhybuddio a hawliau i gael adolygiad (fel y nodwyd uchod mewn perthynas â chyfarwyddyd ar ansawdd annigonol (paragraffau 125-127)) hefyd yn berthnasol i hysbysiadau ynghylch gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd.

130. Gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth am y cyfnod amser y caiff hysbysiad gwrthod fod yn berthnasol, y materion i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu a ddylid rhoi hysbysiad neu ei dynnu'n ôl, a'r gofynion gweithdrefnol sy'n ymwneud â thynnu hysbysiad yn ôl.

*Tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl*

131. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i CCAUC allu tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ystod oes y cynllun hwnnw mewn achosion lle mae'r ansawdd yn ddifrifol o annigonol. Er bod i'r sancsiwn hwn ganlyniadau pellgyrhaeddol, bydd yn diogelu cyfran sylweddol o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn addysg uwch a ddarperir gan sefydliadau a reoleiddir, buddiannau dysgwyr ac enw da'r sector addysg uwch yng Nghymru. Bydd y gofynion gweithdrefnol sy'n ymwneud â hysbysiadau rhybuddio a hawliau i gael adolygiad (fel y nodwyd mewn perthynas â chyfarwyddyd ar ansawdd annigonol (paragraffau 125-127)) hefyd yn berthnasol i hysbysiadau ynghylch tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd yn ôl. Gall Gweinidogion Cymru hefyd, drwy reoliadau, wneud darpariaeth am y materion y mae'n rhaid i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu a ddylid rhoi hysbysiad yn tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl.

*Mesurau pontio mewn perthynas ag asesu ansawdd*

132. Lle daw cynllun ffioedd a mynediad cymeradwy sefydliad i ben, bydd y set flynyddol o reoliadau cymorth i fyfyrwyr a lunnir gan Weinidogion Cymru yn gwarchod myfyrwyr a ddechreuodd gyrsiau ar adeg pan oedd cynllun o'r fath mewn grym. Mae angen hyn gan y bydd statws cynllun ffioedd cymeradwy yn amod dynodi awtomatig o dan reoliadau cymorth i fyfyrwyr. Mae rhagor o wybodaeth am y camau dros dro i warchod myfyrwyr ym mharagraffau 176-178.

133. Lle tynnir statws cynllun cymeradwy sefydliad yn ôl neu lle na chaiff ei adnewyddu am unrhyw reswm, bydd dyletswydd asesu ansawdd CCAUC a'r swyddogaethau cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol i gyrsiau sy'n parhau i gael eu dilyn gan fyfyrwyr sy'n derbyn cymorth Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr. Mae hyn yn gysylltiedig â'r mesurau pontio yn y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr a esbonnir ym mharagraffau 176-178. Bydd hyn yn sicrhau y bydd myfyrwyr sydd eisoes wedi dechrau ar eu hastudiaethau yn parhau i dderbyn addysg o ansawdd derbyniol ac y cynhelir unrhyw adolygiadau asesu ansawdd a gynllunnir.

134. Mewn achosion lle mae dyletswydd CCAUC i asesu ansawdd i barhau er gwaethaf absenoldeb statws cynllun cymeradwy, mae'r Bil yn galluogi CCAUC i roi cyfarwyddyd i sefydliad gydymffurfio â'i ofynion asesu ansawdd yn ogystal â rhoi

cyngor a chymorth lle bo angen. Bydd modd gorfodi unrhyw gyfarwyddyd a roddir drwy waharddeb. Bydd hyn yn darparu mecanwaith gorfodi lle nad yw'n bosibl tynnu cynllun a gymeradwywyd yn ôl (gan ei fod eisoes wedi'i dynnu'n ôl) ac yn gweithredu fel cymhelliad i gydymffurfio â gofynion asesu ansawdd CCAUC.

*Canllawiau*

135. Bydd y Bil yn galluogi CCAUC i roi neu gymeradwyo canllawiau am unrhyw fater y mae'n ei ystyried yn berthnasol i wella neu gynnal ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau a reoleiddir. Bydd y canllawiau hyn yn amlinellu arferion da ar gyfer cynnal a gwella ansawdd addysg, yn ogystal ag enghreifftiau ymarferol sy'n berthnasol i ddarpariaeth addysgol. Bydd yn ofynnol i sefydliadau a reoleiddir roi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau a roddir neu a gymeradwyir gan CCAUC. O ganlyniad, bydd yn ofynnol i CCAUC ymgynghori â phob sefydliad a reoleiddir, ac unrhyw berson arall perthnasol yn eu barn nhw, cyn rhoi neu gymeradwyo'r canllawiau hyn.

136. Gall CCAUC hefyd roi canllawiau ar y gweithdrefnau a'r meini prawf i'w defnyddio gan berson sy'n cynnal asesiad ansawdd yn unol â'i ddyletswydd asesu ansawdd newydd. Gall y canllawiau hyn amlinellu'r ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu a yw ansawdd addysg yn annigonol neu'n debygol o fod yn annigonol yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhoi darlun clir i sefydliadau a reoleiddir o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt cyn asesiad ansawdd.

***Sicrwydd trefniadau rheoli ariannol***

137. Ar hyn o bryd mae CCAUC yn cynnal gweithgareddau i wirio'r ffordd y mae'r sefydliadau addysg uwch mae'n eu hariannu yn trefnu eu materion ariannol Mae hyn yn gwarchod y defnydd o gyllid cyhoeddus a buddiannau myfyrwyr, trethdalwyr a Llywodraeth Cymru. Mae'r trefniadau hefyd yn diogelu cronfeydd cyhoeddus eraill (*ee* grantiau Cynghorau Ymchwil) gan fod CCAUC yn gwirio sefydliadau cyfan yn hytrach na chynllun grant penodol.

138. Sail gyfreithiol sicrwydd trefniadau rheoli ariannol yw'r memorandwm ariannol (a thelerau ac amodau eraill cyllid) rhwng CCAUC a sefydliadau unigol. Mater i gorff llywodraethu'r sefydliad yw sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'r memorandwm hwn a chanllawiau cysylltiedig. Mae CCAUC yn gwneud gwaith sicrwydd mewn sefydliadau, gan fonitro'u sefyllfa ariannol a chynnal adolygiadau rheolaidd o ystadau a chynlluniau datblygu cyfalaf.

139. Bydd y Bil yn galluogi CCAUC i wirio trefniadau rheoli pob sefydliad sydd â chynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd. Y bwriad yw adeiladu ar swyddogaethau ac arferion presennol CCAUC er mwyn sicrhau bod sefydliadau a reoleiddir:

- yn cael eu rhedeg yn dda ac yn cydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u cyhoeddi ynghylch rheoli ariannol;
- yn defnyddio systemau cyllid effeithiol ac effeithlon;

- yn gynaliadwy i'r dyfodol.

*Cod rheoli ariannol*

140. Er mwyn rhoi sail statudol i swyddogaeth CCAUC i sicrhau trefniadau rheoli ariannol, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC:

(a) baratoi a chyhoeddi cod rheoli ariannol ('y Cod');

(b) adolygu'r Cod yn ôl yr angen;

(c) ymgynghori â'r rhanddeiliaid priodol cyn cyhoeddi'r Cod (neu cyn gwneud unrhyw newidiadau iddo).

141. Bydd y Cod yn elfen allweddol o'r fframwaith rheoleiddio newydd. Bydd paratoi'r Cod yn rhan sylfaenol o rôl reoleiddio CCAUC a chaiff y gwaith hwn ei wneud hyd braich oddi wrth Weinidogion Cymru ar ôl ymgynghori â sefydliadau a reoleiddir ac eraill. Mae'r Bil yn caniatáu i ddarpariaethau o fewn y Cod fod ar ffurf gofyniad neu ganllawiau. Rhoddir dyletswydd ar sefydliad a reoleiddir i gydymffurfio â gofyniad a nodir yn y Cod ac i roi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau yn y Cod. Bydd hyn yn sicrhau bod canllawiau, a fydd yn helpu sefydliadau i gydymffurfio â'r Cod, yn rhan annatod o'r Cod.

142. Nid yw manylion y Cod wedi'u cynnwys yn y Bil ac ni chânt eu nodi'n benodol mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd y Cod yn ymwneud â threfniadau a dull rheoli sefydliad a reoleiddir mewn perthynas â'i faterion ariannol, a gall gynnwys darpariaethau am:

- yr amgylchiadau pryd y bydd angen cydsyniad CCAUC cyn gall sefydliad a reoleiddir fod yn rhan o drafodion ariannol penodol a nodir yn y Cod;
- trefniadau cyfrifyddu ac archwilio mewn sefydliadau a reoleiddir;
- darparu gwybodaeth i CCAUC.

*Ymgynghori ar y Cod a'i gymeradwyo*

143. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ymgynghori ar ddatblygu'r Cod, ac unrhyw newidiadau a wneir iddo, â phob sefydliad a reoleiddir ac ag unrhyw bobl eraill berthnasol yn eu barn nhw. Y bwriad yw y bydd hyn yn sicrhau bod pob rhanddeiliad perthnasol yn ymwybodol o'r cynnwys arfaethedig ac yn cael cyfle i gyfrannu at ddatblygiad y Cod.

144. O gofio pwysigrwydd y Cod mewn perthynas â gweithredu'r fframwaith rheoleiddio newydd, gwneir darpariaeth ar gyfer cam craffu ychwanegol cyn i'r Cod gael ei gwblhau'n derfynol. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC gyflwyno'r fersiwn ôl-ymgynghori o'r Cod i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo. Os bydd Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r Cod, rhaid iddynt ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru er gwybodaeth. Bydd y weithdrefn hon hefyd yn berthnasol pan wnaiff CCAUC newidiadau i'r Cod. Unwaith bydd y Cod wedi'i gymeradwyo gan

Weinidogion Cymru a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i CCAUC gyhoeddi'r Cod.

*Canllawiau gan Weinidogion Cymru*

145. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau y mae'n rhaid i CCAUC roi sylw iddynt wrth ddatblygu'r Cod. Gallai'r canllawiau amlinellu'r egwyddorion cyffredinol y dylai CCAUC roi ystyriaeth iddynt wrth ddatblygu'r Cod; er enghraifft, y math o drafodion neu natur y trafodion y dylid eu nodi'n benodol yn y Cod fel rhai sy'n galw am gydsyniad ysgrifenedig blaenorol gan CCAUC; y math o wybodaeth a natur yr wybodaeth y byddai'n ofynnol i sefydliad ei rhoi i CCAUC; lle na ddylai elfennau o'r Cod fod yn berthnasol mewn amgylchiadau penodol; neu i gategori o sefydliadau, a manylion ynghylch paratoi'r Cod, y broses ymgynghori a'i gyhoeddi. Bydd hyn, ynghyd â'r gofyniad i CCAUC ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'r Cod ac i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r Cod (a newidiadau a wneir iddo), yn gam diogelu digonol yng ngoleuni'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid yn eu hadborth i gynigion yr Ymgynghoriad Technegol. Bydd hefyd yn cynnal y berthynas hyd braich rhwng y Llywodraeth a darparwyr addysg uwch ac yn rhoi'r rhyddid i CCAUC ddatblygu manylion y Cod.

*Cymhwyso'r Cod*

146. Mae'r Bil yn rhoi pob sefydliad a reoleiddir o dan rwymedigaeth i gydymffurfio â gofynion y Cod a rhoi ystyriaeth i'r canllawiau yn y Cod. Bydd un cod yn berthnasol i bob sefydliad a reoleiddir, ond efallai y bydd angen i'r Cod gydnabod yn glir wahaniaethau rhwng darparwyr. Mae sefyllfa'r Brifysgol Agored yn unigryw gan ei bod, at ddibenion Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, yn cael ei diffinio fel sefydliad yng Nghymru ac fel sefydliad yn Lloegr. Adlewyrchir y sefyllfa honno yn y Bil. Fodd bynnag, un endid cyfreithiol yw'r Brifysgol Agored ac mae ei chanolfan weinyddol yn Lloegr. Mae'r Brifysgol Agored yn ddarostyngedig i femorandwm ariannol arall gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE), a'r bwriad yw y bydd CCAUC yn parhau, fel y mae ar hyn o bryd, i gael sicrwydd gan HEFCE ynghylch sut caiff y Brifysgol Agored ei rheoli'n ariannol. Nid yw'r Bil, felly, yn gwneud darpariaeth i'r Brifysgol Agored fod yn ddarostyngedig i'r Cod rheoli ariannol.

147. Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar CCAUC i wneud darpariaeth i sicrhau y monitrir i ba raddau y cydymffurfir â gofynion y Cod. Gall CCAUC naill ai ymgymryd â'r gwaith monitro ei hun neu drefnu i rywun arall wneud hynny. Bydd hyn yn galluogi CCAUC (os yw'n dymuno) i fonitro sefydliadau addysg bellach sy'n sefydliadau a reoleiddir drwy wneud trefniadau gyda Llywodraeth Cymru sydd, ar hyn o bryd, yn ymgymryd â rôl sicrwydd ariannol mewn perthynas â'r sector addysg bellach yng Nghymru. Mae i hyn y fantais o osgoi dyblygu gweithgarwch sicrwydd. Bydd hefyd yn galluogi CCAUC i benodi aseswr neu wneud defnydd o archwilwyr allanol yn ôl yr angen.

*Gofynion cydsyniad ar gyfer trafodion ariannol penodol*

148. O dan Femorandwm Ariannol presennol CCAUC[17] gyda sefydliadau addysg uwch, mae'n ofynnol i sefydliadau gael cydsyniad CCAUC ar gyfer rhai ymrwymiadau ariannol penodol. Mae'r Memorandwm Ariannol hefyd yn amlinellu achosion lle mae cydsyniad CCAUC yn ofynnol mewn perthynas â gwerthu neu gael gwared ar dir neu adeiladau. Mae'r cyfyngiadau hyn yn eu lle i sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor sefydliadau addysg uwch, ac i warchod buddsoddiad cyhoeddus yn y sector ac er budd myfyrwyr. Mae CCAUC o'r farn bod y trefniant presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad CCAUC ar gyfer ymrwymiadau ariannol penodol yn cael ei ystyried yn rhywbeth buddiol mewn llawer o sefydliadau addysg uwch gan ei fod yn cynnig sicrwydd ychwanegol ac yn lleihau'r risg i fenthycwyr. Mae CCAUC hefyd o'r farn bod arferion presennol yn darparu lefel o sicrwydd i ddarparwyr eraill cyllid cyhoeddus fel Cynghorau Ymchwil. Rhaid i ofynion y Cod fod yn ddigon cadarn i hyn barhau.

149. Bydd y Cod yn cynnwys yr amgylchiadau lle bydd angen cydsyniad CCAUC cyn y gall sefydliad addysg uwch fod yn rhan o drafodion ariannol penodol. Caiff hyd a lled yr amgylchiadau hynny eu hamlinellu yn y Cod. Ymgynghorir ar y Cod â sefydliadau a reoleiddir ac eraill sy'n berthnasol ym marn CCAUC. Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gymeradwyo'r cod drafft. Bydd cynnwys y gofyniad hwn yn helpu i ddiogelu cynaliadwyedd ariannol hirdymor sefydliadau, ac yn sicrhau'r defnydd effeithiol o arian cyhoeddus ac ansawdd addysg myfyrwyr.

*Hawl mynediad*

150. O dan y trefniadau presennol, mae CCAUC yn monitro sicrwydd trefniadau rheoli ariannol drwy adolygu gwybodaeth, dogfennau a ffurflenni sefydliadau addysg uwch. Caiff adolygiadau cylchol eu cynnal ar y safleoedd hefyd.[18]. Ar hyn o bryd, caiff trefniadau o'r fath eu gorfodi gan delerau ac amodau cyllid ac mae'n bwysig nad yw pŵer CCAUC yn mynd yn llai yn hyn o beth nag sy'n wir ar hyn o bryd. Er mwyn galluogi CCAUC i fonitro'n effeithiol i ba raddau y mae sefydliadau addysg uwch yn cydymffurfio â'r Cod, rhoddir dyletswydd ar gyrff llywodraethu sefydliadau a reoleiddir i gydweithredu â CCAUC neu'r sawl sy'n cynnal gweithgareddau monitro ar ran CCAUC. Mae'r ddyletswydd i gydweithredu yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad roi'r wybodaeth, y cymorth a'r mynediad i gyfleusterau'r sefydliad ag sy'n rhesymol ofynnol at ddibenion monitro i ba raddau y cydymffurfir â'r Cod. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i CCAUC neu berson a benodir ganddo fod yn siwr o gael mynediad i safle, cofnodion a staff sefydliad a reoleiddir at ddibenion monitro i ba raddau y mae'r sefydliad yn cydymffurfio â'r Cod. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i berson(au) sy'n ymgymryd â gweithgareddau sicrwydd ddangos cerdyn adnabod os gofynnir iddio/iddynt wneud hynny.

---

17 W08/36HE: Revised Financial Memorandum and Audit Code of Practice, HEFCW, 2008 www.hefcw.ac.uk/working_with_he_providers/institutional_assurance/institutional_assurance.aspx

18 Caiff y gofynion hyn eu hamlinellu ym mharagraffau 24-28, 56-58 a 59-64 o W08/36HE: Revised Financial Memorandum and Audit Code of Practice, HEFCW, 2008.

151. Lle bydd sefydliad a reoleiddir yn methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd i gydweithredu, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i CCAUC roi cyfarwyddyd i sefydliad gymryd camau (neu beidio â chymryd camau) er mwyn cael gwybodaeth, cymorth neu fynediad. Bydd modd gorfodi sefydliad i gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir drwy waharddeb.

*Gorfodi'r Cod*

152. Ar hyn o bryd, lle bydd gweithgareddau sicrwydd CCAUC yn tynnu sylw at broblemau, gall CCAUC geisio adennill symiau o gyllid rheolaidd neu wrthod rhyddhau cyllid yn y dyfodol. Ni fydd y camau hyn yn bosibl i CCAUC yn y dyfodol yng ngoleuni'r trefniadau cyllid newydd. Mae'r Bil yn cynnig pwerau ymyrryd a sancsiynau i CCAUC ar gyfer achosion lle na chydymffurfir â'r Cod. Mae angen hyn er mwyn gwarchod buddiannau dysgwyr ac enw da addysg uwch yng Nghymru.

153. Os daw camreoli ariannol i'r amlwg, ar hyn o bryd bydd CCAUC yn gweithredu fel a ganlyn:

- gwneud trefniadau i greu tîm cymorth i helpu'r sefydliad i ddatrys y camreoli ariannol;
- yn achos sefydliadau addysg uwch, cynnal adolygiad sicrwydd arbennig i gael gweld a oes yna broblemau ehangach o ran rheoli, gallu a llywodraethu;
- yn achos sefydliadau addysg bellach, cael gwybodaeth gyson am gynnydd o ran unrhyw gynllun adfer a sefydlir drwy gydgysylltu â Llywodraeth Cymru fel y prif gyllidwyr.

154. Yn unol â'r trefniadau ar gyfer asesu ansawdd, efallai y bydd CCAUC am geisio helpu'r sefydliad, yn y lle cyntaf, i gydymffurfio â gofynion y Cod neu roi cymorth i'w helpu i gydymffurfio â gofynion cyfarwyddyd penodol. Mae'r Bil, felly, yn gwneud darpariaeth i CCAUC roi cyngor neu gymorth i sefydliad gyda'r bwriad o wella'r sefydliad neu'r ffordd y rheolir materion ariannol sefydliad. Gallai hyn gynnwys:

- anfon tîm cymorth i'w helpu;
- siarad yng nghyfarfodydd corff llywodraethu/bwrdd rheoli sefydliad a reoleiddir ynghylch unrhyw fater sy'n deillio o fethiant i gydymffurfio â'r Cod.

155. Os bydd sefydliad yn methu â dilyn y Cod, mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar y sefydliad i sicrhau bod CCAUC yn cael gwybodaeth, cymorth a mynediad i gyfleusterau er mwyn gallu rhoi cefnogaeth i'r sefydliad hwnnw. Rhaid i'r sefydliad hefyd roi ystyriaeth i unrhyw gyngor gan CCAUC.

156. Mae'r Bil yn caniatáu i CCAUC roi cyfarwyddyd i sefydliadau a reoleiddir gymryd camau neu beidio â chymryd camau yn ôl yr angen, er mwyn delio â methiant i gydymffurfio â'r Cod neu i atal methiant o'r fath. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi hysbysiad i sefydliad a reoleiddir yn ei rybuddio o'i fwriad i roi cyfarwyddyd i'r sefydliad hwnnw. Bydd sefydliadau a reoleiddir yn gallu cyflwyno

sylwadau am y cyfarwyddyd arfaethedig. Dylai'r hysbysiad rhybuddio amlinellu'r cyfarwyddyd arfaethedig, y rhesymau pam mae CCAUC yn bwriadu ei roi, a'r cyfnod pryd y caiff y sefydliad a reoleiddir gyflwyno sylwadau am y cyfarwyddyd arfaethedig a sut.

157. Cyn mynd ati i roi cyfarwyddyd, bydd yn ofynnol i CCAUC roi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a ddaw i law gan y darparwr a reoleiddir. Mater i CCAUC fydd penderfynu ar bob achos ar sail ei deilyngdod gan roi ystyriaeth i'r sylwadau a ddaeth i law. Wrth roi cyfarwyddyd, bydd yn ofynnol i CCAUC amlinellu ei resymau dros y cyfarwyddyd yn ysgrifenedig a rhoi manylion am hawl y sefydliad i ofyn am adolygiad. Gall y sefydliad wneud cais am i'r cyfarwyddyd gael ei adolygu gan berson neu banel annibynnol.

158. Os bydd sefydliad yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd, gall CCAUC wneud cais am waharddeb i orfodi'r cyfarwyddyd. Mae'n debygol y bydd ei orfodi drwy waharddeb yn briodol mewn achosion lle bo'r diffyg i gydymffurfio â'r Cod yn dechnegol ei natur, megis y methiant i ddarparu dogfennau neu wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Cod neu lle caiff sefydliad gyfarwyddyd i beidio â chymryd cam penodol.

*Hysbysiad ynghylch gwrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd a mynediad newydd*

159. Fel opsiwn arall yn lle ceisio gwaharddeb i orfodi cyfarwyddyd ac, yn unol â'r dull a fabwysiadwyd mewn perthynas ag asesu ansawdd, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i CCAUC allu rhoi hysbysiad ei fod am wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd newydd i sefydliad. Penderfyniad dros dro fydd penderfyniad i beidio â chymeradwyo cynllun ffioedd newydd, a bydd yn destun adolygiad annibynnol. Mae'r gofynion gweithdrefnol a amlinellir ym mharagraffau 85-87 o'r Memorandwm hwn yn berthnasol i'r sancsiwn hwn.

*Tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl*

160. Mae'r Bil yn galluogi CCAUC i dynnu ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd yn ôl os yw'n fodlon bod corff llywodraethu'r sefydliad dan sylw wedi methu'n ddifrifol â chydymffurfio â'r Cod.

161. Dylid gwahaniaethu rhwng methiant difrifol i gydymffurfio â'r Cod a methiannau eraill i gydymffurfio â'r Cod. Yn achos methiant difrifol, ni fydd yn ofynnol i CCAUC gyfarwyddo corff llywodraethu sefydliad. Yn hytrach, bydd gan CCAUC y pŵer i fynd ati ar unwaith i roi hysbysiad o'i fwriad i dynnu ei gymeradwyaeth i'r cynllun ffioedd yn ôl yn unol â gweithdrefn a gaiff ei gosod mewn rheoliadau. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb ar draws y fframwaith arfaethedig ac mai dim ond mewn amgylchiadau sy'n galw am hynny y caiff camau o'r fath eu cymryd. Mater i CCAUC, ar ôl rhoi ystyriaeth i ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru, fydd penderfynu'r hyn a olygir wrth "methiant difrifol" i gydymffurfio â'r Cod. Os bydd CCAUC yn fodlon bod sefydliad yn ansefydlog yn ariannol, neu mewn amgylchiadau lle mae tystiolaeth o

dwyll neu weithgarwch ariannol anghyfreithlon wedi'i nodi, gellid ei ystyried yn fethiant difrifol.

***Trefniadau sy'n berthnasol ar draws y fframwaith rheoleiddio***

*Trefniadau pontio ar gyfer cynlluniau ffioedd*

162. Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn ystyried ceisiadau am gynlluniau ffioedd a gyflwynir gan sefydliadau ryw 18 mis cyn i'r cynlluniau hynny ddod i rym. Mae'r cyfnod hwn yn caniatáu i ffioedd gael eu pennu cyn i ddarpar fyfyrwyr wneud cais am gyrsiau.

163. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i gynlluniau ffioedd a gymeradwywyd gan CCAUC o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("Cynlluniau 2004" gael eu trin fel cynlluniau ffioedd a mynediad a gymeradwywyd o dan y Bil hwn at ddibenion penodol hyd at a chan gynnwys 31 Awst 2016, hy ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015/16.

164. Polisi Llywodraeth Cymru yw sicrhau y gall CCAUC orfodi'r cap ar ffioedd dysgu ac ansawdd addysg a ddarperir gan sefydliadau yn ystod y flwyddyn academaidd 2015/2016. Caiff Cynlluniau 2004 eu trin fel cynlluniau ffioedd a mynediad at y dibenion hynny.

165. Ni fydd y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â thynnu cymeradwyaeth yn ôl i gynllun a chydymffurfio â'r Cod yn berthnasol i Gynlluniau 2004. Nid yw'r sancsiynau hyn yn bodoli o dan y system bresennol, ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn na fyddai'n deg cymhwyso'r sancsiynau penodol hynny yn ystod y flwyddyn academaidd 2015/16 yn achos sefydliadau a wnaeth gais am i'w cynllun ffioedd gael ei gymeradwyo o dan y system bresennol.

*Datganiad ar arfer pwerau ymyrryd*

166. Polisi Llywodraeth Cymru yw bod CCAUC yn defnyddio ei bwerau ymyrryd yn gymesur. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC baratoi datganiad ar ei bolisi o ran arfer ei bwerau ymyrryd, ymgynghori arno, ei gyhoeddi a'i adolygu'n gyson. Bydd y datganiad hwn yn cwmpasu'r canlynol:

- cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu;
- cyfarwyddyd mewn perthynas ag ansawdd annigonol a chymhwyso mesurau eraill mewn perthynas ag ansawdd annigonol;
- cyfarwyddyd mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â'r Cod Rheoli Ariannol a chymhwyso mesurau mewn perthynas â methiannau i gydymffurfio â'r Cod
- gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd;
- tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl.

167. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru allu nodi'n benodol drwy reoliadau sut dylai CCAUC baratoi ei ddatganiad ymyrryd, ymgynghori arno a'i gyhoeddi. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn bwriadu defnyddio eu pŵer i roi canllawiau i CCAUC yn amlinellu pryd y bydd a phryd na fydd yn briodol i CCAUC ddefnyddio ei sancsiynau.

168. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ymgynghori â phob sefydliad a reoleiddir ac unrhyw bobl eraill sy'n briodol yn eu barn nhw cyn cyhoeddi ei ddatganiad o'i bolisi ymyrryd neu cyn diwygio'r datganiad. Bydd hyn yn sicrhau bod sefydliadau a reoleiddir ac eraill yn ymwybodol o'r ymyriadau y gall CCAUC eu cyflwyno os methir â chydymffurfio â gofynion y fframwaith rheoleiddio, pryd a sut caiff yr ymyriadau hynny eu gweithredu a chanlyniadau peidio â chydymffurfio. Mae'r Bil yn rhoi gofyniad arall ar CCAUC i gyhoeddi'r datganiad. Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn cyhoeddi ymgyngoriadau ar y rhyngrwyd, fel y byddant ar gael i unrhyw un ymateb a disgwylir i hyn barhau.

*Cyhoeddi camau gorfodi*

169. Mae canllawiau cyfredol Gweinidogion Cymru ar gyfer CCAUC ynghylch cymeradwyo cynlluniau ffioedd a gorfodi yn nodi y dylai CCAUC gadw mewn cof yr angen i fod yn dryloyw, yn atebol ac yn gyson wrth ystyried y gweithgareddau a'r targedau a amlinellir yng nghynlluniau ffïoedd sefydliadau.

170. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi datganiad i gorff llywodraethu sefydliad yn amlinellu ei resymau dros yr hysbysiad am dynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl neu am beidio â'i gymeradwyo, neu dros gyfarwyddyd i gydymffurfio ac ad-dalu.

171. Bydd rhwymedigaeth ar CCAUC hefyd i anfon copi o unrhyw hysbysiad a roddir i sefydliad a reoleiddir i Weinidogion Cymru a chyhoeddi hysbysiad. Bydd hyn yn caniatáu i'r rheini sydd â diddordeb fod yn ymwybodol o'r sancsiynau a gyflwynwyd, bydd yn gwneud rôl reoleiddio CCAUC yn fwy tryloyw ac yn annog sefydliadau a reoleiddir i gywiro ar frys unrhyw fethiannau i gydymffurfio.

*Adroddiadau blynyddol ac arbennig*

172. Er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer craffu'n allanol ar sut y gweithredir y fframwaith rheoleiddio newydd, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru yn nodi sut mae wedi cyflawni ei swyddogaethau. Bydd hyn yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael gwybod am achosion o gamreoli arian neu sefydliadau, methiannau i ddarparu addysg o ansawdd digonol a'r cynnydd a wneir gan sefydliadau o ran cydymffurfio â'u hymrwymiadau i gynlluniau ffioedd a mynediad.

173. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagdybio y bydd cynnwys adroddiadau blynyddol yn gydnaws â datganiad cyfredol CCAUC o sicrwydd blynyddol a ddarperir i Lywodraeth Cymru a'r adroddiad blynyddol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Addysg Uwch

2004 ynghylch cyflawni swyddogaethau monitro cynlluniau ffioedd cyfredol CCAUC, ac ni ddylai felly roi unrhyw feichiau ychwanegol sylweddol ar CCAUC. Y bwriad yw y bydd adroddiadau o'r fath yn nodi manylion unrhyw achosion o ddefnyddio pwerau ymyrryd CCAUC ac yn rhoi mwy o dryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â sut mae swyddogaethau CCAUC yn cael eu cyflawni. Gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i CCAUC ynghylch ffurf a chynnwys yr adroddiad blynyddol.

174. Yn ogystal ag adroddiadau blynyddol, o bryd i'w gilydd efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i CCAUC roi adroddiadau arbennig iddynt. Efallai y bydd gofyn am adroddiadau o'r fath ar sail *ad hoc* yn ôl yr hyn y bydd Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn angenrheidiol. Er enghraifft, gallai Gweinidogion Cymru ofyn am adroddiad am ansawdd addysg mewn sefydliad penodol os bydd pryderon wedi'i godi amdano, neu am ansawdd addysg cyrsiau a ddarperir o dan drefniadau breinio yn gyffredinol. Gallai Gweinidogion Cymru hefyd ofyn am adroddiad arbennig ar effeithiolrwydd cynlluniau a gymeradwywyd yn gyffredinol wrth hyrwyddo cyfle cyfartal mewn perthynas â mynediad i addysg uwch.

*Canllawiau Gweinidogion Cymru i CCAUC*

175. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i CCAUC, wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil, roi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi canllawiau i CCAUC am:

- geisiadau am gynlluniau ffioedd a mynediad a'u cymeradwyo
- monitro a gwerthuso cynlluniau ffïoedd a mynediad
- asesu ansawdd addysg
- paratoi'r Cod Rheoli Ariannol
- paratoi datganiad o bolisi ymyrryd

*Gwarchod dysgwyr mewn sefydliad nad oes ganddo gynllun ffioedd a mynediad bellach*

176. Bydd angen cynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd gan CCAUC ar sefydliadau a darparwyr eraill sydd am i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr. Darperir cymorth statudol i fyfyrwyr drwy reoliadau a wnaed o dan adran 22 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

177. Os daw cynllun ffioedd a mynediad darparwr i ben, y polisi yw na fydd cyrsiau a ddarperir ganddo yn cael eu trin bellach fel rhai a ddynodir yn awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai colli'r elfen o ddynodi cyrsiau yn awtomatig effeithio'n andwyol ar fyfyrwyr a ddechreuodd eu cyrsiau ar adeg pan oedd gan eu darparwr gynllun ffioedd a mynediad. Ac eithrio mewn amgylchiadau anarferol iawn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwarchod y myfyrwyr hynny drwy'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr drwy wneud darpariaeth i gynnal y cymorth ar eu cyfer.

178. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i sicrhau na fydd myfyrwyr yn colli eu hawliau o ran ffioedd lle bydd darparwr yn colli ei gynllun ffioedd. Lle daw cynllun i ben neu lle bydd CCAUC yn tynnu ei gymeradwyaeth yn ôl, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu'r sefydliad sicrhau bod y ffioedd ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau o fewn cyfnod ei gynllun ffioedd yn parhau i gydymffurfio â'r terfyn ffioedd perthnasol.

# 4. Ymgynghori

***Papur Gwyn Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)***

179. Yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2011, cafwyd ymrwymiad gan Brif Weinidog Cymru i ymgynghori'n briodol ac i ymgysylltu'n ystyrlon gyda'n partneriaid wrth ymgymryd â'r gwaith o lunio deddfwriaeth. Yn unol â'r datganiad hwnnw, cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau Bapur Gwyn ar 2 Gorffennaf 2012 yn ymdrin â'r cynigion ar gyfer Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru). Roedd y Papur Gwyn, a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru, yn gwahodd sylwadau am y cynigion ar gyfer y Bil. Mae'r ddogfen ymgynghori lawn ar gael yn:

http://wales.gov.uk/consultations/education/feandhebill/?skip=1&lang=cy .

180. Er mwyn cydymffurfio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, cynhaliwyd ymgynghoriad a oedd wedi ei deilwra'n benodol ar gyfer pobl ifanc, a chyhoeddwyd erthygl ac arolwg ar wefannau pobl ifanc a'r cyfryngau cymdeithasol[19]. Roedd yr arolwg yn gofyn pum cwestiwn, a oedd yn ymwneud yn gyffredinol â'r materion yr oedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i glywed barn pobl ifanc yn eu cylch. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gyfer pobl ifanc ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn

http://wales.gov.uk/consultations/education/feandhebill/?skip=1&lang=cy.

181. Roedd y Papur Gwyn yn ymgynghori ar gynigion a oedd yn ymwneud â'r canlynol:

- trefniadau newydd ar gyfer cyllid a chymorth i fyfyrwyr;
- cefnogi partneriaethau a gweithgarwch ar y cyd;
- sicrhau ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch a'i gwella;
- cryfhau llais y dysgwr;
- trefniadau mynediad; a
- gweithdrefnau datrys anghydfodau.

182. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am gyfnod o ddeuddeg wythnos, a daeth i ben ar 24 Medi 2011. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r ymatebion fel y daethant i law oddi wrth wahanol sectorau.

---

[19] Gan gynnwys CLIC ar-lein, Cyllid Myfyrwyr Cymru, Gyrfa Cymru, Llais Disgyblion Cymru a Facebook.

**Tabl 2**

**Crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyn**

| **Sector** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Sefydliadau addysg uwch | 10 |
| Sefydliadau addysg bellach | 3 |
| Cyrff cynrychiolwyr a rhanddeiliaid | 21 |
| Undebau | 7 |
| Dysgwyr a phobl ifanc | 17 |
| Unigolion | 4 |
| **Cyfanswm** | **62** |

183. Defnyddiwyd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn i lywio'r broses o ddatblygu polisi. Mae hynny'n cynnwys y penderfyniadau i *beidio â bwrw ymlaen* â rhai darpariaethau, sef cynigion sy'n ymwneud â gallu Gweinidogion Cymru i gyllido addysg uwch yn uniongyrchol, rhoi dyletswydd statudol ar CCAUC o ran gwella ansawdd (yn hytrach na sicrhau ansawdd), a ffurfioli'r prosesau presennol ar gyfer cryfhau llais y dysgwr.

184. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyn ar 6 Mawrth 2013, ac mae hwnnw i'w weld yn:

http://wales.gov.uk/consultations/education/feandhebill/?skip=1&lang=cy.

185. Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn y Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig cysylltiedig, y byddai'r cynigion ar gyfer addysg uwch yn cael eu dadansoddi a'u datblygu ymhellach, a nododd ei fwriad i geisio cael y darpariaethau deddfwriaethol angenrheidiol yn nes ymlaen yn nhymor y Cynulliad hwn. I weld y Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig, ewch i:

http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/fehewhitepaperbillresponses/?skip=1&lang=cy.

186. Mae prif themâu'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu crynhoi isod.

*Crynodeb o'r ymatebion*

Trefniadau cyllid a chymorth i fyfyrwyr

- Dylai'r cymorth sy'n parhau i gael ei ddarparu ar gyfer myfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau dynodedig a ddarperir gan ddarparwyr preifat, ochr yn ochr â'r trefniadau rheoleiddio arfaethedig, helpu i sicrhau chwarae teg i bob darparwr a hefyd bod myfyrwyr yn cael cymaint o ddewis â phosibl.
- Gallai'r cynnig i barhau â'r cymorth hwn olygu y bydd mwy o alw ar gyllideb cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru.
- Roedd yr ymatebion yn cefnogi'n gryf y cynigion rheoleiddio a fyddai'n berthnasol i'r holl ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau sydd wedi'u dynodi at ddibenion cymorth i fyfyrwyr.

Cefnogi partneriaethau a gweithgarwch ar y cyd

- Mae yna bosibilrwydd y gallai'r cynnig ymyrryd ag annibyniaeth sefydliadol a rhyddid academaidd, a chael effaith andwyol ar egwyddor sydd wedi ei hen sefydlu, sef y dylai prifysgolion weithredu hyd braich oddi wrth y Llywodraeth.
- Roedd yn bosibl cyllido'r math o weithgareddau yr oedd Llywodraeth Cymru am eu cefnogi o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol.
- Roedd yr ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r profiad a'r arbenigedd mewn addysg uwch, a hefyd y cyllid, a ddarperir gan CCAUC.
- Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r bwriad i ddatblygu llwybrau cyllido symlach a mwy effeithlon.

Sicrhau ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch a'i gwella

- Dylai'r trefniadau sicrhau ansawdd fod yn gyson gan sicrhau bod pob darparwr yng Nghymru yn cael chwarae teg a bod yna drothwy o ran lefel ansawdd y ddarpariaeth a ddarperir ar gyfer pob dysgwr.
- Roedd yr ymatebwyr yn cymeradwyo ffocws Llywodraeth Cymru ar wella ansawdd y ddarpariaeth a phrofiad y dysgwr.
- Rhaid i'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd barhau'n gydnaws â'r prosesau sydd ar waith yng ngweddill y DU, a dylid parhau i allu cymharu â hwy.
- Roedd yr ymatebwyr yn gwerthfawrogi profiad ac arbenigedd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.

Cryfhau llais y dysgwr

- Roedd canllawiau CCAUC ar gyfer cyllido undebau myfyrwyr wedi bod yn ddefnyddiol, a dylid eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu'r arferion gorau.
- Roedd y set gyffredin o swyddogaethau ar gyfer undebau myfyrwyr a nodir yng nghanllawiau CCAUC yn briodol.
- Roedd y canllawiau wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau bod sefydliadau'n datblygu siarteri drwy ymgynghori ag undebau myfyrwyr a chynnal deialog wybodus ac adeiladol gyda hwy.
- Dylid adolygu siarteri myfyrwyr yn rheolaidd.

Trefniadau mynediad a gweithdrefnau datrys anghydfodau

- Dylai fod yn ofynnol i bob darparwr, sy'n cynnig cyrsiau sydd wedi eu dynodi at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr, gydymffurfio â threfniadau mynediad teg mewn perthynas â'r cyrsiau hynny, a hefyd, ar lefel sefydliad, gydymffurfio â threfniadau datrys anghydfodau myfyrwyr Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Byddai hynny'n helpu i ddiogelu buddiannau'r dysgwr gan sicrhau chwarae teg i'r holl ddarparwyr addysg uwch.
- Dylai fod yn ofynnol i bob sefydliad sy'n derbyn arian cyhoeddus gydymffurfio â set gyffredin o safonau.

***Bil Addysg Uwch (Cymru): Ymgynghoriad Technegol***

187. Cafodd yr Ymgynghoriad Technegol ei gyhoeddi ar 20 Mai 2013, a chaeodd o ran derbyn ymatebion ar 29 Gorffennaf 2013. Roedd yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a'r darpariaethau yr oedd yn awyddus i'w cynnwys yn y Bil. Roedd y ddogfen hon yn gwahodd sylwadau am sut y dylai'r system reoleiddio ddiwygiedig weithredu, sef a ddylid:

- cyflwyno dull diwygiedig o ddynodi cyrsiau addysg uwch at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr;
- cyflwyno trefniadau sy'n ei gwneud yn orfodol rhoi cap ar ffioedd dysgu a chynlluniau ffioedd; a
- chyflwyno trefniadau ar gyfer asesu ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch; rhoi ar waith systemau sicrwydd ariannol a llywodraethu.

188. Mae'r Ymgynghoriad Technegol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

http://wales.gov.uk/consultations/education/higher-education-wales-bill-technical-consultation/?skip=1&lang=cy.

189. Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad eu defnyddio i ddatblygu'r polisi ymhellach ac i lunio'r Bil. Mae adroddiad cryno o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi ei gyhoeddi, ac mae ar gael yn:

http://wales.gov.uk/consultations/education/higher-education-wales-bill-technical-consultation/?skip=1&lang=cy

190. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law gan y gwahanol sectorau.

**Tabl 3: Crynodeb o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad Technegol**

| Sector | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Sefydliadau addysg uwch | 9 |
| Sefydliadau addysg bellach | - |
| Cyrff cynrychiolwyr a rhanddeiliaid | 4 |
| Undebau | 3 |
| Cyrff a noddir gan y Llywodraeth | 3 |
| Dysgwyr a phobl ifanc† | - |
| Unigolion | 1 |
| Arall | 1 |
| **Cyfanswm** | **21** |

† Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc fel rhan o'r Ymgynghoriad Technegol.

*Crynodeb o'r ymatebion*

Materion trawsbynciol:

- Y potensial o ran dyblygu gwaith neu greu rhagor o fiwrocratiaeth yn sgil y nifer o bwerau a rheolaethau a ragwelir
- Gan y byddai'r gofyniad arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr fod â statws elusennol er mwyn i Weinidogion Cymru allu dynodi bod eu cyrsiau'n gymwys ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr yn awtomatig, roedd perygl y gellid dyblygu deddfwriaeth neu greu gwrthdaro â'r ddeddfwriaeth bresennol.

- Y posibilrwydd y byddai'r fframwaith rheoleiddio diwygiedig yn effeithio ar annibyniaeth sefydliadau a'u statws fel sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd (NPISH)
- Pryder ei bod yn ymddangos bod pwyslais yr ymgynghoriad ar reoleiddio yn hytrach nag ar bartneriaeth â CCAUC, ac ynghylch a fyddai gan CCAUC y capasiti a'r adnoddau y mae eu hangen i gyflawni ei rwymedigaethau newydd
- Dylid cynnwys darpariaeth addysg uwch ran-amser, nad yw ar hyn o bryd o fewn cwmpas y fframwaith rheoleiddio, o fewn y fframwaith hwnnw cyn gynted â phosibl, er mwyn osgoi'r posibilrwydd y byddai system ddwy-haen yn datblygu.

<u>System reoleiddio ddiwygiedig:</u>

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y dylid cadw enw presennol CCAUC. Roedd hynny oherwydd manteision hunaniaeth y brand presennol, ac enw da a phroffil cyhoeddus CCAUC; y posibilrwydd y byddai newid ei enw yn peri dryswch ymhlith myfyrwyr, sefydliadau a rhanddeiliaid; byddai newid yn arwain at ddiffyg cysondeb mewn perthynas â rhannau eraill y DU; a’r costau a fyddai’n gysylltiedig â newid yr enw.
- Mynegwyd rhywfaint o bryder am allu sefydliad breinio i ddylanwadu'n uniongyrchol ar y trefniadau cyflenwi sydd ar waith gan y sefydliad sydd wedi ei freinio.
- Roedd yn bwysig sicrhau bod anghenion pob myfyriwr yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y system reoleiddio ddiwygiedig, a bod y rheini sy'n astudio o dan drefniadau cyrsiau breiniol yn cael eu trin yn gyfartal.

<u>Rheolaethau ar gyfer ffioedd a mynediad teg</u>

- Roedd ymateb cymysg i'r cynnig y dylai CCAUC, mewn achosion o fethiant parhaus i gydymffurfio â'r terfynau ffioedd, allu tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun a gymeradwywyd.
- Hefyd roedd ymateb cymysg i'r cynnig i ehangu rôl CCAUC, fel yr awdurdod perthnasol, er mwyn iddo allu gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd yn unigol ac ar draws sector addysg uwch Cymru, ar y sail bod y trefniadau presennol yn ddigon trylwyr.
- Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno y dylid gwneud trefniadau pontio i ddiogelu myfyrwyr sydd wedi cofrestru â darparwr a reoleiddir os bydd y gymeradwyaeth ar gyfer cynllun ffioedd y darparwr wedi ei thynnu yn ôl neu os bydd yn cael ei gwrthod pan ddaw'n adeg ei adnewyddu.
- Ar y sail bod y trefniadau presennol yn ddigonol, cafwyd ymateb cymysg i'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i CCAUC roi ystyriaeth i lefel arfaethedig y ffi wrth benderfynu a yw ymrwymiadau cynlluniau ffioedd yn ddigonol.

- Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid pennu trothwy o £6,000 ar gyfer y ffi. Roedd y rheini a oedd o blaid yn cefnogi'r syniad o sicrhau mwy o gysondeb â lefelau ffioedd yn Lloegr ac uchafswm y cymorth ar gyfer ffioedd sydd ar gael ar gyfer cyrsiau a ddynodir fesul achos. Roedd eraill yn teimlo y dylid cynyddu'r lefel i gyfateb i'r ffi gyfartalog bresennol, er bod un arall yn dadlau ei bod yn rhy uchel.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn cytuno bod yr ystod o sancsiynau a gynigir ar gyfer CCAUC yn rhesymol, ac y dylai CCAUC allu defnyddio ei ddisgresiwn wrth eu gweithredu. Roedd yna eraill nad oeddent wedi eu darbwyllo bod angen y sancsiynau newydd, ac roeddent o'r farn bod y rheolaethau presennol yn ddigonol. Roedd eraill yn pwysleisio pa mor bwysig oedd sicrhau bod y sancsiynau'n cael eu defnyddio mewn modd teg a thryloyw.
- Roedd y mwyafrif yn teimlo bod y mecanwaith adolygu, a gynigir mewn perthynas â phŵer CCAUC i dynnu ei gymeradwyaeth i gynlluniau ffioedd yn ôl, yn briodol mewn egwyddor. Roedd rhai'n awgrymu bod angen mwy o eglurder ynghylch sut y byddai'r broses adolygu'n gweithredu.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn cytuno y dylai rhai cyrsiau gael eu hesemptio rhag cael eu dynodi'n awtomatig a hefyd rhag y gofyniad rheoleiddio sy'n gysylltiedig â chynlluniau ffioedd. Enghreifftiau o'r rhain oedd cyrsiau a ddilynir gan fyfyrwyr nad ydynt yn cael cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cyrsiau sy'n targedu myfyrwyr o dramor yn benodol a darpariaeth bwrpasol y mae cyflogwyr yn talu amdani. Roedd rhai'n gofyn pa mor deg fyddai caniatáu esemptiadau a allai danseilio swyddogaeth reoleiddio gryfach CCAUC, gan greu system ddwy-haen ar gyfer darparu cyrsiau addysg uwch.

Asesu ansawdd

- Roedd y mwyafrif yn cytuno y dylid ymestyn dyletswydd CCAUC i wneud darpariaeth ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch, a ddarperir gan ddarparwyr a reoleiddir yng Nghymru, i gynnwys yr holl gyrsiau addysg uwch sy'n dod o fewn cwmpas atodlen 6 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988.
- Roedd y mwyafrif yn cytuno â'r cynnig y dylid gwneud darpariaeth i CCAUC allu cyfarwyddo darparwyr a reoleiddir i roi mynediad i'w safleoedd, eu cofnodion a'u dogfennau at ddibenion asesu ansawdd. Roedd yr ychydig o wrthwynebiad a gafwyd wedi codi oherwydd y canfyddiad y byddai'r pwerau'n golygu bod system 'arolygu' yn cael ei rhoi ar waith.
- Roedd ymateb cymysg i'r cwestiwn a oedd yn gofyn a yw'r camau a fyddai'n cael eu cymryd mewn achosion lle nad yw'r ansawdd yn foddhaol, fel y'u nodir yn yr ymgynghoriad, yn briodol ac yn ddigonol. Gan mwyaf, roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn dweud eu bod o blaid parhau â phwerau a sancsiynau presennol CCAUC, ond nid oeddent o blaid y diwygiadau a gynigir yn yr Ymgynghoriad Technegol.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y dylai fod yn ofynnol i'r person neu'r personau, a oedd yn gofyn am fynediad i safleoedd, cofnodion a dogfennau

at ddibenion cyflawni swyddogaeth asesu ansawdd CCAUC, gyflwyno cerdyn adnabod ar gais y sefydliad sy'n cael ei asesu.

- Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod y trefniadau diogelu a nodir yn yr Ymgynghoriad Technegol, ar gyfer achosion lle bydd CCAUC yn tynnu ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd yn ôl, yn briodol ac yn ddigonol. Roedd llawer o'r adborth yn ymwneud â sut y byddai'r sancsiwn hwn yn gweithio'n ymarferol yn hytrach na'r sancsiwn ei hunan.
- Roedd y mwyafrif o blaid y cynnig y dylai fod yn ofynnol i CCAUC gyflwyno adroddiad blynyddol, ar sut mae wedi arfer ei ddyletswydd asesu ansawdd, i Weinidogion Cymru.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'r cynigion o ran darpariaeth freiniol yn ymarferol, ac roeddent o'r farn bod y cynigion yn gydnaws ag arferion presennol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

<u>Sicrwydd ariannol a llywodraethu</u>

- Roedd y mwyafrif llethol o blaid y cynnig y dylai fod yn ofynnol i CCAUC ymgynghori ar y Cod Llywodraethu Ariannol a Chorfforaethol arfaethedig. Byddai hynny'n gydnaws â'r rhwymedigaethau presennol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael y cyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Cod.
- Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r syniad y dylid rhoi trefniadau craffu ychwanegol ar waith yn sgil ymgynghoriad CCAUC ar fersiwn ddrafft y Cod. Roedd llawer o ymatebwyr yn dweud y byddai'n well ganddynt pe bai CCAUC yn gorfod cyflwyno'r fersiwn o'r Cod a luniwyd yn dilyn yr ymgynghoriad i Weinidogion Cymru. Byddai'r Gweinidogion wedyn, pe baent yn fodlon ar y fersiwn honno, yn ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w chymeradwyo.
- Ar y cyfan, roedd y mwyafrif yn cytuno â pharamedrau'r Cod fel y'u cynigir yn yr Ymgynghoriad Technegol. Roedd rhai'n nodi y dylai gofynion y Cod fod yn gymesur â'r risgiau o beidio â chydymffurfio, ac na ddylent roi baich ychwanegol diangen ar ddarparwyr. Nodwyd yr effaith bosibl y byddai'r Cod arfaethedig yn ei chael ar sut mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn dosbarthu sefydliadau.
- Roedd cefnogaeth gref i'r syniad y dylai paramedrau'r Cod fod yr un mor berthnasol i bob sefydliad sy'n gweithredu cynllun cymeradwy. Roedd y rhan fwyaf o blaid nodi'r paramedrau yn y Bil arfaethedig, gan adael i CCAUC ddatblygu manylion gweithredol y Cod ar ôl ymgynghori â'r sector.
- Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod angen ystyried yr effaith bosibl ar y modd y mae'r SYG yn dosbarthu sefydliadau, yn sgil ei gwneud yn ofynnol cael caniatâd CCAUC cyn i ddarparwyr a reoleiddir fod yn rhan o drafodion ariannol penodol.

- Roedd cefnogaeth gref i'r syniad y dylai fod yn ofynnol i CCAUC ymgynghori ar ei bolisi ymyrryd a gwneud datganiad yn ei gylch. Dylai'r polisi fod yn glir a thryloyw a chael ei ddatblygu ar ôl ymgynghori â'r holl bartïon â buddiant.
- Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai CCAUC gael tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd darparwr mewn achos lle mae CCAUC yn bendant bod darparwr a reoleiddir yn euog o gamreoli ariannol difrifol, a hynny p'un a roddodd CCAUC gyfarwyddyd i'r darparwr hwnnw gydymffurfio â gofynion y Cod ai peidio. Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai ymestyn pwerau CCAUC yn y modd hwn yn amhriodol, gan ddadlau y dylid rhoi rhybudd i sefydliadau, ynghyd â defnyddio hysbysiadau o fwriad a chosbau graddol. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai fod angen y math hwn o sancsiwn mewn achosion difrifol iawn, yn enwedig pan fyddai wedi ei brofi bod camreoli ariannol difrifol wedi digwydd.
- Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent o'r farn bod y trefniadau diogelu arfaethedig sy'n ymwneud â phwerau ymyrryd CCAUC yn briodol ac yn ddigonol, nid oedd y mwyafrif (er yn fwyafrif bychan) yn cytuno. Nid oedd sefydliadau addysg uwch o blaid y cynigion i ganiatáu i CCAUC gyflwyno cyfarwyddyd dros dro i orfodi cydymffurfiaeth â'r Cod, ac roeddent o'r farn y byddai hynny'n niweidiol i'r sefydliad, ac y gallai amharu ar ei sefydlogrwydd.

***Ymgysylltu ychwanegol***

191. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, cynhaliwyd trafodaethau cyson â CCAUC ar y materion a nodwyd yn y Papur Gwyn a'r Ymgynghoriad Technegol. Mae CCAUC wedi herio ac wedi cynorthwyo, gan gyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o ddatblygu polisi. O ganlyniad mae wedi dylanwadu'n ystyrlon ar y darpariaethau y ceisir eu cael yn y Bil. Mae'r broses hon yn parhau.

192. Mae swyddogion hefyd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Addysg Uwch Cymru, Colegau Cymru, y Brifysgol Agored yng Nghymru ac Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, drwy gynnal cyfres o drafodaethau cyn cwblhau'r Ymgynghoriad Technegol.

193. Ymgysylltwyd ag Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau Llywodraeth y DU ac â Swyddfa Cymru er mwyn rhoi sylw i nifer o faterion trawsffiniol a fyddai'n codi pe bai'r newidiadau arfaethedig yn digwydd. Y swyddogion polisi roddodd gychwyn ar y broses ymgysylltu hon a oedd yn cydredeg â'r Ymgynghoriad Technegol.

# 5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

194. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Dilynwyd canllawiau'r Cwnsler Cyffredinol wrth nodi'r gweithdrefnau. Mae'r tabl ar y tudalennau nesaf yn dangos, mewn perthynas â phob darpariaeth:

- yr unigolyn neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- y weithdrefn a gymhwysir os o gwbl, ynghyd â'r rheswm pam y tybir ei bod yn briodol.

195. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar yr is-ddeddfwriaeth lle bo'n briodol. Penderfynir ar union natur yr ymgynghoriad pan fydd y cynigion wedi'u ffurfioli.

Tabl 4: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ar gyfer darpariaethau yn y Bil

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 2(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r prif ofynion er mwyn i gorff llywodraethu sefydliad allu gwneud cais am gymeradwyaeth i gynllun wedi'u hamlinellu yn y Bil. Mae hyn yn addas i'w ddirprwyo gan ei fod yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ychwanegu a diwygio mewn perthynas â'r mathau o wybodaeth sy'n gorfod ategu ceisiadau. | Gweithdrefn negyddol | Mae yna elfen dechnegol a gweinyddol i'r rheoliadau hyn, a gall y rhain newid yn rheolaidd. |
| 3(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae dirprwyo pwerau yn addas gan ei fod yn galluogi Gweinidogion Cymru i amlinellu manylion ynghylch sut gellir gwneud ceisiadau, yr amgylchiadau pan ellir tynnu dynodiad yn ôl ac effaith hynny gan ymateb i'r ffaith bod darparwyr addysg uwch yn newid. | Gweithdrefn negyddol | Mae'n cyfarwyddo ynghylch materion technegol a gweinyddol a gallent newid o bryd i'w gilydd. |
| 4(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod cynllun yn nodi'r union gyfnod y mae'n berthnasol iddo. Bydd y rheoliadau yn caniatáu i | Gweithdrefn negyddol | Mae'r manylion yn dechnegol a gallent newid o bryd i'w gilydd. |

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Weinidogion Cymru bennu'r cyfnod hwyaf posibl ar gyfer cynllun, gan roi ystyriaeth i newidiadau yn y sector addysg uwch dros amser. | | |
| 5(2)(b) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i derfynau ffioedd fod yn berthnasol i "gyrsiau cymhwysol" penodol yn unig. Mae dirprwyo pwerau yn addas gan y byddant yn caniatáu i'r disgrifiadau o'r cyrsiau hynny adlewyrchu newidiadau yn y cymorth i fyfyrwyr a newidiadau yn natur y cyrsiau a ddarperir.<br><br>Ar hyn o bryd mae adran 28(6) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 yn darparu pŵer i lunio rheoliadau sy'n disgrifio "cyrsiau cymhwysol". | Gweithdrefn negyddol | Mae’n cyfarwyddo ynghylch materion technegol a gweinyddol a gallent newid o bryd i’w gilydd. |
| 5(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i gynlluniau ffioedd a mynediad nodi terfyn ffioedd penodol ar gyfer blwyddyn academaidd o gwrs cymhwysol, cyn belled nad yw'r | Gweithdrefn negyddol | Mae’n cyfarwyddo ynghylch materion technegol a gweinyddol a gallent newid o bryd i’w gilydd. |

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | terfyn ffioedd hwnnw yn uwch na'r uchafswm a ganiateir yn y rheoliadau. Mae'r rheoliadau yn darparu hyblygrwydd i allu newid yr uchafswm.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn adlewyrchu pŵer tebyg yn adran 28(6) o Ddeddf Addysg Uwch 2004. | | |
| 5(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i derfynau ffioedd fod yn berthnasol i "bersonau cymhwysol" penodol yn unig. Mae dirprwyo pwerau yn addas gan y bydd rheoliadau yn rhoi'r hyblygrwydd i nodi pa ddosbarthiadau o bersonau yn union gan gynnwys newidiadau i'r dosbarthiadau, a nodir o dan adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 a newidiadau eraill yn y sector addysg uwch. | Gweithdrefn negyddol | Mae'n cyfarwyddo ynghylch materion technegol a gweinyddol a gallent newid o bryd i'w gilydd. |

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ar hyn o bryd mae adran 28(6) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 yn darparu pŵer i wneud rheoliadau sy'n disgrifio "personau cymhwysol". | | |
| 5(9) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r dull o weithredu terfynau ffioedd a rhwymedigaethau sefydliadau a reoleiddir mewn perthynas â'r terfynau ffioedd hynny wedi'u hamlinellu yn y Bil. Bydd y pŵer hwn yn ei gwneud yn bosibl i ffioedd rhai cyrsiau sy'n daladwy i bersonau ar wahân i'r sefydliad gael eu trin fel ffioedd sy'n daladwy i'r sefydliad. Mae dirprwyo pwerau yn addas gan ei fod yn galluogi Gweinidogion Cymru i ystyried y newidiadau yn y ffordd y caiff cyrsiau eu darparu. | Gweithdrefn negyddol | Mae'r manylion yn dechnegol a gallent newid o bryd i'w gilydd |

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 6(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae dirprwyo pwerau yn addas gan fod angen hyblygrwydd rheoliadau er mwyn sicrhau bod cynnwys y cynlluniau yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r sector addysg uwch.<br><br>Mae pŵer tebyg yn bod ar hyn o bryd yn adran 33 o Ddeddf Addysg Uwch 2004. | Gweithdrefn negyddol | Gall manylion y rheoliadau newid o bryd i'w gilydd. |
| 7(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r amodau yn ymwneud â chymeradwyo neu wrthod cynllun a gynigir wedi'u hamlinellu yn y Bil. Mae dirprwyo pwerau yn addas gan ei fod yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi manylion ychwanegol mewn perthynas â'r materion i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu ar geisiadau ac adlewyrchu'r gwahanol fathau o sefydliad a all wneud cais am gymeradwyaeth.<br><br>Mae pŵer tebyg yn bod yn adran 34(5) o Ddeddf Addysg Uwch | Gweithdrefn negyddol | Mae'n cyfarwyddo ynghylch materion technegol a gweinyddol a gallent newid o bryd i'w gilydd. |

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2004. | | |
| 8(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae dirprwyo pwerau yn addas gan y bydd yn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol o ran amlinellu'r ffordd y cyhoeddir cynlluniau a phryd. | Gweithdrefn negyddol | Mae'r manylion yn dechnegol ac yn weinyddol, a gallent newid o bryd i'w gilydd. |
| 9(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae rhai o swyddogaethau CCAUC o ran penderfynu a ddylid cymeradwyo neu wrthod cynllun arfaethedig wedi'u hamlinellu yn y Bil. Mae dirprwyo pwerau yn addas gan y bydd y rheoliadau yn caniatáu ar gyfer amrywio cynlluniau unwaith y cânt eu cymeradwyo ac yn rhoi'r | Gweithdrefn negyddol | Mae'r manylion yn dechnegol ac yn weinyddol, a gallent newid o bryd i'w gilydd. |

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | hyblygrwydd o ran amlinellu sut gwneir ceisiadau i'w hamrywio a'r broses sy'n berthnasol i benderfyniad ynghylch amrywio cynllun.<br>Mae pŵer tebyg yn bod yn adran 36 o Ddeddf Addysg Uwch 2004. | | |
| 11(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r amgylchiadau pan all CCAUC roi cyfarwyddyd ym maes cydymffurfio ac ad-dalu a'r gofynion y gellir eu pennu drwy gyfarwyddyd o'r fath wedi'u hamlinellu yn y Bil. Addas ar gyfer dirprwyo pwerau gan y bydd gan Weinidogion Cymru hyblygrwydd i amlinellu sut a phryd bydd CCAUC yn rhoi copi o gyfarwyddyd o'r fath iddynt a sut a phryd bydd CCAUC yn cyhoeddi'r cyfarwyddyd. | Gweithdrefn negyddol | Mae'r manylion yn dechnegol ac yn weinyddol a gallent newid o bryd i'w gilydd. |

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 13(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer y camau i'w cymryd gan CCAUC os yw'n fodlon bod corff llywodraethu sefydliad wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun sydd wedi'i gymeradwyo. | Gweithdrefn gadarnhaol | Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol lle gall y rheoliadau ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. |
| 17(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn diffinio "darparwr allanol" fel person sy'n gyfrifol am ddarparu cwrs ar ran sefydliad a reoleiddir. Mae dirprwyo pwerau yn addas i wneud darpariaeth ar gyfer sefyllfa lle mae person i'w drin fel y sawl sy'n gyfrifol am ddarparu cwrs, neu lle nad yw i'w drin felly. Mae angen yr hyblygrwydd hwn er mwyn i'r diffiniad o "ddarparwr allanol" adlewyrchu'n iawn y newidiadau yn y ffordd y caiff cyrsiau eu darparu ar gyfer myfyrwyr. | Gweithdrefn negyddol | Mae'r manylion yn dechnegol. |

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 36(7) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r amgylchiadau pan all CCAUC wrthod cymeradwyo cynllun newydd wedi'u hamlinellu yn y Bil. Mae'r Bil hefyd yn amlinellu'r weithdrefn sy'n berthnasol mewn perthynas â hysbysiadau o'r fath. Mae dirprwyo pwerau yn addas gan y bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi manylion ynghylch y cyfnod y caniateir ei bennu yn yr hysbysiad, y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu a ddylid tynnu hysbysiad yn ôl, a'r weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â thynnu hysbysiad yn ôl. | Gweithdrefn negyddol | Mae'r manylion yn dechnegol ac yn weinyddol a gallent newid o bryd i'w gilydd. |
| 37(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pan fydd yn rhaid i CCAUC dynnu ei gymeradwyaeth i gynllun yn ôl. Mae dirprwyo pwerau yn addas gan ei fod yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi'r union faterion y mae angen i CCAUC roi ystyriaeth iddynt wrth wneud penderfyniad o | Gweithdrefn negyddol oni bai bod newidiadau yn cael eu gwneud i ddarpariaethau'r Bil hwn. Os felly, | Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol lle bydd y rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol.<br><br>Mae'r weithdrefn negyddol yn briodol lle bydd y rheoliadau yn dechnegol ac yn weinyddol. |

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | dan adran 37 a'r weithdrefn berthnasol. | gweithdrefn gadarnhaol | |
| 38(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn caniatáu i CCAUC dynnu ei gymeradwyaeth i gynllun yn ôl lle bydd yn fodlon bod amodau penodol wedi'u bodloni. Mae'r amodau hynny wedi'u hamlinellu yn y Bil. Mae'r Bil hefyd yn nodi'r union weithdrefn sy'n berthnasol i hysbysiad o dan adran 38. Mae dirprwyo pwerau yn addas gan y bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru amlinellu'r materion sydd i'w hystyried wrth benderfynu a ddylid rhoi hysbysiad o dan adran 38. | Gweithdrefn negyddol | Mae'r manylion yn dechnegol ac yn weinyddol a gallent newid o bryd i'w gilydd. |

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 39(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r amgylchiadau pan all CCAUC roi hysbysiad o dan Ran 5 y Bil wedi'u hamlinellu yn y Bil. Mae dirprwyo pwerau yn addas gan y bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru amlinellu sut a phryd mae CCAUC i roi copi o hysbysiad o'r fath iddynt a sut a phryd mae CCAUC i gyhoeddi'r hysbysiad. | Gweithdrefn negyddol | Mae'r manylion yn dechnegol ac yn weinyddol a gallent newid o bryd i'w gilydd. |
| 41(2)(d) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn nodi'n benodol bod yn rhaid i hysbysiad rhybuddio amlinellu'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd arfaethedig, rhoi rhesymau CCAUC dros ei roi, a rhoi gwybod i gorff llywodraethu'r sefydliad bod hawl ganddo i wneud sylwadau am yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd arfaethedig. Mae dirprwyo pwerau yn addas gan y bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi'r cyfnod pryd y gellir gwneud sylwadau a sut. | Gweithdrefn negyddol | Mae'r manylion yn dechnegol ac yn weinyddol a gallent newid o bryd i’w gilydd. |

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 42(c) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn nodi'n benodol, lle bydd CCAUC yn rhoi hysbysiad neu gyfarwyddyd o’r math a restrir yn adran 40(1), fod yn rhaid iddynt ar yr un pryd roi datganiad i gorff llywodraethu'r sefydliad yn amlinellu rhesymau CCAUC dros roi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd ac yn rhoi gwybod i'r corff llywodraethu bod hawl ganddo i wneud cais am adolygiad. Mae dirprwyo pwerau yn addas gan y bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad gynnwys gwybodaeth arall. | Gweithdrefn negyddol | Mae'r manylion yn dechnegol ac yn weinyddol a gallent newid o bryd i'w gilydd. |
| 43(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth y gall corff llywodraethu sefydliad, mewn rhai amgylchiadau, wneud cais am adolygiad pan fydd yn cael hysbysiad neu gyfarwyddyd gan CCAUC a restrir yn adran 40(1). Mae dirprwyo pwerau yn addas gan ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud | Gweithdrefn negyddol | Mae yna elfen dechnegol a gweinyddol i'r rheoliadau hyn. Gall testun y rheoliadau hyn newid o bryd i'w gilydd. |

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | rheoliadau a fydd yn darparu manylion y broses adolygu gan gynnwys y sail dros adolygiad, y cyfnod pryd y gellir gwneud cais am adolygiad, a sut y dylid trin hysbysiad neu gyfarwyddyd wrth aros am ganlyniadau adolygiad. Dros amser, gallai fod angen caniatáu i newidiadau gael eu gwneud i'r broses adolygu ac mae rheoliadau yn darparu'r hyblygrwydd i wneud hynny.<br><br>Mae pŵer tebyg yn bod ar hyn o bryd yn adran 39 o Ddeddf Addysg Uwch 2004. | | |
| 49(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r gofyniad bod CCAUC yn paratoi ac yn cyhoeddi datganiad sy'n nodi sut maent yn bwriadu cyflawni rhai swyddogaethau wedi'i amlinellu yn y Bil. Mae'r Bil hefyd yn rhestru'r swyddogaethau dan sylw. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC adolygu'r datganiad yn rheolaidd ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i CCAUC | Gweithdrefn negyddol | Mae yna elfen dechnegol a gweinyddol i'r rheoliadau hyn. Gall testun y rheoliadau hyn newid o bryd i'w gilydd. |

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ymgynghori cyn cyhoeddi'r datganiad neu ddatganiad diwygiedig. Mae dirprwyo pwerau yn addas gan y bydd yn caniatáu gwneud darpariaeth ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r datganiad a'r ymgynghoriad y bydd CCAUC yn ei gynnal. | | |
| 54(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn disgrifio'r mathau o ffioedd a olygir wrth "ffioedd". Mae'r Bil hefyd yn eithrio rhai mathau o ffioedd o'r diffiniad hwnnw. Byddai rheoliadau yn eithrio mathau eraill o ffioedd o'r diffiniad hwnnw. Mae dirprwyo pwerau yn addas gan fod angen hyblygrwydd er mwyn sicrhau bod y diffiniad o ffioedd yn adlewyrchu newidiadau yn y ffordd y gall y sector addysg uwch ddarparu cyrsiau. | Gweithdrefn negyddol | Mae'r manylion yn dechnegol a gallant newid o bryd i'w gilydd. |

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 55(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu arbed o ganlyniad i ddarpariaeth yn y Bil, neu i roi effaith lawn i'r Bil. | Gweithdrefn negyddol oni bai bod newidiadau yn cael eu gwneud i ddeddfwriaeth sylfaenol. Os felly, gweithdrefn gadarnhaol | Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol lle mae'r rheoliadau yn diwygio neu'n diddymu deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r weithdrefn negyddol yn briodol i reoliadau eraill sy'n gwneud darpariaeth dechnegol yn unig. |
| 56(3) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Addas ar gyfer gorchymyn gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer cychwyn y Bil. Gall gorchmynion o dan adran 56(3) wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed. | Dim gweithdrefn | Mae gorchmynion cychwyn yn dechnegol. |

| Adran: | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr Atodlen, paragraff 28(e) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i gynlluniau a gymeradwywyd o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 gael eu trin, yn ystod cyfnod trosiannol ac at ddibenion penodol, fel cynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd o dan adran 7. Mae dirprwyo pwerau yn addas gan y bydd rheoliadau yn rhoi hyblygrwydd i gynlluniau o'r fath gael eu trin fel cynlluniau a gymeradwywyd o dan adran 7 at ddibenion deddfiadau eraill. | Gweithdrefn negyddol | Mae rheoliadau yn debygol o ddarparu ar gyfer materion technegol. |
| Yr Atodlen, paragraff 30(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae dirprwyo pwerau yn addas gan fod rheoliadau yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso darpariaethau paragraff 28 yr Atodlen neu dan baragraff 28 yn ystod y cyfnod trosiannol. | Gweithdrefn negyddol | Mae rheoliadau yn debygol o ddarparu ar gyfer materion technegol sy’n ymwneud â phontio. |

# RHAN 2 - ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

196. Mae’r asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil arfaethedig, yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi), a gellir darllen amdano isod. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil a allai olygu bod arian yn cael ei wario o Gronfa Gyfunol Cymru.

## 6. Yr Opsiynau

197. Amlinellir tri opsiwn isod a chaiff y manteision a'r anfanteision eu hystyried yn fyr. Ceir dadansoddiad o gostau a manteision pob un ym mhennod 7.

***Opsiwn 1: Gwneud dim byd - cadw'r trefniadau presennol***

198. Rheoleiddir addysg uwch yng Nghymru drwy'r telerau a'r amodau y mae CCAUC yn eu pennu mewn perthynas â'r cyllid y mae'n ei ddyrannu i Sefydliadau Addysg Uwch. Ni fyddai'r opsiwn 'gwneud dim byd' yn newid y trefniant hwn.

199. Mae i'r trefniadau newydd ar gyfer cymorth i fyfyrwyr a gyflwynwyd yn 2012/13 oblygiadau sylweddol o ran y gallu i barhau i gyflawni swyddogaethau statudol CCAUC mewn perthynas â rheoleiddio addysg uwch yng Nghymru. Wrth i swm y cyllid a delir drwy grantiau ffioedd dysgu myfyrwyr gynyddu, mae swm y cyllid a ddyrennir gan CCAUC, y gall bennu telerau ac amodau mewn perthynas ag ef, yn lleihau. Nid oes sicrwydd y bydd unrhyw sefydliad yn parhau i dderbyn cyllid gan CCAUC; hyd yn oed pan fydd yn cael cyllid, gallai'r swm fod mor fach nes gwneud y bygythiad o golli cyllid o'r fath yn aneffeithiol fel sancsiwn y bwriedir iddo sicrhau y cydymffurfir â'r fframwaith rheoleiddio.

200. Mae'r risg na chydymffurfir â'r fframwaith rheoleiddio yn cynyddu'n sylweddol gyda'r opsiwn hwn. Mae stiwardiaeth cyllid cyhoeddus, ansawdd addysg myfyrwyr, trefniadau rheoleiddio ffioedd dysgu ac amcanion polisi i ehangu mynediad i gyd mewn perygl.

*Manteision*

- Dim costau ychwanegol.

*Anfanteision*

- Peryglu gwaith rheoleiddio addysg uwch yng Nghymru ac, o ganlyniad i hynny, enw da addysg uwch Cymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

201. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn golygu na ellir ei ystyried yn opsiwn polisi doeth. Fe'i cyflwynir, felly, i wrthgyferbynnu'n unig â'r ddau opsiwn arall.

***Opsiwn 2: Diwygio swyddogaethau CCAUC i'w gwneud yn bosibl rheoleiddio'n effeithiol a gweithredu cynigion polisi ychwanegol, strategol bwysig***

202. Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno Bil Cynulliad i ddiwygio swyddogaethau CCAUC, gan ganiatáu i'r fframwaith sy'n rheoleiddio addysg uwch yng Nghymru barhau i weithredu'n effeithiol. Byddai hefyd yn cyflwyno darpariaethau polisi a rheoleiddio ychwanegol sy'n deillio o'r *Rhaglen Lywodraethu*[20] ac *Er Mwyn Ein Dyfodol* (2009)[21]. Byddai'r cynigion hyn yn:

- cefnogi partneriaethau a gweithgarwch cydweithredol drwy gyllido addysg uwch yn uniongyrchol mewn rhai amgylchiadau;
- rhoi sail statudol i'r amcan o wella ansawdd (yn hytrach nag asesu) darpariaeth addysg uwch;
- rhoi mwy o lais i'r dysgwyr yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- ehangu'r gweithdrefnau datrys anghydfod i gynnwys amrywiaeth ehangach o ddarparwyr.

203. Ffurfiolwyd y cynigion hyn ym Mhapur Gwyn y *Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)*.

204. Arweiniodd yr ymatebion i'r Papur Gwyn at ddealltwriaeth glir o fanteision ac anfanteision y cynigion hyn. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yma ym mhennod 4 a chânt eu cyflwyno'n fanylach yn y *Papur Gwyn - crynodeb o'r ymatebion*. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru fel rhan o'r *Ymgynghoriad Technegol*. Mae prif fanteision ac anfanteision y cynigion wedi'u rhestru isod.

*Manteision*

- Diwygio'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio addysg uwch yng Nghymru yng ngoleuni'r trefniadau cyllid newydd a chadw'r risg na fydd sefydliadau yn cydymffurfio mor isel â phosibl.
- Helpu i gyflawni nifer o ymrwymiadau ac amcanion polisi strategol eraill Llywodraeth Cymru.

*Anfanteision*

- Cyflwyno newidiadau polisi na chefnogwyd gan nifer o ymatebwyr.
- Cyflwyno newidiadau polisi mewn meysydd lle na welwyd eto effaith lawn polisïau a ddiwygiwyd yn ddiweddar.

[20] *Y Rhaglen Lywodraethu*, Llywodraeth Cymru, 2011.

[21] *Er Mwyn Ein Dyfodol*, Llywodraeth Cymru, 2009.

- Cyflwyno nifer fawr o newidiadau, cymhlethu a chynyddu costau gweithredu, a chynyddu costau gweithredol cylchol.

205. Ar ôl ystyried yr opsiwn hwn, gan gynnwys datblygu'r polisi a dadansoddi'r gost a'r manteision, lluniwyd trydydd opsiwn, sef yr un a ffefrir.

***Opsiwn 3: Diwygio swyddogaethau CCAUC i'w gwneud yn bosibl rheoleiddio'n effeithiol***

206. Byddai'r opsiwn a ffefrir yn cyflwyno Bil Cynulliad i ddiwygio swyddogaethau CCAUC, gan ganiatáu i'r fframwaith sy'n rheoleiddio addysg uwch yng Nghymru barhau i weithredu'n effeithiol. Ni châi unrhyw gynigion polisi eraill eu gweithredu.

207. Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar weithredu'r newidiadau allweddol ac angenrheidiol (y lefel fwyaf sylfaenol sy'n sicrhau bod rheoleiddio yn parhau a'i fod yn effeithiol) a fydd yn sicrhau bod addysg uwch yn parhau i gael ei rheoleiddio yng ngoleuni'r newidiadau i'r trefniadau cyllid. Mae'r rhain wedi'u rhannu'n bedwar maes cyffredinol:

- Cymeradwyo cynlluniau ffioedd a dynodi cyrsiau yn awtomatig;
- Monitro a gwerthuso cynlluniau ffioedd;
- Sicrhau ansawdd;
- Sicrwydd ariannol.

208. *Ni* ddatblygir y cynigion polisi canlynol o opsiwn 2 drwy'r Bil:

- cefnogi partneriaethau a gweithgarwch cydweithredol drwy gyllido addysg uwch yn uniongyrchol mewn rhai amgylchiadau;
- rhoi sail statudol i'r amcan o wella ansawdd (yn hytrach nag asesu) darpariaeth addysg uwch;
- rhoi mwy o lais i'r dysgwyr yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- ehangu'r gweithdrefnau datrys anghydfod i gynnwys amrywiaeth ehangach o ddarparwyr.

209. Bydd y Bil yn sefydlu fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer sefydliadau addysg uwch a darparwyr eraill addysg uwch yng Nghymru sydd â chynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd gan CCAUC (Sefydliadau a Reoleiddir). Ni fydd y fframwaith rheoleiddio newydd yn dibynnu ar CCAUC i ddarparu cyllid i'r sefydliadau a'r darparwyr hynny o dan Ran 2 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

*Manteision*

- Diwygio'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio addysg uwch yng Nghymru yng ngoleuni'r trefniadau cyllid newydd a chadw'r risg na fydd sefydliadau yn cydymffurfio mor isel â phosibl.
- Helpu i gyflawni'r amcan polisi o sicrhau mynediad teg i addysg uwch.
- Rheoli costau a chymhlethdod gweithredu, rheoli costau gweithredol cylchol.

*Anfanteision*

- Er bod y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd i'r ymgyngoriadau yn derbyn yr angen i barhau i reoleiddio addysg uwch, nid yw hyn yn wir am bawb, ac mae'n debygol felly y bydd yna rywfaint o wrthwynebiad i'r cynigion hyn.
- Roedd rhai o'r rheini a ymatebodd yn anghytuno â'r dull rheoleiddio (cynlluniau ffioedd) a gynigir.
- Nid yw'n gweithredu rhai cynigion polisi a allai fod yn werthfawr.

### *Ystyriaethau ychwanegol*

210. Ystyriwyd yr opsiwn o wneud cyn lleied â phosibl (yn dilyn y Papur Gwyn a’r Ymgynghoriad Technegol) er mwyn gweld a oedd ffordd (ddeddfwriaethol neu ddi-ddeddfwriaeth) o gynnal y swyddogaethau rheoleiddio cyfredol heb greu costau ychwanegol sylweddol.

211. Daeth i’r amlwg nad oedd yr opsiwn o wneud cyn lleied â phosibl yn ymarferol gan na fyddai’n sicrhau bod trefniadau digon da yn eu lle i liniaru’r risg o system reoleiddio annigonol. Mae opsiwn 3 yn datblygu’r pedwar maes cyffredinol lle mae angen parhau i reoleiddio: cymeradwyo cynlluniau ffioedd, terfynau ffioedd, sicrhau ansawdd a sicrwydd ariannol. O gymryd y rhain gyda’i gilydd ac yn eu cyfanrwydd, mae’n bosibl parhau i reoleiddio’n effeithiol. Pe baem yn dilyn yr opsiwn o wneud dim byd, byddai risg sylweddol y byddai’r rheoleiddio yn methu. Nid yw’r opsiwn rhwng y ddau yma – gwneud cyn lleied â phosibl – yn opsiwn realistig, gan y byddai unrhyw newidiadau sylweddol i opsiwn 3 yn golygu risg sylweddol i reoleiddio effeithiol. O’i roi mewn ffordd arall, nid oes opsiwn lle gellid gwneud llai a dal i sicrhau fframwaith rheoleiddio effeithiol. Nid yw’r opsiwn o wneud cyn lleied â phosibl yn ymarferol ac ni chafodd ei ddatblygu ymhellach.

# 7. Costau a manteision

212. Mae'r bennod hon yn dadansoddi costau a manteision opsiynau pennod 6. Rhoddwyd gwerth ariannol i'r costau ac fe'u hamcangyfrifwyd ar gyfer y pum mlynedd gyntaf. Mae'n eithriadol o anodd pennu gwerth mantais ac felly rydym wedi disgrifio'r manteision.

213. Mae’r asesiad yn nodi’r amcangyfrif gorau o gostau ar sail yr wybodaeth sydd ar gael. Yn Atodiad A, mae nodyn ynghylch y fethodoleg a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y costau. Defnyddiwyd nifer o ragdybiaethau yn y dadansoddiad, ac felly mae’r costau wedi’u talgrynnu i’r £1,000 agosaf i adlewyrchu hyn. Efallai na fydd cyfansymiau'r tablau yn gyson, felly.

**Opsiwn 1: Gwneud dim byd - cadw'r trefniadau presennol**

### *Costau*

214. Os cedwir y system bresennol, ni fydd yna gostau ychwanegol o gwbl ar unwaith o ran ei gweithredu. Mae'r tabl isod yn cofnodi amcan o gostau'r prif dasgau rheoleiddio sydd ynghlwm wrth y trefniadau presennol. Fe'u crynhoir o dan y penawdau perthnasol. Costau i CCAUC a’r sefydliadau yn bennaf fyddai’r rhain yn dal i fod, ac i Lywodraeth Cymru i raddau llai.

**Tabl 1**

Cyfanswm cost opsiwn 1

| £ | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymeradwyo cynlluniau ffioedd a | 251,000 | 250,000 | 250,000 | 251,000 | 250,000 |
| Monitro a gwerthuso cynlluniau ffioedd | 234,000 | 293,000 | 293,000 | 293,000 | 293,000 |
| Sicrhau ansawdd | 288,000 | 339,000 | 339,000 | 356,000 | 339,000 |
| Sicrwydd ariannol | 336,000 | 421,000 | 421,000 | 421,000 | 421,000 |
| CYFANSWM | 1,109,000 | 1,303,000 | 1,303,000 | 1,321,000 | 1,303,000 |

215. Mae'r risg na chydymffurfir â'r telerau a'r amodau, sy'n ei gwneud yn bosibl rheoleiddio addysg uwch yng Nghymru, yn cynyddu gyda'r opsiwn hwn. Mae'n

anodd asesu tebygolrwydd ac effaith hyn. A byddai'r sancsiynau a'r cosbau, y mae'r telerau a'r amodau presennol yn eu nodi, yn mynd yn anoddach a gallai'r costau cysylltiedig gynyddu.

216. Byddai'r ddwy elfen hon, pe na byddai sefydliadau yn cydymffurfio, yn ychwanegu at y gost o wneud dim byd.

217. Mae'n werth nodi bod Llywodraeth y DU hefyd wedi cymryd camau i ddiwygio'r broses o reoleiddio addysg uwch yn Lloegr yn dilyn Adolygiad Browne. Ymddengys bod 'gwneud dim byd' wedi'i ddiystyru fel opsiwn realistig yn Lloegr, fel yng Nghymru[22].

***Manteision***

218. Prif fantais yr opsiwn hwn yw osgoi costau gweithredu a chostau cylchol system newydd.

## Opsiwn 2: Diwygio swyddogaethau CCAUC i'w gwneud yn bosibl rheoleiddio'n effeithiol a gweithredu cynigion polisi ychwanegol, strategol bwysig

***Costau***

219. Costau opsiwn 2 yw cyfanswm costau'r cynigion polisi ychwanegol, a restrir isod, a chostau opsiwn 3, sef y gost o ddiwygio swyddogaethau rheoleiddio CCAUC. Cofnodir costau'r cynigion sy'n unigryw i opsiwn 2 ar wahân i gostau opsiwn 3 er mwyn gallu cymharu costau ychwanegol yr opsiwn hwn ag opsiynau 1 a 3. Dyma gynigion opsiwn 2, felly:

- cefnogi partneriaethau a gweithgarwch cydweithredol drwy gyllido addysg uwch yn uniongyrchol mewn rhai amgylchiadau;
- rhoi sail statudol i'r amcan o wella ansawdd (yn hytrach nag asesu) darpariaeth addysg uwch;
- rhoi mwy o lais i'r dysgwyr yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- ehangu'r gweithdrefnau datrys anghydfod i gynnwys amrywiaeth ehangach o ddarparwyr.

[22] Mae'r Higher Education Policy Institute ('HEPI') wedi dadansoddi'r newidiadau arfaethedig yn y system reoleiddio yn Lloegr (*The Future Regulation of Higher Education in England*, Brown and Bekhradnia, Higher Education Policy Institute, 2013). Mae trefniadau digon tebyg yn Lloegr ag sydd yng Nghymru ar gyfer cyllid myfyrwyr (ond nad yw Llywodraeth y DU yn cynnig grantiau ar gyfer ffioedd dysgu) ac mae'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i'r broses reoleiddio wedi bod yn debyg yng Nghymru a Lloegr hyd yn hyn. Mae Llywodraeth y DU wedi dewis peidio â chyflwyno deddfwriaeth, gan ddiwygio'r broses reoleiddio yn hytrach, drwy ddulliau gweinyddol. Er ei bod yn rhy gynnar i asesu pa mor llwyddiannus yw hyn, mae asesiad HEPI yn awgrymu bod y system newydd yn llawn risgiau.

220. Mae Atodiad A yn cofnodi sut yr amcangyfrifwyd costau opsiwn 2 (para. 337). Dylid nodi nad yw'r cynnig *i ehangu'r gweithdrefnau datrys anghydfod i gynnwys amrywiaeth ehangach o ddarparwyr* wedi'i gostio (gweler paragraffau 232 a 233).

**Tabl 2**

Cyfanswm cost opsiwn 2

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogi partneriaethau a gweithgarwch | 831,000 | 822,000 | 754,000 | 763,000 | 754,000 |
| Gwella ansawdd | 278,000 | 276,000 | 227,000 | 278,000 | 276,000 |
| Cryfhau llais y dysgwr | 280,000 | 329,000 | 280,000 | 280,000 | 329,000 |
| IS-GYFANSWM | 1,389,000 | 1,427,000 | 1,261,000 | 1,321,000 | 1,359,000 |
| Opsiwn 3 | 1,666,000 | 1,853,000 | 1,800,000 | 1,814,000 | 1,841,000 |
| CYFANSWM | 3,055,000 | 3,280,000 | 3,061,000 | 3,135,000 | 3,200,000 |

221. Byddai opsiwn 2 yn costio tua £3m bob blwyddyn, a chostau'r cynigion polisi ychwanegol yn cyfrif am ychydig yn llai na hanner hyn. Nid yw hyn yn cynnwys cost sancsiynau opsiwn 3 (gweler paragraff 254).

222. Mae tabl 3 yn nodi pwy fyddai'n talu costau’r cynigion polisi ychwanegol yn opsiwn 2. Mae costau’r gwaith diwygio yn opsiwn 3 hefyd wedi’u hamlinellu yn nhabl 6. Câi'r costau eu rhannu rhwng Llywodraeth Cymru, CCAUC a'r sefydliadau perthnasol.

**Tabl 3**

Pwy fyddai'n talu

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 1,099,000 | 1,081,000 | 1,013,000 | 1,031,000 | 1,013,000 |
| CCAUC | 120,000 | 176,000 | 78,000 | 120,000 | 176,000 |
| Sefydliadau† | 170,000 | 170,000 | 170,000 | 170,000 | 170,000 |
| CYFANSWM | 1,389,000 | 1,427,000 | 1,261,000 | 1,321,000 | 1,359,000 |

† Ar hyn o bryd, mae gan 10 sefydliad gynlluniau ffioedd, ac rydym yn seilio'r dadansoddiad hwn o gostau ar 10 sefydliad.

223. Rhennir costau’r cynigion polisi ychwanegol yn opsiwn 2 rhwng costau gweithredu a chostau cylchol yn nhabl 4. Y prif gostau gweithredu fyddai costau’r canllawiau newydd, ychwanegol a fyddai’n ofynnol er mwyn ei gwneud yn bosibl gweithredu’r polisïau newydd. Y costau cylchol yw’r costau gweinyddu sy’n parhau a chostau rhaglenni sy’n gysyllltiedig â’r polisïau newydd. Mae manylion costau’r diwygio yn opsiwn 3 wedi’u hamlinellu yn nhabl 7.

**Tabl**

Costau gweithredu a chylchol

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredu | 206,000 | 69,000 | 0 | 0 | 0 |
| Cylchol | 1,183,000 | 1,358,000 | 1,261,000 | 1,321,000 | 1,359,000 |
| CYFANSWM | 1,389,000 | 1,427,000 | 1,261,000 | 1,321,000 | 1,359,000 |

***Manteision***

224. Mae opsiynau 2 a 3 yn cynnwys cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n diwygio swyddogaethau rheoleiddio CCAUC. Mae manteision hyn union yr un fath yn y ddau opsiwn ac fe'u crynhoir yn adran *Manteision* opsiwn 3.

225. Mae rhywfaint o fudd i gynigion ychwanegol opsiwn 2 hefyd. Yn sgil yr ymatebion i'r Papur Gwyn, daethpwyd i ddealltwriaeth fanwl o fanteision ac anfanteision gweithredu'r cynigion hyn. Mae'r dadansoddiad o'r manteision yn cynnwys sylwadau am i ba raddau y gellir sicrhau manteision o'r fath yn ymarferol neu i ba raddau y dylid eu diystyru.

226. Prif fanteision y cynnig i gefnogi partneriaethau a gweithgarwch cydweithredol drwy gyllido addysg uwch yn uniongyrchol mewn rhai amgylchiadau yw:

- (i) cydblethu'n well y broses o gynllunio a darparu addysg a hyfforddiant i'r rheini sydd dros 16 oed mewn cyd-destun lleol neu ranbarthol;
- (ii) llwybrau datblygu cydgysylltiedig i ddysgwyr o'r ysgol i addysg bellach a/neu uwch, ac yna i waith;
- (iii) un ffrwd ariannu ar gyfer cydweithredu, gan symleiddio'r system;
- (iv) ceisiadau cydweithredol, gan leihau costau i sefydliadau unigol.

227. Roedd nifer o'r ymatebwyr i'r cynnig hwn yn ei wrthwynebu sy'n tanseilio rhai o'r manteision posibl a nodir. Nodwyd dau beth yn benodol, sef y gallai cyllid o'r fath

fynd yn groes i'r egwyddor o annibyniaeth academaidd sefydliadau gan arwain at sgil-ganlyniadau, a hefyd y byddai rheolaeth a chyllid uniongyrchol yn golygu y gallai sefydliadau addysg uwch yng Nghymru gael eu hailddosbarthu'n rhan o'r sector cyhoeddus. Nodwyd hefyd nad oes unrhyw beth o reidrwydd i atal cyllido gweithgareddau o'r fath gan ddefnyddio deddfwriaeth a threfniadau gweinyddol sydd eisoes yn bodoli.

228. Lluniwyd y cynnig i roi sail statudol i'r amcan o wella ansawdd (yn hytrach nag asesu) darpariaeth addysg uwch i sicrhau bod ansawdd yn parhau i wella drwy gynllunio a rheoli, yn hytrach na'i ddatblygu ar sail cystadleuaeth. Byddai'n arwyddo ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi'r sector addysg uwch i barhau i wella ansawdd.

229. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod llawer iawn o weithgarwch i wella ansawdd ar sail polisi eisoes ar y gweill a dadleuwyd y dylid rhoi mwy o amser i ganiatáu i weithgareddau o'r fath ddatblygu cyn llunio deddfwriaeth newydd. Nid yw manteision gwella ansawdd yn amlwg wahanol p'un a yw'n digwydd yn wirfoddol ar sail polisi neu ar sail gofyniad statudol, cyn belled â bod y darparwyr yn barod i weithredu'r polisi, ond mae costau deddfwriaeth a gweithredu'r ddeddfwriaeth yn wahanol yn y ddau achos.

230. Manteision rhoi mwy o lais i'r dysgwyr yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yw bod dysgwyr yn cael cyfle i fynd ati i lywio eu dysg eu hunain a gwella ansawdd a pherthnasedd y profiad dysgu. Mae CCAUC wedi rhoi canllawiau i sefydliadau ar y materion hyn.

231. Nid oedd y Papur Gwyn yn gwneud unrhyw gynigion penodol i newid hyn, ond roedd yn gwahodd pobl i roi adborth am ba mor dda mae'r dull presennol yn gweithio. Roedd yr ymatebion yn cefnogi'r dull presennol i raddau helaeth, ac yn awgrymu nad oes digon o amser wedi pasio er mwyn gallu gwerthuso ei effaith yn wrthrychol. Bernir nad oes manteision ychwanegol amlwg o newid pethau ymhellach ar hyn o bryd.

232. Roedd ehangu'r gweithdrefnau datrys anghydfod yn ymwneud ag ehangu rôl Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol fel canolwr (gweinyddol) terfynol i gynnwys pob darparwr y mae ei fyfyrwyr yn derbyn cymorth statudol, nid dim ond y rheini sy'n aelodau statudol o gynllun Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (prifysgolion a ariennir yn gyhoeddus yn bennaf). Mae sicrhau dull cadarn o ddelio â chwynion, fel y dull a weithredir gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, o fudd i fyfyrwyr gan ei fod yn cynnig gweithdrefnau diduedd, tryloyw a reolir yn dda pe bai anghydfod yn codi gyda'u darparwr nad oes modd ei ddatrys. Mae sefydliadau yn elwa drwy osgoi rhai o'r costau sy'n gysylltiedig ag anghydfod ac am eu bod yn cael eu gweld yn mabwysiadu prosesau uchel-eu-parch Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

233. Nid yw'r Swyddfa dan orfodaeth i dderbyn unrhyw gorff i fod yn rhan o'i chynllun oni bai ei fod yn aelod statudol. Mae'r anhawster ymarferol hwn wedi arwain at weithredu'n wahanol mewn perthynas â'r cynnig hwn, drwy gyfrwng gweinyddol yn hytrach na deddfwriaethol (ac nid yw'r cynnig wedi'i gostio felly).

234. Mae'r dadansoddiad hwn o gostau a manteision yn awgrymu mai hyn a hyn o fanteision sydd yna o gyflwyno'r cynigion polisi ychwanegol ar hyn o bryd. Nid yw'r costau'n ansylweddol. Rydym felly am gael gwared â'r cynigion ychwanegol a symud i opsiwn 3, sy'n canolbwyntio ar ddiwygio gallu CCAUC i weithredu swyddogaethau rheoleiddio craidd y fframwaith rheoleiddio.

**Opsiwn 3: Diwygio swyddogaethau CCAUC i'w gwneud yn bosibl rheoleiddio'n effeithiol**

## *Costau*

235. Amcangyfrifwyd costau opsiwn 3 gan ddefnyddio model manwl ar sail y tasgau gweithredol a bennwyd gan ddarpariaethau'r Bil. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad A.

*Costau rheolaidd*

236. Diffinnir costau rheolaidd yma fel y costau, sy'n gysylltiedig â darpariaethau'r Bil, a fydd yn codi'n rheolaidd ac felly y gellir eu rhagweld. Mae'r rhain yn wahanol i gost sancsiynau a nodir yn y Bil. Fe'u gelwir yma yn gostau *eithriadol*, a fydd ond yn codi yn achos sancsiynau. Mae modd rhagweld costau rheolaidd, felly, o fewn rheswm; nid yw hyn yn wir am gostau eithriadol.

237. Mae'r tablau sy'n dilyn (tablau 5-7) yn cofnodi costau rheolaidd. Cyfansymiau costau yw'r rhain; mae manylion costau ychwanegol y Bil ym mharagraff 240. Cyflwynir costau eithriadol yn nes ymlaen yn yr adran hon. Crynhoir y costau o dan chwe phrif bennawd sy'n adlewyrchu natur y tasgau a awgrymir gan ddarpariaethau'r Bil (mae rhestr fanylach o'r tasgau yn Atodiad A).

**Tabl 5**

Costau rheolaidd opsiwn 3

| £ | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymeradwyo cynlluniau ffioedd a | 341,000 | 331,000 | 331,000 | 341,000 | 331,000 |
| Monitro a gwerthuso cynlluniau ffioedd | 301,000 | 366,000 | 470,000 | 374,000 | 470,000 |
| Sicrhau ansawdd | 405,000 | 434,000 | 434,000 | 490,000 | 434,000 |
| Sicrwydd ariannol | 471,000 | 574,000 | 536,000 | 580,000 | 577,000 |
| Is-ddeddfwriaeth† | 49,000 | 49,000 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu, hyfforddi, goruchwylio | 99,000 | 99,000 | 29,000 | 29,000 | 29,000 |
| CYFANSWM | 1,666,000 | 1,853,000 | 1,800,000 | 1,814,000 | 1,841,000 |

† Datblygu deddfwriaeth sy'n deillio'n uniongyrchol o'r Bil. Amcangyfrifir y gost hon, a chost datblygiad, hyfforddiant a goruchwylio, ym mharagraffau 346-347 o Atodiad A.

238. Caiff y costau eu rhannu rhwng Llywodraeth Cymru, CCAUC a'r sefydliadau perthnasol. Gweler y manylion isod.

**Tabl 6**

Pwy fydd yn talu'r costau rheolaidd

| £ | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 172,000 | 113,000 | 29,000 | 87,000 | 29,000 |
| CCAUC | 203,000 | 199,000 | 175,000 | 185,000 | 216,000 |
| Sefydliadau† | 1,292,000 | 1,541,000 | 1,596,000 | 1,541,000 | 1,596,000 |
| CYFANSWM | 1,666,000 | 1,853,000 | 1,800,000 | 1,814,000 | 1,841,000 |

† Ar hyn o bryd, mae gan 10 sefydliad gynlluniau ffioedd, ac rydym yn seilio'r dadansoddiad hwn o gostau ar 10 sefydliad.

239. Rhennir y costau hyn rhwng costau gweithredu a chostau cylchol yn nhabl 7. Bydd yna gostau gweithredu ar sail y ddwy flynedd gyntaf, wrth i is-ddeddfwriaeth gael ei datblygu, wrth i ganllawiau ar y fframwaith newydd gael eu datblygu a'u cyhoeddi, ac wrth i CCAUC, yn benodol, helpu i reoli'r newidiadau.

**Tabl 7**

Costau gweithredu a chylchol

| £ | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredu | 255,000 | 120,000 | 0 | 0 | 0 |
| Cylchol | 1,412,000 | 1,733,000 | 1,800,000 | 1,814,000 | 1,841,000 |
| CYFANSWM | 1,667,000 | 1,853,000 | 1,800,000 | 1,814,000 | 1,841,000 |

*Costau ychwanegol a chostau presennol*

240. Dylid nodi nad yw'r Bil yn newid sut yr asesir cymhwysedd myfyrwyr i gael cymorth ariannol. Nid oes felly unrhyw gost ychwanegol o ran benthyciadau a grantiau ffioedd dysgu yn sgil y Bil.

241. Cofnodir uchod gyfanswm y gost o weithredu'r tasgau rheoleiddio (heb gynnwys sancsiynau) sy'n deillio o ddarpariaethau'r Bil. Mae peth o'r gost hon yn adlewyrchu'n rhannol weithgarwch a fydd yn parhau, tasgau a gyflawnir ar hyn o bryd ac a fydd yn parhau i gael eu gwneud pan gyflwynir y Bil (ac sy'n ofynnol gan ei ddarpariaethau). Mae yna gost ychwanegol a gyflwynwyd yn sgil natur fwy cymhleth y gweithgarwch hwn sy'n parhau – mae'r mecanweithiau ar gyfer cydymffurfio yn wahanol, wrth gwrs, mewn fframwaith sy'n seiliedig ar gynlluniau ffioedd o gymharu â fframwaith sy'n seiliedig ar delerau ac amodau. Mae rhai tasgau a chostau yn newydd. O wahanu'r costau hyn, gellir cymharu'n glir y gost o weithredu opsiwn 3 ac opsiynau 1 a 2 (darperir tabl yn crynhoi'r manylion isod).

242. Mae tablau 8-10, felly, yn rhoi manylion:

- costau ychwanegol - cost tasgau rheoleiddio cwbl newydd a gyflwynir gan y Bil; a'r cynnydd yng nghost y tasgau sy'n parhau
- costau presennol - cost bresennol y tasgau sy'n parhau.

243. Mae'r tablau isod yn rhagdybio cynnydd o 25% yng nghost y tasgau sy'n parhau. (Mae manylion pellach ar y dull gweithredu hwn ym mharagraffau 343-345 Atodiad A.)

**Tabl 8**

Costau ychwanegol opsiwn 3 a'r costau presennol

| £ | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ychwanegol | 556,000 | 549,000 | 496,000 | 493,000 | 537,000 |
| Presennol | 1,109,000 | 1,303,000 | 1,303,000 | 1,321,000 | 1,303,000 |
| CYFANSWM | 1,666,000 | 1,853,000 | 1,800,000 | 1,814,000 | 1,841,000 |

**Tabl 9**

Costau ychwanegol opsiwn 3 fesul tasg

| £ | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymeradwyo cynlluniau ffioedd a | 90,000 | 81,000 | 81,000 | 90,000 | 81,000 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Monitro a gwerthuso cynlluniau ffioedd | 67,000 | 73,000 | 177,000 | 81,000 | 177,000 |
| Sicrhau ansawdd | 117,000 | 95,000 | 95,000 | 134,000 | 95,000 |
| Sicrwydd ariannol | 135,000 | 153,000 | 115,000 | 159,000 | 156,000 |
| Is-ddeddfwriaeth | 49,000 | 49,000 | 0 | 0 | 0 |
| Datblygu, hyfforddi, goruchwylio | 99,000 | 99,000 | 29,000 | 29,000 | 29,000 |
| CYFANSWM | 556,000 | 549,000 | 549,000 | 493,000 | 537,000 |

244. Mae'r tabl isod yn nodi pwy fydd yn talu'r costau ychwanegol hyn.

**Tabl 10**

Pwy fydd yn talu costau ychwanegol opsiwn 3

| £ | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 172,000 | 113,000 | 29,000 | 87,000 | 29,000 |
| CCAUC | 126,000 | 128,000 | 104,000 | 97,000 | 145,000 |
| Sefydliadau | 258,000 | 308,000 | 363,000 | 308,000 | 363,000 |
| CYFANSWM | 556,000 | 549,000 | 496,000 | 493,000 | 537,000 |

245. Fel y gwelir, nid yw cost ychwanegol opsiwn 3 - y Bil - yn ansylweddol. Byddwn yn edrych eto ar gwestiwn pwy fydd yn talu am y costau ychwanegol isod ar ôl ystyried cost sancsiynau.

*Dadansoddiad o sensitifrwydd*

246. Dadansoddwyd sensitifrwydd y costau uchod i newidiadau yn y tybiaethau sylfaenol er mwyn amcangyfrif sut gallai'r costau newid mewn ymateb i ddigwyddiadau na ragwelwyd (neu set wahanol o dybiaethau sylfaenol). Mae'r tablau isod yn cyflwyno canlyniadau'r dadansoddiad hwn. Roedd dau o elfennau'r model yn amrywiol - cyfraddau cyflog (gan gynnwys argostau a gorbenion) a nifer y diwrnodau sy'n ofynnol i gwblhau pob tasg. Lluniwyd y tabl ar sail model o godiad blynyddol cyfansawdd o 2% mewn cyflogau (ac argostau a gorbenion), ac amrywiad o ±10%, ±25% a ±50% yn nifer y diwrnodau sy'n ofynnol i gwblhau tasgau rheolaidd. (Mae gwybodaeth ychwanegol yn atodiad A.) Mae'r tablau isod yn cyflwyno canlyniadau'r

dadansoddiad hwn o ran ei effaith ar gostau ychwanegol a chyfanswm y costau (heb gynnwys cost sancsiynau).

247. Mae'n anochel y byddai chwyddiant mewn cyflogau (tabl ??) yn ychwanegu at y costau, er nad yw'r swm a ychwanegir at gostau ychwanegol y Bil yn arbennig o uchel.

**Tabl 11**

Y newid yn y costau ychwanegol a chyfanswm y costau o ganlyniad i gynnydd blynyddol o 2% yng nghyfraddau cyflogau

| +£ | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau ychwanegol | 9,000 | 18,000 | 29,000 | 38,000 | 53,000 |
| Cyfanswm y costau | 31,000 | 71,000 | 108,000 | 147,000 | 189,000 |

248. Mae'r tabl a ganlyn yn amrywio nifer y diwrnodau yr amcangyfrifir sy'n ofynnol er mwyn cyflawni darpariaethau'r Bil. Mae amrywiadau o ±10%, ±25% a ±50% wedi'u cynnwys (er nad oes rheswm amlwg dros feddwl y byddai'r costau yn cynyddu gymaint â 50%).

**Tabl 12**

Y newid yn y costau ychwanegol a chyfanswm y costau o ganlyniad i newid yn nifer y diwrnodau sy'n ofynnol i gwblhau'r tasgau

| ±£ | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| ±10% — costau ychwanegol | 56,000 | 55,000 | 50,000 | 49,000 | 54,000 |
| — cyfanswm y costau | 167,000 | 185,000 | 180,000 | 181,000 | 184,000 |
| ±25% — costau ychwanegol | 139,000 | 137,000 | 124,000 | 123,000 | 134,000 |
| — cyfanswm y costau | 417,000 | 463,000 | 450,000 | 454,000 | 460,000 |
| ±50% — costau ychwanegol | 278,000 | 275,000 | 248,000 | 247,000 | 269,000 |
| — cyfanswm y costau | 833,000 | 927,000 | 900,000 | 907,000 | 921,000 |

249. Mae ystod yr amcangyfrifon - o gost ychwanegol o ryw £50,000 y flwyddyn pe bai nifer y diwrnodau yn cynyddu 10% i ryw £0.25m y flwyddyn yn achos cynnydd o 50% - yn tynnu sylw at yr angen i fonitro sut y gweithredir darpariaethau'r Bil (pennod 9).

250. Mae tabl 13 yn crynhoi canlyniadau'r dadansoddiad hwn, gan roi manylion effaith gronnol codiad blynyddol o 2% mewn cyflogau (ac argostau a gorbenion) a chynnydd o 10% yn nifer y diwrnodau sy'n ofynnol i gwblhau'r tasgau rheoleiddio.

**Tabl 13**

Crynodeb o sensitifrwydd y costau: cynnydd o 10% yng nghostau'r tasgau a chynnydd o 2% mewn cyflogau blynyddol

| £ | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynnydd yn y gost ychwanegol | 66,000 | 73,000 | 79,000 | 87,000 | 107,000 |
| Costau ychwanegol - sylfaenol | 556,000 | 549,000 | 496,000 | 493,000 | 537,000 |
| Cynnydd yng nghyfanswm y costau | 199,000 | 256,000 | 288,000 | 328,000 | 373,000 |
| Cyfanswm y costau - sylfaenol | 1,666,000 | 1,853,000 | 1,800,000 | 1,814,000 | 1,841,000 |

251. Mae'r tabl uchod yn cynnwys costau 'sylfaenol' er mwyn cymharu. Nid yw effaith y cynnydd mewn costau yn ansylweddol, yn enwedig mewn blynyddoedd diweddarach.

252. Mae'r dadansoddiad hwn o sensitifrwydd yn ffordd ddefnyddiol o ystyried effaith unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Bil. Er na ragwelir unrhyw risgiau sylweddol - darparu ar gyfer parhau â'r trefniadau rheoleiddio presennol y mae'r Bil yn bennaf, ond gan eu haddasu yng ngoleuni trefniadau cyllid newydd - mae'r dadansoddiad uchod yn dangos y cynnydd posibl mewn costau pe bai cyflwyno'r Bil yn anoddach ac felly'n fwy costus na'r disgwyl.

253. Ym mhennod 9, trafodir yn fyr y trefniadau rheoli a monitro sydd eu hangen i reoli a/neu ymateb i unrhyw bwysau o ran costau.

*Costau eithriadol*

254. Fel y nodwyd uchod, gallai ‘costau eithriadol’ godi mewn perthynas ag opsiynau 2 a 3. Nod y costau eithriadol hyn, neu'r 'sancsiynau'[23]a gyflwynir gan y Bil yw darparu rheolaethau priodol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â’r gofynion rheoleiddio. Mae

[23] Defnyddir y gair 'sancsiynau' yma fel llaw fer am unrhyw gostau afreolaidd, eithriadol sy'n gysylltiedig â darpariaethau'r Bil.

amrywiaeth o gamau posibl. Mater i CCAUC fydd penderfynu, o fewn y fframwaith deddfwriaethol, pa rai y dylid eu defnyddio a phryd.

255. Mae tabl 15 yn cyflwyno cyfanswm cost y sancsiynau (gan gymryd y caiff pob un ei ddefnyddio unwaith). Fodd bynnag, costau eithriadol yw'r rhain a dim ond pan fydd angen cymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth y byddent yn codi. Yn hynny o beth, mae'n anodd iawn rhagweld y costau gwirioneddol tebygol o fewn cyfnod penodol.

256. Rydym yn cyflwyno dau senario, felly, i egluro hyn. Mae'r senarios hyn yn seiliedig ar ymyriadau 'cefnogol', lle mae CCAUC yn helpu sefydliad a allai fod yn cael trafferth i gyflawni ei ymrwymiadau. Mae ymyriadau cefnogol fel hyn yn rhan arferol o reoleiddio addysg uwch yng Nghyrmu. Ystyrir mai dim ond yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol y dylid defnyddio'r sancsiynau mwy eithafol a fyddai'n arwain at dynnu cymeradwyaeth yn ôl i gynllun ffioedd neu wrthod ei adnewyddu, ac felly nid yw'r rheini wedi'u cynnwys yn y senarios.

257. Mae'r dadansoddiad cychwynnol yn cyflwyno cyfanswm costau pob senario. Er mwyn mynd ati wedyn i broffilio costau ar draws y cyfnod pum mlynedd, defnyddir costau senario 2. Nid yw'n ymddangos y bydd angen cymryd camau ar y lefel a awgrymir gan senario 2 bob amser er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, ac felly ystyrir hyn yn amcan uchaf rhesymol.

258. Caiff y costau eu grwpio o dan yr un penawdau ag o'r blaen, gan ychwanegu 'rheoli ffioedd dysgu', 'gwrthod adnewyddu cynllun ffioedd' a 'thynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd yn ôl'. Mae'r rhain yn ymwneud â sefyllfaoedd eithriadol.

**Tabl 15**

Cyfanswm cost sancsiynau

| £ | |
|---|---|
| Cymeradwyo cynlluniau ffioedd a dynodi cyrsiau | 23,000 |
| Monitro a gwerthuso cynlluniau ffioedd | 149,000 |
| Rheoli ffioedd dysgu | 156,000 |
| Sicrhau ansawdd | 280,000 |
| Sicrwydd ariannol | 145,000 |
| Gwrthod adnewyddu cynllun ffioedd | 85,000 |
| Tynnu cymeradwyaeth i gynllun ffioedd yn ôl | 93,000 |
| CYFANSWM | 931,000 |

259. Mae tabl 16 yn rhoi manylion pwy fydd yn talu'r costau. CCAUC a'r sefydliadau fydd yn talu'r costau gan mwyaf. Yn gyffredinol, disgwylir i gostau Llywodraeth Cymru fod yn fach gan mai dim ond yn yr amgylchiadau mwyaf difrifol y byddai hithau'n cael ei thynnu i mewn i'r sefyllfa.

**Tabl 16**

Pwy fydd yn talu cost y sancsiynau

| £ | |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 45,000 |
| CCAUC | 621,000 |
| Sefydliadau | 265,000 |
| CYFANSWM | 931,000 |

Senario 1

260.

- mae dau sefydliad sydd â chynlluniau ffioedd yn gwneud cais i'w hamrywio;
- mae Gweinidogion Cymru yn gwneud cais am adolygiad o effeithiolrwydd cyffredinol y cynlluniau ffioedd;
- mae un sefydliad yn cael cyfarwyddyd i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun cymeradwy a allai olygu gwario incwm ffioedd ar weithgareddau sy'n ymwneud â hyrwyddo cyfle cyfartal/hyrwyddo addysg uwch. Mae'r sefydliad yn apelio yn erbyn y penderfyniad, ond nid yw'n llwyddo;
- mae un sefydliad yn cael cyfarwyddyd i ddatblygu a gweithredu cynllun i fynd i'r afael â gwendidau ansawdd;
- mae un sefydliad sy'n methu â chydymffurfio â'r Cod Ariannol a Rheoli yn cael cefnogaeth gan CCAUC drwy gyfrwng tîm cymorth i fynd i'r afael â'r methiannau hynny.

261. Mae'r tablau isod yn rhoi manylion cost senario 1 (amcan), o dan y penawdau priodol. Bydd CCAUC a'r sefydliadau yn talu costau. Ni ddisgwylir y bydd llawer o gostau i Lywodraeth Cymru yn y senarios hyn.

**Tabl 17**

Costau sancsiynau senario 1

| £ | |
|---|---|
| Cymeradwyo cynlluniau ffioedd a dynodi cyrsiau | 46,000 |
| Monitro a gwerthuso cynlluniau ffioedd | 94,000 |
| Sicrhau ansawdd | 47,000 |
| Sicrwydd ariannol | 24,000 |
| CYFANSWM | 211,000 |

**Tabl 18**

Pwy fydd yn talu cost sancsiynau senario 1

| £ | |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 0 |
| CCAUC | 137,000 |
| Sefydliadau | 73,000 |
| CYFANSWM | 211,000 |

<u>Senario 2</u>

262. Fel senario 1, ond hefyd:

- mae un sefydliad arall yn gwneud cais i amrywio ei gynllun ffioedd;
- mae un sefydliad arall yn cael cyfarwyddyd i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun cymeradwy a allai olygu gwario incwm ffioedd ar weithgareddau sy'n ymwneud â hyrwyddo cyfle cyfartal/hyrwyddo addysg uwch;
- mae un sefydliad arall yn cael cyfarwyddyd i ddatblygu a gweithredu cynllun i fynd i'r afael â gwendidau ansawdd;
- mae un sefydliad yn methu â chydymffurfio â therfyn ffioedd ac yn cael cyfarwyddyd i gymryd camau i gydymffurfio ac ad-dalu ffioedd sydd uwchlaw'r terfyn. Mae'n herio'r cyfarwyddyd, ond nid yw'n llwyddo.

**Tabl 19**

Costau sancsiynau senario 2

| £oedd | |
|---|---|
| Cymeradwyo cynlluniau ffioedd a dynodi cyrsiau | 69,000 |
| Monitro a gwerthuso cynlluniau ffioedd | 175,000 |
| Rheoli ffioedd dysgu | 103,000 |
| Sicrhau ansawdd | 93,000 |
| Sicrwydd ariannol | 24,000 |
| CYFANSWM | 464,000 |

**Tabl 20**

Pwy fydd yn talu cost sancsiynau senario 2

| £ | |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 0 |
| CCAUC | 276,000 |
| Sefydliadau | 188,000 |
| CYFANSWM | 464,000 |

*Proffilio costau eithriadol*

263. Er mwyn proffilio'r costau eithriadol hyn, mae angen cymryd bod pob un yn codi hyn a hyn o weithiau yn ystod y cyfnod pum mlynedd. Defnyddir costau senario 2 yma am y rhesymau a nodir uchod. Mae manylion y proffil costau a luniwyd isod.

**Tabl 21**

Proffil costau sancsiynau senario 2

| £ | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymeradwyo cynlluniau ffioedd a | | 23,000 | 23,000 | 23,000 | | 69,000 |
| Monitro a gwerthuso cynlluniau ffioedd | | 12,000 | 82,000 | | 82,000 | 175,000 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli ffioedd dysgu | | | | 103,000 | | 103,000 |
| Sicrhau ansawdd | | 47,000 | | | 47,000 | 93,000 |
| Sicrwydd ariannol | 24,000 | | | | | 24,000 |
| CYFANSWM | 24,000 | 82,000 | 105,000 | 126,000 | 129,000 | 464,000 |

264. Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r costau rheolaidd ac eithriadol er mwyn rhoi trosolwg o gostau ychwanegol y Bil a sut mae hyn yn cymharu ag opsiynau eraill pennod 7.

### *Crynodeb: cymharu ag opsiynau 1 a 2*

265. Mae tabl 22 yn rhoi manylion costau ychwanegol opsiynau 2 a 3 o gymharu ag opsiwn 1, gan gynnwys costau'r sancsiynau (amcan).

**Tabl 22**

Costau ychwanegol opsiwn 2 ac opsiwn 3 o gymharu ag opsiwn 1[24]

| £ | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Opsiwn 2 | 1,413,000 | 1,509,000 | 1,366,000 | 1,447,000 | 1,488,000 |
| Opsiwn 3 | 581,000 | 632,000 | 602,000 | 619,000 | 667,000 |

### *Cyfleoedd o ran costau*

266. Trafodir cyfleoedd o ran costau yn fyr yma, sef gwerth economaidd yr opsiwn gorau ar ôl yr un a ddewisir mewn sefyllfa lle gellir dewis rhwng opsiynau sy'n cau opsiynau eraill allan.

267. O gofio mai nod y Bil yw sicrhau bod addysg uwch yn parhau i gael ei rheoleiddio, un cyfle o ran costau yw dull gweithredu gwahanol i gyflawni'r amcan hwn ac asesu gwerth economaidd hynny (y fantais minws y gost). Ar ôl ymgynghori, gwneud

[24] Mae'r tabl hwn yn cynnwys cost sancsiynau/camau i sicrhau cydymffurfiaeth fel costau ychwanegol (ar sail y costau a gyflwynir yn Senario 2 (Tabl 21)).. Mae rhai o'r sancsiynau y mae'r Bil yn darparu ar eu cyfer yn gamau y gellir eu cymryd eisoes, ac sydd weithiau yn cael eu cymryd. Mae elfen o'r gost hon, ar brydiau, eisoes yn bod, felly. Fodd bynnag, o gofio natur eithriadol y costau hyn a'r ffaith eu bod ond yn codi mewn senarios penodol, ni fyddai rhannu'r categorïau 'presennol' ac 'ychwanegol' i gategorïau manylach o fudd gwirioneddol wrth amcangyfrif y costau.

gwaith datblygu polisi a chael cyngor cyfreithiol, ni ddaethpwyd o hyd i opsiwn boddhaol oedd yn well na'r un a ddewiswyd, ac felly mae'n anodd nodi'r cyfle o ran costau.

268. Mae ystyried gwerth economaidd peidio â chyflwyno'r Bil yn opsiwn rhesymol, gan gynnal y fframwaith rheoleiddio presennol (opsiwn 1).

269. Yn achos methiant sylweddol o fewn y sector addysg uwch (o ran ansawdd, mynediad, rheoli ariannol neu reoli ffioedd dysgu), rhywbeth sy'n fwy tebygol o ddigwydd yn absenoldeb y gallu i orfodi rheoleiddio, byddai'r costau yn dibynnu ar natur y methiant. Er enghraifft, gallai ansawdd addysg gwael a arweiniodd at radd is nag y byddai myfyriwr efallai wedi'i chael fel arall effeithio'n barhaol ar lefel cyflog yr unigolyn hwnnw; os bydd hynny'n digwydd i nifer o unigolion ac o ystyried yr effaith dros gyfnod oes, gallai'r costau fod yn sylweddol (gallai diffyg mynediad teg hefyd gael effaith debyg). A gallai ymgais i unioni'r sefyllfa drwy strwythur cyfreithiol annigonol fod yn fwy costus nag a fyddai'n wir o ganlyniad i'r Bil. Er y byddai'n anodd iawn llunio amcangyfrif canolog o'r costau hyn, ymddengys yn rhesymol awgrymu y gallai'r costau hyn fod yn eithaf uchel.

270. Mae manteision opsiwn 1 wedi'u nodi uchod, a dadleuir eu bod yn ansylweddol. Efallai bod budd hefyd o ailddyrannu'r adnoddau a ddefnyddir i helpu i weithredu'r Bil a'r costau cylchol cysylltiedig. Amcangyfrifir mai cost ychwanegol y Bil (heb gynnwys sancsiynau) o gymharu â'r opsiwn o wneud dim byd yw £1.6m dros y tair blynedd gyntaf. Os yw ffi ddysgu yn £9,000 y flwyddyn, mae hyn yn gohort (tair blynedd) o 59 o israddedigion ychwanegol[25].

271. Nid yw'r manteision posibl yn ansylweddol, felly, ond nid ydynt ychwaith yn sylweddol. Gallai'r costau, ar y llaw arall, fod yn uchel os derbynnir y dadansoddiad uchod. Nid yw gwerth economaidd yr opsiwn arall hwn yn uchel; o ran y Bil, mae'r cyfleoedd o ran costau yn fach. Fel y nodwyd, mae'r cyfleoedd o ran costau yn nodi gwerth economaidd yr opsiwn gorau nesaf ar ôl yr un a ddewiswyd. Daw'r dadansoddiad hwn i'r casgliad bod gwerth unrhyw opsiwn a ddilynid yn lle creu'r Bil yn debygol o fod yn fach.

## *Manteision*

272. Prif fantais opsiwn 3 yw sicrhau fframwaith cadarn i reoleiddio addysg uwch. Gall dysgwyr - o Gymru neu o rywle arall - fod yn hyderus ynghylch ansawdd yr addysg a dderbyniant ac y talant amdani. Bydd sefyllfa ariannol y sefydliadau lle byddant yn astudio yn ddiogel. Bydd rheoli a rheoleiddio ffioedd dysgu a mynd ati mewn ffordd newydd i ehangu mynediad a dal gafael ar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn sicrhau bod addysg uwch yn parhau i fod yn agored i'r rheini all elwa ohoni.

---

[25] Mae bron yn sicr bod yr amcangyfrif hwn yn rhy uchel; nid yw'n ystyried y gost wirioneddol o ddarparu benthyciadau a grantiau ffioedd dysgu sy'n cynnwys gweinyddu, methu â thalu benthyciad neu ddyled yn ôl, a cholli llog.

273. Gall y cyhoedd fod yn hyderus bod darparwyr addysg uwch yn parhau i drefnu eu materion i safon uchel a gweithredu er budd y cyhoedd. Caiff gwariant y Llywodraeth ar addysg uwch ei reoli mewn ffordd strategol. Ni effeithir ar annibynniaeth academaidd sefydliadau.

274. Mae'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn bosibl i nifer o'r rheolaethau rheoleiddio presennol barhau i fod yn effeithiol yn y drefn newydd ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Mae hefyd yn cyflwyno nifer fach o reolaethau newydd sy'n ehangu'r opsiynau sydd ar gael i CCAUC wrth ddelio â phroblemau penodol. Mae'r rhain yn darparu dull mwy hyblyg a chymesur o reoleiddio na'r opsiwn o wneud dim byd/system bresennol sydd ond yn caniatáu ar gyfer dal cyllid yn ôl a/neu wrthod adnewyddu cynllun ffioedd.

275. Mae'r opsiwn hwn yn gwneu y fframwaith rheoleiddio yn fwy tryloyw. Mae'n rhoi dyletswydd ar CCAUC i ymgynghori â'r sector, bydd CCAUC yn cyhoeddi polisi ymyriadau, bydd Llywodraeth Cymru yn llunio cyfarwyddyd, caiff y Cod Ariannol newydd arfaethedig ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a chaiff adroddiadau blynyddol ar ansawdd a materion ariannol eu cynnwys.

276. Mae opsiwn 3 yn cyflwyno'r posibilrwydd y gall CCAUC dynnu ei gymeradwyaeth yn ôl i gynllun ffioedd sydd eisoes yn bod. Dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol a dybryd o fethiant y defnyddid sancsiwn o'r fath yn erbyn sefydliad. Bydd hyn yn sicrhau nad yw arian cyhoeddus yn parhau i fynd i sefydliadau sydd wedi methu'n ddifrifol neu fwy nag unwaith â bodloni'r gofynion rheoleiddio. Gofelir na fydd y myfyrwyr yn dioddef.

277. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn cynnwys darpariaeth i CCAUC fynd i'r afael â materion sy'n *debygol* o fynd yn fwy difrifol. Mae hyn yn hyrwyddo'r arfer o nodi problemau a'u datrys yn gynnar, ac yn cydnabod gwerth gwneud hynny, er mwyn osgoi sancsiynau mwy difrifol.

278. Mae opsiwn 3 yn gwneud newid allweddol i hyd a lled y fframwaith rheoleiddio, gan sicrhau dull mwy cyson o reoleiddio. Mae'n cynnwys pob darparwr y mae eu dysgwyr llawnamser yn derbyn cymorth statudol i fyfyrwyr.

279. Mae rôl CCAUC fel y prif gorff y mae'r sector addysg uwch yn ymwneud ag ef yn parhau, ond ei bod wedi'i hailddiffinio. Rôl reoleiddio fydd gan CCAUC bellach yn hytrach na rôl gyllido, yn sgil y newid yn y trefniadau cyllido ar gyfer addysg uwch. Ni fydd hyn yn tarfu ar y system yn fwy nag sy'n rhaid a chedwir y gost o addasu mor isel â phosibl, cedwir y cysylltiadau a'r rhwydweithiau proffesiynol sydd eisoes yn bod a chedwir hefyd sgiliau a phrofiad Cyngor a Gweithrediaeth CCAUC.

280. Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar yr agenda i ehangu mynediad. Rhaid i gynlluniau ffioedd a mynediad gynnwys darpariaethau i ddal gafael ar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r Bil yn ceisio pwer i lunio rheoliadau er mwyn gwneud darpariaeth i allu gorfodi ymrwymiadau i gynlluniau ffioedd.

281. Dyma brif fanteision strategol opsiwn 3. Mae fframwaith rheoleiddio addas, cymesur a thryloyw yn helpu i gynnal a gwella enw da sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

282. Ond mae yna nifer o fanteision eraill hefyd:

(v) Bydd ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gael statws elusennol er mwyn gallu gwneud cais i gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad yn sicrhau bod cyllid cyhoeddus ar gyfer addysg uwch yn parhau i gael ei ddefnyddio a'i fuddsoddi er lles y cyhoedd.

(vi) Bydd ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr newydd gyflwyno tystiolaeth o ansawdd eu darpariaeth a'u sefydlogrwydd ariannol wrth ymuno â'r system-*hy* fel ffactor y bydd yn rhaid i CCAUC ei ystyried wrth asesu cynllun ffioedd a mynediad-yn diogelu profiad dysgwyr o addysg uwch yng Nghymru ac enw da'r addysg honno.

(vii) Mae'n dal i fod yn bosibl gorfodi terfynau ar ffioedd dysgu a chyflwynir mesurau newydd i sicrhau bod ffioedd yn cael eu had-dalu os oeddent yn rhy uchel.

(viii) Bydd y Bil yn sicrhau eglurder o ran gofynion rheoleiddio darpariaeth freiniol, maes nad yw wedi'i reoleiddio gymaint yn y gorffennol. Gall dysgwyr fod yn siwr bod yna system sy'n craffu ar ansawdd cyrsiau breiniol a'r berthynas â'r sefydliad breinio.

(ix) Bydd yn bosibl cynnal astudiaethau ar draws y sector o effeithiolrwydd y ffordd y caiff ansawdd ei sicrhau ac y caiff mynediad ei ehangu. Hefyd bydd modd cynnal astudiaethau o effeithiolrwydd ariannol y sector ac o sefydliadau unigol. O ganlyniad, caiff canllawiau arfer da eu datblygu ar gyfer y sector, gan atgyfnerthu'r ffocws ar sicrwydd ansawdd, ehangu mynediad a systemau ariannol, a'u heffeithiolrwydd.

(x) Ni fydd y system reoleiddio yn dibynnu, bellach, ar amodau cyllid. Pan wneir newidiadau i'r system gyllid yn y dyfodol, ni fydd hyn o reidrwydd yn golygu bod yn rhaid newid y system reoleiddio.

***Casgliad***

283. Mae opsiwn 3 yn darparu fframwaith rheoleiddio effeithiol ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru ac mae iddo lai o gostau ychwanegol nag opsiwn 2. Oherwydd hyn, dewiswyd opsiwn 3 fel yr opsiwn priodol.

***Asesiadau Effaith Penodol***

284. Mae crynodeb o bob un ohonynt isod. Yn ôl yr asesiadau, ni ragwelir y bydd unrhyw effaith sylweddol pan gyflwynir y Bil.

*Cydraddoldeb*

285. Mae'r model Llunio Polisïau mewn Modd Cynhwysol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru yn mynnu bod pob polisi a darn o ddeddfwriaeth yn cael ei ddatblygu "mewn ffordd sy'n bodloni anghenion y mae unigolion a chymunedau yn eu nodi, yn canolbwyntio ar y dinesydd ar sail egwyddorion hawliau dynol, tegwch, parch, cydraddoldeb ac urddas, ac mai hynny sydd wrth wraidd ein holl gamau polisi". Ers datblygu'r model hwn, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi dod i rym ac mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2012, wedi datblygu ymhellach y gofyniad i "sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a chyflogaeth yn deg, yn hygyrch ac yn ymatebol i anghenion pobl, a bod cymunedau'n gynhwysol".

286. Bydd y darpariaethau arfaethedig yn y Bil yn galluogi CCAUC i barhau i roi sicrwydd ynghylch cyflwr ariannol a threfniadau llywodraethu darparwyr addysg uwch, a hefyd asesu ansawdd eu darpariaeth, gorfodi rheolaethau ar ffioedd, a sicrhau cyfle cyfartal o ran mynediad at addysg uwch yng Nghymru. Byddant yn sicrhau bod pob darparwr sy'n cynnig cyrsiau addysg uwch sydd wedi'u dynodi'n awtomatig gan Weinidogion Cymru at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr, yn gorfod cydymffurfio â rheolaethau. Bydd hyn yn diogelu buddiannau pob myfyriwr, waeth a ydynt yn rhan o grŵp â nodweddion gwarchodedig ai peidio, ac yn helpu i sicrhau hygyrchedd ac ymatebolrwydd.

287. Dadansoddwyd yr effaith ar fuddiannau chwe grŵp â nodweddion gwarchodedig (yn ôl oedran, anabledd, rhyw neu drawsrywedd, hil, crefydd neu gred a diffyg cred, a chyfeiriadedd rhywiol) a dau grŵp pellach a gyflwynwyd gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth). Nid oedd unrhyw dystiolaeth o effaith wahaniaethol ar y grwpiau hyn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o effaith ar hawliau dynol fel y'u diffiniwyd gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

288. Mae CCAUC yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) ac i ddyletswyddau penodol Cymreig (fel awdurdod a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 19 Deddf Cydraddoldeb 2010). Felly, mae gofyn i CCAUC gydymffurfio â'r un dyletswyddau cydraddoldeb ag awdurdodau cyhoeddus eraill Cymru. Ni fydd y Bil yn effeithio ar y dyletswyddau hyn.

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

289. Nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant. Fodd bynnag, plant heddiw yw myfyrwyr addysg uwch y dyfodol ac mae asesiad o effaith y Bil ar hawliau plentyn yn awgrymu y gallai effeithio ar yr hawl ganlynol:

> Erthygl 12. Mae gan blant yr hawl i ddweud beth y maent yn credu y dylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac i'w barn gael ei hystyried.

290. Gyda hyn mewn cof, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad wedi'i deilwra ar gyfer pobl ifanc ochr yn ochr â’r Papur Gwyn. Roedd pobl ifanc, ar y cyfan, yn cefnogi'r egwyddor o sector addysg uwch sydd wedi'i reoleiddio'n dda. Ceir rhagor o fanylion yn adroddiad yr ymgynghoriad.[26]

*Preifatrwydd*

291. Mae'r Bil yn ceisio llenwi bwlch rheoleiddiol sydd wedi codi o ganlyniad i newidiadau i'r ffordd y caiff addysg uwch ei ariannu yng Nghymru. Hynny er mwyn sicrhau bod CCAUC yn gallu parhau i orfodi rheolaethau ar ffioedd a threfniadau mynediad teg, a darparu ar gyfer asesu ansawdd a sicrwydd ariannol addysg uwch yng Nghymru. Nid oes unrhyw newid i'r data personol a brosesir gan CCAUC, dim ond y ddeddfwriaeth sy'n sail iddynt. Ni fydd gwrthrych y data yn ymwybodol o hyn ac mae'r dulliau prosesu'r un peth, yn eu hanfod, o'u safbwynt nhw sy'n golygu nad oes unrhyw newid i'w disgwyliadau o ran preifatrwydd.

292. Felly, nid oes angen cynnal Asesiad ffurfiol o'r Effaith ar Breifatrwydd ar gyfer y cynnig hwn gan na fydd angen prosesu data personol o ganlyniad i'r Bil.

*Prawfesur gwledig*

293. Mae prawfesur gwledig yn ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod anghenion cymunedau cefn gwlad yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni, a bod effaith polisi neu raglen yn cael ei harchwilio er mwyn gweld a yw'n effeithio'n negyddol ar ardaloedd gwledig.

294. Yn ôl dadansoddiad, nid yw'r Bil yn cael effaith wahaniaethol na negyddol ar gymunedau gwledig.

*Datblygu cynaliadwy*

295. Mae'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy, 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned', yn amlinellu'r dyhead bod y system addysg yn 'sicrhau dyfodol gwell i bobl Cymru, yn enwedig yn yr achosion hynny lle mae darpariaeth dysgu gydol oes ansawdd uchel yn helpu pobl i gyflawni'u hamcanion, yn creu cyfleoedd gwell, yn grymuso cymunedau ac yn helpu i ddarparu'r swyddi a'r sgiliau y mae eu hangen ar bobl’. Bydd y Bil yn cyfrannu at gyflawni'r dyhead hwn drwy weithredu system reoleiddio gadarn a chydlynol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru a fydd yn caniatáu i CCAUC barhau i:

- roi sicrwydd ynghylch cyflwr ariannol a threfniadau llywodraethu darparwyr addysg uwch;
- asesu ansawdd eu darpariaeth;

[26] Papur Gwyn - crynodeb o’r ymatebion, Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru), 2013

- gorfodi rheolaethau ar ffïoedd;
- sicrhau cyfle cyfartal o ran mynediad at addysg uwch yng Nghymru.

296. Mae'r asesiad o safbwynt datblygu cynaliadwy yn seiliedig ar egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal ac mae adrannau blaenorol yn amlinellu'r cyfraniad y bydd y ddeddfwriaeth hon yn ei wneud, yn enwedig o ran cyfle cyfartal. Bydd y fframwaith rheoleiddio a ddarperir gan y Bil yn helpu i greu amgylchedd lle gall ystod mor eang â phosibl o bobl gael mynediad at addysg uwch a chyfrannu'n effeithiol yn y gymdeithas.

297. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru gynaliadwy yw gwlad lle mae twf economaidd Cymru yn seiliedig ar ddatblygiad hyfforddiant a chymwysterau mewn sectorau a sgiliau allweddol. Datblygwyd y cynigion hyn i ddiwallu anghenion hirdymor y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol o ran addysg uwch yng Nghymru. Mae'r Bil yn ceisio creu system reoleiddio sefydlog, cadarn, cymesur a theg sy'n arwain at ddarpariaeth addysg uwch o ansawdd uchel a chyfle cyfartal i ymgeiswyr o ran mynediad at addysg uwch.

298. Mae'r asesiad ar gyfer datblygu cynaliadwy hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys y bobl a'r cymunedau y mae ein cynigion yn effeithio fwyaf arnynt yn y broses o'u datblygu. Mae dysgwyr a'u cynrychiolwyr wedi cael cyfle i gyfrannu at y Bil drwy'r broses ymgysylltu a drafodwyd ym mhennod 4. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (Cymru) ac yn uniongyrchol â dysgwyr drwy sianeli fel CLIC ar-lein, Cyllid Myfyrwyr Cymru a Llais Disgyblion Cymru.

*Yr Iaith Gymraeg*

299. Ar hyn o bryd, mae'n ddyletswydd statudol ar CCAUC, sefydliadau addysg uwch a chorfforaethau addysg bellach i gyhoeddi Cynlluniau Iaith. Caiff y cynlluniau hyn eu paratoi o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys addysg, darpariaeth academaidd a threfniadau gweinyddol ac yn berthnasol i fyfyrwyr, staff a'r rheini sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Ni fydd y Bil yn cael effaith andwyol ar y gofynion statudol hyn, nac yn ceisio eu newid.

300. Mae Mesur y Gymraeg 2011 wedi cymryd lle Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar gyfer y blynyddoedd nesaf fel y prif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â'r Gymraeg. Rhagwelir y bydd y Mesur mewn grym i raddau helaeth pan fydd y Bil yn cychwyn, neu'n fuan wedyn (yn amodol ar amserlenni'r ddau).

301. Mae'r Mesur yn darparu bod yn rhaid i sefydliadau a chyrff penodol gydymffurfio â 'safonau' a fydd, ar ôl eu cwblhau'n derfynol, yn cymryd lle'r Cynlluniau Iaith (adran 25 o'r Mesur). Caiff y safonau newydd hyn eu cyflwyno gan Gomisiynydd y Gymraeg. Ar yr un pryd, cyhoeddodd y Comisiynydd raglen dreigl yn ddiweddar i orfodi safonau newydd ar sefydliadau eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r

trydydd sector yn y dyfodol - gan gynnwys y rheini yn y sector addysg uwch. Er nad yw'r adran hon mewn grym ar hyn o bryd, mae'n debygol o fod mewn grym erbyn i'r Bil gychwyn.

302. Gall Safonau'r Gymraeg gwmpasu trefniadau cyflenwi gwasanaethau, datblygu polisi, cyflawni gweithredol, hyrwyddo a chadw cofnodion, a chânt eu nodi'n fanylach mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru (adran 26). Mae Atodlen 6 o'r Mesur yn rhestru'r personau a'r cyrff amrywiol a allai fod yn ddarostyngedig i'r safonau; a mater i'r Comisiynydd fydd penderfynu ar union natur y safonau perthnasol. Yn Atodlen 5 a 6 o'r Mesur, rhestrir amryw brifysgolion gan gynnwys prifysgolion Caerdydd, Abertawe ac Aberystwyth, ynghyd â CCAUC a chorfforaethau addysg uwch.

303. Ar y sail honno, ni chredir ar hyn o bryd y bydd y Bil yn effeithio ar ofynion Mesur y Gymraeg. Hyd yn oed pe bai sefydliad yng Nghymru yn dewis peidio â gwneud cais am gynllun ffioedd, byddai'n rhaid iddo gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o hyd (os yw wedi'i gynnwys yn Atodlen 5 a 6 a bod y Comisiynydd wedi'i hysbysu am hynny) pan fydd adran 25 o'r Mesur wedi cychwyn.

304. Os nad yw Safonau'r Gymraeg mewn grym erbyn i'r Bil gychwyn (neu os yw'r Bil yn cychwyn ychydig cyn iddynt ddod i rym mewn sefydliadau addysg uwch), bydd Cynllun Iaith presennol Llywodraeth Cymru yn parhau'n berthnasol. Mae Adran 144(2) o'r Mesur yn datgan y bydd Rhan 2 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (sy'n ymdrin â chynlluniau) yn peidio â bod yn gymwys i berson os a phan fo'r person hwnnw'n dod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 25(1) o'r Mesur i gydymffurfio â safon. Ar y sail honno, bydd y Cynlluniau Iaith presennol yn parhau nes bod safonau'n cael eu gorfodi gan y Comisiynydd.

*Effeithiau eraill*

305. Nodwyd y canllawiau ar asesu effaith polisi ar a) yr amgylchedd a b) bioamrywiaeth. Yn dilyn adolygiad, awgrymwyd nad oes angen cwblhau asesiad effaith llawn ar y naill bwnc na'r llall.

# 8. Asesiad o'r gystadleuaeth

306. Ni fydd y darpariaethau yn y Bil yn effeithio ar fusnesau, elusennau a/neu'r sector gwirfoddol mewn modd sy'n codi materion sy'n gysylltiedig â chystadleuaeth. Ni chymhwyswyd yr hidl cystadleuaeth.

307. Ystyriwyd effaith y Bil ar sefyllfaoedd sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a Lloegr o safbwynt eu cystadleuaeth â'i gilydd. Nid yw'r Bil yn newid lefelau ffioedd na chymorth i fyfyrwyr, ac felly ni ddylai effeithio'n uniongyrchol ar y gystadleuaeth (o ran prisiau) rhwng sector addysg uwch Cymru a'r sector yn Lloegr. Mae yna effaith o ran y costau i sefydliadau unigol. Yn achos y rhan fwyaf o sefydliadau, nid oes modd iddynt basio'r gost hon ymlaen drwy godi ffioedd gan eu bod eisoes yn codi'r lefel uchaf a ganiateir. Gellid dadlau y byddai yna ostyngiad bach yn eu helw sy'n lleihau'r arian sydd ar gael i'w fuddsoddi. Gallai hynny wedyn effeithio ar eu sefyllfa fel cystadleuydd yn y tymor hirach. Fodd bynnag, nid yw costau'r Bil i'r sector yn sylweddol (tua £0.5m y flwyddyn) o gymharu â chyfanswm y refeniw (tua £1.27bn yn 2012/13[27]). Ni ddylai'r Bil effeithio ar unrhyw elfen gystadleuaeth nad yw'n ymwneud â phrisiau, gan fod y rheolaethau rheoleiddio yn darparu ar gyfer sicrhau canlyniadau tebyg yng Nghymru ag yn Lloegr – er enghraifft, o ran ansawdd.

[27] Cyllid sefydliadau addysg uwch yn ôl categori a blwyddyn, StatsCymru, cafwyd yr ystadegau hyn ar 27 Mawrth 2014

# 9. Adolygu ar ôl gweithredu

308. Mae'r Bil yn ymwneud yn bennaf â diwygio swyddogaethau CCAUC i'w alluogi i barhau i weithredu rheolaethau. Felly, bydd yr adolygiad a'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar ddau beth:

- pa mor effeithiol yw'r trefniadau newydd o ran sicrhau rheoleiddio priodol;
- a yw'r canlyniadau a geisir - rheolaeth ar ffioedd dysgu, sicrwydd ansawdd, gwell mynediad ac ati - yn cael eu cyflawni.

***Adolygu ar ôl gweithredu***

*Adolygu a monitro parhaus*

309. Mae Is-adran Addysg Uwch yr Adran Addysg a Sgiliau yn defnyddio technegau a dogfennau rheoli safonol i gynllunio ar gyfer gweithredu'r Bil. Caiff adroddiadau cynnydd misol eu llunio fel rhan o'r gwaith arferol.

310. Caiff y rhain eu hategu gan y trefniadau goruchwylio presennol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n cyfarfod yn rheolaidd â gweithrediaeth CCAUC a chyda chynrychiolwyr o'r sector addysg uwch. Mae hefyd yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu'n rheolaidd â CCAUC ar sail 'ad hoc', sy'n gyfle arall i gael trafodaeth.

*Cyfnodau adolygu ffurfiol*

311. Bwriedir cynnal adolygiadau (tua) un, dwy a thair blynedd ar ôl gweithredu'r Bil. Bydd hyn yn gyfle i swyddogion ystyried effeithiolrwydd y fframwaith rheoleiddio a'i hynt yn erbyn y canlyniadau a geisir. Caiff yr adolygiadau hyn eu cynnal yn fuan ar ôl i CCAUC gyflwyno ei adroddiad(au) blynyddol, a fydd yn allweddol i'r broses adolygu.

312. Bydd dyletswydd ar CCAUC i adrodd yn flynyddol ar y canlynol:

- y modd y mae wedi arfer ei ddyletswydd mewn perthynas ag asesu ansawdd, gan gynnwys unrhyw gamau y mae wedi'u cymryd i ymdrin ag ansawdd annigonol;
- y modd y mae wedi arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â sicrwydd ariannol, gan gynnwys ei bwerau ymyrryd.

313. Bydd yr adroddiadau hyn, a'r trafodaethau cysylltiedig gyda CCAUC, yn fodd i farnu a yw'r Bil yn cael ei weithredu'n effeithiol.

314. Efallai y bydd angen data neu astudiaethau ychwanegol i lywio’r adolygiadau hyn os yw'r gwaith monitro misol yn nodi unrhyw faterion y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt. Er enghraifft, mae dadansoddiadau meintiol ar gael gan Gyllid Myfyrwyr Cymru ar ystod o amrywiadau demograffig ac ariannol perthnasol, neu gellir defnyddio'r pwerau yn y Bil i’w gwneud yn ofynnol i CCAUC ddarparu dadansoddiad ansoddol o effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd neu drefniadau ariannol.

315. Gellir cael gwybodaeth oddi wrth y sector addysg uwch hefyd (drwy Addysg Uwch Cymru er enghraifft) i lywio'r adolygiadau hyn ymhellach.

316. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau'n cyfarfod yn rheolaidd â Chyngor CCAUC a gallai'r adolygiadau hyn gael eu defnyddio i lywio'r trafodaethau hynny, os yn briodol.

317. Mae hyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer monitro'r broses o weithredu'r Bil yn ystod ei dair blynedd gyntaf. Caiff y Bil ei weithredu'n llawn dros amser wrth i is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud, ac wrth i ganllawiau gael eu dosbarthu i sefydliadau a hwythau'n ymateb, ac ati. Bydd cael tri chyfnod adolygu yn rhoi cyfle i'r fframwaith rheoleiddio newydd ennill ei blwyf a bydd yn golygu bod modd cynnal gwerthusiad cynhwysfawr a chael digon o rybudd o unrhyw faterion cynnar y mae angen mynd i'r afael â nhw.

318. Bydd adroddiadau blynyddol CCAUC yn nodwedd barhaol o'r fframwaith rheoleiddio, ac felly ni fyddant yn dod i ben ar ôl tair blynedd - gellir parhau i adolygu'r broses weithredu. Nod y dull a amlinellir yw sicrhau bod y gwaith adolygu'n cael ei wneud mewn modd systematig a phenodol yn ystod y blynyddoedd cyntaf.

***Adolygu canlyniadau***

319. Bydd y canlyniadau a geisir gan y fframwaith rheoleiddio - rheolaethau ar ffioedd dysgu, ehangu mynediad, sicrhau ansawdd a sicrwydd ariannol - yn cael eu hadolygu drwy ddefnyddio'r un fethodoleg a mewnbynnau â'r adolygiad o'r broses weithredu, gydag un ychwanegiad penodol. Gellir seilio’r asesiad o'r canlyniadau'n ymwneud â rheolaethau ar ffioedd dysgu ac ehangu mynediad ar wybodaeth a gynhyrchir fel rhan o rôl barhaus CCAUC o ran monitro cydymffurfiaeth sefydliadau â'u cynlluniau ffioedd.

# ATODIAD A

# COSTIO'R OPSIYNAU

***Y model costio***

320. Datblygwyd model i gostio'r opsynau sy'n cynnwys tair agwedd:

- rhestr o dros 80 o dasgau allweddol y mae angen eu cyflawni er mwyn gweithredu a darparu'r fframwaith rheoleiddio a nodwyd yn y Bil;
- dadansoddiad yn erbyn pob tasg o nifer y diwrnodau sy'n ofynnol i gwblhau'r dasg;
- y cyfraddau cyflog, gan gynnwys gorbenion ac argostau.

321. Yn ogystal, amcangyfrifwyd nifer fach o gostau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y model, a'u cynnwys yn y dadansoddiad.

322. Nodwyd y costau dros gyfnod o bum mlynedd er mwyn rhoi syniad o'r costau yn y dyfodol agos.

323. Er y gwnaed pob ymdrech i ddarparu amcangyfrif sy'n seiliedig ar fethodoleg gadarn a thryloyw, dylid cofio ei fod, o raid, yn rhagolwg o'r dyfodol. Er mwyn adlewyrchu hyn, mae'r holl gostau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf i leihau'r risg o nodi ffigurau anghywir yn y dadansoddiad.

*Tasgau*

324. Lluniwyd y rhestr o dasgau drwy gyfeirio at ddarpariaethau'r Bil ac mae'n darparu'r sylfaen ar gyfer amcangyfrif cyfanswm cost y Bil. Cafodd pob tasg amlwg ei chynnwys yn y dadansoddiad.

325. Mae'r rhestr tasgau'n cynnwys dau gategori eang: a) y tasgau *presennol* sydd eisoes yn cael eu gwneud ac y bydd yn parhau'n rhan o'r fframwaith rheoleiddio (ee cynllunio ffioedd); a b) y tasgau *ychwanegol* sy'n newydd ac a gyflwynwyd gan y Bil (ee canllawiau gan Weinidogion Cymru i CCAUC ar gymeradwyo cynlluniau ffioedd). Caiff y rhain eu rhannu ymhellach yn dasgau *rheolaidd* - a fydd yn rhan o'r gwaith arferol - a thasgau a fydd ond yn digwydd mewn sefyllfaoedd *eithriadol* - y sancsiynau a gyflwynir gan y Bil.

326. Er hwylustod, cyfeirir at y tasgau hyn fel 'tasgau rheoleiddio allweddol'. Er bod y rhestr hon yn adlewyrchu'n gywir darpariaethau'r Bil ac felly'r gwaith y bydd gofyn i

Lywodraeth Cymru, CCAUC a sefydliadau a reoleiddir ei wneud i weithredu'r fframwaith rheoleiddio ac, mewn achosion eithriadol, gorfodi a chydymffurfio â sancsiynau, nid yw'r model wedi'i gynllunio i gynnwys costau llawn y broses o reoleiddio sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

327. Felly, er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfeirio at y 'fframwaith rheoleiddio', mae hyn, at ddibenion costio, yn cyfeirio at yr holl dasgau ('tasgau rheoleiddio allweddol') y mae angen eu cyflawni i weithredu darpariaethau'r Bil yn barhaus.

*Staffio*

328. Nodir ar gyfer pob tasg nifer y diwrnodau sy'n ofynnol i'w chwblhau a chaiff y ffigurau eu rhannu yn ôl staff ar dair gradd - iau, canol ac uwch - a mewnbwn staff arbenigol (cyngor cyfreithiol).

329. Neilltuwyd tasgau i Lywodraeth Cymru, CCAUC neu sefydliadau a reoleiddir fel y bo'n briodol, sy'n golygu bod modd gweld pwy sy’n talu pa gostau. Amcangyfrifodd swyddogion Llywodraeth Cymru faich gwaith ei thasgau a gwnaeth CCAUC ddadansoddiad tebyg o'u tasgau nhw.

330. Fodd bynnag, defnyddiwyd dull ychydig yn wahanol ar gyfer y sefydliadau a reoleiddir, sydd wedi'i esbonio yn yr adran *Costau* isod.

*Cyfraddau cyflog*

331. Mae'r cyfraddau cyflog - sy'n cynnwys gorbenion ac argostau staff - wedi'u nodi ar wahân yn y model ar gyfer Llywodraeth Cymru, CCAUC a sefydliadau a reoleiddir. Mae'r rhain wedi'u rhannu ymhellach yn ôl graddau'r staff a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y baich gwaith. Defnyddiwyd cyfraddau safonedig ar gyfer ffigurau Llywodraeth Cymru a darparodd CCAUC eu cyfraddau hwythau. Eto, defnyddiwyd dull ychydig yn wahanol ar gyfer y sefydliadau a reoleiddir, sydd wedi'i esbonio isod.

*Costau*

332. Caiff y costau ar gyfer unrhyw dasg benodol eu hamcangyfrif drwy luosi'r band cyflog priodol gyda nifer y diwrnodau sy'n ofynnol i gwblhau'r dasg ar bob gradd. Cyfanswm cost y dasg yw cyfanswm y gost ar gyfer pob gradd.

*Sefydliadau a reoleiddir*

333. Defnyddiwyd dull gwahanol, sef dull dwy ran, i amcangyfrif cost y tasgau ar gyfer sefydliadau a reoleiddir. Amcangyfrifwyd mewnbwn y staff drwy gyfeirio at dasgau gweinyddol tebyg a neilltuwyd i Lywodraeth Cymru neu CCAUC a oedd eisoes wedi'u hamcangyfrif, ac wedyn eu gwirio gan swyddogion profiadol sy'n gyfarwydd â'r fframwaith rheoleiddio presennol.

334. Amcangyfrifwyd y cyfraddau cyflog drwy ddefnyddio'r cyfraddau a ddarparwyd gan CCAUC a'u cynyddu 10% i gyfrif am gyflogau a allai fod ychydig yn uwch yn y sefydliadau a’u gorbenion uwch. Mae cyfraddau CCAUC 35% yn uwch ar gyfartaledd na chyfraddau Llywodraeth Cymru, ac mae cyfraddau'r sefydliadau 48% yn uwch. Mae swyddogion o'r farn bod y costau cymharol hyn yn gywir ac yn sail gadarn ar gyfer costio.

335. Cafodd y costau a ddeilliodd o hyn (y cyfraddau wedi'u lluosi â nifer y diwrnodau) eu gwirio hefyd gan swyddogion sy'n ymwneud ag ariannu a rheoleiddio addysg uwch.

## ***Costau’r opsiynau***

*Costau'r Bil - opsiwn tri*

336. Mae'r model yn caniatáu i'r tasgau rheoleiddio allweddol a fydd yn deillio o’r Bil - opsiwn tri - gael eu costio.

*Opsiwn dau*

337. Mae opsiwn dau wedi'i gostio'n rhannol gan ddefnyddio'r model. Mae opsiwn dau yr un peth ag opsiwn tri (diwygio swyddogaethau CCAUC er mwyn sicrhau rheoleiddio effeithiol) ond bod ganddo nifer o gynigion polisi ychwanegol:

- cefnogi gwaith partneriaeth a chydweithredu drwy gyllido addysg uwch yn uniongyrchol mewn rhai amgylchiadau;
- rhoi sail statudol i wella ansawdd (yn hytrach nag asesu) darpariaeth addysg uwch;
- cryfhau llais dysgwyr mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt;
- ymestyn gweithdrefnau datrys anghydfod i gynnwys amrywiaeth ehangach o ddarparwyr.

338. Ni chafodd y cynigion polisi ychwanegol hyn eu diffinio'n fanwl ym Mhapur Gwyn y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) yn fwriadol (er mwyn sicrhau trafodaeth eang ar atebion polisi posibl) ac felly nid ydynt mor benodol. Amcangyfrifwyd y costau hyn drwy dybio beth fyddai cynnwys y polisi pe byddai'r cynigion dan sylw wedi'u cyflwyno a thrwy ystyried a chymharu tasgau tebyg o'r model costio manwl. Ac ni chostiwyd y cynnig i ehangu gweithdrefnau datrys anghydfod (gweler paragraffau 222 a 233). Mae costau diwygio swyddogaethau rheoleiddio CCAUC union yr un fath yn opsiynau dau a thri.

*Opsiwn un*

339. Costiwyd opsiwn un gan ddefnyddio'r model. Bydd nifer o dasgau rheoleiddio allweddol yn parhau o dan y Bil. Drwy amcangyfrif y cynnydd yn y costau cydymffurfio (rhagdybiwyd cyfradd o 25%) mae'n bosibl amcangyfrif costau'r tasgau na effeithir arnynt drwy addasu costau'r tasgau hynny yn y model.

***Sancsiynau***

340. Mae'r sancsiynau wedi'u modelu ar sail nifer o sefyllfaoedd. Mae'r costau yr eir iddynt wrth weithredu'r sancsiynau yn eithriadol - mae'n anodd rhagweld pa sancsiynau y bydd eu hangen a phryd, ac mewn sawl achos.

***Costau rheolaidd a chostau gweithredu***

341. Mae'r costau rheolaidd a'r costau gweithredu wedi'u gwahanu oddi wrth y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r sancsiynau amrywiol a gynigir gan y Bil. Y costau gweithredu yw cyfanswm cost yr holl dasgau newydd y mae gofyn eu cwblhau i roi'r fframwaith ar waith. Mewn nifer o achosion, bydd y costau hyn wedyn yn gostau rheolaidd (ond ddim yn gostau blynyddol bob tro) yn enwedig y costau sy'n gysylltiedig â'r cyfarwyddyd sy'n ofynnol i roi'r fframwaith ar waith ond sydd wedyn yn datblygu'n nodwedd barhaus o'r fframwaith newydd mewn blynyddoedd dilynol.

***Pwy fydd yn talu'r costau***

342. Mae'r manylion ynghylch pwy fydd yn talu'r costau - pa sefydliad - yn hawdd eu gweld gan fod y tasgau wedi'u neilltuo yn unol â hynny.

***Cyfanswm y costau a chostau ychwanegol***

343. Mae modelu costau yn rhoi sylfaen ar gyfer cymharu'r gwahaniaeth rhwng costau'r tri opsiwn. Mae’r model yn darparu ar gyfer dadansoddi cyfanswm cost y tri opsiwn ynghyd â chostau ychwanegol opsiynau dau a thri o'i gymharu ag opsiwn un.

344. Mae'r costau ychwanegol yn ddeublyg: a) cost unrhyw dasgau cwbl newydd a b) y gost ychwanegol yn sgil mwy o gydymffurfiaeth neu dasgau mwy cymhleth a fydd yn parhau yn y fframwaith rheoleiddio newydd.

345. Gellir nodi'r tasgau newydd yn hawdd. Mae'r gost ychwanegol o barhau â thasgau wedi'i fodelu drwy ragdybio cynnydd o 25% yn y costau hynny. Gwiriwyd y gwerth hwn gan swyddogion profiadol sy’n ymwneud ag ariannu a rheoleiddio addysg uwch. Mae'r ffigur hwn yn amrywio yn y dadansoddiad o sensitifrwydd.

### *Costau gweithredu nad ydynt wedi'u cynnwys yn y model*

346. Mae'r model yn darparu ar gyfer asesu'r gost o weithredu'r Bil. Ond nid yw canlyniadau'r model yn adlewyrchu'r holl gostau gweithredu. Nodwyd tair cost ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn llawn gan y model:

- costau datblygu sefydliadol a dylunio sy'n gysylltiedig â phwyslais cynyddol ar rôl rheoleiddio CCAUC (a lleihad cydredol yn y rôl ariannu);
- costau datblygu staff sy'n gysylltiedig â'r uchod;
- costau cymorth y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru eu talu.

347. Mae swyddogion wedi amcangyfrif y costau hyn a'u cynnwys fel cost ychwanegol yn opsiwn tri.

### *Gostyngiadau a chwyddiant*

348. Ni roddwyd gostyngiadau ar y costau hyn. Ni osodir pris ar fanteision, ac felly nid oes cyfrifiad i'w wneud o werth presennol net a byddai gostyngiadau ond yn lleihau maint y ffigurau yn y tablau heb gynnig eglurhad pellach.

349. Yn yr un modd, ni ddarperir ar gyfer chwyddiant (heblaw yn y dadansoddiad o sensitifrwydd). Er bod rhywfaint o chwyddiant yn debygol, rhagwelir cynnydd bach yn unig yn y costau (a'r cyflogau).

### *Dadansoddiad o sensitifrwydd*

350. Cynhaliwyd dadansoddiad o sensitifrwydd drwy amrywio'r cyfraddau cyflog (gan gynnwys gorbenion a chostau perthnasol) a nifer y diwrnodau sy'n ofynnol i gwblhau pob un o'r tasgau.

*Sensitifrwydd y cyfraddau cyflog*

351. Mae'r cyfraddau cyflog presennol wedi'u nodi'n bendant; ond nid felly cyfraddau'r dyfodol. Mae cymhwyso cynnydd mewn cyfraddau cyflog yn fodd i brofi sensitifrwydd y model i'r amrywiad hwn. Awgryma Adroddiad Chwyddiant Chwefror 2014 Banc Lloegr mai cynnydd bach a ragwelir mewn cyflogau.[28] Mae'r dadansoddiad ym mhennod 7 yn dangos effaith cynnydd blynyddol o 2% mewn cyfraddau cyflog (a'r gorbenion a chostau perthnasol cysylltiedig) ar gostau ychwanegol opsiwn tri.

[28] Inflation Report, tud.33, Banc Lloegr, Chwefror 2014

*Sensitifrwydd tasgau*

352. Cynhaliwyd dadansoddiad o sensitifrwydd ar gostau opsiwn tri drwy bennu ystod o ±10%, ±25% a ±50% ar gyfer nifer y diwrnodau sy'n ofynnol i gwblhau pob tasg. Caiff y canlyniadau eu cynnwys yn y dadansoddiad ym mhennod 7.

***Tasgau***

353. Nodir isod y prif dasgau a ddadansoddwyd gan ddefnyddio'r fethodoleg uchod. Mae gan nifer o'r tasgau hyn is-dasgau (sydd heb eu cynnwys yma). Mae'r penawdau yn y tabl yn cyfateb i'r penawdau a ddefnyddiwyd wrth gyflwyno'r costau ym mhennod 7.

| |
|---|
| **Cymeradwyo cynlluniau ffioedd a dynodi awtomatig** |
| RHEOLAIDD |
| Gweinidogion Cymru i roi canllawiau i CCAUC ar ddynodi cyrsiau a chymeradwyo cynlluniau ffioedd |
| CCAUC i ddarparu gwybodaeth i ymgeiswyr ynghylch y broses ddynodi a'r gofynion |
| CCAUC i ddarparu gwybodaeth i ymgeiswyr ynghylch y gofynion rheoleiddio |
| Sefydliadau i lunio cynlluniau ffioedd |
| CCAUC i dderbyn ac asesu cynlluniau ffioedd |
| SANCSIYNAU/CYDYMFFURFIAETH |
| Sefydliadau i allu gwneud cais i amrywio’r cynllun ffioedd |
| CCAUC i dynnu’n ôl cymeradwyaeth ar gyfer cynllun ffioedd os na fydd gan sefydliad statws elusennol mwyach |
| **Monitro a gwerthuso cynlluniau ffioedd** |
| RHEOLAIDD |
| Gweinidogion Cymru i roi canllawiau i CCAUC ar fonitro a gwerthuso |
| Rhaid i gyrff llywodraethu'r sefydliadau fonitro cydymffurfiaeth â'r cynllun a'r cynnydd o ran cyflawni'r amcanion |
| CCAUC i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau yn unigol ac ar lefel y sector a defnyddio'r rhain i lywio datblygiad canllawiau arfer da |

| |
|---|
| CCAUC i fonitro cynlluniau ffioedd a phenderfynu ary trefniadau monitro mwyaf effeithiol ar gyfer cynlluniau ffioedd |
| SANCSIYNAU/CYDYMFFURFIAETH |
| Gallai Gweinidogion Cymru ofyn bod CCAUC yn adolygu cynlluniau ffioedd yn ôl y gofyn |
| CCAUC i allu cyfarwyddo sefydliad i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun a gymeradwywyd a allai olygu gwario incwm o ffioedd ar weithgareddau i hyrwyddo cyfle cyfartal/addysg uwch |
| CCAUC i allu gwrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd os bydd sefydliad wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol y cynllun |
| CCAUC i dynnu'n ôl cymeradwyaeth ar gyfer cynllun ffioedd os yw sefydliad yn methu'n barhaus â chydymffurfio â gofynion ei gynllun ffioedd |
| **Rheolaethau ar ffïoedd dysgu** |
| SANCSIYNAU/CYDYMFFURFIAETH |
| CCAUC i allu rhoi canllawiau i sefydliadau ar y camau i'w cymryd i gydymffurfio â therfyn ffioedd |
| CCAUC i allu cyfarwyddo sefydliad i gymryd camau i gydymffurfio â therfyn ffioedd priodol a/neu ad-dalu ffioedd a godwyd a oedd uwchlaw'r terfyn. |
| CCAUC i gyhoeddi asesiad o unrhyw sefydliad nad yw, ym marn y Cyngor, wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn ei gynllun ffïoedd |
| CCAUC i allu gwrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd os bydd sefydliad wedi methu â chydymffurfio â'r terfyn ffïoedd penodol yn ei gynllun |
| CCAUC i dynnu'n ôl cymeradwyaeth ar gyfer cynllun ffioedd os yw sefydliad yn methu'n barhaus â chydymffurfio â therfynau ffïoedd |
| **Sicrhau ansawdd** |
| RHEOLAIDD |
| CCAUC i asesu neu wneud darpariaeth ar gyfer asesu ansawdd |
| Gweinidogion Cymru i allu rhoi cyfarwyddyd i CCAUC ar arfer ei swyddogaethau asesu ansawdd a pharatoi ei adroddiad blynyddol |
| Dylai CCAUC baratoi ac ymgynghori ar ddatganiad ar sut y bydd yn arfer ei swyddogaethau newydd, a'i gyhoeddi |
| CCAUC i roi canllawiau i sefydliadau a reoleiddir ar asesu ansawdd |
| CCAUC i sefydlu a chynnal pwyllgor i ddarparu cyngor ar ei ddyletswydd asesu ansawdd gan gynnwys unrhyw swyddogaethau a gyflwynir iddo gan Weinidogion Cymru |
| CCAUC i gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar y modd y mae wedi arfer ei ddyletswydd mewn perthynas ag asesu ansawdd |

| |
|---|
| Mae'n rheidrwydd ar sefydliadau i gydymffurfio â'r trefniadau asesu ansawdd |
| SANCSIYNAU/CYDYMFFURFIAETH |
| CCAUC i roi cyfarwyddyd i sefydliad a reoleiddir a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ganiatáu mynediad i'w safle, eu cofnodion a'u dogfennau |
| Gall CCAUC gyfarwyddo sefydliadau a reoleiddir i gymryd camau neu beidio â chymryd camau i gywiro gwendidau ansawdd |
| CCAUC i allu cyfarwyddo sefydliad i ddatblygu a rhoi ar waith gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â methiant/gwendid o ran ansawdd |
| Gall CCAUC gymryd camau ychwanegol os yw sefydliad yn methu â bodloni'r gofynion ansawdd |
| Dylai CCAUC allu tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth o gynllun ffioedd sefydliad a reoleiddir |
| **Sicrwydd ariannol** |
| RHEOLAIDD |
| Gweinidogion Cymru i allu dosbarthu canllawiau'n ymwneud â pharatoi'r Cod Ariannol |
| CCAUC i baratoi a chyhoeddi Cod Ariannol |
| CCAUC i allu comisiynu astudiaethau effeithlonrwydd yn ymwneud â'r Cod |
| CCAUC i fonitro'r trefniadau ariannol sydd yn eu lle mewn sefydliadau a reoleiddir |
| Dylai fod yn ofynnol i CCAUC baratoi ac ymgynghori ar ddatganiad o bolisi'r Cyngor ar arfer ei bwerau ymyrryd arfaethedig, a'i gyhoeddi |
| Mae'n ddyletswydd ar sefydliadau i gydymffurfio â threfniadau sicrhau ansawdd CCAUC a darparu cymorth, mynediad a gwybodaeth |
| Dylai fod yn ofynnol i CCAUC ddarparu adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru yn amlinellu sut y mae wedi arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â sicrwydd ariannol |
| SANCSIYNAU/CYDYMFFURFIAETH |
| CCAUC i ymyrryd os yw darparwr a reoleiddir yn methu â chydymffurfio (neu'n debygol o fethu â chydymffurfio) â gofynion y Cod |
| CCAUC i allu cefnogi sefydliad |
| CCAUC i allu tynnu'n ôl cymeradwyaeth ar gyfer cynllun ffioedd os yw'r methiant i gydymffurfio â'r Cod yn ddigon difrifol |
| **Diffiniad o sefydliad** |

| |
|---|
| Gweinidogion Cymru i ddiwygio Gorchmynion Cyrff Cydnabyddedig a Rhestredig yn rheolaidd |
| **Gwrthod cynllun ffioedd/tynnu'n ôl cymeradwyaeth i gynllun ffioedd** |
| CCAUC i dynnu'n ôl cymeradwyaeth ar gyfer cynllun ffioedd |
| CCAUC i allu gwrthod cymeradwyo cynllun ffïoedd newydd |
| Pan fydd cynllun ffioedd yn cael ei wrthod, bydd angen mesurau pontio er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn parhau'n gymwys i gael cymorth |
| **Prosesau cydymffurfio** |
| **Proses gydymffurfio I** |
| Mae'n ofynnol i CCAUC roi hysbysiad rhybuddio |
| Dylai sefydliadau a allai dderbyn rhybudd o'r fath gael gwneud sylwadau yn erbyn y cyfarwyddyd |
| Bydd yn ofynnol i CCAUC roi sylw i unrhyw sylwadau a ddaw i law gan y darparwr a reoleiddir |
| Bydd CCAUC yn gallu rhoi hysbysiad o gyfarwyddyd |
| Dylai'r sefydliad allu gofyn am adolygiad gan berson neu banel annibynnol |
| Bydd yn ofynnol i CCAUC ailystyried ei benderfyniad gan roi sylw i unrhyw argymhelliad |
| Dylai fod yn ofynnol i sefydliadau gydymffurfio â'r cyfarwyddyd |
| CCAUC i ddiddymu cyfarwyddyd pan fydd wedi'i ddilyn |
| **Proses gydymffurfio II** |
| CCAUC i allu gorfodi cydymffurfiaeth â chyfarwyddyd o'r fath drwy waharddeb llys |

**Atodiad B**

# BIL ADDYSG UWCH (CYMRU)

---

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae’r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Bil Addysg Uwch (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 19 Mai 2014.

2. Fe'u lluniwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil ac i helpu'r drafodaeth arno drwy roi gwybodaeth amdano. Nid ydynt yn rhan o'r Bil ac nid ydynt wedi eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Os yw'n ymddangos nad oes angen rhoi unrhyw esboniad neu sylw ar adran unigol o'r Bil, nis rhoddir.

### CEFNDIR

4. Yn 2011, daethpwyd â darpariaethau yn Rhan 3 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 i rym o ran Cymru gan Weinidogion Cymru. Mae'r Rhan honno yn galluogi Gweinidogion Cymru, wrth wneud grantiau i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), i osod amod yn nodi bod CCAUC yn ei dro, wrth ddarparu cymorth ariannol i sefydliad yng Nghymru, i osod amod yn ymwneud â'r ffioedd a godir gan y sefydliad. Mae'r trefniadau ffioedd hyn yn gymwys mewn perthynas â chyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012.

5. Ar gyfer sefydliad nad oes ganddo gynllun a gymeradwywyd (sef cynllun a gymeradwywyd gan CCAUC), yr amod a osodir gan CCAUC yw nad yw'r ffioedd a godir i fynd uwchlaw swm sylfaenol a bennir mewn rheoliadau. Ar gyfer sefydliad sydd â chynllun a gymeradwywyd, yr amod yw nad yw'r ffioedd a godir i fynd uwchlaw'r symiau a bennir yn y cynllun a bod y sefydliad i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun a

gymeradwywyd o ran hybu cyfle cyfartal mewn cysylltiad â mynediad i addysg uwch a hybu addysg uwch. Nid yw'r ffioedd a nodir yn y cynllun i fynd uwchlaw'r swm uwch a bennir mewn rheoliadau.

6. Ar y cyd â'r trefniadau newydd hynny ar gyfer ffioedd, cyflwynwyd newidiadau gan Weinidogion Cymru i'r cymorth ffioedd dysgu sydd ar gael oddi wrth Weinidogion Cymru i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau addysg uwch. Mae cyllid a oedd yn cael ei ddarparu i CCAUC gan Weinidogion Cymru yn y gorffennol ac yn cael ei ddyrannu gan CCAUC i sefydliadau yng Nghymru o dan Ran 2 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Rhan 3 o Ddeddf Addysg 2005 wedi ei ailgyfeirio tuag at y cymorth sydd ar gael oddi wrth Weinidogion Cymru i fyfyrwyr.

7. Mae ailgyfeirio cyllid yn golygu bod y swm o gymorth ariannol a ddarperir gan CCAUC i sefydliadau yng Nghymru wedi lleihau. O ganlyniad, nid yw'r fframwaith rheoleiddiol presennol, sy'n cynnwys y trefniadau ffioedd a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Uwch 2004, swyddogaethau CCAUC o ran asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan sefydliadau (o dan Ran 2 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992) a'r memorandwm ariannol blynyddol rhwng CCAUC a sefydliadau yng Nghymru, bellach yn gweithredu yn yr un modd a arferai weithredu. Yn benodol, gan fod CCAUC yn darparu swm llai o gymorth ariannol i sefydliadau yng Nghymru, mae llai o gymorth ariannol y gall CCAUC osod amodau mewn cysylltiad ag ef at ddibenion y trefniadau ffioedd a'r drefn asesu ansawdd bresennol a'r memorandwm ariannol blynyddol.

8. Bydd y Bil yn sefydlu fframwaith rheoleiddiol newydd ar gyfer sefydliadau addysg uwch a darparwyr addysg uwch eraill yng Nghymru sydd â chynllun ffioedd a mynediad mewn grym, a gymeradwywyd gan CCAUC (sefydliadau rheoleiddiedig). Ni fydd y fframwaith rheoleiddiol newydd yn dibynnu ar CCAUC yn darparu cymorth ariannol i'r sefydliadau a'r darparwyr hynny o dan Ran 2 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 neu Ran 3 o Ddeddf Addysg 2005.

9. Bydd sefydliadau rheoleiddiedig yn gallu gosod eu ffioedd eu hunain, hyd at uchafswm a bennir mewn rheoliadau. Bydd y Bil yn darparu i CCAUC orfodi cydymffurfedd â'r ffioedd hynny. Bydd y Bil hefyd yn darparu i CCAUC asesu ansawdd yr addysg a ddarperir yng Nghymru gan ac ar ran sefydliadau rheoleiddiedig. Bydd y Bil yn darparu i God rheolaeth ariannol fod yn gymwys i'r sefydliadau hynny. Y bwriad yw bod cyrsiau addysg uwch a gynigir gan sefydliadau rheoleiddiedig yn cael eu dynodi at ddibenion cymorth ffioedd

dysgu a chymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys gan Weinidogion Cymru (yn benodol, wedi eu dynodi gan reoliadau cymorth i fyfyrwyr a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998).

10. Cyhoeddwyd Papur Gwyn yn nodi cynigion polisi cychwynnol Llywodraeth Cymru ar 2 Gorffennaf 2012 a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r Papur Gwyn ym mis Mawrth 2013. Cyhoeddwyd ymgynghoriad technegol yn dilyn hynny ym mis Mai 2013. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad technegol ym mis Ebrill 2014.

**CRYNODEB O'R BIL**

11. Mae wyth Rhan i'r Bil sy'n cynnwys 57 o adrannau ac un Atodlen.

- Bydd yn caniatáu i sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac sy'n elusen wneud cais i CCAUC am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad. Mae'r Bil yn ymdrin â chynnwys cynllun ffioedd a mynediad gan gynnwys terfyn ffioedd ar gyfer cyrsiau sydd i'w rhagnodi mewn rheoliadau.
- Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC fonitro cydymffurfedd sefydliadau â'u cynlluniau ffioedd a mynediad a monitro effeithiolrwydd y cynlluniau. Bydd y Bil hefyd yn rhoi swyddogaethau i CCAUC y caiff eu harfer pan fo wedi ei fodloni bod sefydliad rheoleiddiedig wedi methu â chydymffurfio â therfyn ffioedd yn ei gynllun ffioedd a mynediad.
- Bydd yn rhoi swyddogaethau i CCAUC sy'n ymwneud ag asesu ansawdd yr addysg a ddarperir yng Nghymru gan neu ar ran sefydliad rheoleiddiedig ac mewn perthynas â'r camau y caiff CCAUC eu cymryd os yw wedi ei fodloni bod ansawdd yr addysg yn annigonol, neu'n debygol o ddod yn annigonol.
- Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC lunio a chyhoeddi Cod rheolaeth ariannol a fydd yn gymwys i sefydliadau rheoleiddiedig. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC fonitro, neu wneud trefniadau ar gyfer monitro, cydymffurfedd sefydliadau â gofynion y Cod. Bydd y Bil hefyd yn rhoi swyddogaethau i CCAUC y caiff eu harfer pan fo wedi ei fodloni bod sefydliad rheoleiddiedig wedi methu, neu'n debygol o fethu, â chydymffurfio â gofyniad yn y Cod.
- Bydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau pan gaiff CCAUC wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd ar gyfer sefydliad a'r amgylchiadau pan fo rhaid i CCAUC, neu pan gaiff CCAUC, dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad.

- Bydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer y gweithdrefnau i'w dilyn gan CCAUC mewn perthynas â'r camau y caniateir iddo eu cymryd mewn cysylltiad â sefydliadau rheoleiddiedig, gan gynnwys rhoi hysbysiadau rhybuddio a gallu sefydliadau i wneud cais am adolygiadau.
- Bydd yn rhoi swyddogaethau i CCAUC mewn perthynas â darparu adroddiadau i Weinidogion Cymru a darparu gwybodaeth a chyngor gan CCAUC.
- Bydd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddfau eraill, gan gynnwys Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg Uwch 2004.

**SYLWEBAETH AR ADRANNAU O'R BIL**

**Rhan 1 – Cyflwyniad**

**Adran 1 - Trosolwg o'r Bil**

12. Mae'r adran hon yn disgrifio cynnwys y Bil.

**Rhan 2 – Cynlluniau Ffioedd a Mynediad**

**Adran 2 – Cais gan sefydliad am gymeradwyaeth CCAUC i gynllun ffioedd a mynediad**

13. Mae'r adran hon yn caniatáu i gorff llywodraethu sefydliad o fath penodol wneud cais i CCAUC am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad. Mae angen i sefydliad fod yn sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac sy'n elusen.

14. Mae sefydliad yn sefydliad "yng Nghymru" os cynhelir ei weithgareddau yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru. At y diben hwn, mae'r Brifysgol Agored yn sefydliad "yng Nghymru" (gweler adran 54(3)).

15. Mae is-adran 2(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch gwneud ceisiadau o dan yr adran hon. Gallai rheoliadau o'r fath ei gwneud yn ofynnol i sefydliad ddarparu mathau penodol o wybodaeth ategol.

**Adran 3 – Dynodi darparwyr addysg uwch eraill**

16. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi darparwr elusennol addysg uwch yng Nghymru yn sefydliad, na fyddai fel arall yn cael ei ystyried yn sefydliad, at ddibenion y Bil ac unrhyw reoliadau a wneir oddi tano. Gwneir dynodiad mewn perthynas â chais gan y darparwr o dan sylw. Gallai'r pŵer hwn gael ei arfer i ddynodi darparwr nad yw'n gallu dyfarnu

graddau ond sy'n darparu cyrsiau addysg uwch eraill ar lefel is ar y fframwaith credydau a chymwysterau. Efallai nad yw darparwr o'r fath yn ei ystyried ei hun yn “sefydliad” at ddibenion adran 2 ond serch hynny, efallai y bydd yn dymuno i’r cyrsiau hynny gael eu dynodi gan reoliadau cymorth i fyfyrwyr (at ddibenion cymorth i fyfyrwyr gan Weinidogion Cymru) a gallu gwneud cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad o dan yr adran honno.

17. O dan adran 3(4), mae Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud rheoliadau ynghylch gwneud ceisiadau gan ddarparwyr o'r fath, tynnu dynodiad yn ôl ac effaith tynnu dynodiad o’r fath yn ôl yn y fath fodd. Gallai rheoliadau, er enghraifft, wneud darpariaeth ynghylch y math o wybodaeth sydd i ategu cais am ddynodiad. Gallai rheoliadau hefyd ddarparu, pan fo dynodiad darparwr wedi ei dynnu'n ôl, fod y darparwr i barhau i gael ei drin fel sefydliad am gyfnod cyfyngedig ac mewn perthynas ag elfennau penodol o'r fframwaith rheoleiddiol newydd.

**Adran 4 - Y cyfnod y mae cynllun yn ymwneud ag ef**

18. Mae'r adran hon yn galluogi rheoliadau i osod y cyfnod hwyaf y caiff cynllun ffioedd a mynediad ymwneud ag ef. Rhaid i gynlluniau bennu'r cyfnod y maent i gael effaith mewn cysylltiad ag ef. Ar hyn o bryd, mae rheoliadau a wneir o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 yn darparu mai'r cyfnod hwyaf y caiff cynllun fod mewn grym ynddo yw dwy flynedd. Y bwriad yw y bydd y cyfnod hwyaf y mae cynllun ffioedd a mynediad yn ymwneud ag ef yn hwy na dwy flynedd. Mae cyfyngu ar y cyfnod y mae cynllun yn ymwneud ag ef yn golygu y bydd angen i sefydliadau ddatblygu cynlluniau newydd dros gyfnod o amser os ydynt yn dymuno i’w cyrsiau barhau i gael eu dynodi gan reoliadau cymorth i fyfyrwyr. Wrth ddatblygu cynlluniau newydd, bydd rhaid i gyrff llywodraethu ystyried unrhyw wybodaeth am arfer da a chyngor a roddir gan CCAUC o dan adran 51.

**Adran 5 - Terfyn ffioedd**

19. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun ffioedd a mynediad bennu terfyn ffioedd, neu ddarparu ar gyfer penderfynu ar derfyn ffioedd, mewn perthynas â phob “cwrs cymhwysol” ac mewn cysylltiad â phob blwyddyn academaidd y cwrs sy'n dechrau yn ystod y cyfnod y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef.

20. Mae “cwrs cymhwysol” yn gwrs a ddarperir yn gyfan gwbl neu’n bennaf yng Nghymru ac sydd wedi ei ddisgrifio mewn rheoliadau. Mae adran 5(2)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o'r fath ac mae adran 5(7) yn cyfyngu ar allu Gweinidogion Cymru i wahaniaethu rhwng dosbarthiadau

penodol o gwrs wrth ragnodi disgrifiadau o "gwrs cymhwysol". At y dibenion hyn, y bwriad yw mai'r cyrsiau sydd i'w rhagnodi yn "gyrsiau cymhwysol" fydd y cyrsiau addysg uwch hynny a ddynodir ar hyn o bryd at ddibenion cymorth i fyfyrwyr gan reoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (gan gynnwys cyrsiau gradd gyntaf a chyrsiau ar gyfer y Diploma Addysg Uwch, y Diploma Cenedlaethol Uwch, y Dystysgrif Genedlaethol Uwch a'r Dystysgrif Addysg Uwch). Yr unig gyrsiau ôl-radd sydd i fod â'r gallu i fod yn gyrsiau cymhwysol yw cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon (adran 5(6)).

21. Wrth ddarparu ar gyfer penderfynu ar derfyn ffioedd, yn hytrach na phennu terfyn ffioedd, gallai cynllun ffioedd a mynediad, er enghraifft, bennu bod cynnydd chwyddiannol i fod yn gymwys i ffioedd cwrs o un flwyddyn academaidd i un arall. Fel arall, gallai cynllun ddarparu ar gyfer terfyn ffioedd drwy gyfeirio at yr uchafswm ar gyfer ffioedd a ragnodir mewn rheoliadau.

22. At y dibenion hyn, "ffioedd" yw ffioedd cwrs, gan gynnwys ffioedd mynediad, cofrestru a dysgu (gweler adran 54(1)). Y ffioedd sydd i'w hystyried at ddibenion y terfyn ffioedd yw ffioedd sy'n daladwy i sefydliad gan "berson cymhwysol", sef person (ac eithrio myfyrwyr rhyngwladol) a ddisgrifir mewn rheoliadau. Mae adran 5(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi dosbarthiadau o berson at y dibenion hyn. Y bwriad yw y bydd "personau cymhwysol" yn cynnwys personau yn y categorïau a ganlyn sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig: personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig, ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd a gwladolion yr Undeb Ewropeaidd.

23. Ni chaniateir i derfyn ffioedd mewn cynllun fynd uwchlaw'r uchafswm sydd i'w ragnodi mewn rheoliadau mewn unrhyw achos.

24. Mae'r adran 5(9) yn galluogi rheoliadau i ddarparu ar gyfer yr amgylchiadau pan fo ffioedd sy'n daladwy i berson yn hytrach na sefydliad rheoleiddiedig (megis ffioedd sy'n daladwy i berson sydd wedi ei freinio ac sy'n darparu cwrs ar ran sefydliad rheoleiddiedig o dan drefniadau breinio) gan berson cymhwysol i'w trin at ddibenion y terfyn ffioedd fel pe baent yn daladwy i'r sefydliad rheoleiddiedig.

**Adran 6 – Hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch**

25. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun ffioedd a mynediad gynnwys unrhyw ddarpariaethau sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal mewn

cysylltiad â mynediad i addysg uwch neu hybu addysg uwch a ragnodir drwy reoliadau.

26. Caiff rheoliadau, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad ymrwymo, drwy ei gynllun ffioedd a mynediad, i gymryd camau i ddenu ceisiadau gan ddarpar fyfyrwyr sydd, ar ddyddiad cymeradwyo'r cynllun, yn aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Gallai hyn gynnwys mesurau allgymorth megis darparu ysgolion haf neu ymwneud ag ysgolion neu golegau, gyda'r bwriad o ehangu cyfranogiad drwy ddenu myfyrwyr na fyddent fel arall yn ystyried addysg uwch o gwbl o bosibl neu na fyddent yn ystyried gwneud cais i sefydliadau penodol o bosibl.

27. Caiff rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sefydliadau ymrwymo, drwy eu cynlluniau ffioedd a mynediad, i gymryd camau i gadw myfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Gallai'r mesurau hyn gynnwys cymorth academaidd a chymorth bugeiliol megis cymorth sgiliau astudio neu raglenni coetsio a mentora sydd wedi eu teilwra i ddiwallu anghenion penodol grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch.

**Adran 7 – Cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad**

28. Pan fo corff llywodraethu sefydliad yn gwneud cais i CCAUC o dan adran 2 am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad, CCAUC sydd i benderfynu pa un ai i gymeradwyo'r cynllun neu ei wrthod. Ni chaiff CCAUC gymeradwyo cynllun oni bai ei fod wedi ei fodloni bod y sefydliad sy'n gwneud cais yn sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac sy'n elusen. Bydd CCAUC naill ai'n cymeradwyo neu'n gwrthod cynllun drwy roi hysbysiad i gorff llywodraethu'r sefydliad o dan sylw. Mae adrannau 40 i 43 o'r Bil yn darparu ar gyfer y weithdrefn sydd i fod yn gymwys mewn cysylltiad â hysbysiad i wrthod cynllun.

29. Mae adran 7(3) yn galluogi rheoliadau i ddarparu ar gyfer materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu pa un ai i gymeradwyo neu i wrthod cynllun o dan yr adran hon. Gallai rheoliadau, er enghraifft, wneud darpariaeth i CCAUC ystyried ansawdd yr addysg a ddarperir gan y sefydliad sy'n gwneud cais a'r ffordd y mae'n trefnu ac yn rheoli ei faterion ariannol.

30. Mae adran 7(4) yn diffinio'r cyfnod pan fo cynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd mewn grym. Mae'r cysyniad hwn bod cynllun “mewn grym”

yn berthnasol i'r cyfeiriadau yn y Bil at ”sefydliad rheoleiddiedig”, sef bod “sefydliad rheoleiddiedig” yn sefydliad sydd â chynllun sydd mewn grym ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, fod y ddyletswydd o dan adran 16 (dyletswydd i gydweithredu mewn perthynas â swyddogaethau monitro a gwerthuso CCAUC) ond yn gymwys cyhyd â bod cynllun mewn grym mewn gwirionedd.

**Adran 8 – Cyhoeddi cynllun a gymeradwywyd**

31. Mae'r adran hon yn galluogi rheoliadau i’w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig gyhoeddi ei gynllun a gymeradwywyd. Y bwriad yw y bydd rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu gyhoeddi'r cynllun a gymeradwywyd mewn modd sy’n golygu ei fod ar gael yn gyfleus i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru gyda'r sefydliad ac i ddarpar fyfyrwyr.

**Adran 9 – Amrywio cynllun a gymeradwywyd**

32. Caiff rheoliadau ganiatáu i gynllun a gymeradwywyd gan CCAUC o dan adran 7 gael ei amrywio. Caiff corff llywodraethu sefydliad, er enghraifft, ddymuno cynnwys darpariaethau ychwanegol yn ei gynllun sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw reoliadau a wneir o dan yr adran hon ddarparu mai dim ond os caiff amrywiad ei gymeradwyo gan CCAUC y mae i gymryd effaith. Gallai rheoliadau, er enghraifft, nodi sut y mae ceisiadau ar gyfer amrywiadau i gael eu cyflwyno a gallai ddarparu bod gweithdrefn hysbysiad rhybuddio i fod yn gymwys i benderfyniad ynghylch yr amrywiad i gynllun.

**Adran 10 – Terfyn ar ffioedd myfyrwyr**

33. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad, y mae cynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud ag ef wedi ei gymeradwyo, sicrhau nad yw “ffioedd cwrs rheoleiddiedig” yn mynd uwchlaw'r “terfyn ffioedd cymwys”, pa un a yw'r cynllun ffioedd mewn grym o hyd ai peidio.

34. Mae “ffioedd cwrs rheoleiddiedig” wedi ei diffinio yn adran 10(3). Maent yn ffioedd sy'n daladwy i'r sefydliad gan berson cymhwysol mewn cysylltiad â'r person hwnnw yn ymgymryd â chwrs cymhwysol mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yn y cwrs hwnnw sy'n dechrau yn ystod y cyfnod y mae cynllun ffioedd y sefydliad a gymeradwywyd yn fwyaf diweddar yn ymwneud ag ef (sef y cyfnod a bennir o dan adran 4). Y “terfyn ffioedd cymwys” yw'r terfyn ffioedd ar gyfer y cwrs a'r flwyddyn o dan sylw a nodir

yng nghynllun ffioedd a mynediad y sefydliad a gymeradwywyd yn fwyaf diweddar.

35. Bydd yn ofynnol i sefydliad sydd â chynllun mewn grym sicrhau bod y ffioedd ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau o fewn y cyfnod y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef yn cydymffurfio â'r terfyn ffioedd cymwys. Pan fo cynllun sefydliad wedi dod i ben (pan fo'r cyfnod y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef wedi dod i ben), neu pan fo CCAUC wedi tynnu ei gymeradwyaeth i gynllun yn ôl o dan naill ai adran 37 (dyletswydd CCAUC i dynnu cymeradwyaeth yn ôl) neu adran 38 (pŵer CCAUC i dynnu cymeradwyaeth yn ôl), bydd yn ofynnol i gorff llywodraethu'r sefydliad sicrhau bod ffioedd ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau o fewn y cyfnod y mae'r cynllun ffioedd yn ymwneud ag ef yn parhau i gydymffurfio â'r terfyn ffioedd cymwys. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os bydd CCAUC yn tynnu ei gymeradwyaeth i gynllun sefydliad yn ôl, na fydd myfyrwyr cymhwysol yn y sefydliad yn colli'r diogelwch o ran ffioedd a fyddai wedi bod ynghlwm wrth y terfyn ffioedd yn ystod y cyfnod yr oedd y cynllun a dynnwyd yn ôl yn ymwneud ag ef.

**Adran 11 – Cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu**

36. Mae'r adran hon yn galluogi CCAUC i roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu sefydliad pan fo wedi ei fodloni bod y corff llywodraethu wedi methu â sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys o dan adran 10(1). Caiff CCAUC gyfarwyddo'r corff llywodraethu i gydymffurfio ag adran 10(1) a/neu ad-dalu ffioedd a dalwyd i'r sefydliad i'r graddau y maent yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys. Felly, os yw ffioedd sy'n uwch na'r terfyn ffioedd wedi eu codi ond heb eu talu eto, er enghraifft, gellid rhoi cyfarwyddyd i gydymffurfio; ond os yw'r ffioedd mewn gwirionedd wedi eu talu uwchlaw'r terfyn, gellid ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu ad-dalu'r swm uwchlaw'r terfyn a chydymffurfio â'r terfyn yn y dyfodol.

37. Caiff cyfarwyddyd a roddir o dan adran 11 bennu'r camau sydd i'w cymryd (neu nad ydynt i'w cymryd) gan y corff llywodraethu at y diben o sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys. Caiff cyfarwyddyd hefyd bennu'r modd y mae ffioedd uwchlaw'r terfyn i gael eu had-dalu (neu y gallant gael eu had-dalu). Er enghraifft, gallai ffioedd uwchlaw'r terfyn gael eu had-dalu drwy leihau'r ffioedd sy'n daladwy gan fyfyriwr cymhwysol mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sydd i ddod yn ei gwrs. Mae adran 11(4) yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC, drwy roi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, roi copi o'r cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru a'i gyhoeddi. Mae adran 11(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i

wneud rheoliadau ynghylch sut a phryd y mae CCAUC i gyhoeddi cyfarwyddyd a roddir o dan yr adran hon. Gallai rheoliadau, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i CCAUC gyhoeddi'r cyfarwyddyd ar ei wefan.

**Adran 12 – Darpariaethau atodol ynghylch cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu**

38. Mae'r adran hon yn caniatáu i CCAUC ddyroddi canllawiau ynghylch y camau sydd i'w cymryd gan gorff llywodraethu sefydliad wrth gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan adran 11. Gallai canllawiau ddarparu ar gyfer yr amgylchiadau pan fo ffioedd uwchlaw'r terfyn i'w had-dalu i fyfyriwr yn uniongyrchol a'r amgylchiadau pan fo ffioedd uwchlaw'r terfyn i'w had-dalu drwy'r cwmni benthyciadau i fyfyrwyr. Mae adran 12(3) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu, wrth gydymffurfio â chyfarwyddyd o'r fath, ystyried unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan CCAUC o dan yr adran hon. Cyn dyroddi'r canllawiau, rhaid i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad rheoleiddiedig a chaiff ymgynghori â chyrff llywodraethu sefydliadau eraill yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac sy'n elusennau yn ôl yr un sy'n briodol ym marn CCAUC.

**Adran 13 – Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch methiant i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun**

39. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y camau sydd i'w cymryd gan CCAUC os yw wedi ei fodloni bod corff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun a gymeradwywyd. (O ran darpariaethau cyffredinol cynllun, gweler adran 6(7).)

40. Caiff rheoliadau o dan adran 13 wneud darpariaeth ynghylch yr hyn sy'n fethiant i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun a gymeradwywyd. Gallai rheoliadau, er enghraifft, ddarparu bod methiant gan gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig i gyflawni'r mesurau yn ei gynllun mewn cysylltiad â darpar fyfyrwyr a myfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn "fethiant i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun". Yn yr un modd, caiff rheoliadau ddarparu nad yw methiant i gyflawni amcan a nodir mewn cynllun yn "fethiant i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun".

41. Caiff rheoliadau o dan yr adran hon alluogi CCAUC i gyfarwyddo corff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig i gymryd camau i sicrhau cydymffurfedd â darpariaethau cyffredinol ei gynllun (gan gynnwys drwy gyfrwng gwariant). Gallai rheoliadau, er enghraifft, alluogi CCAUC i

gyfarwyddo corff llywodraethu i fynd i wariant y mae'r corff llywodraethu wedi ymrwymo i fynd iddo yn ei gynllun. Caiff rheoliadau hefyd wneud darpariaeth o ran y weithdrefn sy'n gymwys mewn cysylltiad â rhoi cyfarwyddyd o'r fath. Er enghraifft, gallai rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu cyn iddo roi cyfarwyddyd a gallai hefyd alluogi'r corff llywodraethu i wneud cais am adolygiad o'r cyfarwyddyd. Caiff rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynghylch methiant gan gorff llywodraethu i gydymffurfio â chyfarwyddyd. Er enghraifft, gallai rheoliadau ddarparu bod CCAUC yn gallu tynnu ei gymeradwyaeth i gynllun yn ôl pan fo wedi ei fodloni bod corff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig wedi methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

**Adran 14 – Dilysrwydd y contractau**

42. Mae'r berthynas gyfreithiol rhwng sefydliad a'i fyfyrwyr yn berthynas o dan gontract yn bennaf (er nad yw'r berthynas wedi ei diffinio gan gyfraith contract yn unig). Mae'r adran hon yn gymwys pan fo contract rhwng sefydliad a pherson cymhwysol mewn cysylltiad â'r person hwnnw yn ymgymryd â chwrs cymhwysol yn darparu ar gyfer talu ffioedd sydd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys gan y person. (O ran y terfyn ffioedd cymwys, gweler adran 10(5).)

43. Mae adran 14(2) yn darparu bod contract o'r fath i'w drin fel pe bai'n darparu ar gyfer talu ffioedd sy'n gyfatebol i'r terfyn ffioedd cymwys. Felly, pan fo myfyriwr yn gwrthod talu unrhyw ffioedd uwchlaw'r terfyn a bennir mewn contract, ni fydd y sefydliad yn gallu adennill y ffioedd uwchlaw'r terfyn. Ond bydd y contract yn parhau'n orfodadwy fel arall, yn nhermau dyletswydd y sefydliad i ddarparu addysg i'r myfyriwr, er bod y contract yn darparu ar gyfer talu ffioedd sy'n mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys (adran 14(3)).

**Adran 15 – Dyletswydd CCAUC i fonitro a gwerthuso cydymffurfedd ac effeithiolrwydd**

44. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC fonitro cydymffurfedd sefydliadau rheoleiddiedig ag adran 10(1) (y gofyniad i sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys). Mae hefyd yn ofynnol i CCAUC fonitro cydymffurfedd sefydliadau rheoleiddiedig â darpariaethau cyffredinol eu cynlluniau. (Gweler adran 6(7) i gael ystyr "darpariaethau cyffredinol".) Mae dyletswydd CCAUC i fonitro cydymffurfedd sefydliadau yn treiddio i'w swyddogaethau o dan adrannau 11, 35 a 37.

45. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC werthuso effeithiolrwydd pob cynllun a'r cynlluniau yn gyffredinol o ran hybu cyfle

cyfartal mewn cysylltiad â mynediad i addysg uwch a hybu addysg uwch. Mae'r swyddogaethau hyn yn treiddio i swyddogaeth CCAUC o roi gwybodaeth a chyngor am arfer da o dan adran 51.

**Adran 16 – Monitro a gwerthuso cydymffurfedd ac effeithiolrwydd: dyletswydd i gydweithredu**

46. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sefydliadau rheoleiddiedig gydweithredu â CCAUC at ddibenion swyddogaethau monitro a gwerthuso CCAUC o dan adran 15.

47. Mae'r ddyletswydd i gydweithredu yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sicrhau'r ddarpariaeth o wybodaeth, chymorth a mynediad i gyfleusterau sy'n ofynnol gan CCAUC o bosibl at ddibenion y swyddogaethau hynny. Mewn cymhariaeth, rhaid i gynlluniau o dan ddarpariaethau presennol Deddf Addysg Uwch 2004 ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad ddarparu i CCAUC unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol yn rhesymol gan CCAUC.

48. Caiff CCAUC roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu os yw CCAUC wedi ei fodloni bod y corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio â'i ddyletswydd i gydweithredu. Caiff y cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu gymryd, neu beidio â chymryd, camau i sicrhau'r ddarpariaeth o wybodaeth, cymorth neu fynediad igyfleusterau. Ni fydd y gweithdrefnau hysbysiad rhybuddio ac adolygu a nodir yn Rhan 6 o'r Bil yn gymwys i gyfarwyddyd o'r fath.

**Rhan 3 – Ansawdd yr Addysg**

**Adran 17 – Asesu ansawdd yr addysg**

49. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC asesu neu wneud trefniadau i asesu ansawdd yr addysg yng Nghymru a ddarperir gan ac ar ran sefydliadau rheoleiddiedig. (At y diben hwn, mae addysg yng Nghymru yn cynnwys addysg a ddarperir y tu allan i Gymru, os yw'r addysg yn rhan o gwrs a ddarperir yn bennaf yng Nghymru.)

50. Ar hyn o bryd, caiff CCAUC wneud trefniadau i gyrff eraill ymgymryd ag asesiadau o'r sefydliadau y mae'n eu cyllido ar faterion sy'n ymwneud ag ansawdd yr addysg. Mae hyn yn cynnwys trefniadau y mae CCAUC yn eu gwneud gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (ASA) ac Estyn (mewn cysylltiad â hyfforddiant i athrawon). Bydd yr adran hon yn

caniatáu i CCAUC wneud trefniadau tebyg gydag ASA, Estyn neu gyrff eraill i asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan ac ar ran sefydliadau rheoleiddiedig.

51. Mae'r adran hon hefyd yn diffinio “darparwr allanol” at ddiben y Bil. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, drwy gyfrwng rheoliadau, yr amgylchiadau pan fo person i'w drin, neu nad yw i'w drin, fel pe bai’n gyfrifol am ddarparu cwrs addysg ar ran sefydliad rheoleiddiedig. Mae hefyd yn darparu nad yw cwrs i'w ddosbarthu fel pe bai wedi ei ddarparu ar ran sefydliad rheoleiddiedig os y’i darperir o dan drefniadau a wnaed cyn i'r adran ddod i rym.

52. Mae “darparwr allanol” yn debygol o fod yn sefydliad neu’n ddarparwr arall sy'n cyflenwi'r cwrs cyfan, neu ran ohono, ar ran sefydliad rheoleiddiedig o dan drefniadau breinio.

53. Mae'n debygol y bydd rheoliadau yn darparu na fydd darlithwyr neu diwtoriaid unigol yn cael eu trin fel pe baent yn gyfrifol am ddarparu cwrs addysg ar ran sefydliad rheoleiddiedig.

54. Caiff canllawiau a ddyroddir neu a gymeradwyir gan CCAUC o dan adran 24 gynnwys meini prawf sydd i'w cymhwyso gan berson sy'n asesu ansawdd yr addysg.

**Adrannau 18 i 20 – Addysg o ansawdd annigonol**

55. Mae rheoliad 18 yn nodi ystyr ansawdd annigonol.

56. Caiff CCAUC ddyroddi neu gymeradwyo canllawiau ynghylch ffactorau y caniateir iddo eu hystyried wrth benderfynu a yw ansawdd yr addysg yn annigonol (gweler adran 24).

57. Mae adran 19 yn darparu i CCAUC roi cyfarwyddydau i'r corff llywodraethu pan geir achos o ansawdd annigonol.

58. Caiff cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu gymryd camau (neu beidio â chymryd camau) i wella ansawdd yr addysg neu gwrs, neu i atal ansawdd yr addysg neu gwrs rhag dod yn anaddas. Er enghraifft, gallai cyfarwyddyd gynnwys gofyniad:

- i wella agweddau ar weithdrefnau sicrhau ansawdd sefydliad, neu
- i fynd i'r afael â diffygion yn safonau academaidd graddau.

59. Gallai cyfarwyddyd hefyd ei gwneud yn ofynnol i welliannau gael eu gwneud i ansawdd yr addysg a ddarperir ar ran sefydliad rheoleiddiedig gan sefydliadau partner o dan drefniadau breinio.

60. Bydd y gweithdrefnau hysbysiad rhybuddio ac adolygu yn adrannau 40 i 43 yn gymwys i gyfarwyddydau o dan adran 19.

61. Mae adran 20 yn caniatáu i CCAUC, yn achos ansawdd annigonol, roi cyngor neu gymorth i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig neu gynnal neu drefnu adolygiad o sefydliad. Bydd hyn yn caniatáu i CCAUC ddarparu cymorth i sefydliadau rheoleiddiedig mewn ffordd debyg i'r cymorth y mae'n ei ddarparu i'r sefydliadau y mae'n eu cyllido ar hyn o bryd.

62. Mae'r cyngor a'r cymorth a roddir gan CCAUC i'w roi gyda golwg ar wella ansawdd yr addysg neu gwrs addysg; neu atal yr addysg neu gwrs addysg rhag dod yn annigonol.

63. Rhagwelir y gallai CCAUC ddefnyddio'r pŵer hwn i drefnu i dîm cymorth helpu sefydliad i wella ansawdd yr addysg; er enghraifft tîm sy'n cynnwys adolygwyr cymheiriaid neu arbenigwyr rheoli. Fel arall, gallai CCAUC drefnu adolygiad wedi ei dargedu o sefydliad penodol, er enghraifft i nodi a oes materion gweithredol ehangach yn cyfrannu at yr ansawdd annigonol.

**Adran 21 – Asesu ansawdd etc: dyletswydd i gydweithredu**

64. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sefydliadau rheoleiddiedig a darparwyr allanol (gweler adran 17 i gael y diffiniad o “darparwr allanol”) gydweithredu gyda phersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan adran 17 (asesu ansawdd yr addysg) ac adran 20 (cyngor, cymorth ac adolygiadau mewn achosion o ansawdd annigonol).

65. Mae'r ddyletswydd i gydweithredu yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sicrhau’r ddarpariaeth o wybodaeth, cymorth a mynediad i gyfleusterau sy’n ofynnol gan berson at ddibenion y swyddogaethau hynny.

66. Caiff CCAUC roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu os yw CCAUC wedi ei fodloni bod corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio a'i ddyletswydd i gydweithredu. Caiff y cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu gymryd, neu beidio â chymryd, camau i sicrhau'r ddarpariaeth o wybodaeth, cymorth neu fynediad i gyfleusterau. Nid yw cyfarwyddyd a roddir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau hysbysiad rhybuddio ac adolygu a nodir yn adrannau 40 i 43.

**Adran 22 – Asesu ansawdd etc: pwerau mynd i mewn ac arolygu**

67. Mae adran 22 yn darparu ar gyfer yr hawl i fynd i mewn ac arolygu at y diben o arfer swyddogaethau o dan adrannau 17 (asesu ansawdd yr addysg) neu 20(2) (adolygu materion sy'n ymwneud ag ansawdd yr addysg).

68. Caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan CCAUC fynd i mewn i fangre sefydliad rheoleiddiedig neu ddarparwr allanol a chaiff edrych ar ddogfennau y daw o hyd iddynt yn y fangre, eu copïo neu eu cymryd.

69. Ni chaniateir i bŵer mynd i mewn ac arolygu ond gael ei arfer ar ôl rhoi hysbysiad rhesymol i'r corff llywodraethu ac eithrio mewn achosion brys neu pan fyddai rhoi hysbysiad yn tanseilio'r diben o arfer y pŵer mynd i mewn neu arolygu. Gallai mynd i mewn heb hysbysiad fod yn briodol pan fo CCAUC yn ystyried bod dogfennau perthnasol yn debygol o gael eu symud o fangre'r sefydliad neu eu dinistrio os rhoddir hysbysiad.

70. Ni chaniateir i bŵer mynd i mewn ac arolygu ond gael ei arfer ar adegau rhesymol ac nid yw'n cynnwys pŵer i fynd i mewn i annedd (er enghraifft llety myfyrwyr neu staff) heb gytundeb y meddiannydd.

71. Cyn arfer pŵer o dan yr adran hon rhaid i berson ddangos copi o'i awdurdodiad oddi wrth CCAUC os yw'n ofynnol iddo wneud hynny.

**Adran 23 – Canllawiau ynghylch materion sy'n berthnasol i ansawdd**

72. Mae'r adran hon yn caniatáu i CCAUC ddyroddi neu gymeradwyo canllawiau ynghylch materion sy'n ymwneud â gwella neu gynnal ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau rheoleiddiedig. Ystyrir na fydd angen i CCAUC ddyroddi canllawiau bob amser ond mae'n bosibl y bydd yn dymuno dibynnu ar ganllawiau a ddyroddir gan gyrff sydd ag arbenigedd ym maes ansawdd addysg. Er enghraifft, byddai hyn yn caniatáu i CCAUC gymeradwyo canllawiau a ddyroddir gan yr ASA.

**Adran 24 – Canllawiau ynghylch meini prawf ar gyfer asesu ansawdd**

73. Mae'r adran hon yn caniatáu i CCAUC ddyroddi neu gymeradwyo canllawiau ar faterion penodol sy'n ymwneud ag asesu ansawdd. Fel yn adran 23, bydd yn caniatáu i CCAUC gymeradwyo canllawiau a ddyroddir gan gyrff eraill pan fo hynny'n briodol yn ei farn ef.

74. Gall y canllawiau ymwneud â meini prawf sydd i'w cymhwyso gan berson sy'n asesu ansawdd yr addysg o dan adran 17 a chaiff hefyd nodi materion y bydd CCAUC yn eu hystyried wrth benderfynu a yw ansawdd yr addysg, neu gwrs addysg, yn annigonol.

**Adran 25 – Pwyllgor i gynghori CCAUC ynghylch arfer swyddogaethau asesu ansawdd**

75. Mae adran 70(1)(b) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC, wrth arfer ei swyddogaethau presennol o dan y Ddeddf honno, sefydlu pwyllgor i gynghori ar arfer ei ddyletswydd asesu ansawdd.

76. Mae adran 25 yn ei gwneud y ofynnol i CCAUC sefydlu pwyllgor i gynghori ar arfer ei swyddogaethau asesu ansawdd o dan y Bil hwn.

77. Mae is-adran (3) yn nodi'r gofynion ar gyfer aelodaeth o’r pwyllgor hwnnw ac mae is-adran (4) yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr hyn y mae rhaid i CCAUC ei ystyried wrth benodi aelodau i'r pwyllgor hwnnw. Bydd y gofyniad ar gyfer aelodaeth o’r pwyllgor yn debyg i'r gofyniad ar gyfer y Pwyllgor Asesu Ansawdd a sefydlwyd gan CCAUC o dan adran 70(1)(b) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Ar y dyddiad y daw'r adran hon i rym bydd aelodau'r pwyllgor hwnnw yn dod yn aelodau o'r pwyllgor a sefydlir gan CCAUC o dan yr adran hon: gweler paragraff 31 o'r Atodlen i'r Bil (sy'n cynnwys darpariaethau canlyniadol a throsiannol).

78. Mae Atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (sy'n cynnwys pwerau atodol ar gyfer CCAUC) yn gymwys i'r pwyllgor a sefydlir gan yr adran hon yn yr un modd ag y mae'n gymwys i'r pwyllgorau a sefydlir gan CCAUC o dan baragraff 8 o'r Atodlen honno. Er enghraifft bydd yn caniatáu i CCAUC dalu lwfansau teithio a lwfansau eraill i aelodau'r pwyllgor nad ydynt yn aelodau o gyngor CCAUC.

**Adran 26 – Cymhwyso Rhan 3 pan fo sefydliad yn peidio â chael cynllun a gymeradwywyd**

79. Mae adran 26 yn darparu ar gyfer parhau â'r swyddogaethau asesu ansawdd yn Rhan 3 o'r Bil o dan amgylchiadau penodol pan fo cynllun ffioedd a mynediad sefydliad yn peidio â bod mewn grym (naill ai ar ddiwedd y cyfnod y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef neu o ganlyniad i CCAUC yn tynnu ei gymeradwyaeth i'r cynllun yn ôl).

80. Bydd dyletswydd asesu ansawdd CCAUC yn parhau cyhyd â bod sefydliad yn darparu cyrsiau y mae myfyrwyr yn gymwys i gael cymorth statudol i fyfyrwyr ar eu cyfer a ddarperir gan Weinidogion Cymru. Cynigir y bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i ddynodi cyrsiau at ddibenion cymorth i fyfyrwyr mewn cysylltiad â'r myfyrwyr hynny a ddechreuodd gwrs cyn i'r cynllun ffioedd a mynediad beidio â bod mewn grym.

81. Mae’r ddyletswydd barhaus ar CCAUC o dan yr adran hon i asesu ansawdd yr addysg yn ceisio cynnig diogelwch parhaus i fyfyrwyr a ddechreuodd eu cyrsiau ar adeg pan oedd gan sefydliad gynllun ffioedd a mynediad yn ei le.

## Rhan 4 – Materion Ariannol Sefydliadau Rheoleiddiedig

**Adran 27– Dyletswydd CCAUC i lunio a chyhoeddi Cod**

82. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC lunio Cod sy'n ymwneud â threfnu a rheoli materion ariannol sefydliadau rheoleiddiedig, ei gyhoeddi a’i adolygu’n gyson.

83. Mae is-adran (2) yn rhoi enghreifftiau o'r materion y caiff y Cod ymdrin â hwy. Gall y materion hyn fod yn debyg i'r gofynion a welir ym Memorandwm Ariannol CCAUC gyda'r sefydliadau y mae'n eu cyllido a'r Cod Ymarfer Archwilio y mae CCAUC yn ei gyhoeddi ar hyn o bryd. Maent yn cynnwys:

- yr amgylchiadau hynny pan fo angen cydsyniad CCAUC cyn bod sefydliad yn ymrwymo i drafodion penodedig,
- trefniadau archwilio a chyfrifyddu, a
- darparu gwybodaeth i CCAUC (er enghraifft, copïau o gyfrifon).

84. Caiff y Cod osod gofynion y mae rhaid i sefydliadau rheoleiddiedig gydymffurfio â hwy a rhoi canllawiau y mae rhaid i sefydliadau rheoleiddiedig eu hystyried wrth reoli eu materion ariannol.

85. Er mai CCAUC fydd yn llunio'r Cod, rhagwelir y bydd y Cod yn ceisio sicrhau fframwaith rheolaeth mewn cysylltiad â materion ariannol sefydliad rheoleiddiedig sy'n debyg i'r hyn a osodir ar hyn o bryd ar sefydliadau sy'n cael arian CCAUC gan delerau ac amodau cyllido.

**Adrannau 28 – 29 – Y weithdrefn ar gyfer cymeradwyo Cod**

86. Mae'r adrannau hyn yn nodi'r weithdrefn y mae rhaid i CCAUC ei dilyn cyn y gall gyhoeddi'r Cod cyntaf neu God diwygiedig. Rhaid i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad rheoleiddiedig a chyflwyno Cod drafft i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

87. Rhagwelir y bydd CCAUC yn ymgynghori ar ddrafft o'r Cod cyntaf yn ystod blwyddyn academaidd 2015/2016 gyda golwg ar y Cod yn cael ei gyhoeddi a chymryd effaith ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2016/2017.

88. Mae adran 29 yn nodi'r weithdrefn os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo drafft a gyflwynir iddynt.

**Adran 30 – Monitro cydymffurfedd â'r Cod**

89. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC fonitro, neu wneud trefniadau ar gyfer monitro, cydymffurfedd gan sefydliadau rheoleiddiedig â'r Cod. Mae CCAUC yn gallu ymgymryd â'r gwaith monitro ei hun neu sicrhau bod y gwaith monitro yn cael ei wneud ar ei ran gan berson arall.

90. Mae'n bosibl y bydd CCAUC yn dymuno trefnu i berson arall ymgymryd â'r gwaith o fonitro grŵp o sefydliadau rheoleiddiedig pan fo corff arall eisoes yn ymgymryd â gwaith tebyg, er enghraifft Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â sefydliadau addysg bellach sydd hefyd yn sefydliadau rheoleiddiedig. Fel arall, efallai y bydd CCAUC am drefnu i asesydd arbenigol neu archwilydd allanol ymgymryd â swyddogaethau sicrwydd.

**Adrannau 31 i 33 – Methiant i gydymffurfio â'r Cod**

91. Mae adrannau 31 i 33 yn darparu pwerau gorfodi i CCAUC os yw wedi ei fodloni bod sefydliad rheoleiddiedig wedi methu, neu'n debygol o fethu, â chydymffurfio â gofynion y Cod.

92. Caiff CCAUC roi cyfarwyddydau i gorff llywodraethu yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd, neu beidio â chymryd, camau penodedig i:

- ymdrin â’r methiant i gydymffurfio â gofyniad yn y Cod. Er enghraifft, i ddarparu gwybodaeth nad yw wedi ei rhoi ac sy’n ofynnol o dan y Cod o fewn cyfnod penodedig o amser neu i wneud newidiadau i reolaeth ariannol i sicrhau bod sefydliad yn cydymffurfio â'r Cod unwaith eto, neu
- atal methiant i gydymffurfio â gofyniad yn y Cod. Er enghraifft, os oedd sefydliad yn bwriadu ymrwymo i drafodiad a oedd yn golygu ei bod yn ofynnol cael cymeradwyaeth CCAUC, i gyfarwyddo sefydliad i beidio ag ymrwymo i'r trafodiad hwnnw heb gael cymeradwyaeth CCAUC.

93. Bydd y gweithdrefnau hysbysiad rhybuddio ac adolygu yn adrannau 40 i 43 yn gymwys i gyfarwyddydau o dan adran 32.

94. Mae adran 33 yn caniatáu i CCAUC roi cyngor neu gymorth i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig neu gynnal neu drefnu adolygiad o sefydliad pan fo wedi ei fodloni bod sefydliad rheoleiddiedig wedi methu neu’n debygol o fethu â chydymffurfio â gofynion y Cod. Mae'r cyngor a'r cymorth a roddir gan CCAUC i'w rhoi gyda golwg ar wella trefniadaeth a rheolaeth materion ariannol sefydliad rheoleiddiedig.

95. Ar hyn o bryd, os yw CCAUC yn nodi enghreifftiau o reolaeth ariannol annigonol mae’n gallu sefydlu timau cymorth i helpu sefydliad i wneud gwelliannau. Rhagwelir y byddai CCAUC yn dymuno i’r dull hwn o weithredu barhau. Caiff CCAUC geisio defnyddio'r pŵer hwn i drefnu i dîm cymorth helpu sefydliad i wella'r ffordd y mae ei faterion ariannol yn cael eu trefnu a’u rheoli pan fo CCAUC wedi nodi methiant i gydymffurfio â'r Cod. Fel arall, caiff CCAUC drefnu adolygiad wedi ei dargedu o sefydliad penodol gan archwilwyr arbenigol, er enghraifft pan fo CCAUC wedi ei fodloni bod methiant i gydymffurfio â'r Cod yn debygol.

**Adran 34 – Rheolaeth ariannol: dyletswydd i gydweithredu**

96. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau rheoleiddiedig gydweithredu â phersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan adrannau 30 (monitro cydymffurfedd â'r Cod), 33 (mesurau eraill mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod) a 35 (pwerau mynd i mewn ac arolygu).

97. Mae'r ddyletswydd i gydweithredu yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sicrhau’r ddarpariaeth o wybodaeth, cymorth a mynediad i gyfleusterau sy’n ofynnol gan berson at ddibenion y swyddogaethau hynny.

98. Caiff CCAUC roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu os yw CCAUC wedi ei fodloni bod corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio a'i ddyletswydd i gydweithredu. Caiff y cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu gymryd, neu beidio â chymryd, camau i sicrhau'r ddarpariaeth o wybodaeth, cymorth neu fynediad i gyfleusterau. Ni fydd cyfarwyddyd a roddir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn hysbysiad rhybuddio ac adolygu a nodir yn adrannau 40 i 43.

**Adran 35 - Rheolaeth ariannol: pwerau mynd i mewn ac arolygu**

99. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer hawl i fynd i mewn ac arolygu at ddibenion arfer swyddogaethau o dan adran 30 (monitro cydymffurfedd â'r Cod) neu 33(2) (adolygu materion sy'n ymwneud â chydymffurfedd â'r Cod).

100. Caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan CCAUC fynd i mewn i fangre sefydliad rheoleiddiedig at y dibenion hynny. Caiff person awdurdodedig hefyd edrych ar ddogfennau y daw o hyd iddynt yn y fangre, eu copïo neu eu cymryd.

101. Ni chaniateir i bŵer mynd i mewn ac arolygu ond gael ei arfer ar ôl rhoi hysbysiad rhesymol i'r corff llywodraethu. Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad i roi hysbysiad rhesymol yn ofynnol mewn achosion brys neu pan fyddai rhoi hysbysiad yn tanseilio'r diben o arfer y pŵer mynd i mewn neu arolygu. Gallai mynd i mewn heb hysbysiad fod yn briodol pan fo CCAUC yn ystyried bod dogfennau perthnasol yn debygol o gael eu symud o fangre'r sefydliad neu eu dinistrio os rhoddir hysbysiad, neu pan fo CCAUC wedi ei fodloni ei bod yn debygol bod methiant ariannol ar ddigwydd.

102. Ni chaniateir i bŵer mynd i mewn ac arolygu ond gael ei arfer ar adegau rhesymol ac nid yw'n cynnwys pŵer i fynd i mewn i annedd (er enghraifft llety staff neu fyfyrwyr) heb gytundeb y meddiannydd.

103. Cyn arfer pŵer o dan yr adran hon rhaid i berson ddangos copi o'i awdurdodiad oddi wrth CCAUC os yw'n ofynnol iddo wneud hynny.

<u>**Rhan 5 – Cynlluniau Ffioedd a Mynediad: Tynnu Cymeradwyaeth yn Ôl etc**</u>

**Adran 36 – Hysbysiad ynghylch gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd**

104. Mae hysbysiad ynghylch gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd yn un o'r ffyrdd y gall CCAUC gymryd camau gorfodi yn erbyn sefydliad am beidio â chydymffurfio â:

- terfynau ar ffioedd myfyrwyr (o dan adran 10),
- darpariaethau cyffredinol cynllun sefydliad a gymeradwywyd,
- cyfarwyddyd mewn cysylltiad ag addysg o ansawdd annigonol (o dan adran 19), a
- cyfarwyddyd mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod (o dan adran 32).

105. Ar hyn o bryd gall CCAUC wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd newydd o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 ar y sail o beidio â chydymffurfio â'r terfynau ar ffioedd myfyrwyr neu ddarpariaethau cyffredinol cynllun sefydliad a gymeradwywyd. Er nad yw ansawdd addysgol na rheolaeth ariannol yn rhan o'r trefniadau cynllunio ffioedd presennol, mae CCAUC yn rheoleiddio sefydliad mewn cysylltiad â'r materion hyn drwy delerau ac amodau cyllido.

106. Unwaith bod hysbysiad wedi ei roi, ni chaniateir i CCAUC gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd hyd nes bod y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad wedi dod i ben. Fodd bynnag, caiff CCAUC dynnu hysbysiad yn ôl ac ar yr adeg honno bydd y cyfyngiad ar gymeradwyo cynllun newydd yn dod i ben. Er enghraifft, caiff CCAUC ystyried dynnu hysbysiad yn ôl os yw wedi ei fodloni bod sefydliad wedi mynd ati i ddatrys y methiant a nodwyd mewn cyfarwyddyd ac nad yw'n briodol parhau â chamau gorfodi.

107. Mae is-adran (7) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer:

- y cyfnod y caniateir ei bennu mewn hysbysiad, pan na fydd CCAUC yn cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd. Er enghraifft gallai hyn ddarparu nad yw CCAUC yn gallu cymeradwyo cynllun ffioedd newydd am gyfnod o un flwyddyn o leiaf. Fel arall, gellid cyfyngu ar y cyfnod hwyaf ar gyfer peidio â chymeradwyo cynllun ffioedd i flwyddyn,
- materion y mae rhaid i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu pa un ai i roi hysbysiad neu ei dynnu'n ôl. Gallai hyn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ystyried a yw sefydliad (ar ôl y dyddiad cydymffurfio) wedi cydymffurfio â chyfarwyddyd neu wedi addasu ei ffioedd ac ad-dalu unrhyw ffioedd myfyrwyr a godwyd yn ormodol,

- y weithdrefn i'w dilyn wrth dynnu hysbysiad yn ôl. Er enghraifft gallai hyn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi hysbysiad am dynnu'n ôl i'r sefydliad a/neu gyhoeddi hysbysiad am dynnu'n ôl ar ryw ffurf.

108. Mae adrannau 40 i 43 yn nodi'r gweithdrefnau hysbysiad rhybuddio ac adolygu sy'n gymwys i roi hysbysiad o dan yr adran hon.

**Adran 37– Dyletswydd i dynnu cymeradwyaeth yn ôl**

109. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC dynnu ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl drwy roi hysbysiad i gorff llywodraethu sefydliad os yw wedi ei fodloni bod sefydliad wedi peidio:

- â bod yn sefydliad yng Nghymru (gweler adran 54(3) i gael y diffiniad o sefydliadau yng Nghymru),
- â darparu addysg uwch, neu
- â bod yn elusen.

110. Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau o dan is-adran (2) wneud darpariaeth ynghylch pa faterion y mae rhaid i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu a yw'n ofynnol iddo dynnu ei gymeradwyaeth yn ôl. Gallai'r rheoliadau hynny er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ystyried penderfyniadau a wneir gan y Comisiwn Elusennau sy'n ymwneud â statws elusennol sefydliad os yw'n credu bod sefydliad wedi colli ei statws elusennol.

111. Nid yw'r gofynion gweithdrefnol yn adrannau 40 i 43 (gweithdrefnau rhybuddio ac adolygu) yn gymwys i'r adran hon. Fodd bynnag, caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran (3) ddarparu ar gyfer y weithdrefn y mae rhaid i CCAUC ei dilyn. Mae'n cynnwys diwygio, cymhwyso neu addasu'r gofynion yn adrannau 40 i 43 at ddibenion yr adran hon. Gallai hynny, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu sefydliad ac ystyried y sylwadau a gyflwynwyd gan y corff llywodraethu cyn iddo benderfynu a yw'n ofynnol iddo dynnu cynllun ffioedd a mynediad sefydliad yn ôl.

**Adran 38 - Pŵer i dynnu cymeradwyaeth yn ôl**

112. Mae'r adran hon yn caniatáu i CCAUC dynnu ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl:

- pan fo corff llywodraethu wedi methu'n fynych â chydymffurfio â therfynau ar ffioedd myfyrwyr neu wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu,
- pan fo corff llywodraethu wedi methu'n fynych â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun sefydliad a gymeradwywyd,
- pan fo ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran y sefydliad yn ddifrifol o annigonol, neu
- pan fo methiant difrifol wedi bod gan gorff llywodraethu sefydliad i gydymffurfio â'r Cod.

113. Gallai methu'n fynych (yng nghyd-destun ffioedd myfyrwyr a darpariaethau cyffredinol cynllun a gymeradwywyd) gynnwys nifer o fethiannau ar wahân neu ailadrodd yr un methiant neu barhau â'r un methiant.

114. Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch yr hyn y mae rhaid i CCAUC ei ystyried wrth benderfynu pa un ai i roi hysbysiad ei fod yn tynnu ei gymeradwyaeth i gynllun yn ôl o dan yr adran hon. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gofyniad i CCAUC ystyried effaith addysg o ansawdd annigonol ar fyfyrwyr neu effaith peidio â chydymffurfio â'r Cod ar sefydlogrwydd ariannol sefydliad.

115. Bydd y gweithdrefnau hysbysiad rhybuddio ac adolygu yn adrannau 40 i 43 yn gymwys i hysbysiad a roddir gan CCAUC o dan yr adran hon.

**Adran 39 – Cyhoeddi etc hysbysiad o dan Ran 5**

116. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi copi o unrhyw hysbysiad y mae'n ei roi o dan Ran 5 i Weinidogion Cymru a chyhoeddi'r hysbysiad. Caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch y ffordd y mae rhaid i CCAUC roi copi o'r hysbysiad i Weinidogion Cymru a chyhoeddi'r hysbysiad, ac ynghylch pryd y mae rhaid iddo wneud hynny. Gallai rheoliadau gynnwys gofyniad i CCAUC ddarparu copi o'r hysbysiad i Weinidogion Cymru o fewn cyfnod penodedig o amser ar ôl ei roi i sefydliad. Gallai rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol i CCAUC gyhoeddi'r hysbysiad ar wefan neu mewn papur newydd.

**<u>Rhan 6 – Hysbysiadau a Chyfarwyddydau a Roddir gan CCAUC</u>**

**Adran 40 – Cymhwyso adrannau 41 i 43**

117. Mae adrannau 41 i 43 yn ymwneud â hysbysiadau rhybuddio a roddir gan CCAUC cyn iddo roi hysbysiadau a chyfarwyddydau penodol i gorff llywodraethu sefydliad, yr wybodaeth y mae CCAUC i'w darparu gyda'r hysbysiadau a'r cyfarwyddydau hynny a'r broses o adolygu sydd ar gael mewn cysylltiad â'r hysbysiadau a'r cyfarwyddydau hynny.

118. Mewn cymhariaeth, mae darpariaethau presennol o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 yn darparu i CCAUC roi hysbysiad i gorff llywodraethu sefydliad pan fo â'i fryd ar wrthod cymeradwyo cynllun arfaethedig y sefydliad neu ar wrthod cymeradwyo cynllun newydd yn ystod cyfnod a bennir pan ddaw cynllun presennol y sefydliad i ben. Mae'r darpariaethau presennol hynny yn caniatáu i'r corff llywodraethu gyflwyno sylwadau i CCAUC ac yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ystyried unrhyw sylwadau o'r fath cyn iddo wneud penderfyniad. Mae'r darpariaethau presennol hefyd yn caniatáu i'r corff llywodraethu wneud cais i berson neu banel o bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru am i benderfyniad CCAUC gael ei adolygu (sydd â'r un effaith, i ddechrau, â phenderfyniad dros dro).

119. Mae'r hysbysiadau a'r cyfarwyddydau y mae adrannau 41 i 43 yn gymwys iddynt wedi eu disgrifio yn adran 40(1). Nid yw'r hysbysiadau a'r cyfarwyddydau hynny yn cynnwys hysbysiad o dan adran 37 (dyletswydd CCAUC i dynnu cymeradwyaeth yn ôl) nac ychwaith yn cynnwys cyfarwyddydau o dan adrannau 16, 19 neu 34 (cyfarwyddydau ynghylch methiant i gydweithredu). Nid yw adrannau 41 i 43 yn gymwys i gyfarwyddyd a roddir gan CCAUC pan fo'r cyfarwyddyd hwnnw ond yn dirymu cyfarwyddyd cynharach gan CCAUC.

**Adran 41 – Hysbysiadau a chyfarwyddydau arfaethedig: gofyniad i roi hysbysiad rhybuddio**

120. Pan fo CCAUC yn bwriadu rhoi hysbysiad neu gyfarwyddyd a ddisgrifir yn adran 40(1) i gorff llywodraethu sefydliad, rhaid i CCAUC, yn y lle cyntaf, roi hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu.

121. Rhaid i hysbysiad rhybuddio nodi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd arfaethedig a datgan rhesymau CCAUC dros fwriadu ei roi. Rhaid i'r hysbysiad rhybuddio hefyd hysbysu'r corff llywodraethu y caiff gyflwyno sylwadau am yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd arfaethedig. Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer y cyfnod y caniateir i sylwadau o'r fath gael eu cyflwyno ynddo a'r ffordd y caniateir gwneud hynny. Er enghraifft, gallai rheoliadau ddarparu bod CCAUC i gael sylwadau yn ysgrifenedig a rhaid i unrhyw sylwadau o'r fath ddod i law o fewn 40 niwrnod calendr ar ôl dyddiad yr hysbysiad rhybuddio.

**Adran 42 – Gwybodaeth sydd i'w rhoi gyda hysbysiadau a chyfarwyddydau**

122. Os yw CCAUC yn rhoi hysbysiad neu gyfarwyddyd a ddisgrifir yn adran 40(1) i gorff llywodraethu sefydliad, rhaid iddo, ar yr un pryd, roi datganiad i'r corff llywodraethu hwnnw sy'n nodi rhesymau CCAUC dros roi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd ac sy'n hysbysu'r corff llywodraethu y caiff wneud cais am adolygiad o'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd o dan adran 43. Rhaid i'r datganiad hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'n ofynnol ei chynnwys drwy reoliadau. Gallai rheoliadau, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol cynnwys datganiad i hysbysu'r corff llywodraethu y bydd copi o'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd yn cael ei roi i Weinidogion Cymru a'i gyhoeddi (yn achos cyfarwyddyd o dan adran 11 neu hysbysiadau o dan adrannau 36 neu 38).

**Adran 43– Adolygu hysbysiadau a chyfarwyddydau**

123. Mae'r adran hon yn ymwneud ag adolygiad o hysbysiad neu gyfarwyddyd a ddisgrifir yn adran 40(1) unwaith y mae CCAUC wedi penderfynu rhoi hysbysiad neu gyfarwyddyd o'r fath i gorff llywodraethu sefydliad. Mae'r adran hon yn seiliedig ar adran 39 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ac mae'r weithdrefn adolygu yn debygol o fod yn debyg i'r weithdrefn adolygu sydd yn ei lle o dan y Ddeddf honno.

124. Caiff corff llywodraethu sefydliad y mae'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd wedi ei gyfeirio ato wneud cais am adolygiad o'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd hwnnw. Cynhelir adolygiad gan berson neu banel o bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru.

125. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adran hon mewn cysylltiad ag adolygiadau.

126. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y seiliau y caniateir i gais am adolygiad gael ei wneud gan gorff llywodraethu arnynt. Gallai seiliau o'r fath ar gyfer adolygiad gynnwys, er enghraifft, fod y corff llywodraethu yn gallu cyflwyno ffactor perthnasol i'w ystyried nad oedd, am resymau da, wedi ei ddwyn i sylw CCAUC yn y gorffennol, neu fod y corff llywodraethu o'r farn bod CCAUC wedi diystyru ffactor perthnasol y dylai fod wedi ei ystyried wrth benderfynu rhoi hysbysiad neu gyfarwyddyd.

127. Caiff rheoliadau hefyd ddarparu ar gyfer y cyfnod y caniateir i gais gael ei wneud ynddo a'r ffordd y caniateir gwneud hynny. Er enghraifft, gallai rheoliadau ddarparu bod corff llywodraethu i wneud cais ysgrifenedig am

adolygiad ac o fewn 40 niwrnod calendr ar ôl dyddiad yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd.

128. Caiff rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn gan berson neu banel sy'n cynnal yr adolygiad a'r camau i'w cymryd gan CCAUC yn dilyn adolygiad. Gallai rheoliadau o'r fath, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i'r panel wneud argymhelliad o ganlyniad i'r adolygiad a'i gwneud yn ofynnol i CCAUC ystyried ei benderfyniad i roi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd yn sgil yr argymhelliad hwnnw.

129. Caiff rheoliadau hefyd ddarparu i hysbysiad neu gyfarwyddyd y mae adran 43 yn gymwys iddo beidio â chael ei drin fel pe bai wedi ei roi gan CCAUC hyd nes bod camau penodedig wedi eu cymryd neu hyd nes bod cyfnod penodedig wedi dod i ben. Gallai rheoliadau, er enghraifft, ddarparu bod hysbysiad neu gyfarwyddyd i beidio â chael ei drin fel pe bai wedi ei roi hyd nes bod adolygiad wedi ei gwblhau neu hyd nes bod yr amser ar gyfer gwneud cais am adolygiad wedi dod i ben (heb i gais gael ei wneud gan y corff llywodraethu o dan sylw). Byddai hyn yn golygu nad oedd hysbysiad wedi cymryd effaith, neu nad oedd yn ofynnol i gorff llywodraethu gydymffurfio â chyfarwyddyd, tra oedd adolygiad yn digwydd neu pan ellid gwneud cais am adolygiad o hyd.

**Adran 44 – Cyfarwyddydau: cydymffurfio a gorfodi**

130. Pan fo CCAUC yn rhoi cyfarwyddyd o dan y Bil i gorff llywodraethu, mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu hwnnw gydymffurfio â'r cyfarwyddyd. Os yw'r corff llywodraethu yn methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddyd, gall CCAUC wneud cais i'r llys er mwyn i'r cyfarwyddyd gael ei orfodi. Gall gwaharddeb a roddir gan y llys ei gwneud yn ofynnol i sefydliad gymryd camau penodol neu beidio â chymryd camau penodol.

**Adran 45 – Cyfarwyddydau: cyffredinol**

131. Os yw CCAUC yn rhoi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu o dan y Bil hwn, rhaid i'r cyfarwyddyd hwnnw fod yn ysgrifenedig. Ar ôl rhoi cyfarwyddyd, gall CCAUC amrywio'r cyfarwyddyd hwnnw neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd diweddarach. Nid yw adrannau 41 i 43 yn gymwys i gyfarwyddyd sy'n darparu ar gyfer dirymu cyfarwyddyd cynharach yn unig, ond maent yn gymwys i gyfarwyddyd sy'n amrywio cyfarwyddyd cynharach yr oedd yr adrannau hynny yn gymwys iddo (gweler adran 40).

**<u>Rhan 7 – Swyddogaethau Atodol CCAUC</u>**

**Adran 46 – Dyletswydd i ystyried canllawiau Gweinidogion Cymru**

132. Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i CCAUC sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau CCAUC o dan y Bil hwn. Er enghraifft, gallai Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i CCAUC o ran arfer ei swyddogaethau monitro a gwerthuso o dan adran 15 sy'n ymwneud â chynlluniau ffioedd a mynediad, neu mewn perthynas â'i ddyletswydd o dan adran 17 (asesu ansawdd yr addysg). Yn yr un modd, gallai Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i CCAUC mewn cysylltiad â pharatoi Cod rheoli ariannol neu'r datganiad ar y polisi ymyrryd (gweler adran 49).

**Adran 47 – Adroddiadau blynyddol**

133. Mae darpariaeth bresennol yn adran 40A o Ddeddf Addysg Uwch 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ddarparu adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar sut y mae CCAUC wedi cyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf honno.

134. Mae adran 47 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ddarparu adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar sut y mae CCAUC wedi arfer ei swyddogaethau yn rhinwedd y Bil. Mae gan CCAUC yr hyblygrwydd i bennu pa bryd y dylai’r cyfnod adrodd cyntaf ddod i ben, a bydd hynny'n pennu’r cyfnod adrodd blynyddol o hynny ymlaen. Mae Gweinidogion Cymru yn gallu pennu'r gofynion y mae rhaid i adroddiad o'r fath gydymffurfio â hwy. Gallai gofyniad o'r fath ymwneud â chyhoeddi'r adroddiad ond gall hefyd ymwneud â ffurf a chynnwys yr adroddiad.

**Adran 48 – Adroddiadau arbennig**

135. Mae adran 48 yn debyg i adran 40A(2) o Ddeddf Addysg Uwch 2004. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ddarparu adroddiad arbennig i Weinidogion Cymru pan y’i cyfarwyddir i wneud hynny.

136. Gallai Gweinidogion Cymru ddymuno cael adroddiad arbennig ynghylch y graddau y mae corff llywodraethu sefydliad yn cydymffurfio â'r terfynau ffioedd a nodir yn ei gynllun a gymeradwywyd neu ansawdd yr addysg a ddarperir mewn sefydliad (efallai pan fo pryderon wedi eu mynegi mewn perthynas â sefydliad penodol). Yn yr un modd, gallai Gweinidogion Cymru, o ystyried swyddogaethau gwerthuso CCAUC o dan adran 15, ddymuno cael adroddiad ar effeithiolrwydd cynlluniau a gymeradwywyd yn gyffredinol o ran hybu cyfle cyfartal mewn cysylltiad â mynediad i addysg uwch ac o ran hybu addysg uwch.

**Adran 49 – Datganiad mewn cysylltiad â swyddogaethau ymyrryd**

137. Mae adran 49 yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC lunio a chyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y mae'n bwriadu arfer rhai o'i swyddogaethau. Mae'r swyddogaethau hynny wedi eu disgrifio yn adran 49(5). Nid yw adran 49(5) yn ymestyn i bwerau cyfarwyddo CCAUC o dan adrannau 16, 21 neu 34 sy'n ymwneud â dyletswydd corff llywodraethu i gydweithredu. Ar wahân i hynny, mae adran 13 (pŵer i wneud darpariaeth ynghylch methiant i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun) yn galluogi rheoliadau a wneir o dan yr adran honno i ddiwygio unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Bil hwn. Gallai rheoliadau a wneir o dan adran 13, er enghraifft, roi pŵer cyfarwyddo newydd i CCAUC a gallai'r rheoliadau hynny ddiwygio adran 49 er mwyn cynnwys y pŵer newydd yn adran 49(5).

138. Mae adran 49(3) yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad rheoleiddiedig ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn ei farn ef cyn cyhoeddi'r datganiad neu ddiwygio'r datganiad. Gallai'r personau eraill hynny gynnwys sefydliadau a oedd yn arfer bod yn sefydliadau rheoleiddiedig, ond nid ydynt yn sefydliadau rheoleiddiedig bellach.

**Adran 50 – Gwybodaeth a chyngor sydd i'w rhoi gan CCAUC i Weinidogion Cymru**

139. Mae adran 50 yn debyg i'r darpariaethau presennol yn adran 40A(3) o Ddeddf Addysg Uwch 2004. Mae'n darparu y gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ddarparu unrhyw wybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal mewn cysylltiad â mynediad i addysg uwch a hybu addysg uwch sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn caniatáu i CCAUC ddarparu gwybodaeth a chyngor arall sy'n ymwneud â'r materion hynny i Weinidogion Cymru.

**Adran 51 – Gwybodaeth a chyngor arall**

140. Mae'r darpariaethau yn adran 51(1) yn debyg i'r darpariaethau presennol yn adran 40A(4) o Ddeddf Addysg Uwch 2004. O dan adran 51(1), mae CCAUC yn gallu adnabod arfer da sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal mewn cysylltiad â mynediad i addysg uwch a hybu addysg uwch a rhoi gwybodaeth a chyngor am arfer o'r fath i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig, neu gyrff llywodraethu sefydliadau o'r fath yn gyffredinol. Wrth ddatblygu unrhyw wybodaeth a chyngor at y dibenion hyn, bydd CCAUC yn gallu ystyried y gwerthusiadau a wneir ganddo o dan adran 15 o'r Bil. Mae adran 51(2) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig ystyried

unrhyw wybodaeth a chyngor a roddir iddo gan CCAUC o dan adran 51(1) wrth arfer ei swyddogaethau.

141. Mae adran 51(3) a (4) yn galluogi CCAUC i ddarparu gwybodaeth a chyngor arall. Gallai hyn gynnwys darparu gwybodaeth a chyngor i gorff llywodraethu sefydliad cyn i'r corff llywodraethu hwnnw wneud cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad o dan adran 2. Gallai CCAUC, er enghraifft, ddarparu gwybodaeth a chyngor mewn perthynas â'r gofynion y mae rhaid i gyrff llywodraethu sefydliadau gydymffurfio â hwy yn dilyn cymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad. Gallai gwybodaeth a chyngor a ddarperid o dan y pwerau hyn hefyd ymwneud â rheolaeth ariannol sefydliad rheoleiddiedig a’u swyddogaethau eraill.

## Rhan 8 - Cyffredinol

### Adrannau 52 a 53 – Rheoliadau a Chyfarwyddydau

142. Mae adran 52 yn darparu i reoliadau o dan y Bil gael eu gwneud drwy offeryn statudol. Bydd y rhan fwyaf o reoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Yr eithriad yw'r rheoliadau hynny a wneir o dan adrannau a nodir yn is-adran (4) y mae rhaid eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sef:

- adran 13 (darpariaeth ynghylch methiant i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun),
- adran 37(2) (dyletswydd i dynnu cymeradwyaeth yn ôl) – os yw'r rheoliadau yn diwygio darpariaeth yn y Bil, ac
- adran 55 (darpariaeth ganlyniadol a throsiannol) - ond dim ond os yw'r rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

143. Mae adran 53 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru.

### Adran 55 – Darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc

144. O ganlyniad i ddarpariaethau sylweddol y Bil, mae angen gwneud diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau mewn deddfwriaeth arall ynghyd â diddymu darpariaethau mewn deddfwriaeth arall. Mae’r rhain wedi eu nodi yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Bil. Mae'r darpariaethau trosiannol wedi eu nodi yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Bil.

*Yr Atodlen*

145. Mae Rhan 1 o'r Atodlen (paragraffau 1 i 26) yn rhestru'r deddfiadau hynny y gwneir diwygiadau canlyniadol iddynt. Un effaith o Ran 1 o'r Atodlen fydd diddymu darpariaethau Deddf Addysg 2004 sy'n ymwneud â chynlluniau ffioedd i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru

146. Mae Rhan 2 o'r Atodlen (paragraffau 27 i 31) yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau trosiannol. Bydd trefniadau trosiannol yn gymwys i gynlluniau ffioedd a gymeradwywyd o dan Ddeddf Addysg 2004 sy'n pennu terfynau ffioedd ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau yn ystod y cyfnod trosiannol, sef y cyfnod hyd at a chan gynnwys 31 Awst 2016. Bydd y trefniadau yn darparu bod y cynlluniau hynny i'w trin fel cynlluniau ffioedd a mynediad a gymeradwywyd o dan y Bil hwn at ddibenion penodol. Bydd hyn yn caniatáu i sefydliadau sydd â chynlluniau ffioedd a gymeradwywyd cyn i'r Bil ddod i rym weithredu o dan y cynllun cynllunio ffioedd a sefydlir gan y Bil.

147. Bydd sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r trefniadau trosiannol yn ddarostyngedig i'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â therfynau ar ffioedd myfyrwyr ac ansawdd yr addysg, ond ni fyddant yn ddarostyngedig i'r Cod.

148. Bydd trefniadau trosiannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ymgynghori â sefydliadau sydd â chynlluniau ffioedd a gymeradwywyd o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 ar God drafft ac ar Ddatganiad drafft ar y polisi ymyrryd. Bydd CCAUC hefyd yn gallu darparu cyngor a chymorth (o dan adran 51(1)) i'r sefydliadau hynny. Rhagwelir y bydd CCAUC yn llunio datganiad ar y polisi ymyrryd a'r Cod ac yn ymgynghori arnynt yn ystod y cyfnod trosiannol (gweler paragraff 29(2) o'r Atodlen). Rhagwelir y bydd y datganiad a'r Cod yn cymryd effaith o fis Medi 2016 ymlaen.

**Adran 56 – Cychwyn**

149. Mae'r adran hon yn ymdrin â chychwyn y Ddeddf ar ôl iddi gael y Cydsyniad Brenhinol. Mae'n darparu i Ran 1 (Trosolwg o'r Ddeddf) a'r rhan fwyaf o'r darpariaethau cyffredinol yn Rhan 8 ddod i rym ar y diwrnod y mae'r Ddeddf yn cael y Cydsyniad Brenhinol. Bydd darpariaethau sylweddol y Bil, sydd wedi eu cynnwys yn Rhannau 2 i 7, adran 56(1) a (2) a'r Atodlen, yn dod i rym yn unol â gorchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru.

**Adran 57 – Enw byr etc**

150. Mae is-adran (1) yn darparu mai enw'r Bil hwn yw Bil Addysg Uwch (Cymru). Mae'r Bil i'w gynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996 (is-adran 2)). Bydd unrhyw gyfeiriad mewn deddfwriaeth at "y Deddfau Addysg" yn cynnwys cyfeiriad at y Bil hwn.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Fonesig Rosemary Butler AC
Dame Rosemary Butler AM

Llywydd
Presiding Officer

Jeff Cuthbert AM
Minister for Communities and Tackling Poverty
Welsh Government
5th Floor, Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

Your ref:
Our ref: PO/RB/CS/CW

13 May 2014

Dear Jeff

**Appointment of the Children's Commissioner in 2015**

You may be aware that during my regular discussions with the First Minister and in correspondence, I have raised the issue of transferring responsibility of the Children's, Older People's and Welsh Language Commissioners from the Welsh Government to the National Assembly. I feel strongly that this would increase transparency and accountability and I have sympathy with those who have lobbied me about the perception of Commissioners holding to account the body that appoints them.

I note that the recruitment process for the new Children's Commissioner for Wales, to be appointed early in 2015, has commenced. It may be too late for the Welsh Government to consider bringing forward subordinate legislation to effect a transfer of responsibility at this stage. However, given the engagement of the Children's Commissioner with the Assembly and its committees, I should be grateful if you would consider building into the process a pre-appointment hearing for the preferred candidate with the Children, Young People and Education Committee. I believe this would improve transparency and would allow the Committee to provide feedback to Welsh Ministers. I understand that the Committee raised the appointment process and accountability when you discussed the remit of your proposed Review of the Role and Functions of the Children's Commissioner for Wales on Wednesday 7 May.

Llywydd
Presiding Officer

You may wish to be aware that for the appointments of the Public Services Ombudsman for Wales and the Auditor General for Wales, the practice of pre-appointment hearings for the preferred candidate works very well.

I am very happy to discuss further if you think that would be helpful.

I am copying this letter to Ann Jones AM, Chair of the Children, Young People and Education Committee.

Rosemary

**Dame Rosemary Butler AM**
**Presiding Officer**